



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 9 Mawrth 2011  
Wednesday, 9 March 2011**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig  
Questions to the Minister for Rural Affairs
- 23 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai  
Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing
- 43 Datganiad am y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch  
Rhoi Organau a Meinweoedd  
Statement on the Proposed Organ Donation LCO
- 53 Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar yr 'Ymchwiliad Dilynol i Rianta yng  
Nghymru a Rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar Waith'  
The Children and Young People Committee's Report 'Follow up Inquiry into  
Parenting in Wales and the Delivery of the Parenting Action Plan'
- 67 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Diwylliant, Twrisiaeth a Busnes  
Welsh Conservatives Debate: Culture, Tourism and Business
- 101 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Cyllidebau Personol  
Welsh Liberal Democrats Debate: Personalised Budgets
- 124 Cyfnod Pleidleisio  
Voting Time
- 129 Dadl Fer: Pa Bris ein Bara Beunyddiol: Diogelwch Bwyd yng Nghymru Heddiw  
Short Debate: What Price our Daily Bread: Food Security in Wales Today

Y Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefaryd hwy ynndi yn y Siambr.

Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included..

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog.  
**The Presiding Officer:** Order for questions to the Minister.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to the Minister Rural Affairs**

#### **Trafodaethau gyda Llywodraeth y DU**

**I. Nerys Evans:** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU. OAQ(3)1293(RAF)*

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Ar 21 Chwefror, trafodais safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran yr adolygiad o'r polisi amaethyddol cyffredin gyda'r Ysgrifennydd Gwladol a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Cymerais y cyfle i ailadrodd fy mhryder ynghylch peryglon safbwynt Llywodraeth y DU am doriad sylweddol yng nghyllideb y polisi amaethyddol cyffredin.

**Nerys Evans:** Diolch am yr wybodaeth. Yn sgîl eich sylwadau ar y taliadau fferm sengl, mae'r dystiolaeth ddiweddar yn dangos bod 27 y cant o ffermwyr yn debygol o adael y diwydiant os bydd y taliadau fferm sengl yn gostwng. Yr ydym yn hynod o siomedig felly bod Llywodraeth San Steffan a'r Gweinidog Ceidwadol wedi datgan yn glir eu bod am weld lleihad sylweddol yn y gyllideb ac am edrych i drosglwyddo'r arian oddi wrth y taliad fferm sengl. A allwch roi sicrwydd i ni y prynhawn yma eich bod am barhau i ddadlau yn erbyn safiad y Ceidwadwyr yn Llundain, a bod Llywodraeth Cymru yn mynd i ddatgan yn glir bod angen parhau gyda'r taliadau fferm sengl a gwarchod cyllideb y polisi amaethyddol cyffredin?

**Elin Jones:** Heb amheuaeth, Nerys, byddai toriad sylweddol yng nghyllideb y polisi amaethyddol cyffredin, a throsglwyddo cyllid oddi wrth daliadau uniongyrchol i daliadau amaeth-amgylcheddol, yn drychinebus i ffermwyr Cymru yn y blynyddoedd nesaf. Mae incwm ffermwyr Cymru yn parhau yn ddibynnol iawn ar y taliad fferm sengl hwnnw, ac mae'n bodoli oherwydd nad yw'r farchnad yn rhoi'r pris teg i ffermwyr am eu

#### **Discussions with the UK Government**

**I. Nerys Evans:** *What recent discussions has the Minister had with the UK Government. OAQ(3)1293(RAF)*

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** On 21 February, I discussed the UK's position on the review of the common agricultural policy with the Secretary of State and the other devolved administrations. I took the opportunity to reiterate my concern about the dangers of the UK Government's call for a substantial cut to the CAP budget.

**Nerys Evans:** Thank you for the information. Following your comments on the single farm payments, recent evidence shows that 27 per cent of farmers are likely to leave the industry if the single farm payments are reduced. We are very disappointed therefore that the Westminster Government and the Conservative Minister have clearly stated that they want to see a significant reduction in the budget and are looking to transfer the funding from the single farm payment. Can you give us an assurance this afternoon that you will continue to argue against the stance of the Conservatives in London, and that the Welsh Government will clearly state that we need to continue with the single farm payments and protect the CAP budget?

**Elin Jones:** Without doubt, Nerys, a significant cut in the CAP budget, and the transfer of funding from direct payments to agri-environment payments, would be disastrous for Wales's farmers in the next few years. Welsh farmers' income continues to be heavily dependent upon that single farm payment, which exists because the market does not give farmers a fair price for their produce—that is why we still need the single

cynnyrch—dyna pam mae angen y taliad fferm sengl arnom o hyd yng Nghymru. Byddaf yn parhau i wneud y pwyntiau hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, a byddaf yn cymryd y cyfle i wneud y pwyntiau ar y cyd gyda Gweinidog yr Alban a Gweinidog Gogledd Iwerddon, sy'n rhannu'r un safbwynt a fi yma yng Nghymru. Byddaf yn gwneud y safbwyntiau hynny'n amlwg i Gomisiwn Ewrop hefyd. Drwy lwc i ffermwyr Cymru, mae llais Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ar hyn yn lais unig iawn o fewn cyngor y Gweinidogion amaeth Ewrop, ac felly mae'n safbwynt, o bosibl, na fydd yn cael ei gwreiddu, er mai safbwynt y Deyrnas Gyfunol, yn anffodus iawn, yw hi ar hyn o bryd.

**Andrew R.T. Davies:** One in four farming families lives below the combined poverty line in Wales, with an income of less than £20,000. In your discussions with Ministers in Whitehall, how are you taking forward proposals to try to get more return from the marketplace—which we all agree should happen—to alleviate poverty and make a more competitive environment for farmers to get value for money for their goods? Have you had discussions with relevant Ministers in Whitehall on seeking better returns from the marketplace, and what proposals are you seeking to take forward?

**Elin Jones:** I suggest very kindly to you, Andrew, that your present position, and your UK Government Minister and Secretary of State's position, on the CAP would take more farmers in Wales below that poverty line because of the significant contribution that the CAP still makes to the income levels of farmers in Wales. You need to recognise the importance of the CAP and the single farm payment for Welsh farmers in the short to medium term. Obviously, as I said in my answer to Nerys, we want to see the market work for Welsh farmers. It does not currently; neither does it work at a European level for European farmers. That is why there continues to be a need, articulated by 26 of the 27 member states in the European Union, for a direct payment to farmers, so that they can continue to farm and produce food. You, in your short debate later this afternoon, will make points, I am sure, about the need to

farm payment in Wales. I will continue to make those points to the Secretary of State in the UK Government, and I will take the opportunity to make those points jointly with the Ministers from Scotland and Northern Ireland, which share the same point of view as I do in Wales. I will make those views clear to the European Commission also. Luckily for the farmers of Wales, the UK Government's voice on this is a lonely voice in the council of European agriculture Ministers, and therefore it is a view that may not be realised, although it is the stance that, unfortunately, is being taken by the UK Government at present.

**Andrew R.T. Davies:** Mae un o bob pedwar teulu sy'n ffermio yn byw o dan y llinell dlodi gyfun yng Nghymru, gydag incwm llai nag £20,000. Yn eich trafodaethau gyda Gweinidogion yn Whitehall, sut rydych yn datblygu cynigion i geisio cael mwy o enillion o'r farchnad—yr ydym i gyd yn cytuno ddylai ddigwydd—i leddfu tlodi a chreu amgylchedd mwy cystadleuol i ffermwyr gael gwerth am arian am eu nwyddau? A gawsoch drafodaethau gyda Gweinidogion perthnasol yn Whitehall ar geisio cael enillion gwell o'r farchnad, a pha gynigion ydych chi'n bwriadu eu datblygu?

**Elin Jones:** Awgrymaf yn garedig iawn i chi, Andrew, y byddai eich safbwynt presennol, a safbwynt eich Gweinidog yn Llywodraeth y DU a'r Ysgrifennydd Gwladol, ar y PAC yn peri y byddai mwy o ffermwyr yng Nghymru yn is na'r llinell dlodi oherwydd y cyfraniad sylweddol mae'r PAC yn dal i'w wneud i lefelau incwm ffermwyr yng Nghymru. Mae angen i chi gydnabod pwysigrwydd y PAC a'r taliad sengl i ffermwyr Cymru yn y tymor byr i ganolig. Yn amlwg, fel y dywedais yn fy ateb i Nerys, rydym am weld y farchnad yn gweithio i ffermwyr Cymru. Nid yw'n gweithio ar hyn o bryd; nid yw ychwaith yn gweithio ar lefel Ewropeaidd i ffermwyr Ewropeaidd. Dyna pam bod angen o hyd, fel y dywedodd 26 o'r 27 aelod-wladwriaeth yn yr Undeb Ewropeaidd, i gael taliad uniongyrchol i ffermwyr, fel y gallant barhau i ffermio a chynhyrchu bwyd. Byddwch chi, yn eich dadl fer yn ddiweddarach y prynhawn

ensure food security and security of supply. Without a single-farm payment contribution, the security of supply in Wales would be seriously jeopardised.

**Joyce Watson:** What discussions have you had with the UK Government's Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs regarding the lease on the Lake Vyrnwy estate? I am sure that you are aware that the decision on the handover of the lease has been delayed and put back several times. Do you know when we can expect a decision to be made?

**Elin Jones:** I have not had any discussions on this issue, as it is primarily led by Jane Davidson, as the Minister for the environment. However, I have a particular interest in the forestry element of the Vyrnwy estate, which is currently co-managed by the Forestry Commission in Wales, although it is under the ownership of the estate. I am in discussions with the Forestry Commission, which is, in turn, in discussions with the landowners, on the future of the forestry estate.

### Lles Anifeiliaid

**2. David Melding:** *Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hybu lles anifeiliaid. OAQ(3)1310(RAF)*

**Elin Jones:** We have consulted on draft legislation on improved welfare for dog breeding, and I made a statement on the outcome yesterday. As part of the companion animal welfare enhancement scheme legacy, we are looking to continue discussion fora, analysing projects that are undertaken on equines and animal sales, and continue to deal with livestock welfare.

**David Melding:** Will you join me in commending the Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals' freedom food farm assurance scheme? That scheme has been promoted at the National Assembly through the redoubtable efforts of Lorraine Barrett, and a hugely popular event was held in the Pierhead building. The ambiance of that building is magnificent, and it was splendid to see everyone involved in animal

yma, yn gwneud pwyntiau, mae'n siŵr, am yr angen i sicrhau diogelwch bwyd a sicrhau'r cyflenwad. Heb gyfraniad y taliad sengl, byddai diogelwch y cyflenwad yng Nghymru mewn cryn berygl.

**Joyce Watson:** Pa drafodaethau a gawsoch gydag Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU am y brydles ar stad Llyn Efyrynwy? Rwy'n siŵr eich bod yn gwybod bod y penderfyniad ar drosglwyddo'r brydles wedi cael ei ohirio a'i roi yn ôl sawl gwaith. A ydych yn gwybod pryd y gallwn ddisgwyl i benderfyniad gael ei wneud?

**Elin Jones:** Ni chefais unrhyw drafodaethau ar y mater hwn, gan mai Jane Davidson, y Gweinidog dros yr amgylchedd, sy'n bennaf gyfrifol amdano. Fodd bynnag, mae gennyf ddiddordeb arbennig yn elfen goedwigaeth stad Efyrynwy, sydd ar hyn o bryd yn cael ei chyd-reoli gan y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru, er ei bod o dan berchnogaeth y stad. Rwyf mewn trafodaethau gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, sydd, yn ei dro, mewn trafodaethau gyda'r tîrfeddianwyr, ar ddyfodol y stad goedwigaeth.

### Animal Welfare

**2. David Melding:** *What is the Welsh Assembly Government doing to promote animal welfare. OAQ(3)1310(RAF)*

**Elin Jones:** Rydym wedi ymgynghori ar y ddeddfwriaeth ddrafft ar well lles i fridio cŵn, a gwneuthum ddatganiad ar y canlyniad ddoe. Fel rhan o etifeddiaeth y cynllun gwella lles anifeiliaid anwes, rydym yn bwriadu parhau â fforymau trafod, gan ddadansoddi prosiectau sy'n cael eu cynnal ar werthu ceffylau ac anifeiliaid, a pharhau i ymdrin â lles da byw.

**David Melding:** A ymunwch â mi i ganmol y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid ar ei chynllun gwarant bwyd rhyddid fferm? Cafodd y cynllun hwnnw ei hyrwyddo yn y Cynulliad Cenedlaethol drwy ymdrechion glew Lorraine Barrett, a chafodd digwyddiad hynod boblogaidd ei gynnal yn adeilad y Pierhead. Mae gan yr adeilad hwnnw awyrgylch rhagorol, ac roedd yn hyfryd gweld pawb sy'n ymwneud â lles

welfare there being able to promote this scheme. Consumers in general are more concerned about animal welfare—including those such as ourselves who enjoy eating meat, but want to see animals reared in proper surroundings that give due regard to their psychological health, so that they are stimulated and can behave as animals while they are being reared. Do you agree that there are many opportunities for Welsh farmers to take advantage of this increase in quality assurance, and that we need to promote such schemes, and their possible benefits, to Welsh farmers when selling their produce?

**Elin Jones:** Like you, David, I am a big fan of the RSPCA's freedom food initiative. It is good to see the RSPCA being proactive in showcasing the best of freedom food that is produced in Wales. It is right that we are able to work with the RSPCA on the freedom food scheme, and others, to demonstrate on food labels that the standards of welfare under which animals have been reared and farmed and, ultimately, slaughtered are high standards. We know that, compared with several areas across the world, the welfare standards of our farmed animals are high, and higher than most. We need to take economic advantage of that, because we know that consumers in Wales and beyond are concerned about animal welfare standards. Consumers should always look at labels, as they will show how an animal has been reared and cared for. If you buy Welsh, you buy into high animal welfare standards. If you buy RSPCA freedom food, you are satisfied to a significant extent that that is also the case.

**Irene James:** With Tory economic policies driving the economy backwards, many households are facing tough choices on what they can afford. The family pet is often one of those choices. The RSPCA says that the pet animal population in the UK now far outnumbers the suitable homes available to them. Many of the animals in its care are struggling to find new homes, and animals are increasingly being abandoned, which means that we are seeing increasing numbers of stray dogs on our streets, and, worryingly, a particular increase in stray dogs of

anifeiliaid yno i hyrwyddo'r cynllun hwn. Mae defnyddwyr yn gyffredinol yn pryderu fwy am les anifeiliaid—gan gynnwys rhai fel ni sy'n mwynhau bwyta cig, ond sydd am weld anifeiliaid yn cael eu magu mewn amgylchiadau priodol sy'n rhoi ystyriaeth deg i'w hiechyd seicolegol, fel eu bod yn cael eu hysgogi ac yn gallu ymddwyn fel anifeiliaid wrth iddynt gael eu magu. A ydych yn cytuno bod sawl cyfle i ffermwyr Cymru fanteisio ar y cynnydd hwn mewn sicrhau ansawdd, a bod angen inni hyrwyddo cynlluniau o'r fath, a'u manteision posibl, i ffermwyr Cymru wrth iddynt werthu eu cynnyrch?

**Elin Jones:** Fel chi, David, rwy'n gefnogwr brwd i fenter bwyd rhyddid yr RSPCA. Mae'n dda gweld yr RSPCA yn bod yn rhagweithiol o ran arddangos y gorau o'r bwyd rhyddid a gynhyrchir yng Nghymru. Mae'n iawn ein bod yn gallu gweithio gyda'r RSPCA ar y cynllun bwyd rhyddid, ac eraill, i ddangos ar labeli bwyd bod y safonau lles y mae'r anifeiliaid wedi cael eu magu a'u ffermio ac, yn y pen draw, eu lladd oddi tanddynt yn safonau uchel. Gwyddom, o gymharu â nifer o ardaloedd ar draws y byd, bod safonau lles ein hanifeiliaid a ffermir yn uchel, ac yn uwch na'r rhan fwyaf. Mae angen inni fanteisio'n economaidd ar hynny, gan ein bod yn gwybod bod defnyddwyr yng Nghymru a thu hwnt yn pryderu am safonau lles anifeiliaid. Dylai defnyddwyr bob amser edrych ar labeli, gan y byddant yn dangos sut y cafodd anifail ei fagu a pha ofal a gafodd. Os byddwch yn prynu cynnyrch Cymreig, byddwch yn prynu i mewn i safonau lles anifeiliaid uchel. Os ydych yn prynu bwyd rhyddid RSPCA, byddwch hefyd wedi'ch bodloni i raddau helaeth fod hynny'n wir.

**Irene James:** Gyda pholisiau economaidd Toriaidd yn gyrru'r economi yn ôl, mae llawer o deuluoedd yn wynebu dewisiadau anodd am yr hyn y gallant ei fforddio. Anifail anwes y teulu yn aml yw un o'r dewisiadau hynny. Dywed yr RSPCA bod poblogaeth anifeiliaid anwes y DU bellach yn llawer mwy na nifer y cartrefi addas sydd ar gael iddynt. Mae llawer o'r anifeiliaid yn ei ofal yn cael trafferth dod o hyd i gartrefi newydd, ac mae anifeiliaid yn gynyddol yn cael eu gadael, sy'n golygu ein bod yn gweld niferoedd cynyddol o gŵn strae ar ein

dangerous dog breeds. What more can the Assembly Government do to alleviate this growing problem?

**Elin Jones:** We can work with local authorities, and with animal welfare organisations, such as the RSPCA and Dogs Trust, to ensure that abandoned animals are either re-homed or are, unfortunately, destroyed. We do not want to see animals destroyed. Animal ownership and pet ownership are significant responsibilities, and no-one should take on the ownership of pets unless they are clear that they have the primary responsibility for the welfare of that animal and they have the economic means to look after that animal. If anyone is struggling to keep a pet, as some may well be doing at this point, as you have outlined, they need to get in touch with the RSPCA, other animal welfare organisations, or their local authority, to say that they are struggling. They should not abandon those animals on the street, in towns or in the countryside.

**Peter Black:** I wish to focus on the welfare of protected species and, in particular, the Order that you have announced today for the control of bovine tuberculosis in the north Pembrokeshire, Ceredigion and Carmarthenshire area. You will know that, between January and November 2010, there was a 34 per cent reduction on the previous year in the number of cattle slaughtered as a result of TB. That appears to be a long-term trend. Therefore, in making the decision to bring forward this Order, what estimate have you made of the reduction in the incidence of TB that will come about as a result of the cull that you are proposing in this area?

**Elin Jones:** I am not sure how you can say that the statistics from January to October of last year signify a long-term trend. I must look at the longer-term trend of the disease. There have been times when fewer cattle have been removed than at other times during the trend of an increase over the last 10 years: 2006 was a case in point, and, as the statistics outline, 2010 may be another. I will not make judgments on how the statistics over that period relate to a longer-term trend. We have to assess the longer-term trend over the

strydoedd, ac mae'n destun pryder bod cynnydd arbennig mewn cŵn crwydr o fridiau peryglus. Beth yn fwy all Llywodraeth y Cynulliad ei wneud i liniaru'r broblem gynyddol hon?

**Elin Jones:** Gallwn gydweithio ag awdurdodau lleol, a sefydliadau lles anifeiliaid fel yr RSPCA ac Ymddiriedolaeth y Cŵn, i sicrhau bod anifeiliaid sy'n cael eu gadael yn cael eu hailgartrefu, neu, yn anffodus, eu dinistrio. Nid ydym am weld anifeiliaid yn cael eu dinistrio. Mae bod yn berchen ar anifeiliaid ac anifeiliaid anwes yn gyfrifoldeb sylweddol, ac ni ddylai unrhyw un fod yn berchen arnynt oni bai eu bod yn glir mai hwy sy'n bennaf gyfrifol am les yr anifail hwnnw a bod ganddynt y modd economaidd i ofalu amdano. Os oes unrhyw un yn cael trafferth cadw anifail anwes, fel y gallai fod yn wir am rai ar y funud, fel rydych wedi amlinellu, mae angen iddynt gysylltu â'r RSPCA, sefydliadau lles anifeiliaid eraill, neu eu hawdurdod lleol, i ddweud hynny. Ni ddylent adael yr anifeiliaid hynny ar y stryd, mewn trefi nac yng nghefn gwlad.

**Peter Black:** Rwyf am ganolbwyntio ar les rhywogaethau a warchodir ac, yn benodol, y Gorchymyn rydych wedi ei gyhoeddi heddiw i reoli twbercwlosis buchol yn ardal gogledd sir Benfro, Ceredigion a sir Gaerfyrddin. Byddwch yn gwybod y bu gostyngiad o 34 y cant ar y flwyddyn flaenorol yn nifer y gwartheg a laddwyd o ganlyniad i TB rhwng mis Ionawr a Thachwedd 2010. Ymddengys bod hynny yn duedd hirdymor. Felly, wrth wneud y penderfyniad i gyflwyno'r Gorchymyn hwn, pa amcangyfrif a wnaethoch o'r gostyngiad yn nifer yr achosion o TB a ddaw yn sgîl y rhaglen ddifa rydych yn ei chynnig yn yr ardal hon?

**Elin Jones:** Nid wyf yn siŵr sut y gallwch ddweud bod yr ystadegau o fis Ionawr i Hydref y llynedd yn arwydd o duedd hirdymor. Mae'n rhaid i mi edrych ar duedd tymor hwy y clefyd. Bu adegau pan gafodd llai o wartheg eu difa nag ar adegau eraill yn ystod y tuedd o gynnydd dros y 10 mlynedd diwethaf: roedd 2006 yn enghraifft o hyn, ac, fel y dywed yr ystadegau, efallai y bydd 2010 yn un arall. Ni fyddaf yn llunio barn ar sut mae'r ystadegau yn y cyfnod hwnnw yn arwydd o duedd tymor hwy. Mae'n rhaid i ni

longer term. That is what I have to do. It is too early to say whether the cattle testing and removal measures that we have put in place as a Government have had a direct impact on the short-term statistics to which you have alluded.

**Peter Black:** What is the estimate?

**The Presiding Officer:** Order.

**Bethan Jenkins:** A fyddai'n bosibl i'r Gweinidog wneud datganiad ynglŷn â lles cathod sydd yn cael eu defnyddio mewn arbrofion ar anifeiliaid ym Mhrifysgol Caerdydd? A oes gennych unrhyw wybodaeth ynglŷn â sut mae'r brifysgol yn ymdrin â lles yr anifeiliaid hynny ac a yw'r Llywodraeth yn monitro eu lles?

**Elin Jones:** Nid yw arbrofi ar anifeiliaid wedi cael ei ddatganoli a chyfrifoldeb y Swyddfa Gartref, yr wyf yn meddwl, yw rheoleiddio yn y maes hwn. Mae ambell i sefydliad yng Nghymru, ac mae'r ystadegau yn rhai cyhoeddus, yn arbrofi ar anifeiliaid. Gwnant hynny o fewn y canllawiau sydd yn bodoli. Nid cyfrifoldeb y Llywodraeth hon yw monitro ac arolygu hynny; cyfrifoldeb y Swyddfa Gartref a Llywodraeth y Derynas Gyfunol yw.

**Lorraine Barrett:** First, I thank David Melding for his kind remarks with regard to the work that we have all done on freedom food and I congratulate you, Minister, on many of the initiatives that you have brought forward in the field of animal welfare. However, you will not be surprised that I am going to express my disappointment at reading today that you have brought forward this Order for the killing of badgers. I take the point that you made to Peter Black, and I was going to raise the same sort of issue. How can you be sure which of the measures that you are bringing in will be the effective measure? I know that you want to take a holistic approach, but I feel, and I wonder whether you agree, that by bringing in the badger cull now, you will not know whether the earlier measures that you put in place, which have shown some success, are the effective ones. I make this plea to you: will you please postpone the culling of badgers

asesu tuedd tymor hwy dros y tymor hwy. Dyna sy'n rhaid i mi ei wneud. Mae'n rhy gynnar dweud a yw'r profion gwartheg a'r mesurau difa a roesom ar waith fel Llywodraeth wedi cael effaith uniongyrchol ar yr ystadegau tymor byr roeddech yn cyfeirio atynt.

**Peter Black:** Beth yw'r amcangyfrif?

**Y Llywydd:** Trefn.

**Bethan Jenkins:** Would it be possible for the Minister to make a statement on the welfare of cats that are used in animal testing in Cardiff University? Do you have any information as to how the university deals with the welfare of those animals and whether the Government is monitoring their welfare?

**Elin Jones:** Animal testing is not a devolved issue, and regulation in this area is the responsibility of the Home Office, I believe. Some institutions in Wales, and the statistics are publicly available, experiment on animals. They do so within existing guidelines. It is not the responsibility of this Government to monitor and inspect that, but the responsibility of the Home Office and the United Kingdom Government.

**Lorraine Barrett:** Yn gyntaf, diolch i David Melding am ei sylwadau caredig am y gwaith rydym i gyd wedi'i wneud ar fwyd rhyddid ac rwyf yn eich llongyfarch, Weinidog, ar lawer o'r mentrau a gyflwynwyd gennych ym maes lles anifeiliaid. Fodd bynnag, ni fyddwch yn synnu fy mod am fynegi fy siom ar ôl darllen heddiw eich bod wedi cyflwyno'r Gorchymyn hwn i ladd moch daear. Rwyf yn derbyn y pwynt a wnaethoch i Peter Black, ac roeddwn yn mynd i godi mater tebyg. Sut y gallwch fod yn siŵr pa un o'r mesurau rydych yn eu cyflwyno fydd y mesur effeithiol? Gwn eich bod am gymryd ymagwedd gyfannol, ond rwy'n teimlo—a thybed a ydych yn cytuno—y bydd cyflwyno'r syniad o ddifa moch daear yn awr yn golygu na fyddwch yn gwybod pa rai o'r mesurau cynharach a roesoch ar waith, sydd wedi dangos rhywfaint o lwyddiant, yw'r rhai effeithiol. Dyma fy mhle i chi: a wnewch chi ohirio difa moch daear nes i chi gael data



until you have more effective and long-term data for the measures that you have already brought in?

mwy effeithiol a hirdymor ar gyfer y camau rydych eisoes wedi eu cyflwyno?

1.45 p.m.

**Elin Jones:** I know that there are Members in the Chamber and people in Wales who are going to be disappointed with the Order that I have laid today, and who will fundamentally disagree with the decision that I have taken. However, I have not taken the decision lightly; I have considered the matter fully, and it is not a straightforward or easy decision to take. To remove an animal disease, you need to remove all sources of infection. The disease needs to be tackled in the cattle population, for which we have put together extremely stringent measures, especially in north Pembrokeshire. However, it also has to be tackled in the badger population. Leaving a source of infection in that area does not allow for the long-term eradication of this disease, and that is what I have already set out as the aspiration that we in the Chamber hopefully all share, namely that at some point we want to have fully healthy cattle and badger populations in Wales.

**Elin Jones:** Gwn y bydd Aelodau yn y Siambr a phobl yng Nghymru sydd yn mynd i fod yn siomedig gyda'r Gorchymyn a osodais heddiw, ac a fydd yn anghytuno'n sylfaenol â'r penderfyniad a wneuthum. Fodd bynnag, ni chymerais y penderfyniad ar chwarae bach; rwyf wedi ystyried y mater yn llawn, ac nid yw'n benderfyniad syml na hawdd i'w gymryd. Er mwyn dileu clefydau anifeiliaid, mae angen cael gwared ar bob ffynhonnell yr haint. Mae angen mynd i'r afael â'r clefyd yn y boblogaeth gwartheg, ac i wneud hynny rydym wedi llunio mesurau llym iawn, yn enwedig yng ngogledd sir Benfro. Fodd bynnag, mae'n rhaid hefyd mynd i'r afael ag ef yn y boblogaeth moch daear. Nid yw gadael ffynhonnell haint yn yr ardal honno yn caniatáu ar gyfer y gwaith o ddileu'r clefyd hwn yn y tymor hir, a dyna beth rwyf eisoes wedi'i nodi fel y dyhead rydym oll yn y Siambr yn ei rannu gobeithio, sef ein bod rhywbryd am gael poblogaethau gwartheg a moch daear cwbl iach yng Nghymru.

### Cynnyrch Cymru

### Welsh Produce

**3. Angela Burns:** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i hybu cynnyrch Cymru. OAQ(3)1291(RAF)*

**3. Angela Burns:** *Will the Minister outline what action the Welsh Assembly Government is taking to promote Welsh produce. OAQ(3)1291(RAF)*

**9. Chris Franks:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hybu cynnyrch lleol yng Nghymru. OAQ(3)1297(RAF)*

**9. Chris Franks:** *Will the Minister make a statement regarding the promotion of local produce in Wales. OAQ(3)1297(RAF)*

**Elin Jones:** The 'Food for Wales, Food from Wales' strategy document sets out the measures to promote Welsh food at home and outside Wales. We need to build upon the strengths of the Welsh food brand to convey confidence in its unique qualities, as well as encouraging the public sector to source more food locally.

**Elin Jones:** Mae'r ddogfen strategaeth 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru' yn nodi'r mesurau i hyrwyddo bwyd o Gymru yn y cartref a thu allan i Gymru. Mae angen i ni adeiladu ar gryfderau brand bwyd Cymru i gyfleu hyder yn ei nodweddion unigryw, yn ogystal ag annog y sector cyhoeddus i brynu bwyd yn fwy lleol.

**Angela Burns:** Thank you very much for that reply, Minister. I was concerned that a Hybu Cig Cymru report notes that average beef prices have dropped significantly between 2009 and 2010. In conjunction with

**Angela Burns:** Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. Roeddwn yn pryderu bod adrodiad Hybu Cig Cymru yn nodi bod prisiau cyfartalog cig eidion wedi gostwng yn sylweddol rhwng 2009 a 2010. Ynghyd â'r

all of the rising on-farm costs, particularly for fertilisers and foodstuffs, this means that people who farm only beef cattle are making little or no profit, even with farm diversification. What recent discussions have you had regarding this issue and what steps do you think that we in Wales could take to support this sector of the industry in particular?

**Elin Jones:** These are challenging times for all livestock farmers because of the increased costs that they face for fertilisers and feed, and increasing oil prices; therefore, the price that farmers are able to attract for their product is especially important to retain a degree of financial viability. My officials and I have discussed with Hybu Cig Cymru the continued need to promote Welsh beef alongside Welsh lamb. Welsh beef is an excellent product and we know that it is sold to a number of our supermarket chains as well as being sold locally as a prime product. However, the price of beef can vary due to domestic as well as global issues. If you look at the figures for the last 10 years, you will see that there have been promising signs of an increase of late, although I recognise that the market has dipped recently. I have learnt that farmers make long-term investment decisions, so we will hopefully see Welsh beef continuing to be a strong brand for Wales and our farmers.

**Chris Franks:** Minister, as you are aware, the Valleys that I represent contain one of the largest urban forests in Europe still in public ownership. What discussions has the Welsh Government had about creating a community land bank to encourage local food co-operatives and allotments? I am aware that you have visited the Riverside community garden in Cardiff; would you congratulate the Riverside Community Market Association for creating a food co-operative that provides low-cost fresh produce? For a better Wales, what support can be given by the Welsh Government to encourage more local produce?

holl gostau fferm cynyddol, yn enwedig ar gyfer gwrteithiau a bwydydd, golyga hyn bod pobl sydd ond yn ffermio gwartheg eidion yn gwneud ychydig elw, neu ddim elw o gwbl, hyd yn oed ar ôl arallgyfeirio ar y fferm. Pa drafodaethau a gawsoch yn ddiweddar am y mater hwn a pha gamau y tybiwch sydd angen inni eu cymryd yng Nghymru i gefnogi'r sector hwn o'r diwydiant yn benodol?

**Elin Jones:** Mae hwn yn gyfnod heriol i bob ffermwr da byw oherwydd y costau cynyddol maent yn eu hwynebu am wrteithiau a bwyd anifeiliaid, a phrisiau olew cynyddol; felly, mae'r pris mae ffermwyr yn gallu ei ddenu am eu cynnyrch yn arbennig o bwysig er mwyn cynnal rhywfaint o hyfywedd ariannol. Mae fy swyddogion a minnau wedi trafod gyda Hybu Cig Cymru y ffaith bod angen parhaus i hybu cig eidion Cymru ochr yn ochr â chig oen Cymru. Mae cig eidion Cymru yn gynnyrch rhagorol a gwyddom y caiff ei werthu i nifer o'n cadwyni archfarchnad yn ogystal ag yn lleol fel cynnyrch o safon. Fodd bynnag, gall pris cig eidion amrywio o ganlyniad i faterion domestig yn ogystal â rhai byd-eang. Os edrychwch ar y ffigurau am y 10 mlynedd diwethaf, gwelwch y bu arwyddion addawol o gynnydd yn ddiweddar, er fy mod yn cydnabod bod y farchnad wedi gostwng ers hynny. Rwyf wedi dysgu bod ffermwyr yn gwneud penderfyniadau buddsoddi tymor hir, felly gobeithio y gwelwn gig eidion Cymru yn parhau i fod yn frand cryf i Gymru a'n ffermwyr.

**Chris Franks:** Weinidog, fel y gwyddoch, mae'r Cymoedd a gynrychiolaf yn cynnwys un o'r coedwigoedd trefol mwyaf yn Ewrop sydd dal yn eiddo cyhoeddus. Pa drafodaethau gafodd Llywodraeth Cymru am greu banc tir cymunedol i annog mentrau bwyd cydweithredol lleol a rhandiroedd? Gwn eich bod wedi ymweld â gardd gymunedol Glan yr Afon yng Nghaerdydd; a wnewch chi longyfarch Cymdeithas Gymunedol Marchnad Glan yr Afon am greu menter fwyd gydweithredol sy'n darparu cynnyrch ffres am gost isel? Er mwyn cael Cymru well, pa gefnogaeth y gellir ei rhoi gan Lywodraeth Cymru i annog mwy o gynnyrch lleol?

**Elin Jones:** I commend the work of the Riverside community garden project. I launched the Assembly Government's community grown food action plan at that community garden, and what is being done there in conjunction with the food market is an excellent example of producing and selling food locally in an urban context. The community grown food action plan that I launched last year identified that we need to look at where public land can be made available for local allotments or community gardens. My officials are working with local authorities and others to identify land and the community groups that wish to take advantage of it, because I want to see more community groups in urban and rural communities seeking opportunities to grow food locally.

**Mick Bates:** Minister, I would like to congratulate you on your work on TB, and I hope that this proposed Order will be successful in reducing the level of disease in bovines and badgers. However, I was disappointed to learn recently that, with regard to the awarding of school milk contracts, we are still failing to ensure that Welsh school milk is sourced and processed in Wales. So far, in seven out of 10 authorities, contracts have been awarded to a supplier from Wales who carts Welsh milk to Southampton, which is 90 miles away. It is processed, put in a bottle that is not made from recycled material, and it is then brought back to Wales. That does little to support Welsh produce and reduce food miles. What action are you taking to ensure that procurement contracts consider the whole food chain, so that produce is not just sourced, but also processed and packaged in recycled materials here in Wales in order to support our local dairy industry?

**Elin Jones:** I am disappointed to hear that milk contracts have been awarded recently by local authorities to companies that do not source Welsh milk and do not use recyclable units to carry milk. As regards the discussions that I have had with other Government Ministers, the Minister for Environment, Sustainability and Housing, the Minister for Children, Education and

**Elin Jones:** Rwy'n cymeradwyo gwaith prosiect gardd gymunedol Glan yr Afon. Lansiais gynllun gweithredu bwyd a dyfir yn y gymuned yn yr ardd gymunedol honno, ac mae'r hyn sy'n cael ei wneud yno ar y cyd â'r farchnad fwyd yn enghraifft ragorol o gynhyrchu a gwerthu bwyd yn lleol mewn cyd-destun trefol. Nododd y cynllun gweithredu bwyd a dyfir yn gymunedol a lansiwyd gennyf y llynedd bod angen inni edrych ar lle y gellid rhyddhau tir cyhoeddus i randiroedd lleol neu erddi cymunedol. Mae fy swyddogion yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac eraill i nodi tir a'r grwpiau cymunedol sy'n dymuno manteisio arno, oherwydd rwyf am weld mwy o grwpiau cymunedol mewn cymunedau trefol a gwledig yn chwilio am gyfleoedd i dyfu bwyd yn lleol.

**Mick Bates:** Weinidog, hoffwn eich llongyfarch ar eich gwaith ar TB, a gobeithio y bydd y Gorchymyn arfaethedig hwn yn llwyddo i leihau lefel y clefyd mewn gwartheg a moch daear. Fodd bynnag, roeddwn yn siomedig o glywed yn ddiweddar, o ran dyfarnu contractau llaeth ysgol, ein bod yn dal i fethu â sicrhau bod llaeth ysgol Cymru yn dod o ffynonellau yng Nghymru ac yn cael ei brosesu yma. Hyd yn hyn, mewn saith allan o 10 awdurdod, dyfarnwyd contractau i gyflenwr o Gymru sy'n cludo llaeth o Gymru i Southampton, sydd 90 milltir i ffwrdd. Mae'n cael ei brosesu, ei roi mewn potel nad yw o ddeunydd wedi'i ailgylchu, a'i ddychwelyd i Gymru. Nid yw hynny'n gwneud fawr i gefnogi cynnyrch o Gymru a lleihau milltiroedd bwyd. Pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau bod contractau caffael yn ystyried y gadwyn fwyd gyfan, fel nad yw cynnyrch nid yn unig yn dod oddi yma, ond hefyd yn cael ei brosesu a'i becynnu mewn deunydd a ailgylchwyd yma yng Nghymru er mwyn cefnogi ein diwydiant llaeth lleol?

**Elin Jones:** Rwyf yn siomedig o glywed bod contractau llaeth wedi cael eu dyfarnu yn ddiweddar gan awdurdodau lleol i gwmnïau nad ydynt yn defnyddio llaeth Cymru nac yn defnyddio unedau ailgylchadwy i gludo llaeth. O ran y trafodaethau a gefais gyda Gweinidogion eraill y Llywodraeth, mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, y Gweinidog dros

Lifelong Learning and I have made it clear that we want to see local Welsh milk being sourced for our schools. Therefore, I will speak to our officials to see how these contracts have been awarded in such a way, because it is certainly disappointing, if that is the case.

### Ffermio Organig

**4. William Graham:** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i hybu ffermio organig. OAQ(3)1301(RAF)*

**Elin Jones:** The Welsh Government supports organic farming in Wales via a range of measures that are aimed at developing the whole supply chain, from primary production through to processing and marketing. Measures include the funding of Organic Centre Wales, support for organic farmers and the provision of supply-chain efficiencies grants.

**William Graham:** Thank you very much for your answer, Minister. You will know that Monmouthshire has established a reputation as one of the leading counties for organic produce in Wales, with producers such as Trealy Farm in Mitchel Troy winning True Taste Wales awards for its organic meat. You will therefore share the concern expressed to me by producers of organic produce in the county and beyond that a growing amount of food packaging is misleading and that food is being wrongly marketed and labelled as organic, when that is not the case. How is your department liaising with producers, retailers and trading standards to try to target this problem?

**Elin Jones:** There are a great number of excellent organic producers in Monmouthshire, and a lot of good food and drink is produced there. If anybody is seeking to sell produce as organic when that is not the case and it has not had proper certification, that is a matter for trading standards. If there are any specific circumstances that you know of, I would be willing to pass that information on to trading standards for you. Organic farming often requires a higher cost of input and therefore demands a higher premium. We need to ensure that it is

Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a minnau wedi dweud yn glir ein bod am weld llaeth lleol Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ein hysgolion. Felly, byddaf yn siarad â'n swyddogion i weld sut y cafodd y contractau hyn eu dyfarnu yn y fath fodd, oherwydd mae'n sicr yn siomedig, os yw hynny'n wir.

### Organic Farming

**4. William Graham:** *Will the Minister outline Welsh Assembly Government policies to promote organic farming. OAQ(3)1301(RAF)*

**Elin Jones:** Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffermio organig yng Nghymru drwy ystod o fesurau sydd wedi'u hanelu at ddatblygu'r gadwyn gyflenwi gyfan, o gynhyrchu sylfaenol hyd at brosesu a marchnata. Mae mesurau yn cynnwys ariannu Canolfan Organig Cymru, cymorth i ffermwyr organig a darparu grantiau effeithlonrwydd i'r gadwyn gyflenwi.

**William Graham:** Diolch yn fawr am eich ateb, Weinidog. Byddwch yn gwybod bod sir Fynwy wedi sefydlu enw da fel un o'r siroedd mwyaf blaenllaw am gynnyrch organig yng Nghymru, gyda chynhyrchwyr fel Fferm Trealy yn Llanfihangel Troddi yn ennill gwobrau Gwir Flas Cymru am eu cig organig. Byddwch felly yn rhannu'r pryder a fynegwyd i mi gan gynhyrchwyr organig yn y sir a thu hwnt bod deunydd pacio bwyd yn gynyddol gamarweiniol a bod bwyd yn cael ei farchnata a'i labelu fel bwyd organig yn anghywir, pan nad yw hynny'n wir. Sut mae eich adran yn cydweithio â chynhyrchwyr, manwerthwyr a safonau masnach i geisio targedu'r broblem hon?

**Elin Jones:** Mae nifer fawr o gynhyrchwyr organig rhagorol yn sir Fynwy, ac mae llawer o fwyd a diod da yn cael ei gynhyrchu yno. Os oes unrhyw un yn ceisio gwerthu cynnyrch organig pan nad yw hynny'n wir ac nad yw wedi cael tystysgrif briodol, mae hynny'n fater i safonau masnach. Os gwyddoch am unrhyw amgylchiadau penodol, byddwn yn barod i drosglwyddo'r wybodaeth honno i safonau masnach i chi. Mae ffermio organig yn aml yn gofyn am fewnbwn sy'n costio mwy ac felly yn mynnu premiwm uwch. Mae angen inni sicrhau ei

certified as organic so that the higher premium cannot be abused by farmers, food producers and others, who trade incorrectly.

**William Graham:** Thank you, Minister, for your most helpful answer. However, you will have read recent alarming suggestions by the Soil Association that the future of organic farming in Wales is possibly hanging in the balance. According to statistics, the payments received by organic farmers in England are double the maintenance payments that Welsh farmers receive under the Glastir scheme. In light of the serious reduction in the sale of organic produce owing to the fragile economy, how will your Government ensure that we retain a vibrant organic sector in Wales?

**Elin Jones:** I want to see organic farmers, and those who want to convert to organic farming, take business decisions as to how they will produce and market their goods. That is why we will continue to have an organic conversion scheme in Wales. In terms of supporting those who are already organic farmers, I have taken the decision to remove the maintenance payment as it exists and replace it with a 50 per cent reduction for wholly organic farms in Glastir. That may well mean that some organic farmers do not receive as high a payment as a result, but the continuation of substantial maintenance payments for organic farming was not financially viable for this Government, and I seem to recall that your party has been critical of that in the past. I am undertaking the review of Glastir and I know that representations will be made to that review by the organic sector on the appropriateness of the Glastir scheme. When I receive the report next week, it may well contain recommendations on organic farming.

**Leanne Wood:** I know that you are familiar with the farming method called permaculture, and the benefits that it can provide by aligning farming techniques with the needs of the natural environment. The countryside is one of Wales's greatest assets and anything that helps to preserve our environment should be closely considered, in my view. Not only is permaculture proven to be sustainable, but it can also lead to greater yields, and so there

fod yn cael ei ardystio yn fwyd organig fel nad yw'r premiwm uwch yn cael ei gamddefnyddio gan ffermwyr, cynhyrchwyr bwyd ac eraill sy'n masnachu yn anghywir.

**William Graham:** Diolch, Weinidog, am eich ateb hynod ddefnyddiol. Fodd bynnag, byddwch wedi darllen yr awgrymiadau brawychus diweddar gan Gymdeithas y Pridd bod dyfodol ffermio organig yng Nghymru o bosibl yn y fantol. Yn ôl ystadegau, mae'r taliadau a dderbynnir gan ffermwyr organig yn Lloegr ddwywaith gymaint â'r taliadau cynnal a dderbynnir gan ffermwyr Cymru o dan gynllun Glastir. Yn wyneb y cwmp difrifol yng ngwerthiant cynnyrch organig oherwydd yr economi fregus, sut fydd eich Llywodraeth yn sicrhau ein bod yn cynnal sector organig fywiog yng Nghymru?

**Elin Jones:** Rwyf am weld ffermwyr organig, a'r rhai sydd am newid i ffermio organig, yn gwneud penderfyniadau busnes o ran sut y byddant yn cynhyrchu a marchnata eu nwyddau. Dyna pam y byddwn yn parhau i gael cynllun troi'n organig yng Nghymru. O ran cefnogi'r rhai sydd eisoes yn ffermwyr organig, penderfynais ddiddymu'r taliad cynhaliath fel ag y mae a'i ddisodli â gostyngiad o 50 y cant i ffermydd yn Glastir sy'n gyfan gwbl organig. Mae'n ddigon posibl y bydd hynny'n golygu na fydd rhai ffermwyr organig yn derbyn taliad mor uchel o ganlyniad, ond nid oedd parhau i wneud taliadau cynnal a chadw sylweddol ar gyfer ffermio organig yn hyfyw yn ariannol i'r Llywodraeth hon, a thybiaf y bu eich plaid yn feirniadol o hynny yn y gorffennol. Rwy'n cynnal yr adolygiad o Glastir a gwn y bydd sylwadau yn cael eu cyflwyno i'r adolygiad hwnnw gan y sector organig ar ei briodoldeb. Pan fyddaf yn derbyn yr adroddiad yr wythnos nesaf, mae'n ddigon posibl y bydd yn cynnwys argymhellion ar ffermio organig.

**Leanne Wood:** Gwn eich bod yn gyfarwydd â'r dull ffermio a elwir yn permaddiwylliant, a'i fanteision o ran alinio technegau ffermio ag anghenion yr amgylchedd naturiol. Cefn gwlad yw un o asedau mwyaf Cymru a dylai unrhyw beth sy'n helpu i ddiogelu ein hamgylchedd gael ei ystyried yn ofalus, yn fy marn i. Mae permaddiwylliant nid yn unig wedi ei brofi i fod yn gynaliadwy, ond gall hefyd arwain at fwy o gynnyrch, ac felly mae

are benefits all round. Is the concept of permaculture something that the Welsh Government would be prepared to consider in more detail, and which it could promote more?

**Elin Jones:** Yes, we would certainly consider that, and possibly promote it. I have said that I want to see more food produced in Wales, and a greater variety of food produced in Wales. Permaculture may well play a role in achieving that. My officials and I will look proactively at any projects and ideas on the development of permaculture within Welsh food production.

### Cynllun Datblygu Gwledig

**5. Brian Gibbons:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Cynllun Datblygu Gwledig. OAQ(3)1308(RAF)*

**Elin Jones:** The rural development plan outlines the Welsh Government's vision for rural Wales and our commitment towards supporting sustainable rural communities.

**Brian Gibbons:** As you know, £800 million will have been invested in the rural development plan between 2007 and 2013, and indeed my own constituency gets a small fragment of that funding, but for very worthwhile schemes, such as tourist co-ordinators, Y Gronfa Wledig, the development of community gateways, and community transport projects. Therefore, good use is being made of the money. Strategically, one of the key challenges of the rural development plan is to establish sustainable industrial and business futures in Wales, and clearly the record to date suggests that that has not been happening. How do you see the rural development plan contributing to a situation in which the level of subsidy dependency will be reduced and there will be guaranteed sustainable economic prosperity for the population?

**Elin Jones:** The rural development plan provides the mechanism for rural communities and businesses to increase their viability in conjunction with farming and

pawb ar eu hennill. A yw'r cysyniad o bermaddiwylliant yn rhywbeth y byddai Llywodraeth Cymru yn barod i'w ystyried yn fanylach, ac y gallai ei hyrwyddo fwy?

**Elin Jones:** Byddem yn sicr yn ystyried hynny, a'i hyrwyddo o bosibl. Dywedais fy mod am weld mwy o fwyd yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru, a mwy o amrywiaeth ohono. Mae'n bosibl iawn y gallai permaddiwylliant fod yn rhan o gyflawni hynny. Bydd fy swyddogion a minnau'n edrych yn frwd ar unrhyw brosiectau a syniadau ar ddatblygu permaddiwylliant o ran cynhyrchu bwyd o Gymru.

### Rural Development Plan

**5. Brian Gibbons:** *Will the Minister make a statement on the Rural Development Plan. OAQ(3)1308(RAF)*

**Elin Jones:** Mae'r cynllun datblygu gwledig yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cefn gwlad Cymru a'n hymrwymiad i gefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy.

**Brian Gibbons:** Fel y gwyddoch, bydd £800 miliwn wedi'i fuddsoddi yn y cynllun datblygu gwledig rhwng 2007 a 2013, ac yn wir mae fy etholaeth i yn cael cyfran fach o'r cyllid hwnnw, ond ar gyfer cynlluniau buddiol iawn, fel cydlynwyr twristiaeth, Y Gronfa Wledig, datblygu pyrth cymunedol a phrosiectau trafndiaeth gymunedol. Felly, caiff defnydd da ei wneud o'r arian. Yn strategol, un o heriau allweddol y cynllun datblygu gwledig yw sefydlu dyfodol diwydiant a busnes cynaliadwy yng Nghymru, ac awgryma'r record hyd yma yn amlwg na fu hynny yn digwydd. Sut yr ydych yn gweld y cynllun datblygu gwledig yn cyfrannu at sefyllfa lle bydd lefel y ddibyniaeth cymhorthdal yn cael ei gostwng ac y bydd sicrwydd o ffyniant economaidd cynaliadwy i'r boblogaeth?

**Elin Jones:** Mae'r cynllun datblygu gwledig yn darparu'r mecanwaith i gymunedau gwledig a busnesau gynyddu eu hyfywdra ar y cyd â mentrau ffermio a choedwigaeth.

forestry enterprises. The processing and marketing of food products can be supported through the rural development plan, as can community activity that meets some of the challenges of living in a rural area, such as community transport, through axis 3 and axis 4.

2.00 p.m.

During the common agricultural policy review process, I want to ensure that the mechanisms in place to try to seek to add value to the direct agricultural produce of Wales are strengthened, because we need to retain more of the economic value of our agricultural product, so that it can strengthen our rural economy. That will ultimately, hopefully, lead to a better price for those farmers—and also to timber suppliers—so that, in the longer term, there is less of a requirement for direct income support through the single farm payment.

**Darren Millar:** You will be aware of the concerns in my constituency about the Conwy rural development plan and some delays in decision-making within your department, which put at risk around 35 jobs in my constituency, particularly jobs in what had been extremely successful projects that deserved to have a future. I understand that you have now written to me and that that situation is resolved. However, what action are you taking to ensure that this sort of situation does not arise again and that there is no uncertainty over those projects that deserve to be supported?

**Elin Jones:** You, along with Gareth Jones, have raised with me the issue of the administration of Conwy rural development plan's axis 3 and 4 projects. I am pleased that my officials met with Conwy officials and, hopefully, a means of resolving some of those issues has now been identified. These axis 3 and 4 projects are governed by the common agricultural policy European regulations, and farmers will tell you how complicated and onerous the administration of that policy can be. Rural development plan axis 3 and 4 projects have had to face similar circumstances.

Gall y gwaith o brosesu a marchnata cynnyrch bwyd gael ei gefnogi drwy'r cynllun datblygu gwledig, fel y gall gweithgaredd cymunedol sy'n diwallu rhai o'r heriau o fyw mewn ardal wledig, megis trafnidiaeth gymunedol, drwy echel 3 ac echel 4.

Yn ystod y broses o adolygu'r polisi amaethyddol cyffredin, rwyf am sicrhau bod y mecanweithiau sydd ar waith i geisio ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddol uniongyrchol o Gymru yn cael eu cryfhau, gan bod angen inni gadw mwy o werth economaidd ein cynnyrch amaethyddol, er mwyn cryfhau ein heconomi wledig. Bydd hynny, yn y pen draw, gobeithio, yn arwain at well pris i'r ffermwyr hynny—a hefyd i gyflenwyr pren—fel bod llai o ofyn, yn y pen draw, am gymhorthdal incwm uniongyrchol drwy'r taliad sengl.

**Darren Millar:** Byddwch yn gwybod am y pryderon yn fy etholaeth am gynllun datblygu gwledig Conwy a rhywfaint o oedi wrth wneud penderfyniadau o fewn eich adran, sydd wedi peryglu tua 35 o swyddi yn fy etholaeth i, yn enwedig swyddi yn yr hyn a fu'n brosiectau hynod o lwyddiannus a oedd yn haeddu cael dyfodol. Deallaf eich bod bellach wedi ysgrifennu ataf, a bod y sefyllfa honno wedi ei datrys. Fodd bynnag, pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau nad yw sefyllfa o'r fath yn codi eto ac nad oes unrhyw ansicrwydd ynghylch y prosiectau hynny sy'n haeddu cael eu cefnogi?

**Elin Jones:** Rydych chi, ynghyd â Gareth Jones, wedi codi gyda mi y mater o weinyddu prosiectau echel 3 a 4 cynllun datblygu gwledig Conwy. Rwy'n falch bod fy swyddogion wedi cwrdd â swyddogion Conwy a gobeithio bod ffordd o ddatrys rhai o'r materion hynny wedi ei ganfod bellach. Caiff y prosiectau echel 3 a 4 hyn eu llywodraethu gan reoliadau polisi amaethyddol cyffredin Ewrop, a bydd ffermwyr yn dweud wrthyh pa mor gymhleth a beichus y gall gweinyddu'r polisi hwnnw fod. Bu'n rhaid i brosiectau echel 3 a 4 y cynllun datblygu gwledig wynebu amgylchiadau tebyg.

I want to ensure that we do not add any complexity to this process, and that is the direction that I have given to my officials. We are, hopefully, resolving some of these issues and, by the next round of the rural development plan, the level of bureaucracy will have been reduced to make it less onerous. However, the European Commission will also, hopefully, reduce the level of bureaucracy that it asks of us as the payments agency in Wales.

Rwyf am sicrhau nad ydym yn ychwanegu unrhyw gymhlethdod at y broses hon, a dyna'r cyfarwyddyd a roddais i'm swyddogion. Gobeithio ein bod yn datrys rhai o'r materion hyn ac y bydd lefel y fiwrocratiaeth, erbyn cylch nesaf y cynllun datblygu gwledig, wedi lleihau i'w gwneud yn llai beichus. Fodd bynnag, gobeithio y bydd y Comisiwn Ewropeaidd hefyd yn lleihau lefel y fiwrocratiaeth sy'n ofynnol arnom fel yr asiantaeth taliadau yng Nghymru.

### Aberconwy

**6. Gareth Jones:** *Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ba rai o'r ymrwymadau yn Cymru'n Un y mae hi wedi'u cyflawni a gaiff yr effaith tymor hir fwyaf yn Aberconwy. OAQ(3)1299(RAF)*

**Elin Jones:** Yr wyf yn ymroddedig i gyflawni fy ymrwymadau yn 'Cymru'n Un' ledled Aberconwy. Mae hyn yn cynnwys helpu ffermwyr ifanc, tynnu sylw defnyddwyr at fanteision prynu bwyd lleol a sicrhau bod arian ar gael ledled y rhanbarth dan echelau 3 a 4 y cynllun datblygu gwledig.

**Gareth Jones:** Cyfeiriasoch at un o gynlluniau pwysicaf 'Cymru'n Un' i sicrhau dyfodol amaethyddiaeth, sef y cynllun cymorth i newydd-ddyfodiaid i roi hwb i ffermwyr ifanc gychwyn yn y diwydiant. A rannwch fy ngobeithion y bydd modd ehangu'r cynllun hwn maes o law? Ar yr un pryd, a rannwch y pryderon sydd gan lawer o ffermwyr yn fy etholaeth ynghylch cynllun Glastir, ac a ydych yn ffyddiog y bydd yr adolygiad o'r ffordd ymlaen yn dod o hyd i atebion a fydd yn fwy derbyniol? A gytunwch mai'r bygythiad mwyaf o ddigon yw cynlluniau'r Toriaid i gael gwared yn gyfan gwbl ar daliadau i ffermwyr yn sgîl eu syniadau ar sut i ddiwygio polisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd?

**Elin Jones:** Yn gyntaf, croesawaf eich cefnogaeth i'r cynllun cymorth ar gyfer ffermwyr ifanc, a lansiwyd ychydig flynyddoedd yn ôl dan gytundeb 'Cymru'n Un'. Mae'r cynllun hwnnw wedi bod yn hynod lwyddiannus yn ei flwyddyn gyntaf ac

### Aberconwy

**6. Gareth Jones:** *What assessment has the Minister made regarding which of the One Wales commitments she has delivered will have the greatest long term impact in Aberconwy. OAQ(3)1299(RAF)*

**Elin Jones:** I am committed to fulfilling my 'One Wales' commitments across Aberconwy. This includes supporting young entrants to farming, increasing awareness by consumers about the benefits of buying local food and ensuring that rural development plan axis 3 and 4 funding is available across the region.

**Gareth Jones:** You referred to one of the most important 'One Wales' schemes to secure the future of agriculture, namely the young entrants scheme to support young farmers setting out in the industry. Do you share my hopes that it will soon be possible to expand this scheme? At the same time, do you share the concern expressed by many farmers in my constituency about the Glastir scheme, and are you confident that the review of the way forward will come up with more acceptable resolutions? Do you agree that by far the greatest threat is the Conservative plan to completely do away with payments for farmers, given their ideas on how to amend the European Union's common agricultural policy?

**Elin Jones:** First, I welcome your support for the young entrants scheme, launched a few years ago under the 'One Wales' agreement. The scheme has been extremely successful in its first year and I have secured an adequate budget for its future. As I said, I accept that



yr wyf wedi sicrhau ein bod yn diogelu cyllideb ddigonol ar gyfer ei barhad. Fel y soniais, derbynïaf fod nifer yn y diwydiant amaethyddol yn pryderu ynglŷn â Glastir, a dyna pam mae'r adolygiad yn digwydd ar hyn o bryd. Fel y dywedais, bydd y grŵp hwnnw yn rhoi ei argymhellion imi yr wythnos nesaf, mae'n debyg. Y cyd-destun yw hynny i gyd, ac yr hyn y byddai unrhyw ffermwr yng Nghymru yn ei ddweud wrthyh yw mai'r taliad pwysicaf i gynnal busnes y fferm deuluol yng Nghymru yw'r taliad sengl. Fel yr wyf wedi sôn, mae barn yr Ysgrifennydd Gwladol, a gefnogir gan y Torïaid yma, yn fgygythiad difrifol i ffermydd Cymru.

**Mark Isherwood:** I would urge you to check the Secretary of State's statement, Minister, which has a slightly different slant to that given in the statement that we have just heard.

The 'One Wales' commitment to which you referred is to develop a new replacement for Tir Mynydd post 2010. As you have indicated, Glastir will replace five agri-environment schemes that are clearly important to farmers in Aberconwy and elsewhere in Wales. You will be aware, Minister, that the original proposed scheme failed. The NFU's concerns about the scheme being impractical and unworkable at the farm level have been vindicated, and the president of the Farmers Union of Wales said that some serious questions now need to be asked about why we are in this situation. What will be the long-term implications of that failure? You have now indicated a timeline for the report on the review that you commissioned, and you said that you will hear about that next week. When will that be made publicly available, and when do you expect announcements to be made on implementation?

**Elin Jones:** Let me remind you of the words of the Secretary of State for Wales in her submission to the European Commission. She advocates a substantial cut to the budget of the common agricultural policy, and advocates a transition away from the single farm payment to other mechanisms under pillar 2. I do not think that those words can be questioned, because they are in the official

there are many in the agriculture industry who are concerned about Glastir, which is why a review is currently under way. As I said, that group is likely to present its recommendations to me next week. That is all context, and what any farmer in Wales would tell you is that the most important payment for supporting the family farm in Wales is the single payment. As I have said, the view of the Secretary of State, supported by the Tories here, is a serious threat to Welsh farms.

**Mark Isherwood:** Byddwn yn eich annog i edrych ar ddatganiad yr Ysgrifennydd Gwladol yn ofalus, Weinidog, oherwydd mae ganddo ogwydd ychydig yn wahanol i'r un rydym newydd ei glywed.

Yr ymrwymiad 'Cymru'n Un' y cyfeiriasoch ato yw datblygu cynllun newydd ar gyfer Tir Mynydd ar ôl 2010. Fel rydych wedi nodi, bydd Glastir yn disodli pum cynllun amaeth-amgylcheddol sy'n amlwg yn bwysig i ffermwyr yn Aberconwy a thu hwnt yng Nghymru. Byddwch yn gwybod, Weinidog, fod y cynllun arfaethedig gwreiddiol wedi methu. Mae pryderon Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr am y ffaith bod y cynllun yn anymarferol ar lefel y fferm wedi cael eu cyfiawnhau, a dywedodd ei lywydd bod angen gofyn rhai cwestiynau difrifol yn awr ynghylch pam rydym yn y sefyllfa hon. Beth fydd goblygiadau tymor hir y methiant hwnnw? Rydych wedi nodi amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiad ar yr adolygiad a gomisiynwyd gennych, ac rydych yn dweud y byddwch yn clywed am hynny yr wythnos nesaf. Pryd y bydd ar gael i'r cyhoedd, a phryd yr ydych yn disgwyl cyhoeddiadau i gael eu gwneud ar ei weithredu?

**Elin Jones:** Gadewch i mi eich atgoffa o eiriau Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ei chyflwyniad i'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae'n argymhell torri'n sylweddol ar gyllideb y polisi amaethyddol cyffredin, ac yn dadlau o blaid trosglwyddo i ffwrdd oddi wrth y taliad sengl i ddulliau eraill o dan golofn 2. Nid wyf yn credu y gellir amau'r geiriau hynny, gan eu bod yn nghyflwyniad

submission of the UK Government to the European Commission.

On Glastir, as I have said, the report will, I hope, come to me next week. I have no intention of not releasing the report or its recommendations, but let me have a look at it first. As I have said, I will, during this Assembly, make a further statement on the recommendations that have been proposed to me by the independent group. I look forward to seeing its recommendations, because I know that it has put a lot of hours and work into getting this as close to right as it can be.

### Ffermwyr Cymru

**7. Andrew R.T. Davies:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fesurau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi ffermwyr Cymru. OAQ(3)1288(RAF)*

**Elin Jones:** The Welsh Government has put in place a vast range of programmes, schemes and policies to support farmers in Wales. Examples include the Farming Connect programme, the young entrants support scheme, the effective delivery of the single payment scheme and the rural development plan.

**Andrew R.T. Davies:** I am sure, Minister, that, as you have gone around Wales to meet various farmers, and dairy farmers in particular, you have seen that one thing that is hindering the process of adding value to the product that they produce on the farm is processing capacity, particularly in south Wales, where there is a large milkfield. You will be aware that Arla Foods, a major player in the dairy industry, announced recently its investment in a major dairy in Buckinghamshire to serve the southern part of the United Kingdom. Can you confirm whether you are in a position, along with the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport, to bid for such a proposal in Wales? Do you agree that there is a major shortfall in capacity in Wales to process and add value to products, and that, unless we get that processing capacity, in south Wales in particular, there will always be a deficit in the marketplace?

swyddogol Llywodraeth y DU i'r Comisiwn Ewropeaidd.

O ran Glastir, fel y dywedais, gobeithio y bydd yr adroddiad yn dod i mi wythnos nesaf. Nid oes unrhyw fwriad peidio â rhyddhau'r adroddiad na'i argymhellion, ond gadewch i mi gael golwg arno gyntaf. Fel y dywedais, byddaf, yn ystod y Cynulliad hwn, yn gwneud datganiad pellach ar yr argymhellion a gynigiwyd i mi gan y grŵp annibynnol. Edrychaf ymlaen at weld ei argymhellion, oherwydd gwn ei fod wedi rhoi llawer o oriau a gwaith i'w gael mor gywir ag y gall fod.

### Welsh Farmers

**7. Andrew R.T. Davies:** *Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government measures to support Welsh farmers. OAQ(3)1288(RAF)*

**Elin Jones:** Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu amrywiaeth eang o raglenni, cynlluniau a pholisïau i gefnogi ffermwyr yng Nghymru. Mae enghreifftiau yn cynnwys y rhaglen Cyswllt Ffermio, y cynllun cymorth i newydd-ddyfodiaid, cyflwyniad effeithiol y cynllun taliad sengl a'r cynllun datblygu gwledig.

**Andrew R.T. Davies:** Rwy'n siŵr, Weinidog, wrth ichi fynd o gwmpas Cymru i gwrdd â gwahanol ffermwyr, a ffermwyr llaeth yn benodol, eich bod wedi gweld mai un peth sy'n llesteirio'r broses o ychwanegu gwerth at eu cynnyrch yw capasiti prosesu, yn enwedig yn y de, lle mae cronfa laeth fawr. Byddwch yn gwybod bod Arla Foods—cwmni pwysig yn y diwydiant llaeth—wedi cyhoeddi'n ddiweddar ei fod yn buddsoddi mewn llaethdy mawr yn swydd Buckingham i wasanaethu rhan ddeheuol y Deyrnas Unedig. A allwch chi gadarnhau eich bod mewn sefyllfa, ynghyd â'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, i wneud cais am gynnig o'r fath yng Nghymru? A ydych yn cytuno bod diffyg mawr mewn capasiti yng Nghymru i brosesu ac ychwanegu gwerth at gynnyrch, ac oni bai ein bod yn cael y capasiti prosesu hwnnw, yn y de yn benodol, bydd diffyg bob amser yn y farchnad?

**Elin Jones:** I have said for a while that there are two major gaps in food processing capacity in Wales: one is a killing plant in north Wales for beef, and the other is a milk processing plant in south Wales. There are others, of course, but those are the two major gaps in processing. I had a meeting earlier this week with dairy farmers in Llanelli, which had been convened by Helen Mary Jones. Those farmers are suppliers of Dairycrest. I have made sure that my officials know, and that the dairy processors know, that we are keen to work with any dairy processors that have plans to develop their business, and we hope to attract businesses to south Wales. We have had discussions with some and, while they continue, we need to get the message across to dairy processors that south and west Wales will have all the natural advantages of a great dairy-producing region into the future. Not every part of England, Wales and Scotland is able to say that in the face of climate change, but we will continue to have grass and rain in west Wales, and they are key components in dairy pastures.

**Helen Mary Jones:** Diolch i chi, Weinidog, am ymweld â'r grŵp hwnnw o ffermwr. Gwn eich bod yn falch o weld cynifer o ffermwyr cymharol ifanc. Codwyd yr un pwyntiau yno ag y mae Andrew R.T. Davies newydd eu codi. Gwn eich bod yn bwriadu cwrdd cyn hir â phrif weithredwr Dairycrest. Seilir penderfyniadau cwmnïau ar y ffordd y maent yn gweld y farchnad yn datblygu yn y dyfodol, ond pan fyddwch yn cwrdd â'r prif weithredwr, a wnewch chi ddweud yn glir y byddwch, os daw cais addas gan Dairycrest—neu gwmini addas arall—yn cydweithredu gyda'r Dirprwy Brif Weinidog i weld a oes modd i Lywodraeth Cymru gefnogi'r cais hwnnw?

**Elin Jones:** Bu'n bleser cwrdd â chynifer o ffermwyr ifanc sydd â diddordeb yn nyfodol eu busnesau fferm ac yn y sector llaeth yn benodol. Er mwyn cael pris teg am eu llaeth, maent yn ymwybodol, fel yr wyf innau ac eraill yma, fod angen bod yn agos at y proseswyr llaeth a bod bwlch yn y de o ran prosesydd llaeth sylweddol o fewn cyrraedd rhesymol i'r cynhyrchwyr llaeth.

**Elin Jones:** Rwyf wedi dweud ers tro bod dau fwlch mawr o ran capasiti prosesu bwyd yng Nghymru: un yw ffatri ladd yn y gogledd ar gyfer cig eidion, a'r llall yw ffatri brosesu llaeth yn y de. Mae eraill, wrth gwrs, ond dyna'r ddau fwlch mawr o ran prosesu. Cefais gyfarfod yn gynharach yr wythnos hon gyda ffermwyr llaeth yn Llanelli, a drefnwyd gan Helen Mary Jones. Mae'r ffermwyr hynny yn cyflenwi Dairycrest. Rwyf wedi sicrhau bod fy swyddogion yn gwybod, a bod y proseswyr llaeth yn gwybod, ein bod yn awyddus i weithio gydag unrhyw broseswyr llaeth sydd â chynlluniau i ddatblygu eu busnes, ac rydym yn gobeithio denu busnesau i'r de. Cawsom drafodaethau gyda rhai ac, er eu bod yn parhau, mae angen i ni gyfleu'r neges i broseswyr llaeth y bydd y de a'r gorllewin yn cael holl fanteision naturiol rhanbarth dda sy'n cynhyrchu llaeth yn y dyfodol. Nid yw pob rhan o Gymru, Lloegr a'r Alban yn gallu dweud hynny yn wyneb newid yn yr hinsawdd, ond byddwn yn parhau i gael glaswellt a glaw yn y gorllewin, ac maent yn elfennau allweddol mewn porfeydd llaeth.

**Helen Mary Jones:** Thank you, Minister, for visiting that group of farmers. I know that you were pleased to see so many relatively young farmers. The same points were made there as were made today by Andrew R.T. Davies. I know that you intend to have a meeting before long with the chief executive of Dairycrest. The decisions made by companies are based on what they perceive to be future market development, but, when you meet with the chief executive, will you say clearly that, should an appropriate bid come in from Dairycrest—or any other appropriate company—you will work with the Deputy First Minister to see whether it would be possible for the Welsh Government to support that bid?

**Elin Jones:** It was a pleasure to meet so many young farmers interested in the future of their farm businesses, particularly in the dairy sector. In order to secure a fair price for their milk, they know, as do I and others here, that they need to be located close to the milk processors and that there is a gap in south Wales, where there is no significant milk processor located within reasonable distance of the milk producers.

Fel y dywedais, mae'r Llywodraeth hon am weithio gydag unrhyw brosesydd llaeth sydd â diddordeb mewn buddsoddi mewn ffatri laeth a'i datblygu yn y de. Yr ydym am sicrhau bod y neges yn glir i bawb, ac mae fy swyddogion yn cyfarfod â phroseswyr ac yn gweithio gyda hwy ar y syniad hwn. Yn y pen draw, wrth gwrs, penderfyniad masnachol y cwmnïau eu hunain fydd hyn. Fel Llywodraeth, fodd bynnag, yr ydym yn awyddus i geisio denu'r math hwn o fuddsoddiad i Gymru.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Minister, the banning of on-farm burial has placed a costly burden on the livestock industry. Bioreduction technology trials at Bangor University are to end shortly, and the outcomes of those trials seem very positive. What representations has your Government made to the European Food Safety Authority to allow the use of bioreduction in future?

**Elin Jones:** We have secured the amendment to the EU regulations with regard to on-farm burial that will allow for bioreduction. That is a significant success led by Wales, which introduced the amendment to the regulations. That will, hopefully in the near future, allow us to take advantage of the excellent work carried out by Bangor University in seeking a solution to on-farm bioreduction so that dead animals do not need to be transported from the farm, but can be dealt with on the farm.

I will need to write to you on the particular issue of EFSA approval, because I cannot recall it at this point.

**Kirsty Williams:** I am grateful for your assurance that you will take another look. It is vital that we have approval from EFSA, otherwise all the hard work by Bangor University will be lost, as will our ability to use the new Animal By-Products (Enforcement) (Wales) Regulations 2011. Do you agree that, as we mark the tenth anniversary of the foot and mouth disease outbreak it is not just cutting costs that would be beneficial in the context of on-farm burial?

As I said, this Government wants to work with any milk processor interested in investing in and developing a facility in south Wales. We want to ensure that that message is clear to everybody, and my officials are meeting with processors and working with them on this idea. Ultimately, of course, this will be a commercial decision for the companies themselves. As a Government, however, we are keen to try to attract this kind of investment to Wales.

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Weinidog, mae gwahardd claddu ar y fferm wedi gosod baich gostus ar y diwydiant da byw. Mae treialon technoleg biododdi ym Mhrifysgol Bangor yn dod i ben yn fuan, ac ymddengys eu bod yn gadarnhaol iawn. Pa sylwadau a wnaeth eich Llywodraeth i'r Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd i ganiatáu defnyddio biododdi yn y dyfodol?

**Elin Jones:** Rydym wedi sicrhau gwelliant i'r rheoliadau UE o ran claddu ar y fferm a fydd yn caniatáu ar gyfer biododdi. Mae hynny'n llwyddiant sylweddol a arweinir gan Gymru, a gyflwynodd y gwelliant i'r rheoliadau. Bydd hynny, yn y dyfodol agos, gobeithio, yn ein galluogi i fanteisio ar y gwaith ardderchog a wneir gan Brifysgol Bangor yn ceisio ateb i fiododdi ar y fferm fel nad yw anifeiliaid marw yn gorfod cael eu cludo o'r fferm, ond y gellir ymdrin â hwy ar y fferm.

Bydd raid imi ysgrifennu atoch ar y mater penodol ynghylch cymeradwyaeth EFSA, oherwydd ni allaf ei gofio ar hyn o bryd.

**Kirsty Williams:** Rwy'n ddiolchgar am eich sicrwydd y byddwch yn cael golwg arall. Mae'n hanfodol ein bod yn cael cymeradwyaeth gan EFSA, fel arall bydd holl waith caled Prifysgol Bangor yn cael ei golli, fel y bydd ein gallu i ddefnyddio'r Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011 newydd. A ydych yn cytuno, wrth i ni nodi 10 mlynedd ers y clwy traed a'r genau, mai nid dim ond torri costau a fyddai o fudd yng nghyd-destun claddu ar y fferm?

2.15 p.m.

There are many farmers who feel strongly that our current service constitutes a potential biohazard, and that it would be much more acceptable if we could dispose of animals in this particular way. You will know that the trials in Bangor use a tank that would need to be supplied by a flock of around 1,200 ewes, and you will be aware that there are not many flocks of that size in Wales. Farmers will therefore have to group together to install this kind of technology. Do you envisage the Welsh Assembly Government being in a position to help install some of this infrastructure around Wales?

**Elin Jones:** It will be a matter for the next Assembly Government as to whether there will be grant support for bioreducers on farms. However, I agree with the general point that it is best if we can reduce the transport of dead animals and dispose of animals on farm. It would significantly lessen costs and any risks attached to the transport of dead animals.

#### Amaethyddiaeth yn y Gogledd

**8. Darren Millar:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y diwydiant amaethyddiaeth yng Ngogledd Cymru. OAQ(3)1304(RAF)*

**Elin Jones:** The agriculture industry in north Wales is key to the economic wellbeing of that region.

**Darren Millar:** It certainly is key to the economic wellbeing of the region. However, many farmers in the region, particularly in my constituency, seem to have experienced significant problems in receiving their single farm payments this year for some reason. I know, through correspondence with you, that many of these issues have now been resolved. However, given the impact that this situation could have on cash flow, and given its potential to jeopardise the future of a business because of the impact on cash flow, I would be grateful if you would outline what steps are being taken by your department to ensure that there are not unnecessary delays in responding when a problem is identified.

Mae llawer o ffermwyr yn teimlo'n gryf bod ein gwasanaeth presennol yn gyfystyr â bioberygl posibl, ac y byddai'n llawer mwy derbyniol pe gallem waredu anifeiliaid yn y ffordd arbennig hon. Gwyddoch bod y treialon ym Mangor yn defnyddio tanc y byddai angen ei gyflenwi gan ddiadell o tua 1,200 o famogiaid, a gwyddoch hefyd nad oes llawer o ddiadellau mor fawr â hynny yng Nghymru. Felly, bydd yn rhaid i ffermwyr grwpio gyda'i gilydd i osod technoleg o'r fath. A ydych yn rhagweld y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn sefyllfa i helpu i osod rhywfaint o'r seilwaith hwn o amgylch Cymru?

**Elin Jones:** Mater i Lywodraeth nesaf y Cynulliad fydd penderfynu a fydd cymorth grant i fiododdwyr ar ffermydd. Fodd bynnag, cytunaf â'r pwynt cyffredinol ei bod yn well os gallwn leihau cludo anifeiliaid marw a gwaredu anifeiliaid ar y fferm. Byddai'n lleihau costau yn sylweddol ac unrhyw risgiau a ddaw yn sgîl cludo anifeiliaid marw.

#### Agriculture in North Wales

**8. Darren Millar:** *Will the Minister make a statement on the agricultural industry in North Wales. OAQ(3)1304(RAF)*

**Elin Jones:** Mae'r diwydiant amaeth yn y gogledd yn allweddol i les economaidd y rhanbarth hwnnw.

**Darren Millar:** Mae'n sicr yn allweddol i les economaidd y rhanbarth. Fodd bynnag, ymddengys bod llawer o ffermwyr yn y rhanbarth, yn arbennig yn fy etholaeth i, wedi cael problemau sylweddol eleni, am ryw reswm, yn derbyn eu taliadau sengl. Rwy'n gwybod, trwy ohebiaeth gyda chi, bod llawer o'r materion hyn wedi eu datrys bellach. Fodd bynnag, o ystyried yr effaith y gallai'r sefyllfa hon ei chael ar lif arian parod, ac o ystyried ei photensial i beryglu dyfodol busnes oherwydd yr effaith ar lif arian, byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu pa gamau sy'n cael eu cymryd gan eich adran i sicrhau nad oes oedi diangen wrth ymateb pan fydd problem yn cael ei nodi.

**Elin Jones:** A higher percentage of farmers received their single farm payment on 1 December than we have ever achieved before. However, as I have always said, in welcoming such a high percentage, we should remember that those who have not been paid will feel doubly aggrieved at not having been paid on that first day. In achieving that percentage, we had to work through issues with those farmers who had continuing issues before payments could be made. I know that a number of those farmers have made representations to Assembly Members, as they have made them to me in my own area. I can give the commitment that it is a high priority for me to achieve significant payment on the first date, and also to work through any remaining issues with all remaining farmers as quickly as possible. The quicker this money gets to the farmers, the quicker it gets distributed into the local economy.

**Gareth Jones:** Yn wyneb polisi'r Torïaid yn Llundain i gael gwared yn gyfan gwbl ar daliadau uniongyrchol i ffermwyr yn sgîl diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin, oni fyddai'n well i Mr Millar drefnu bod un o'i gydweithwyr yn San Steffan i ofyn yr un cwestiwn i Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Llundain?

**Elin Jones:** Dywedaf unwaith eto fod safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ar y polisi amaethyddol cyffredin ar hyn o bryd yn safbwynt anffodus iawn a allai beryglu nifer o'n ffermydd teuluol yng Nghymru. Yn sicr, mae'n safbwynt sy'n peri gofid i ffermwyr yng Nghymru. Er mwyn i daliadau gael eu gwneud yn brydlon, mae'n rhaid bod y taliadau hynny ar gael i'w gwneud yn y man cyntaf. Mae'r arian hwnnw yn dod o Ewrop. Felly, gan fod y Torïaid yn arddel lleihau'r gyllideb honno yn sylweddol, mae'n bosibl y byddai mwy o daliadau yn cael eu gwneud yn gynt. Serch hynny, ni fyddai ffermwyr yn croesawu'r cam hwnnw, gan y byddai'r taliadau yn llawer llai.

**Eleanor Burnham:** Gofynnais gwestiwn ichi o'r blaen ynglŷn â'r math o arweiniad y byddwch yn ei roi awdurdodau lleol, yn enwedig yn fy rhanbarth i, sef rhanbarth gogledd Cymru, sy'n berchen ar ffermydd

**Elin Jones:** Derbyniodd canran uwch o ffermwyr eu taliad sengl ar 1 Rhagfyr nag rydym wedi'i gyflawni erioed o'r blaen. Fodd bynnag, fel rwyf wastad wedi'i ddweud, wrth groesawu canran mor uchel, dylem gofio y bydd y rhai na chawsant eu talu yn teimlo ddwywaith mor ddig na chawsant eu talu ar y diwrnod cyntaf. Wrth gyflawni'r ganran honno, bu'n rhaid inni ddatrys problemau gyda'r ffermwyr hynny a oedd â phroblemau parhaus cyn y gellid gwneud y taliadau. Gwn fod nifer o'r ffermwyr hynny wedi cyflwyno sylwadau i Aelodau Cynulliad, gan eu bod wedi eu gwneud i mi yn fy ardal fy hun. Gallaf roi ymrwymiad ei fod yn flaenoriaeth uchel i mi gyflawni taliad sylweddol ar y dyddiad cyntaf, a hefyd i ddatrys unrhyw broblemau sy'n weddill gyda'r holl ffermwyr sy'n weddill cyn gynted ag y bo modd. Y cyntaf yr aiff yr arian hwn i ffermwyr, y cyntaf y caiff ei ddsbarthu i'r economi leol.

**Gareth Jones:** In light of the policy of the Tories in London to totally scrap direct payments to farmers following the common agricultural policy review, would it not be better for Mr Millar to arrange for one of his colleagues in Westminster to ask the same question of the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs in London?

**Elin Jones:** I will reiterate that the UK Government's stance on the common agricultural policy at the moment is a very unfortunate one that could put a number of our family farms in Wales at risk. Certainly, it is a stance that is causing farmers in Wales concern. In order for payments to be made promptly, those payments have to be available in the first place. That money comes from Europe. Therefore, given that the Tories are advocating reducing that budget substantially, it is possible that more payments could be made more swiftly. Despite that, farmers would not welcome it, as the payments would be much smaller.

**Eleanor Burnham:** I have asked you previously about the kind of guidance that you will give local authorities, particularly in my region, north Wales, which own farms but wish to sell them. This is causing great

ond am eu gwerthu. Mae hyn yn peri pryder mawr. Mae'r undebau wedi bod yn gofyn cwestiynau am hyn ac mae *Farming Wales* y mis hwn yn sôn am y mater. Felly, mae hwn yn bryder mawr. Beth allwch ei wneud i helpu awdurdodau lleol osgoi'r drafferth y bydd hyn yn ei achosi i gefn gwlad a'r ffermwyr sy'n gweithio ar y ffermydd hyn?

**Elin Jones:** Rhoddais dystiolaeth i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn ystod ei ymchwiliad i ffermydd sy'n eiddo i gynghorau. Nid rôl uniongyrchol y Llywodraeth yw ariannu cadw'r ffermydd hyn o dan berchnogaeth gyhoeddus. Yr unig beth y gallaf ei ddweud wrth yr awdurdodau lleol sy'n edrych i werthu asedau o'r fath yw y dylent edrych i'r tymor hir, yn ogystal ag ar yr hyn y gallant ei gyflawni yn y tymor byr. Rhaid iddynt dderbyn bod y cyfleoedd y mae'r ffermydd hyn yn ei roi i bobl ifanc gael mynediad i'r diwydiant amaethyddol yn bwysig iawn ar hyd a lled Cymru. Nid yw pawb sydd â diddordeb mewn ffermio yn dod o deulu sy'n ffermio ac yn gallu etifeddu fferm. Mae gan nifer o bobl ifanc nad ydynt yn dod o gefndir amaethyddol ddiddordeb mewn cael dyfodol yn y diwydiant ffermio. Mae rôl ffermydd cynghorau sir yn allweddol i roi'r cyfle cyntaf iddynt.

concern. The unions have been asking questions about this and *Farming Wales* this month talks about the issue. Therefore, this is a great concern. What can you do to help local authorities to avoid the trouble that this would cause rural Wales and the farmers that work on these farms?

**Elin Jones:** I provided evidence to the Rural Development Subcommittee during its inquiry into council-owned farms. The Government does not have a direct role to fund keeping those farms in public ownership. All that I can say to the local authorities that are looking to sell such assets is that they should look to the long term, as well as at what they can achieve in the short term. They must accept that the opportunities that these farms provide for young people to gain entry into the farming industry are very important throughout Wales. Not everyone who is interested in farming comes from a farming family and can inherit a farm. There are number of young people who do not come from an agricultural background who are interested in a future in the farming industry. The role of county council farms is crucial in giving them that first opportunity.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing**

### **Trosglwyddo Stoc Tai**

**1. Bethan Jenkins:** *Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o benderfyniad y Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch y cynlluniau trosglwyddo stoc tai yng Nghastell-nedd ac Aberafan.*  
OAQ(3)1580(ESH)

**The Deputy Minister for Housing and Regeneration (Jocelyn Davies):** I took legal advice from the Counsel General on the Information Commissioner's ruling and I am satisfied that it did not prevent me from consenting to the transfer.

**Bethan Jenkins:** Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei chymorth yn hyn o beth. Fodd bynnag, yn ôl asesiad ei swyddogion, fel y dywedwyd, nid oedd y cyngor o dan

### **Housing Stock Transfer**

**1. Bethan Jenkins:** *What assessment has the Minister made of the Information Commissioner's ruling on the housing stock transfer plans in Neath and Aberavon.*  
OAQ(3)1580(ESH)

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** Cymerais gyngor cyfreithiol gan y Cwnsler Cyffredinol ar ddyfarniad y Comisiynydd Gwybodaeth ac rwy'n fodlon na wnaeth fy atal rhag rhoi caniatâd i'r trosglwyddo.

**Bethan Jenkins:** I would like to thank the Deputy Minister for her assistance in this regard. However, according to the assessment of officials, as has been said, the council was

unrhyw rwymedigaeth i ganiatáu ymgyrch i wrthwynebu'r cynlluniau na rhoi gwybodaeth i'r ymgyrch honno. Efallai bod hynny'n dechnegol gywir, ond ni chredaf ei bod yn foesol gywir. Mae gwrthwynebwyr yn yr ardal yn cwestiynu tactegau'r cyngor i gael y bleidlais drwodd. Wedi'r cyfan, rhaid cwestiynu beth yw pwrpas refferendwm pan na all yr ymgyrch 'na' gael mynediad at gyfeiriadau pobl sy'n byw yn lleol. A fydd y Gweinidog yn ailystyried ysgrifennu canllawiau ar drosglwyddo stoc tai, er mwyn rhoi'r dewis i drigolion i wrthwynebu cynlluniau o'r fath mewn modd democrataidd, ac i wneud hynny ar sail gyfartal?

**Jocelyn Davies:** All the information released by the local authority was checked for factual accuracy and accessibility and it laid out the consequences of voting 'yes' and of voting 'no'. The point that Neath Port Talbot County Borough Council made was that, without a transfer, it could not afford to achieve the Welsh housing quality standard. I do not see any problem in agreeing to have a look at our guidance. I know that the local authority is appealing against the Information Commissioner's ruling and, when that process is concluded, I think that we could look to see whether there is anything in the ruling that needs to be incorporated into our guidance.

**Brian Gibbons:** It is important to put on the record and to let there be no doubt that Neath Port Talbot council behaved with absolute integrity in delivering this housing stock transfer. It did so with a heavy heart—certainly there were no enthusiastic evangelists for going down that particular route in Neath Port Talbot. Bethan Jenkins can shake her head and question the judgment of her own Deputy Minister on this, but there is no doubt that Neath Port Talbot council pursued this with absolute integrity. Not only did it put the case before the people, but it put the case for and against, so that people were in a position to make a clear decision as to which way they wanted to go. The ballot was carried out by the Electoral Reform Society, which Bethan is suggesting was incapable in some way of carrying out its duties with integrity. Although we are all reluctant to go down this

not under any obligation to allow a campaign to oppose the plans or to provide information to that campaign. That may be technically correct, but I do not think that it is morally right. Opponents in the area are questioning the council's tactics to get the vote through. After all, one has to question the purpose of a referendum when the 'no' campaign cannot access the addresses of those living locally. Will the Minister reconsider writing guidance on housing stock transfer in order to give residents the choice to oppose such schemes in a democratic manner, and to do so on an equal basis?

**Jocelyn Davies:** Cafodd yr holl wybodaeth a ryddhawyd gan yr awdurdod lleol ei wirio am gywirdeb ffeithiol a hygyrchedd ac roedd yn amlinellu goblygiadau pleidleisio 'ie' a phleidleisio 'na'. Y pwynt a wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot oedd na allai fforddio cyrraedd safon ansawdd tai Cymru heb drosglwyddo. Ni welaf unrhyw broblem mewn cytuno i gael golwg ar ein canllawiau. Gwn fod yr awdurdod lleol yn apelio yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd Gwybodaeth, a phan fydd y broses honno wedi dod i ben, gallwn edrych i weld a oes unrhyw beth yn y dyfarniad sydd angen ei ymgorffori yn ein canllawiau.

**Brian Gibbons:** Mae'n bwysig rhoi ar goedd nad oes amheuaeth bod Castell-nedd Port Talbot wedi ymddwyn yn gwbl onest o ran trosglwyddo'r stoc tai hwn. Gwnaeth hynny gyda chalon drom—yn sicr nid oedd unrhyw un yn hynod frwdfrydig dros fynd lawr y llwybr benodol honno yng Nghastell-nedd Port Talbot. Gall Bethan Jenkins ysgwyd ei phen a chwestiynu barn ei Dirprwy Weinidog ei hun ar hyn, ond nid oes amheuaeth bod Castell-nedd Port Talbot wedi gwneud hyn yn gwbl ddidwyll. Nid yn unig y mae wedi rhoi'r achos gerbron y bobl, ond rhoddodd yr achos o blaid ac yn erbyn, fel bod pobl mewn sefyllfa i wneud penderfyniad clir o ran sut roeddynt am bleidleisio. Cynhaliwyd y bleidlais gan y Gymdeithas Newid Etholiadol, ond awgryma Bethan nad oedd, mewn rhyw ffordd, yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn ddidwyll. Er ein bod i gyd yn amharod i fynd lawr y ffordd hon, mae



road, it is necessary to provide the tenants in Neath Port Talbot with twenty-first century housing. I want to see that £250 million spent on modernising that accommodation, providing extra jobs, so that people will be able to live in modern, decent housing.

**Jocelyn Davies:** I do not disagree with you, Brian. I think that the issue is the housing finance regime, and I said in my answer to Bethan that Neath Port Talbot council made it very clear that, without transfer, it could not have afforded to meet the Welsh housing quality standard. No local authority in Wales that could have afforded to meet that standard has opted to ballot its tenants. That is the case in every area. The One Wales Government ensures that the information that goes to tenants—it is only tenants who can vote—must lay out the consequences of a ‘yes’ vote and of a ‘no’ vote. I repeat that, as I did to Bethan. I personally check the offer document to ensure that that is the case, that the information is easily understood, and that tenants have information on which to base their decisions. You are quite right that the vote is carried out independently of the local authority; the ballot is not done by the local authority. I also agree that we now need to see that the regeneration opportunity that will come from the extra money that will be able to go to Neath Port Talbot will benefit the local community, not just in the upgrading of the properties, but because the jobs and the supply chain and training opportunities and so on fall to the people in Neath Port Talbot. I am not quite sure, Brian, why you are so angry with me. [*Laughter.*]

**The Presiding Officer:** Nobody is angry with anybody; this is a civilised place.

### Tai Cymdeithasol

**2. Mark Isherwood:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru. OAQ(3)1591(ESH)*

**Jocelyn Davies:** In 2011-12, the Welsh Government has made available more than £95 million to support a range number of social housing initiatives, helping to meet the

angen darparu tai unfed ganrif ar hugain i denantiaid Castell-nedd Port Talbot. Rwyf am weld y £250 miliwn hwnnw yn cael ei wario ar foderneiddio'r tai hynny, yn darparu swyddi ychwanegol, fel bod pobl yn gallu byw mewn tai modern o safon.

**Jocelyn Davies:** Nid wyf yn anghytuno gyda chi, Brian. Tybiaf fod problem yn y drefn cyllid tai, a dywedais yn fy ateb i Bethan fod cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi dweud yn hollol glir na allai fod wedi fforddio cyrraedd safon ansawdd tai Cymru heb drosglwyddo. Nid oes unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru a allai fforddio cyrraedd y safon honno wedi dewis gofyn i'w denantiaid bleidleisio. Mae hynny'n wir ym mhob ardal. Mae Llywodraeth Cymru'n Un yn sicrhau bod y wybodaeth a roddir i denantiaid—dim ond tenantiaid sy'n gallu pleidleisio—yn amlinellu goblygiadau pleidlais 'ie' neu 'na'. Dywedaf hynny eto, fel y gwneuthum wrth Bethan. Rwyf yn bersonol yn edrych dros y ddogfen gynnig i sicrhau mai dyna'r achos, bod y wybodaeth yn hawdd i'w deall, a bod gan denantiaid wybodaeth i seilio eu penderfyniadau arni. Rydych yn llygad eich lle bod y bleidlais yn cael ei chynnal yn annibynnol ar yr awdurdod lleol; nid yr awdurdod lleol sy'n ei chynnal. Cytunaf hefyd bod angen gweld yn awr a fydd y cyfle adfywio a ddaw o'r arian ychwanegol a fydd yn gallu mynd i Gastell-nedd Port Talbot o fudd i'r gymuned leol, nid yn unig o ran uwchraddio'r eiddo, ond oherwydd bod y swyddi a'r gadwyn gyflenwi a chyfleoedd hyfforddi ac yn y blaen yn disgyn i bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot. Nid wyf yn hollol siŵr, Brian, pam eich bod mor flin gyda fi. [*Chwerthin.*]

**Y Llywydd:** Does neb yn flin gydag unrhyw un; mae hwn yn lle gwaraidd.

### Social Housing

**2. Mark Isherwood:** *Will the Minister make a statement on funding for social housing in Wales. OAQ(3)1591(ESH)*

**Jocelyn Davies:** Yn 2011-12, rhoddodd Llywodraeth Cymru fwy na £95 miliwn i gefnogi amryw o fentrau tai cymdeithasol, gan helpu i gwrdd â tharged tai fforddiadwy

'One Wales' affordable housing target as well as more than £150 million to support the most vulnerable of those facing homelessness in Wales.

**Mark Isherwood:** Several housing association representatives have used the term 'black hole' with regard to funding in speaking to me. We know that the social housing grant is to fall by a further 47 per cent over the next three years. You originally advised Members in evidence to committee that this gap would be helped to be filled by the Welsh housing investment trust, but this collapsed just before Christmas when housing associations, as described to me, said that it was undeliverable and that raising money on an asset by getting rid of it was a step too far. You are now moving forward on a new model, which you are still calling the Welsh housing investment trust, but which comprises the housing bond—which we support of course—and a rent-first or intermediate rent scheme, with an option to purchase later. Given that you had originally anticipated that the Welsh housing investment trust would be coming online in April, when do you anticipate the housing bond will be producing money for social and affordable housing in Wales? On the rent-first scheme, have you already discussed this with the mortgage lenders who would ultimately be required to underwrite it?

**Jocelyn Davies:** I know that there is a significant reduction in the social housing grant budget as we go forward. You describe it as a black hole. Everybody in the Chamber knows that we brought forward spending from future years in order to stimulate the construction industry in the teeth of the recession. It is impossible when you have brought forward money to spend it again the following year. Of course, the cut to the capital budget is not the choice of this Government. So, the reduction in the social housing grant budget is not as a result of plans to launch the housing investment trust. What I told the committee was that, if we could get a workable model, it would certainly help to alleviate the situation. Obviously, this Government is exploring new funding initiatives, along with the sector.

'Cymru'n Un' yn ogystal â mwy na £150 miliwn i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed sy'n wynebu digartrefedd yng Nghymru.

**Mark Isherwood:** Mae nifer o gynrychiolwyr cymdeithasau tai wedi defnyddio'r term 'twll du' o ran cyllid wrth siarad â mi. Gwyddom y bydd y grant tai cymdeithasol yn gostwng ymhellach o 47 y cant dros y tair blynedd nesaf. Dywedasoeh yn wreiddiol wrth Aelodau mewn tystiolaeth i'r pwyllgor y byddai ymddiriedolaeth buddsoddi tai Cymru yn helpu i lenwi'r bwllch hwn, ond disgynnodd hyn yn ddarnau ychydig cyn y Nadolig pan ddywedodd cymdeithasau tai, fel y disgrifiwyd i mi, na ellid ei ddarparu a bod codi arian ar ased drwy gael gwared ohono yn gam rhy bell. Rydych yn awr yn symud ymlaen gyda model newydd, rydych yn dal i'w alw yn ymddiriedolaeth buddsoddi tai Cymruond sy'n cynnwys y bond tai—yr ydym yn ei gefnogi, wrth gwrs—a chynllun rhent yn gyntaf neu gynllun rhent canolradd, gydag opsiwn i brynu'n ddiweddarach. O gofio eich bod wedi rhagweld yn wreiddiol y byddai ymddiriedolaeth buddsoddi tai Cymru yn dod i rym ym mis Ebrill, pryd rydych yn rhagweld y bydd y bond tai yn cynhyrchu arian ar gyfer tai cymdeithasol a fforddiadwy yng Nghymru? O ran y cynllun rhent yn gyntaf, a ydych eisoes wedi trafod hyn gyda'r benthyccwyr morgeisi y byddai gofyn iddynt ei warantu yn y pen draw?

**Jocelyn Davies:** Gwn y bu gostyngiad sylweddol yn y gyllideb grantiau tai cymdeithasol wrth inni symud ymlaen. Rydych yn ei ddisgrifio fel twll du. Mae pawb yn y Siambr yn gwybod ein bod wedi dwyn gwariant ymlaen o flynyddoedd yn y dyfodol er mwyn rhoi hwb i'r diwydiant adeiladu yn wyneb y dirwasgiad. Mae'n amhosibl, pan fyddwch wedi dwyn arian ymlaen, i'w wario eto y flwyddyn ganlynol. Wrth gwrs, nid dewis y Llywodraeth hon yw torri'r gyllideb gyfalaf. Felly, nid yw'r gostyngiad yn y gyllideb grant tai cymdeithasol yn ganlyniad i gynlluniau i lansio'r ymddiriedolaeth fuddsoddi tai. Yr hyn a ddywedais wrth y pwyllgor oedd, pe gallem gael model ymarferol, y byddai'n sicr yn helpu i liniaru'r sefyllfa. Yn amlwg, mae'r Llywodraeth hon yn archwilio mentrau

These are coming from the work undertaken to develop the housing investment trust. These are incredibly complex matters and they are very difficult mechanisms to get off the ground. I hope that I will be able to announce something shortly. Obviously, any Minister would prefer to be able to announce good news within their term of office, and before *purdah*, but we shall have to see.

cyllido newydd, ynghyd â'r sector. Mae'r rhain yn dod o'r gwaith a wnaed i ddatblygu'r ymddiriedolaeth fuddsoddi tai. Mae'r rhain yn faterion hynod gymhleth ac maent yn fecanweithiau anodd iawn i'w cychwyn. Gobeithio y byddaf yn gallu cyhoeddi rhywbeth cyn bo hir. Yn amlwg, byddai'n well gan unrhyw Weinidog allu cyhoeddi newyddion da o fewn eu cyfnod yn y swydd, a chyn *purdah*, ond bydd rhaid inni weld.

2.30 p.m.

**The Presiding Officer:** Order. I do not know what this '*purdah*' is.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid wyf yn gwybod beth yw'r '*purdah*' yma.

**Helen Mary Jones:** Deputy Minister, I know that the Presiding Officer has just reminded us all that we do not get angry in the Chamber, but do you agree that it is quite difficult for some of us to avoid doing that when we have Conservatives raising issues with you when it is their Government that has enforced a 40 per cent cut in your capital budget? I am sure we all regret the fact that there is not more money available, but you have to work with what you have. In that context, I welcome your decision to protect the maintenance and repairs allowance. Will you commit, at least for the time that you are the Deputy Minister for housing, to ensure that that is maintained? Even if we cannot build as many new homes as we would like to, we need to ensure that tenants can get quick access to proper repairs in existing homes.

**Helen Mary Jones:** Ddirprwy Weinidog, gwn fod y Llywydd newydd atgoffa bob un ohonom nad ydym yn mynd yn flin yn y Siambr, ond a ydych yn cytuno ei bod yn eithaf anodd i rai ohonom osgoi gwneud hynny pan fydd gennym Geidwadwyr yn codi materion gyda chi pan y gwyddom mai eu Llywodraeth nhw sydd wedi gorfodi toriad o 40 y cant yn eich cyllideb cyfalaf? Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn gresynu at y ffaith nad oes mwy o arian ar gael, ond rhaid i chi weithio gyda'r hyn sydd gennych. Yn y cyddestun hwnnw, croesawaf eich penderfyniad i amddiffyn y lwfans cynnal ac atgyweiriadau. A wnewch chi ymrwymo, o leiaf am yr amser rydych chi'n Ddirprwy Weinidog tai, i sicrhau bod hynny'n cael ei gynnal? Hyd yn oed os na allwn adeiladu gymaint o gartrefi newydd ag y byddem yn hoffi, mae angen inni sicrhau y gall tenantiaid gael mynediad cyflym i atgyweiriadau priodol yn eu cartrefi presennol.

**Jocelyn Davies:** The reduction in the capital budget is not a decision that was taken by the Assembly Government; we can spend only what is given to us, and a considerable cut to that budget has been made by the UK Government. Within my budget, I have had to prioritise. I decided to protect the major repairs allowance. Since 2007, we have made considerable funds of £430 million and £62 million from the strategic capital investment fund available for the social housing grant, and the sector has responded very well by borrowing more. I felt that existing tenants and the conditions of the properties in which they live was an important priority for us and

**Jocelyn Davies:** Nid penderfyniad Llywodraeth y Cynulliad oedd gostwng y gyllideb gyfalaf; dim ond yr hyn a roddwyd i ni y gallwn ei wario, a gwnaethpwyd toriad sylweddol i'r gyllideb honno gan Lywodraeth y DU. Bu'n rhaid i mi flaenoriaethu fy nghyllideb. Penderfynais ddiogelu'r lwfans atgyweiriadau mawr. Ers 2007, rydym wedi darparu arian sylweddol o £430 miliwn a £62 miliwn o'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol i'r grant tai cymdeithasol, ac mae'r sector wedi ymateb yn dda iawn drwy fenthylg mwy. Teimlais bod tenantiaid presennol a chyflwr yr eiddo maent yn byw ynddo yn flaenoriaeth bwysig i ni ac mai dyna oedd y gyllideb orau

that that was the best budget for me to protect. If you protect one budget, then another budget obviously suffers as a result, but I am perfectly prepared to stand by my decision to protect the major repairs allowance.

**Peter Black:** Minister, I understand that individual spending decisions by local authorities are not your responsibility, and that the target of reaching the Welsh housing quality standard by 2012 was not a target that you set. However, you will be aware that, as of 2008, only 4 per cent of local authority houses and 9 per cent of housing association properties were meeting that standard. Given the access that you have to all of the housing plans that have been produced by local authorities, and your understanding of the investment decisions being put forward by local councils over the next few years, when do you envisage substantial progress being made towards achieving that target?

**Jocelyn Davies:** You are quite right; the Welsh housing quality standard requires every local authority that has stock to submit a 30-year business plan each year to qualify for the major repairs allowance. If a local authority does not have a workable business plan, we have made changes this year that allow us to assist that local authority in releasing as many resources as possible in order to meet the standard. Two local authorities balloted tenants and got a 'no' vote. They do not have viable business plans and we do not expect them to, but we have continued to pay the major repairs allowance to those local authorities. They will take a very long time to reach the Welsh housing quality standard.

Since I have been the Deputy Minister for Housing and Regeneration, a number of stock transfers have gone through and because there is no claw back through the housing revenue account to the UK Government, there is more money to spend. In addition, they are able to borrow money, so considerably more resources can be spent over a short period of time. I am told that Monmouthshire Housing Association expects to get there very soon and others are making

i mi ei diogelu. Os ydych yn diogelu un gyllideb, yna mae cyllideb arall yn amlwg yn dioddef o ganlyniad, ond rwy'n hollol barod i lynu at fy mhenderfyniad i ddiogelu'r lwfans atgyweiriadau mawr.

**Peter Black:** Weinidog, rwy'n deall nad eich cyfrifoldeb chi yw penderfyniadau gwario unigol gan awdurdodau lleol, ac nad chi a osododd y targed o gyrraedd safon ansawdd tai Cymru erbyn 2012. Fodd bynnag, byddwch yn gwybod, hyd at 2008, mai dim ond 4 y cant o dai awdurdod lleol a 9 y cant o eiddo cymdeithasau tai oedd yn bodloni'r safon honno. O ystyried bod gennych fynediad i bob un o'r cynlluniau tai a luniwyd gan awdurdodau lleol, a'ch dealltwriaeth o'r penderfyniadau buddsoddi sy'n cael eu cynnig gan gynghorau lleol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, pryd yr ydych yn rhagweld y gwneir cynnydd sylweddol tuag at gyflawni'r targed?

**Jocelyn Davies:** Rydych yn llygad eich lle; mae safon ansawdd tai Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sydd â stoc i gyflwyno cynllun busnes 30 mlynedd bob blwyddyn i fod yn gymwys ar gyfer y lwfans atgyweiriadau mawr. Os nad oes gan awdurdod lleol gynllun busnes ymarferol, rydym wedi gwneud newidiadau eleni sy'n ein galluogi i gynorthwyo'r awdurdod lleol hwnnw i ryddhau cymaint o adnoddau ag y bo modd er mwyn bodloni'r safon. Mae dau awdurdod lleol wedi gofyn i denantiaid bleidleisio a chawsant bleidlais 'na'. Nid oes ganddynt gynlluniau busnes hyfyw ac nid ydym yn disgwyl iddynt eu cael, ond rydym wedi parhau i dalu'r lwfans atgyweiriadau mawr i'r awdurdodau lleol hynny. Byddant yn cymryd amser maith i gyflawni safon ansawdd tai Cymru.

Ers i mi fod yn Ddirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, mae nifer o drosglwyddiadau stoc wedi digwydd ac oherwydd nad ellir hawlio'r arian yn ôl drwy'r cyfrif refeniw tai i Lywodraeth y DU, mae mwy o arian i'w wario. Yn ogystal, maent yn gallu benthg arian, felly gellir gwario llawer mwy o adnoddau dros gyfnod byr o amser. Dywedir wrthyf fod Cymdeithas Tai Sir Fynwy yn disgwyl cyrraedd yno yn fuan iawn a bod eraill yn gwneud cynnydd da iawn. Ni allant

very good progress. They cannot receive their dowry payment unless they meet the targets that we have set for them.

We are undertaking a mapping exercise to see exactly where we are with the Welsh housing quality standard in all the social housing stock. I understand that the Wales Audit Office is now undertaking a piece of work that will help us to understand exactly where we are with that.

**Peter Black:** When are you likely to complete that mapping exercise, and will you make it available generally, so that we can use it as the basis of scrutiny, not just of you, but locally as well?

**Jocelyn Davies:** It was important to change the regime around the major repairs allowance to make it more transparent with regard to when any social landlord expects to reach the Welsh housing quality standard. Therefore, we also require all housing associations—even though they may not receive major repairs allowances—to tell us when they expect to reach the standard. I am happy to make available the information that we already have. When we finish the mapping exercise, it should be published, because it helps people to understand exactly how they are being affected by the spend for their local authority. If we are able to do something about the housing revenue accounts system as well, that would release far more resources to help to reach the standard.

### **Cronfa Gynaliadwyedd yr Ardoll Agregau**

**3. Gareth Jones:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithrediad Cronfa Gynaliadwyedd yr Ardoll Agregau yng Nghymru. OAQ(3)1577(ESH)*

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gweinyddu cronfa'r ardoll agregau ar gyfer Cymru. Er mwyn bod yn gymwys am arian, mae'n rhaid i ymgeiswyr allu dangos bod cloddio am agregau yn effeithio'n sylweddol ar eu cymuned. Mae panel annibynnol yn asesu'r ceisiadau hyn ac yn rhoi argymhellion i mi.

dderbyn eu taliad gwaddol oni bai eu bod yn cyflawni'r targedau a osodwyd gennym ar eu cyfer.

Rydym yn ymgymryd ag ymarfer mapio i weld lle'r ydym yn union gyda safon ansawdd tai Cymru o ran yr holl stoc tai cymdeithasol. Deallaf fod Swyddfa Archwilio Cymru bellach yn gwneud darn o waith a fydd yn ein helpu i ddeall yn union lle rydym gyda hynny.

**Peter Black:** Pryd yr ydych yn debygol o gwblhau'r ymarfer mapio hwnnw, ac a fyddwch yn ei ryddhau yn gyffredinol, fel y gallwn ei ddefnyddio fel sail i graffu, nid yn unig arnoch chi, ond yn lleol yn ogystal?

**Jocelyn Davies:** Roedd yn bwysig newid y drefn lwfans atgyweiriadau mawr i'w gwneud yn fwy tryloyw o ran pryd y byddai unrhyw landlord cymdeithasol yn disgwyl cyrraedd safon ansawdd tai Cymru. Felly, rydym hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cymdeithas dai—er nad ydynt o bosibl yn derbyn y lwfansau gwaith atgyweirio mawr—i ddweud wrthym pryd y byddant yn disgwyl cyrraedd y safon. Rwy'n hapus i ryddhau'r wybodaeth sydd gennym eisoes. Pan fyddwn yn gorffen yr ymarfer mapio, dyli'd ei gyhoeddi, gan ei fod yn helpu pobl i ddeall sut yn union yr effeithir arnynt gan y gwariant ar gyfer eu hawdurdod lleol. Os ydym yn gallu gwneud rhywbeth am y system gyfrifon refeniw tai yn ogystal, byddai hynny'n rhyddhau llawer mwy o adnoddau i helpu i gyrraedd y safon.

### **Aggregates Levy Sustainability Fund**

**3. Gareth Jones:** *Will the Minister make a statement on the operation of the Aggregates Levy Sustainability Fund in Wales. OAQ(3)1577(ESH)*

**The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson):** The aggregate levy fund for Wales is administered by the Welsh Assembly Government. To qualify for funding, applicants must be able to demonstrate that their community is significantly affected by current aggregate extraction. An independent panel assesses these applications and makes

recommendations to me.

**Gareth Jones:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae cyferbyniad rhwng yr arian sy'n cael ei dalu gan chwarel Hanson ym Mhenmaenmawr yn fy etholaeth i drwy'r ardoll agregau, sy'n filiynau o bunnau, a'r arian sy'n cael ei dderbyn yn y gymuned leol drwy gronfa gynaliadwyedd yr ardoll agregau, sydd ond ychydig ddegau o filoedd o bunnau. A yw Llywodraeth Cymru'n Un yn cydnabod yr annhegwch hwn, ac a fydd yn pwysu ar Lywodraeth Prydain naill ai am i ni yng Nghymru gael rheoli'r ardoll ein hunain, neu drefnu bod mwy o arian yn cael ei dalu gan gronfa gynaliadwyedd yr ardoll agregau?

**Jane Davidson:** Mae hwn yn gwestiwn pwysig iawn.

We have made strong representations to the UK Government about securing a fairer share of the levy income. The UK Government is responsible for managing the levy. We used the aggregates levy fund as a case study for the Holtham commission to consider, because the levy gets in about £400 million a year, and the fund currently pays out across the UK about £40 million a year. The fund will disappear in England, although the levy will remain, and we are maintaining that fund in Wales.

**Angela Burns:** Minister, you will be aware that two of the scheme's objectives are to ensure environmental benefits and to provide amenities to communities that are affected by aggregate extraction, as well as to conserve sites of special scientific interest. Given that the Welsh Assembly Government failed to protect threatened species during the International Year of Biodiversity last year, what assessment have you made of the successful contribution of the ALSF to biodiversity targets in the future?

**Jane Davidson:** The aggregate levy fund for Wales has given just under £2 million to projects in the last year. These are generally community projects. However, the aggregate levy fund looks for the sustainability criteria that we use in the context of sustainable development in the Assembly Government.

**Gareth Jones:** Thank you for that answer, Minister. There is a contrast between the money that is paid by the Hanson quarry at Penmaenmawr in my constituency through the aggregates levy, which is millions of pounds, and the money that is received in the local community through the aggregates levy sustainability fund, which is only a few tens of thousands of pounds. Does the One Wales Government acknowledge the unfairness of this situation, and will it urge the British Government either to allow Wales to manage the levy ourselves, or to arrange for more money to be paid by the aggregates levy sustainability fund?

**Jane Davidson:** This is a very important question.

Gwnaethom sylwadau cryf i Lywodraeth y DU am sicrhau cyfran decach o incwm yr ardoll. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am reoli'r ardoll. Rydym yn defnyddio'r gronfa ardoll agregau fel astudiaeth achos i gomisiwn Holtham ei ystyried, gan fod yr ardoll yn casglu tua £400 miliwn y flwyddyn, ac mae'r gronfa yn talu allan tua £40 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd ar draws y DU. Bydd y gronfa'n diflannu yn Lloegr, er y bydd yr ardoll yn parhau, ac rydym yn cadw'r gronfa honno yng Nghymru.

**Angela Burns:** Weinidog, byddwch yn gwybod mai dau o amcanion y cynllun yw sicrhau manteision amgylcheddol a darparu amwynderau i gymunedau yr effeithir arnynt gan gloddio agregau, yn ogystal â gwarchod safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig. O gofio bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi methu â gwarchod rhywogaethau dan fygythiad yn ystod Blwyddyn Ryngwladol Bioamrywiaeth y llynedd, pa asesiad a wnaethoch o gyfraniad llwyddiannus y gronfa i dargedau bioamrywiaeth yn y dyfodol?

**Jane Davidson:** Mae cronfa ardoll agregau Cymru wedi rhoi ychydig o dan £2 filiwn i brosiectau yn y flwyddyn ddiwethaf. Prosiectau cymunedol yw'r rhain ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r gronfa ardoll agregau yn chwilio am y meini prawf cynaliadwyedd a ddefnyddiwn yng nghyd-destun datblygu

Therefore, there are some specific projects, such as an SSSI audio trail, and an SSSI butterfly project, which were specifically funded under the fund.

cynaliadwy yn Llywodraeth y Cynulliad. Felly, mae rhai prosiectau penodol, megis llwybr sain safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, a phrosiect glöyn byw safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, a ariannwyd yn benodol o dan y gronfa.

### Blaenoriaethau

### Priorities

**4. David Lloyd:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer gweddill y Trydydd Cynulliad. OAQ(3)1592(ESH)*

**4. David Lloyd:** *Will the Minister make a statement on her priorities for the remainder of the Third Assembly. OAQ(3)1592(ESH)*

**Jane Davidson:** Fy mlaenoriaeth yw sicrhau ein bod yn parhau i gymryd camau i gyflawni ein dyletswyddau amgylcheddol. Byddwn yn parhau i weithredu ein strategaeth ar y newid yn yr hinsawdd a bydd ffrydiau gwaith yn parhau yn ystod 2011 i ddatblygu cynlluniau mewn perthynas â fframwaith yr amgylchedd naturiol, yn ogystal â chynigion i sefydlu un corff amgylcheddol.

**Jane Davidson:** My priority is to ensure that we continue to deliver on our environmental duties. We will continue to implement our climate change strategy and work streams will continue throughout 2011 to develop plans in relation to the natural environment framework, as well as proposals to establish a single environmental body.

**David Lloyd:** Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw, Weiniog. Ymhellach at hynny, a wnewch chi amlinellu'r gwaith y mae swyddogion eich adran yn ei wneud ar y cyd ag awdurdodau lleol de-orllewin Cymru o ran mynd i'r afael ag ateb rhanbarthol i broblem gwastraff, a'r amserlen tebygol am unrhyw benderfyniad?

**David Lloyd:** Thank you for that response, Minister. Further to that, will you outline the work that your officials are doing with local authorities in south-west Wales in terms of addressing the regional solution to the waste problem, and the likely timetable for any decisions?

**Jane Davidson:** The south-west food waste treatment procurement hub, which comprises Pembrokeshire, Carmarthenshire, Swansea, Neath Port Talbot and Bridgend, is part of our infrastructure procurement programme. It is currently in procurement for a regional contract for the treatment of food waste, utilising anaerobic digestion technology. This project is due to enter a detailed solution stage of competitive dialogue imminently, and the contract award is expected in 2012. The region is also being supported by the Welsh Assembly Government on the waste infrastructure procurement programme for the procurement of a regional contract for the treatment of residual waste. The south-west procurement consortium is developing its business case for that project, which is expected to be submitted in the spring of this year.

**Jane Davidson:** Mae canolfan caffael trin gwastraff bwyd y de-orllewin, sy'n cynnwys sir Benfro, sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr, yn rhan o'n rhaglen gaffael seilwaith. Ar hyn o bryd mae wrthi'n caffael contract rhanbarthol i drin gwastraff bwyd, gan ddefnyddio technoleg treuliad anaerobig. Mae'r prosiect ar fin dechrau ar gyfnod datrysiaid manwl o ddeialog gystadleuol, a disgwylir iddo gael ei ddyfarnu yn 2012. Mae'r rhanbarth hefyd yn cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y rhaglen gaffael seilwaith gwastraff ar gyfer caffael contract rhanbarthol i drin gwastraff gweddilliol. Mae consortiwm caffael y de-orllewin yn datblygu ei achos busnes i'r prosiect hwnnw, a disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn y gwanwyn eleni.

**Angela Burns:** I have just a few questions

**Angela Burns:** Mae gennyf ychydig o

for you as we are leaping towards dissolution at a great rate. Given the woeful response by some of the Ministers on how they are sustainability-proofing their portfolios and in light of the fact that this is a central tenet of the National Assembly's objectives, what targets or indicators have you been able to leave in place for us to be able to judge them on their performance in the years ahead?

**Jane Davidson:** We have published sustainable development indicators. As you know, I have now given the Assembly two opportunities to scrutinise Ministers on their performance against those indicators—first, following the annual publication of the indicators; and secondly, on the publication of the Assembly Government's annual report on sustainable development. I hope that those arrangements will continue into the new legislature.

**Angela Burns:** I also hope that they continue because, as I said, some Ministers are doing this very well, but unfortunately others have not quite grasped the importance of this. This leads me to my second question, which is also about legacy. You made a ministerial statement on 25 February about new steps in delivering Wales's new approach to managing its natural environment. Among other things, you announced that,

'Work streams will continue throughout 2011 to develop plans in relation to the Natural Environment Framework as well as proposals to establish a single environmental body.'

I agree that this is a good step forward. However, I wonder whether we can start to put a timeline on this because the staff involved in all of the bodies that may or may not be merged will obviously have a degree of concern about the long-term stability of their jobs. Normally, when you change a business, you aim to do so fairly quickly in order to eradicate any uneasiness or concerns that people have regarding this. While we may be studying it for year or so—thinking about how we can merge these operations, what they would do, who would do what, and so on—I am deeply concerned about all of the people who work for these organisations

gwestiynau ichi wrth i ni lamu'n gyflym at y diddymiad. O ystyried yr ymateb truenus gan rai Gweinidogion ar sut y maent yn prawfesur cynaliadwyedd eu portffolios ac yn wyneb y ffaith bod hyn yn elfen ganolog o amcanion y Cynulliad Cenedlaethol, pa dargedau neu ddangosyddion a roesoch ar waith i ni allu eu barnu ar eu perfformiad yn y blynyddoedd i ddod?

**Jane Davidson:** Rydym wedi cyhoeddi ddangosyddion datblygu cynaliadwy. Fel y gwyddoch, rwyf bellach wedi rhoi dau dau gyfle i'r Cynulliad graffu ar Weiniogion ar eu perfformiad yn erbyn y dangosyddion hynny—yn gyntaf, yn dilyn cyhoeddiad blynyddol y dangosyddion; ac, yn ail, ar gyhoeddi adroddiad blynyddol Llywodraeth y Cynulliad ar ddatblygu cynaliadwy. Gobeithio y bydd y trefniadau hynny yn parhau yn y ddeddfwrfa newydd.

**Angela Burns:** Rwyf hefyd yn gobeithio y byddant yn parhau oherwydd, fel y dywedais, mae rhai Gweinidogion yn gwneud hyn yn dda iawn, ond yn anffodus nid yw eraill wedi deall ei bwysigrwydd. Mae hyn yn fy arwain at fy ail gwestiwn, sydd hefyd yn ymwneud â gwaddol. Gwnaethoch ddatganiad gweinidogol ar 25 Chwefror ar gamau newydd wrth gyflwyno dull newydd Cymru o reoli'r amgylchedd naturiol. Ymhlith pethau eraill, gwnaethoch gyhoeddi,

'Drwy gydol 2011, bydd y ffrydiau gwaith yn parhau i ddatblygu cynlluniau mewn perthynas â Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn ogystal â chynlluniau i sefydlu un corff amgylcheddol.'

Cytunaf bod hwn yn gam da ymlaen. Fodd bynnag, tybed a oes modd inni ddechrau rhoi amserlen ar hyn oherwydd bod y staff sy'n ymwneud â phob un o'r cyrff y gellir eu huno, neu beidio, yn amlwg ychydig yn bryderus am sefydlogrwydd hirdymor eu swyddi. Fel arfer, pan fyddwch yn newid busnes, rydych yn anelu at wneud hynny yn eithaf cyflym er mwyn dileu unrhyw anesmwythdra neu bryderon sydd gan bobl am hyn. Er y byddwn efallai yn ei astudio am flwyddyn neu ddwy—gan feddwl sut y gallwn uno'r gweithrediadau hyn, yr hyn y byddent yn ei wneud, pwy fyddai'n gwneud beth ac yn y blaen—rwy'n bryderus iawn am



and the worries that they have about job security. What can you do about implementing a timeline so that staff can see how their future might be mapped out?

**Jane Davidson:** Thank you, Angela, for your support for the programme that we are undertaking. It is important that the work streams continue properly throughout 2011 in developing plans in relation to the natural environment framework, as well as the proposals to establish the single environment body. Specific work to refine the new approach is being taken forward through a series of reports and consultations. The Minister for Rural Affairs and I have recently authorised non-executive directors of the three affected organisations to come together in a steering group that will, this side of the election, be chaired by Clive Bates, the director of Sustainable Futures, to look at taking the agenda forward in the development of the policy and the financial case, because it is critically important that they are developed side by side. However, I would anticipate that it would be chaired ministerially post-election.

2.45 p.m.

**Joyce Watson:** Given the recent publication of the UK zero carbon hub report that recommends onsite targets for zero carbon, is the Minister able to clarify the Assembly Government's intentions for raising standards for new housing in Wales?

**Jane Davidson:** The conclusion of the zero carbon hub report in England—a report that has gone to the UK Government—includes recommendations that broadly equate to a 56 per cent improvement on 2006 levels, to be implemented in 2016, according to the existing timetable in England. We have been working towards a timetable that is substantially earlier than that, which reflects our view of the urgency with which the additional burden of new build needs to be addressed. However, our target is a 55 per cent improvement, so the figures are similar in terms of the work done in Wales. The work done by the UK zero carbon hub has been tremendously important in taking that

yr holl bobl sy'n gweithio i'r sefydliadau hyn a'r pryderon sydd ganddynt am sicrwydd eu swyddi. Beth allwch chi ei wneud ynghylch gweithredu amserlen fel y gall staff weld sut siâp sydd ar eu dyfodol?

**Jane Davidson:** Diolch, Angela, am eich cefnogaeth i'r rhaglen rydym yn ymgymryd â hi. Mae'n bwysig bod y ffrydiau gwaith yn parhau yn briodol drwy gydol 2011 o ran datblygu cynlluniau ar y fframwaith amgylchedd naturiol, yn ogystal â'r cynigion i sefydlu corff amgylchedd sengl. Mae gwaith penodol i fireinio'r dull newydd yn cael ei ddatblygu drwy gyfres o adroddiadau ac ymgynghoriadau. Mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a minnau yn ddiweddar wedi awdurdodi cyfarwyddwyr anweithredol y tri sefydliad yr effeithir arnynt i ddod at ei gilydd mewn grŵp llywio a fydd, cyn yr etholiad, yn cael ei gadeirio gan Clive Bates, cyfarwyddwr Dyfodol Cynaliadwy, i edrych ar wneud cynnydd ar yr agenda o ran datblygu'r polisi a'r achos ariannol, oherwydd mae'n hanfodol bwysig eu bod yn cael eu datblygu ochr yn ochr. Fodd bynnag, byddwn yn rhagweld y byddai'n cael ei gadeirio gan Weinidog ar ôl yr etholiad.

**Joyce Watson:** O ystyried bod yr adroddiad ar ganolfannau dim carbon y DU a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn argymhell bod targedau dim carbon ar y safle, a yw'r Gweinidog yn gallu egluro amcanion Llywodraeth y Cynulliad i godi safonau ar gyfer tai newydd yng Nghymru?

**Jane Davidson:** Mae casgliad yr adroddiad canolfan di-garbon yng Lloegr—adroddiad sydd wedi mynd at Lywodraeth y DU—yn cynnwys argymhellion sy'n cyfateb yn fras i welliant o 56 y cant ar lefelau 2006, i'w gweithredu yn 2016, yn ôl yr amserlen bresennol yn Lloegr. Buom yn gweithio tuag at amserlen sy'n sylweddol gynharach na hynny, sy'n adlewyrchu'r ffaith ein bod yn ystyried bod angen ymdrin â baich ychwanegol adeiladau newydd ar frys. Fodd bynnag, ein targed yw gwelliant o 55 y cant, felly mae'r ffigurau yn debyg o ran y gwaith a wneir yng Nghymru. Bu'r gwaith a wnaed gan ganolfan dim carbon y DU yn eithriadol o bwysig o ran datblygu hynny. Felly, bydd

forward. So, bringing in those changes here will present opportunities for Welsh businesses to develop the skills, expertise and experience that will stand them in good stead when standards are raised in the larger England market in 2016. As part of the consultation that we intend to undertake in 2012, post the devolution at the end of December of this year, we will set out our thinking on the next steps towards zero carbon.

**Kirsty Williams:** Yesterday, the Secretary of State for Energy and Climate Change, Chris Huhne, announced the creation of 1,000 new apprenticeships for the retrofitting of green homes. Five hundred similar apprenticeships have been announced in Scotland. The thinking behind this scheme is very much in line with your Arbed proposals. Could you outline how many apprenticeships have been created as a result of the significant funding that you have put into the Arbed scheme?

**Jane Davidson:** We will be producing a whole range of information about the delivery of Arbed, which will look at how many Welsh companies and houses have been involved in the scheme, what technologies have been used effectively in the scheme, what the cost of the scheme is to the individual houses and what training opportunities there have been. That information is due to be published around the end of this month. The Arbed scheme—the biggest scheme of its type in the United Kingdom—will also ensure that we test technologies and contribute towards bringing down the cost of those technologies as we widen the application.

**Kirsty Williams:** I am sure that you will agree that one of the key components of the Arbed scheme is to increase training for the Welsh workforce, increasing its ability to not only take part in this project but also to make it more competitive for employment on projects across Wales and the UK. When you produce your report at the end of this month, will you be able to identify how many apprenticeships in this field have been created by the Arbed project?

**Jane Davidson:** I will defer to my colleague Lesley Griffiths, the Deputy Minister for

gwneud y newidiadau hynny yma yn cynnig cyfleoedd i fusnesau Cymru ddatblygu'r sgiliau, arbenigedd a phrofiad a fydd yn rhoi sail gadarn iddynt pan gaiff safonau eu codi ym marchnad fwy Lloegr yn 2016. Fel rhan o'r ymgynghoriad rydym yn bwriadu ei gynnal yn 2012, ar ôl y datganoli ddiwedd mis Rhagfyr eleni, byddwn yn nodi ein meddylfryd ar y camau nesaf tuag at ddim carbon.

**Kirsty Williams:** Ddoe, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, Chris Huhne, ei fod yn creu 1,000 o brentisiaethau newydd ar gyfer ôl-ffitio cartrefi gwyrdd. Cyhoeddwyd 500 o brentisiaethau tebyg yn yr Alban. Roedd y feddylfryd y tu ôl i hyn yn debyg iawn i'ch cynigion ar gyfer Arbed. A allwch ddweud wrthym faint o brentisiaethau gafodd eu creu o ganlyniad i'r cyllid sylweddol a roesoch yng nghynllun Arbed?

**Jane Davidson:** Byddwn yn cynhyrchu ystod helaeth o wybodaeth am weithredu Arbed, a fydd yn edrych ar faint o gwmnïau a thai o Gymru a fu'n rhan o'r cynllun, pa dechnolegau a ddefnyddiwyd yn effeithiol yn y cynllun, beth yw cost y cynllun i dai unigol a pha gyfleoedd hyfforddiant a fu. Cyhoeddir y wybodaeth honno tua diwedd y mis hwn. Mae'r cynllun Arbed—y mwyaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig—hefyd yn sicrhau ein bod yn rhoi technolegau ar brawf ac yn cyfrannu tuag at leihau cost y technolegau hynny wrth i ni ehangu ei ddefnydd.

**Kirsty Williams:** Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno mai un o elfennau allweddol cynllun Arbed yw cynyddu hyfforddiant i weithlu Cymru, gan gynyddu ei allu i gymryd rhan yn y prosiect hwn a'i wneud yn fwy cystadleuol ar gyfer cyflogaeth ar brosiectau ar draws Cymru a'r DU. Pan fyddwch yn llunio eich adroddiad ddiwedd y mis hwn, a fyddwch yn gallu nodi faint o brentisiaethau yn y maes hwn a gafodd eu creu gan y prosiect Arbed?

**Jane Davidson:** Gadawaf i fy nghydweithiwr Lesley Griffiths, y Dirprwy Weinidog dros

Science, Innovation and Skills, in terms of how that information is given to the Assembly. However, Lesley and I have worked hard together to look at increasing the training and skills development opportunities arising from the Arbed scheme. Another skill development opportunity that we offer in Wales that has not been offered elsewhere is to develop a microgeneration certification scheme to support small businesses in achieving the appropriate certification to enable householders to benefit from feed-in tariffs from an increasing number of businesses in Wales. I am sure that you would want to receive information about that as well.

### Bagiau Archfarchnadoedd

**5. William Graham:** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd "Life Cycle Assessment of Supermarket Carrier Bags".* OAQ(3)1585(ESH)

**Jane Davidson:** The Welsh Assembly Government welcomes the Environment Agency report. It highlights the fact that, whatever type of bag you use, the key to reducing the environmental impact is to reuse it as many times as possible. The report did not assess the litter impact of single-use carrier bags, which is substantial.

**William Graham:** You will have seen the report, which highlighted the value of 'bags for life' provided by many retailers, which only need to be used four times to ensure that they have a carbon footprint lower than lightweight single-use bags. How will your Government liaise with retailers and consumer groups to highlight the value of these bags in Wales?

**Jane Davidson:** All Assembly Members supported the introduction of the 5p charge, which is coming in in October. We will be issuing guidance and information to retailers and working with businesses across Wales to ensure that that information gets out to all. This report is helpful, because it strongly makes the case that you only have to reuse a reusable bag four times to reduce the

Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau, ddweud sut y caiff y wybodaeth ei rhoi i'r Cynulliad. Fodd bynnag, bu Lesley a minnau yn cydweithio'n ddiwyd i edrych ar gynyddu cyfleoedd i ddatblygu hyfforddiant a sgiliau sy'n deillio o'r cynllun Arbed. Rydym hefyd yn cynnig cyfle arall i ddatblygu sgiliau na chafodd eu cynnig yn unman arall, sef datblygu cynllun ardystio microgynhyrchu i gefnogi busnesau bach i gael yr ardystiad priodol i alluogi deiliaid tai i elwa o dariffau bwydo-i-mewn gan nifer gynyddol o fusnesau yng Nghymru. Rwy'n siŵr y byddech yn dymuno cael gwybodaeth am hynny hefyd.

### Supermarket Carrier Bags

**5. William Graham:** *Will the Minister outline the Welsh Assembly Government's response to the Environment Agency report "Life Cycle Assessment of Supermarket Carrier Bags".* OAQ(3)1585(ESH)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'n tynnu sylw at y ffaith mai'r allwedd, waeth pa fath o fag rydych yn ei ddefnyddio, i leihau'r effaith amgylcheddol yw ei aildefnyddio gymaint o weithiau ag y bo modd. Ni wnaeth yr adroddiad asesu effaith sbwriel y bagiau siopa untro, sy'n sylweddol.

**William Graham:** Byddwch wedi gweld yr adroddiad, a dynnodd sylw at werth 'bagiau am oes' a ddarperir gan nifer o fanwerthwyr, sydd ond angen eu defnyddio bedair gwaith i sicrhau bod ganddynt ôl-troed carbon is na bagiau ysgafn untro. Sut y bydd eich Llywodraeth yn gweithio gyda manwerthwyr a grwpiau defnyddwyr i dynnu sylw at werth y bagiau hyn yng Nghymru?

**Jane Davidson:** Roedd pob Aelod Cynulliad yn cefnogi cyflwyno'r tâl 5c, a gyflwynir ym mis Hydref. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau a gwybodaeth i fanwerthwyr ac yn gweithio gyda busnesau ledled Cymru i sicrhau bod y wybodaeth yn cyrraedd pawb. Mae'r adroddiad hwn yn ddefnyddiol, gan ei fod yn cyflwyno achos cryf mai dim ond pedair gwaith mae'n rhaid i chi ail-ddefnyddio bag

environmental impact. What we want is for people to reuse bags time and again. As I said in my initial answer, this report did not look at issues around litter. We all supported this initiative because it will tackle the major litter problem, particularly in some of our most beautiful tourist areas, of people leaving plastic bags wrapped around trees, on beaches and everywhere else.

amldro i leihau'r effaith ar yr amgylchedd. Yr hyn rydym am ei weld yw pobl yn aildddefnyddio bagiau dro ar ôl tro. Fel y dywedais yn fy ateb cychwynnol, ni wnaeth yr adroddiad hwn edrych ar faterion yn ymwneud â sbwriel. Cefnogodd bob un ohonom y fenter hon gan y bydd yn mynd i'r afael â'r broblem sbwriel fawr, yn enwedig yn rhai o'n hardaloedd twristaidd prydferthaf, lle mae pobl yn gadael bagiau plastig wedi eu lapio o amgylch coed, ar draethau ac ym mhob man arall.

### Strategaeth Tlodi Tanwydd

**6. Alun Davies:** *A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)1560(ESH)*

**Jane Davidson:** The fuel poverty strategy, published in July 2010, sets out the range of actions that we are taking to tackle fuel poverty. This includes providing funding to support vulnerable groups through the new all-Wales fuel poverty programme to replace the home energy efficiency scheme. Our new scheme starts on 1 April and we already have Arbed, our area-based energy performance scheme.

**Alun Davies:** We are all familiar with the success of Arbed and many of us were delighted when you appointed British Gas to carry out the new fuel poverty strategy from 1 April. Can you give us an assurance that you will maintain funding in this area? One of the most disturbing issues that we have come up against in the last few months has been the way that the new UK Government has cut all funding in this area and reduced the priority given to it. We know the sort of suffering that goes on in Wales because of fuel poverty. Can you give us an assurance this afternoon that this Government will continue to support the programme on fuel poverty and will continue to fund it?

**Jane Davidson:** I can definitely give the Assembly that assurance. Assembly Members across all parties have strongly supported the fuel poverty agenda. I am glad that the continuation of funding in Wales is a

### Fuel Poverty Strategy

**6. Alun Davies:** *Will the Minister provide an update on the Welsh Assembly Government's Fuel Poverty Strategy. OAQ(3)1560(ESH)*

**Jane Davidson:** Mae'r strategaeth tlodi tanwydd, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010, yn nodi amryw o gamau rydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae hyn yn cynnwys darparu cyllid i gefnogi grwpiau sy'n agored i niwed drwy'r rhaglen tlodi tanwydd newydd ar gyfer Cymru gyfan i ddisodli'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref. Mae ein cynllun newydd yn dechrau ar 1 Ebrill, ac mae Arbed gennym eisoes, sef ein cynllun perfformiad ynni ar sail ardal.

**Alun Davies:** Rydym i gyd yn gyfarwydd â llwyddiant Arbed ac roedd llawer ohonom wrth ein bodd pan wnaethoch benodi Nwy Prydain i weithredu'r strategaeth tlodi tanwydd newydd o 1 Ebrill. A allwch roi sicrwydd inni y byddwch yn dal i ddarparu cyllid yn y maes hwn? Un o'r materion mwyaf brawychus inni ei wynebu yn y misoedd diwethaf yw'r ffordd mae Llywodraeth newydd y DU wedi torri'r holl arian yn y maes hwn a lleihau'r flaenoriaeth a roddir iddo. Gwyddom am y math o ddiodefaint sydd yng Nghymru oherwydd tlodi tanwydd. A allwch roi sicrwydd inni y prynhawn yma y bydd y Llywodraeth hon yn parhau i gefnogi'r rhaglen ar dlodi tanwydd ac yn parhau i'w hariannu?

**Jane Davidson:** Gallaf roi'r sicrwydd hwnnw i'r Cynulliad yn bendant. Mae Aelodau Cynulliad o bob plaid wedi rhoi cefnogaeth frwd i'r agenda tlodi tanwydd. Rwyf yn falch bod parhau'r cyllid yng

real mark of our commitment to vulnerable people. We have a larger number of people in Wales in poorer socioeconomic circumstances and a larger number of people in our rural areas living in hard-to-treat and hard-to-heat homes. Our new fuel poverty strategy is focused on whole house improvement, which is a substantial change from the previous home energy efficiency scheme and will better match those in fuel poverty, of which I know you are strongly supportive.

**Mark Isherwood:** You recently attended the National Energy Action Cymru conference in Cardiff, on 'Bridging the divide: tackling fuel poverty in Wales', as did I and a number of other Members. It was sponsored by Calor, as you may know. I am not being partisan or commercial, but Calor is working with NEA Cymru on a fuel poverty agenda, joining up how people can improve the energy efficiency of their homes with the social and sustainability agendas. It has created a new technology, the micro combined heat and power unit, which it says can cut a whole home energy bill by approximately a quarter, but it needs support to get the technology into fuel poor homes. Do you believe that this form of technology could be supported as the Welsh Government, now and in the future, rolls forward a fuel poverty programme?

**Jane Davidson:** I do not think that it is for a Minister in the Chamber to endorse any particular technology, and I have never done so. However, what we have been doing through Arbed so far, and what we will do through its second phase, which I hope to announce before the end of this Assembly, is to test technologies in ways that benefit those who, otherwise, could not have their fuel poverty needs addressed. We remain committed to that broad agenda. Others with appropriate expertise are in a better place to test particular technologies.

**Eleanor Burnham:** Some energy providers seem to be making enormous, almost obscene, profits. I realise that in the capitalist

Nghymru yn arwydd go iawn o'n hymrwymiad i bobl sy'n agored i niwed. Mae gennym fwy o bobl yng Nghymru yn byw mewn amgylchiadau economaidd-gymdeithasol tlotach a mwy o bobl yn ein hardaloedd gwledig yn byw mewn cartrefi anodd eu trin a'u gwresogi. Mae'n strategaeth tloidi tanwydd newydd yn canolbwyntio ar wella'r tŷ cyfan, sy'n newid sylweddol o'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref blaenorol, a bydd yn cyfateb yn well i'r rhai sydd mewn tloidi tanwydd, y gwn eich bod yn gefnogol iawn iddo.

**Mark Isherwood:** Yn ddiweddar, roeddech yn bresennol yn nghynhadledd Gweithredu Ynni Cenedlaethol Cymru yng Nghaerdydd, ar 'Pontio'r bwlch: mynd i'r afael â thloidi tanwydd yng Nghymru', fel roeddwn i a sawl Aelod arall. Fe'i noddwyd gan Calor, fel y gwyddoch. Nid wyf yn bod yn bleidiol na'n fasnachol, ond mae Calor yn gweithio gyda NEA Cymru ar yr agenda tloidi tanwydd, ac yn cydgysylltu sut y gall pobl wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi gyda'r agendâu cymdeithasol a chynaliadwyedd. Mae wedi creu technoleg newydd, yr uned gwres micro a phŵer cyfunol, sydd, meddai, yn gall torri tua chwarter oddi ar fil ynni cartref cyfan, ond mae angen cefnogaeth arno i osod y dechnoleg mewn cartrefi sy'n dioddef tloidi tanwydd. A ydych o'r farn y gallai'r math hwn o dechnoleg gael ei gefnogi wrth i Lywodraeth Cymru, yn awr ac yn y dyfodol, gyflwyno rhaglen dloidi tanwydd?

**Jane Davidson:** Nid wyf yn credu mai lle Gweinidog yn y Siambr yw cymeradwyo unrhyw dechnoleg benodol, ac nid wyf erioed wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, yr hyn y buom yn ei wneud drwy Arbed hyd yma, a'r hyn y byddwn yn ei wneud drwy ei ail gyfnod, rwy'n gobeithio ei gyhoeddi cyn diwedd y Cynulliad hwn, yw rhoi technolegau ar brawf mewn ffyrdd sydd o fudd i'r rheini na fyddai fel arall yn cael sylw i'w hanghenion tloidi tanwydd. Rydym wedi ymrwymo i'r agenda eang honno. Mae eraill a chanddynt arbenigedd priodol yn fwy cymwys i roi technolegau penodol ar brawf.

**Eleanor Burnham:** Ymddengys bod rhai darparwyr ynni yn gwneud elw enfawr, ffiaidd bron. Sylweddolaf, yn y byd cyfalafol,

mode, one must make profits for further investment and so on. However, what recent discussions have you had with energy providers to establish a much fairer range of tariffs for those people who are less able to heat their homes?

**Jane Davidson:** We know that changes in fuel prices have been the major driver of the recent increases in fuel poverty. I met with the big six energy providers and Ofgem, as I do on a regular basis, about a fortnight ago. We know that there has been a dramatic change in fuel poverty since 2004, for example, when prices were low compared with today. Even though there has been a modest rise in average incomes and improvements to the energy efficiency of homes, we have seen a huge increase in fuel poverty since 2004. British Gas, which was mentioned earlier, has won the contract for our fuel poverty programme; its profits were £742 million for 2010, which is about £4 per customer per month. British Gas has recently announced an extra £37 million in support for customers, including a £50 rebate to all customers in receipt of its 'essentials' discounted social tariff, and a further £20 million in support for the British Gas Energy Trust. We all need to keep up the pressure on energy companies to ensure that they invest in customers who have the greatest needs.

### Yr Amgylchedd

**7. Mohammad Asghar:** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella'r amgylchedd yn Nwyrain De Cymru. OAQ(3)1565(ESH)*

**Jane Davidson:** I confirmed last month the continuation of the Tidy Towns initiative for a further three years. To date, local authorities in the South Wales East region have received over £1 million in Tidy Towns funding to deliver improvements to the quality of the local environment.

**Mohammad Ashgar:** Thank you for that encouraging statement, Minister. I am disappointed that results from the recent 'how clean are our streets?' survey show that the streets in Blaenau Gwent have, once again, the lowest cleanliness rating in Wales.

bod rhaid gwneud elw er mwyn buddsoddi ymhellach ac yn y blaen. Fodd bynnag, pa drafodaethau a gawsoch yn ddiweddar gyda darparwyr ynni i sefydlu ystod o dariffau llawer tecach i'r bobl hynny sy'n llai abl i wresogi eu cartrefi?

**Jane Davidson:** Gwyddom mai newidiadau mewn prisiau tanwydd fu'n bennaf cyfrifol am y cynnydd diweddar mewn tlodi tanwydd. Bythefnos yn ôl, cyfarfûm â chwech o ddarparwyr ynni mawr ac Ofgem, fel rwy'n ei wneud yn rheolaidd. Gwyddom y bu newid dramatig mewn tlodi tanwydd ers 2004, er enghraifft, pan roedd prisiau yn isel o gymharu â heddiw. Er y bu rhywfaint o gynnydd mewn incwm cyfartalog a gwelliannau i effeithlonrwydd ynni cartrefi, gwelsom gynnydd mawr mewn tlodi tanwydd ers 2004. Mae Nwy Prydain, a grybwyllwyd yn gynharach, wedi ennill y contract ar gyfer ein rhaglen tlodi tanwydd; ei elw oedd £742 miliwn ar gyfer 2010, sef tua £4 y cwsmer bob mis. Mae Nwy Prydain wedi cyhoeddi swm ychwanegol o £37 miliwn yn ddiweddar yn gymorth i gwsmeriaid, gan gynnwys addaliad o £50 i bob cwsmer sy'n derbyn ei dariff disgownt cymdeithasol 'hanfodion', a £20 miliwn arall i gefnogi Ymddiriedolaeth Ynni Nwy Prydain. Mae'n rhaid i bob un ohonom ddal ati i roi pwysau ar gwmnïau ynni i sicrhau eu bod yn buddsoddi yn y cwsmeriaid sydd â'r anghenion mwyaf.

### The Environment

**7. Mohammad Asghar:** *What steps is the Welsh Assembly Government taking to improve the environment in South Wales East. OAQ(3)1565(ESH)*

**Jane Davidson:** Cadarnheais y mis diwethaf y bydd y fenter Trefi Taclus yn parhau am dair blynedd arall. Hyd yma, mae awdurdodau lleol yn rhanbarth Dwyrain De Cymru wedi derbyn dros £1 miliwn mewn cyllid Trefi Taclus i wella ansawdd yr amgylchedd lleol.

**Mohammad Asghar:** Diolch ichi am y datganiad calonogol hwnnw, Weinidog. Rwyf yn siomedig bod canlyniadau arolwg diweddar 'pa mor lân yw ein strydoedd?' yn dangos bod gan strydoedd ym Mlaenau Gwent, unwaith eto, y sgôr glendid isaf yng

I am sure that you will agree that pride in our local communities is essential, and the report suggests that there are still major problems in Wales. What action is the Assembly Government taking to tackle environmental crime like littering? Given the disparities in litter levels that exist between different local authorities in Wales, what steps can the Assembly Government take to ensure that areas that regularly perform poorly take appropriate action so that that poor performance does not happen again?

**Jane Davidson:** The local environment audit and management scheme is funded by the Assembly Government so that we can measure the cleanliness of our streets. It is true to say that streets in Blaenau Gwent had the lowest cleanliness index figure in Wales. However, it is hard to compare one local authority with another, given that the nature of the authorities is so different. It is more important that individual authorities improved; in fact, Blaenau Gwent's cleanliness figure went up from 63.2 to 63.6 between 2007-08 and 2009-10, so it is going in the right direction. Tidy Towns has supported two campaigns in Blaenau Gwent; the first encouraged residents to adopt their streets, which resulted in a number of groups adopting their local areas; the second was a car-related campaign that carried the strapline 'you would not litter your home, so do not litter our roads'. Tidy Towns has also funded closed-circuit television equipment in Blaenau Gwent, which should assist the local authority's enforcement of measures against environmental crime in problem locations. There is, therefore, a clear focus as a result of the Tidy Towns money being made available and the LEAMS outcomes for Blaenau Gwent.

### Draenio Cronfeydd

**8. Jenny Randerson:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddraenio cronfeydd. OAQ(3)1564(ESH)*

**Jane Davidson:** Sometimes it is necessary for one or more reservoirs to be drained.

Nghymru. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod balchder yn ein cymunedau lleol yn hanfodol, ac mae'r adroddiad yn awgrymu bod problemau mawr o hyd yng Nghymru. Pa gamau mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol megis gollwng sbwriel? O ystyried y gwahaniaethau mewn lefelau sbwriel rhwng gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru, pa gamau all Llywodraeth y Cynulliad eu cymryd i sicrhau bod ardaloedd sy'n perfformio'n wael yn rheolaidd yn cymryd camau priodol, fel nad yw perfformiad gwael yn digwydd eto?

**Jane Davidson:** Mae'r system reoli ar gyfer archwilio'r amgylchedd lleol yn cael ei hariannu gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn mesur glendid ein strydoedd. Mae'n wir dweud mai strydoedd ym Mlaenau Gwent oedd gan y ffigur mynegai glendid isaf yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n anodd cymharu un awdurdod gydag un arall, o ystyried bod natur yr awdurdodau mor wahanol. Mae'n bwysicach bod awdurdodau unigol wedi gwella; mewn gwirionedd, aeth ffigur glendid Blaenau Gwent i fyny o 63.2 i 63.6 rhwng 2007-08 a 2009-10, felly mae'n mynd i'r cyfeiriad iawn. Mae Trefi Taclus wedi cefnogi dwy ymgyrch ym Mlaenau Gwent; roedd y cyntaf yn annog preswylwyr i fabwysiadu eu strydoedd, gan arwain at sefyllfa lle roedd nifer o grwpiau yn mabwysiadu eu hardaloedd lleol; yr ail oedd ymgyrch yn ymwneud â cheir gyda'r is-bennawd 'ni fyddech yn gollwng sbwriel yn eich cartref, felly peidiwch â gollwng sbwriel ar ein ffyrdd'. Mae Trefi Taclus hefyd wedi ariannu offer teledu cylch cyfyng ym Mlaenau Gwent, a ddylai gynorthwyo'r awdurdod lleol i orfodi mesurau yn erbyn trosedd amgylcheddol mewn lleoliadau lle mae problem. Felly, mae ffocws clir o ganlyniad i'r ffaith bod arian Trefi Taclus ar gael a'r canlyniadau LEAMS ar gyfer Blaenau Gwent.

### Draining of Reservoirs

**8. Jenny Randerson:** *Will the Minister make a statement on the draining of reservoirs. OAQ(3)1564(ESH)*

**Jane Davidson:** Weithiau mae angen draenio un neu fwy o gronfeydd dŵr. Gall y

Reasons for draining reservoirs can be varied, involving maintenance works, inspections or actions relating to water quality. In all cases, the drainage should be supervised by a qualified engineer appointed to the all reservoirs engineers panel.

**Jenny Randerson:** You will be familiar with the case of Llanishen reservoir, which has been drained in the relatively recent past for an inspection following planning applications for the site. Despite the best efforts of local campaigners, Cardiff Council, the Environment Agency, the Countryside Council for Wales and Cadw, plus your decision to reject the planning application for this site, we all appear to have been powerless to prevent Western Power Distribution from draining Llanishen reservoir; we now appear powerless to insist that it refills it once the inspection has been undertaken.

3.00 p.m.

Weaknesses in the Reservoirs Act 1975 have been identified as the problem in relation to the balance of power in this situation. It has been suggested that the Act needs to be amended. Have you had any conversations with UK Government Ministers on the need to amend the Reservoirs Act 1975, or have your officials had such conversations? If you have not yet done so, will you undertake to start the process in the next few weeks?

**Jane Davidson:** The draining of the reservoir was undertaken following a safety inspection and in line with one of the recommendations made in the interests of the safety of the reservoir. You are absolutely right to say that there is no provision in the Reservoirs Act 1975 to require or insist on refilling the reservoir. However, it would not be appropriate for me to discuss with the undertaker either the drainage of the reservoir or their intentions regarding refilling it, nor would it be appropriate for me to affect the consideration of whether or not the proposed development should be allowed, because that might prejudice the redetermination of the appeal by Welsh Ministers. A public inquiry into the redetermination of the appeal is

rhesymau dros ddraenio cronfeydd dŵr amrywio, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw, archwiliadau neu weithredoedd sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr. Ym mhob achos, dylai'r draenio gael ei oruchwylio gan beiriannydd cymwys a benodwyd i'r panel holl beirianwyr cronfeydd dŵr.

**Jenny Randerson:** Byddwch yn gyfarwydd ag achos cronfa ddŵr Llanisien, sydd wedi ei draenio yn lled ddiweddar i'w harolygu yn dilyn ceisiadau cynllunio ar gyfer y safle. Er gwaethaf ymdrechion glew ymgyrchwyr lleol, Cyngor Caerdydd, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Cadw, yn ogystal â'ch penderfyniad i wrthod y cais cynllunio ar gyfer y safle hwn, ymddengys na all yr un ohonom wneud dim i atal Western Power Distribution rhag draenio cronfa ddŵr Llanisien; ymddengys ein bod bellach yn ddi-rym i fynnu ei fod yn ei ail-lenwi unwaith y caiff yr arolygiad ei wneud.

Nodwyd mai gwendidau yn Neddf Cronfeydd Dŵr 1975 sy'n gyfrifol am y broblem o ran diffyg grym yn y sefyllfa hon. Awgrymwyd bod angen diwygio'r Ddeddf. A gawsoch unrhyw sgysiau gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ar yr angen i ddiwygio Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, neu a gafodd eich swyddogion sgysiau o'r fath? Os na wnaethoch hynny eto, a wnewch chi ymrwmo i gychwyn y broses yn yr wythnosau nesaf?

**Jane Davidson:** Cafodd y gronfa ei draenio yn dilyn archwiliad diogelwch ac yn unol ag un o'r argymhellion a wnaed er budd diogelwch y gronfa. Rydych yn hollol gywir i ddweud nad oes unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Cronfeydd Dŵr 1975 i wneud ail-lenwi'r gronfa ddŵr yn ofynnol neu i fynnu ar hynny. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol i mi drafod gyda'r ymgymerwr naill ai ddraeniad y gronfa neu ei fwriadau ynghylch ei hail-lenwi, ac ni fyddai'n briodol i mi ddylanwadu ar y gwaith o ystyried a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer y datblygiad arfaethedig, oherwydd gallai niweidio'r broses o ailbenderfynu'r apêl gan Weinidogion Cymru. Bwriedir dechrau ymchwiliad cyhoeddus i ailbenderfynu'r apêl



scheduled to start in July 2011. I suggest that a new Assembly will now have the opportunity to look at all of these issues.

**Chris Franks:** We all understand that you have to choose your words carefully in relation to this matter, but perhaps we could refer to a general case rather than a specific case. Do you think that it is appropriate that the Welsh Government should seek additional powers to protect reservoir sites in the light of experience?

**Jane Davidson:** I do not think that I can add to what I have already said. A public inquiry into the redetermination of the appeal is scheduled to start in July.

### Tlodi Tanwydd

**9. Nerys Evans:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ymwneud â thlodi tanwydd yng Nghymru. OAQ(3)1571(ESH)*

**Jane Davidson:** Amlinellwyd cynigion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn ein strategaeth tlodi tanwydd, a gyhoeddwyd fis Gorffennaf diwethaf. Mae ein rhaglen tlodi tanwydd newydd, a oedd yn gam gweithredu pwysig yn y strategaeth, yn dechrau ar 1 Ebrill, a bydd yn targedu cymorth yn well ar gyfer cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd.

**Nerys Evans:** Yr wyf wedi bod yn siarad â sawl etholwr yng ngorllewin Cymru sy'n byw yng nghefn gwlad ac yn ddibynnol ar olew i wresogi'r tŷ. Fel yr ydych yn siŵr o wybod, mae llai o opsiynau ar gael i ni sy'n byw yng Nghymru wledig o ran sut i wresogi'n tai. Yr wyf yn deall amcanion y Llywodraeth o ran lleihau ein dibyniaeth ar danwydd fel olew, ond ar hyn o bryd nid oes gan rhai etholwyr penodol llawer o ddewis. Yr ydym wedi bod yn galw ar Lywodraeth Llundain ar y lefel Brydeinig i gyflwyno rheolydd tanwydd, ond beth arall y gallwn ei wneud ar gyfer y trigolion sy'n ei chael yn anodd oherwydd y cynnydd aruthrol ym mhrisiau olew?

**Jane Davidson:** As a newly confirmed resident of rural Wales, I certainly find that the conversations just about everywhere that

ym mis Gorffennaf 2011. Awgrymaf y bydd gan y Cynulliad newydd gyfle yn awr i edrych ar yr holl faterion hyn.

**Chris Franks:** Rydym i gyd yn deall bod rhaid i chi ddewis eich geiriau yn ofalus o ran y mater hwn, ond efallai y gallem gyfeirio at achos cyffredinol yn hytrach nag un penodol. A ydych o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru geisio pwerau ychwanegol i ddiogelu safleoedd cronfeydd dŵr yng ngoleuni profiad?

**Jane Davidson:** Nid wyf yn meddwl y gallaf ychwanegu at yr hyn a ddywedais eisoes. Bwriedir dechrau ymchwiliad cyhoeddus i ailbenderfynu'r apêl ym mis Gorffennaf.

### Fuel Poverty

**9. Nerys Evans:** *Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policies relating to fuel poverty in Wales. OAQ(3)1571(ESH)*

**Jane Davidson:** The Assembly Government's proposals for tackling fuel poverty were set out in our fuel poverty strategy, which was published last July. Our new fuel poverty programme, which was a key action in the strategy, starts on 1 April, and will better target support for fuel-poor households.

**Nerys Evans:** I have spoken to a number of constituents in west Wales living in rural areas who are dependent upon oil to heat their homes. I am sure that you know that there are fewer options for those of us who live in rural Wales in how to heat our homes. I understand the Government's aim in terms of reducing our dependence on fuels such as oil, but at the moment some constituents do not have a great deal of choice. We have been calling on the Government in London to introduce a fuel regulator on a UK-wide level, but what else can we do for those residents who are in difficulties because of the huge increase in oil prices?

**Jane Davidson:** Fel rhywun sydd newydd symud i gefn gwlad Cymru, rwyf yn sicr yn canfod mai pris tanwydd—i geir a chartrefi—

I go relate to fuel prices—for cars and homes. We are limited as an Assembly Government in the action that we can take on energy prices, and the regulation of suppliers is reserved to the UK Government. However, it is interesting that while gas and electricity markets are regulated, the domestic oil and LPG market is not subject to the same market regulation. We can support the installation of cost-effective alternatives to oil and LPG to deliver our wider fuel poverty, energy efficiency and climate change objectives, and we are currently doing so through Arbed. The Office of Fair Trading is currently investigating the heating oil and other off-gas markets, as regards whether customers have a proper choice of suppliers, with competitive prices and fair terms and conditions. The inquiry will start this month and finish in the autumn, and I encourage you and other Members to submit evidence to that inquiry because my personal view is that the markets should be regulated.

**Darren Millar:** I think that this is your last formal questions session as Minister, and I would like to thank you for the help that you have given to my fellow colleagues in the Assembly and me through your responses to questions in the past. Heating oil is also an issue in my constituency. I am concerned about the continuity of supply to some properties, particularly in inclement weather, when problems with the road network can cause difficulties. Personally, I fully support the calls for regulation of the heating oil industry, and I am pleased to hear that you have responded in a positive way to the request by Nerys Evans. Will you be having any discussions with UK Government Ministers on this prior to your departure from office?

**Jane Davidson:** I have continuous discussions with the UK Government about energy. In fact, I was talking to Greg Barker, Andrew Stunell and Justine Greening about the green deal only this morning, so it is important that there is a proper appreciation of the role of the Assembly Government and the UK Government in making sure that there are no unintended consequences to our actions, and that actions that the UK

yw testun pob sgwrs, lle bynnag yr âf. Dim ond rhai camau y gallwn eu cymryd fel Llywodraeth y Cynulliad o ran prisiau ynni, ac mae rheoleiddio cyflenwyr wedi ei neilltuo i Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, er bod marchnadoedd nwy a thrydan yn cael eu rheoleiddio, mae'n ddifyr nad yw'r farchnad olew ddomestig ac LPG yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau marchnad. Gallwn gefnogi gosod opsiynau amgen, cost-effeithiol i olew ac LPG i gyflenwi ein hamcanion tldi tanwydd ehangach, effeithlonrwydd ynni a newid yn yr hinsawdd, ac rydym yn gwneud hynny ar hyn o bryd drwy Arbed. Mae'r Swyddfa Masnachu Teg ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r marchnadoedd olew gwresogi a marchnadoedd di-nwy eraill, o ran a oes gan gwsmeriaid ddewis go iawn o gyflenwyr, gyda phrisiau cystadleuol a thelerau ac amodau teg. Bydd yr ymchwiliad yn dechrau y mis hwn ac yn gorffen yn yr hydref, ac rwy'n eich annog chi ac Aelodau eraill i gyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad hwnnw, oherwydd rwyf o'r farn y dylai'r marchnadoedd gael eu rheoleiddio.

**Darren Millar:** Tybiaf mai hon yw eich sesiwn gwestiynau ffurfiol olaf fel Gweinidog, a hoffwn ddiolch i chi am y cymorth a roesoch i mi ac i fy nghyd-Aelodau yn y Cynulliad drwy eich ymatebion i gwestiynau yn y gorffennol. Mae olew gwresogi yn broblem yn fy etholaeth i hefyd. Rwy'n pryderu am barhad y cyflenwad i rai eiddo, yn enwedig mewn tywydd garw, pan y gall problemau gyda'r rhwydwaith ffyrdd achosi anawsterau. Yn bersonol, rwyf yn llwyr gefnogi'r galw am reoleiddio'r diwydiant olew gwresogi, ac rwy'n falch o glywed eich bod wedi ymateb mewn ffordd gadarnhaol i'r cais gan Nerys Evans. A fyddwch yn cael unrhyw drafodaethau gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ar hyn cyn gadael eich swydd?

**Jane Davidson:** Rwyf yn trafod ynni'n barhaus gyda Llywodraeth y DU. Yn wir, roeddwn yn siarad â Greg Barker, Andrew Stunell a Justine Greening am y fargen werdd y bore yma, felly mae'n bwysig bod rôl Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU yn cael ei gwerthfawrogi'n briodol i sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'n gweithredoedd, a bod y camau mae Llywodraeth y DU yn eu cymryd yn

Government takes support what we are doing on fuel poverty and Arbed—policies that are supported by this Assembly. We should be clear that new arrangements, including the green deal, will support people in rural communities. Those discussions are ongoing.

It is probably worth saying that there is one alternative available to some households. Help is available to meet the cost of connecting to the gas network through a scheme run by Wales and West Utilities, which is responsible for maintaining and extending the gas network. It only applies to existing properties, and they have to be very close to the gas network, but there is more money in that scheme, and we are particularly keen to see it taken up. Gas is a good transitional fuel, and we are keen to see people come off oil onto other fuels, of which gas is the cheapest alternative.

cefnogi'r hyn rydym yn ei wneud ar dlodi tanwydd ac Arbed—policies sy'n cael eu cefnogi gan y Cynulliad hwn. Dylem fod yn glir y bydd y trefniadau newydd, gan gynnwys y fargen werdd, yn cefnogi pobl mewn cymunedau gwledig. Mae'r trafodaethau hynny'n parhau.

Mae'n debyg ei bod yn werth dweud bod dewis arall ar gael i rai cartrefi. Mae cymorth ar gael gyda chost cysylltu â'r rhwydwaith nwy drwy gynllun a redir gan Wales and West Utilities, sy'n gyfrifol am gynnal ac ymestyn y rhwydwaith nwy. Nid yw ond yn berthnasol i eiddo sy'n bodoli eisoes, a rhaid iddynt fod yn agos iawn at y rhwydwaith nwy, ond mae mwy o arian yn y cynllun hwnnw, ac rydym yn arbennig o awyddus i'w weld yn cael ei ddefnyddio. Mae nwy yn danwydd pontio da, ac rydym yn awyddus i weld pobl yn newid o olew i fathau eraill o danwydd, a nwy yw'r dewis arall rhataf.

### **Datganiad am y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Rhoi Organau a Meinweoedd Statement on the Organ Donation LCO**

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** In light of the successful referendum result on 3 March, and following the First Minister's statement yesterday in relation to that historic day for Wales, I have written to the Secretary of State for Wales and to the Chair of the Welsh Affairs Committee to inform them of my intention to withdraw the Proposed National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Health and Health Services) Order 2011. As the First Minister said yesterday, we should all recognise the importance of this result, and the decision by the people of Wales to vote 'yes' means a more efficient legislative system and no further need to seek permission first to legislate on devolved matters. The referendum result has paved the way for a future Welsh Assembly Government to introduce a Bill, with appropriate legislative scrutiny to take place here in the Assembly. In that event, Presiding Officer, it will be for you to decide whether a Government proposed Bill is within the Assembly's legislative competence. The Assembly Government's clear view is that, given the

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Yn sgîl canlyniad llwyddiannus y refferendwm ar 3 Mawrth, ac yn dilyn datganiad y Prif Weinidog ddoe o ran y diwrnod hanesyddol hwnnw i Gymru, ysgrifennais at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig i roi gwybod iddynt am fy mwriad i dynnu Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) 2011 yn ôl. Fel y dywedodd y Prif Weinidog ddoe, dylem i gyd gydnabod pwysigrwydd y canlyniad, ac mae'r penderfyniad gan bobl Cymru i bleidleisio 'ie' yn golygu system ddeddfwriaethol fwy effeithlon a dim mwy o angen i geisio caniatâd yn gyntaf i ddeddfu ar faterion datganoledig. Mae canlyniad y refferendwm wedi paratoi'r ffordd i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol gyflwyno Bil, gyda chraffu deddfwriaethol priodol yma yn y Cynulliad. Yn yr achos hwnnw, Lywydd, mater i chi yw penderfynu a yw Bil a gynigiwyd gan y Llywodraeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Barn glir Llywodraeth y Cynulliad

wording of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006, the Assembly would have the power to pass an Act about organ donation.

I now want to acknowledge the efforts that have been made to get us to this position with the proposed legislative competence Order. In October 2008 I initiated a public debate to capture opinion on whether Wales should become the first UK country to introduce an opt-out system to increase the number of organ donors. The ultimate purpose of that debate was to inform decisions by the Assembly Government on whether it should seek legislative change. Presiding Officer, you will recall that, as part of this debate, you kindly chaired a meeting of the Inter-faith Council for Wales, which included the Archbishop of Wales and Muslim leaders. Your assistance was an extremely helpful contribution to the debate, and I thank you for that. Since then, our officials and those in the Wales Office and the Department of Health have worked constructively together to get to the position where we were able to introduce, on 10 January, a proposed LCO that would achieve a system of presumed consent for Wales. I also thank Rosemary Butler, Chair of Legislation Committee No. 1, and the members of that committee, for their thoughtful and speedy consideration of the proposed LCO. In the short time that it had to scrutinise it, the committee undertook its work in a comprehensive and professional manner and produced a helpful report with important recommendations for consideration by the next Government and Assembly. Finally, I would also like to thank organisations across Wales, and especially the Kidney Wales Foundation, for actively supporting our efforts to bring legislation forward.

In conclusion, Presiding Officer, I am disappointed that we have not been able to achieve our aim of securing legislative competence in relation to organ donation during the life of this Assembly. It must be for the next Assembly Government to bring to fruition my aspirations and those of many Assembly colleagues to introduce a Bill the effect of which will be to increase the number of potential organs available for transplant to save lives and improve our citizens' quality

yw, o ystyried geiriad Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y byddai gan y Cynulliad y pŵer i basio Deddf ynghylch rhoi organau.

Rwyf yn awr am gydnabod yr ymdrechion a wnaed i'n cael i'r sefyllfa hon gyda'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig. Ym mis Hydref 2008 dechreuais drafodaeth gyhoeddus i weld beth oedd y farn ar pa un a ddylai Cymru fod y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno system optio allan i gynyddu nifer y rhoddwyr organau. Pwrpas y drafodaeth yn y pen draw oedd llywio penderfyniadau Lywodraeth y Cynulliad ar geisio newid deddfwriaethol. Lywydd, byddwch yn cofio, fel rhan o'r ddadl hon, i chi fod mor garedig â chadeirio cyfarfod o Gyngor Rhyng-ffydd Cymru, a oedd yn cynnwys Archesgob Cymru ac arweinwyr Mwslemaidd. Roedd eich cymorth yn gyfraniad hynod werthfawr i'r ddadl, a diolch ichi am hynny. Ers hynny, bu ein swyddogion ni a swyddogion Swyddfa Cymru a'r Adran Iechyd yn cydweithio'n adeiladol i gyrraedd y sefyllfa lle roeddem yn gallu cyflwyno Gorchymyn arfaethedig ar 10 Ionawr a fyddai'n sicrhau system o ganiatâd tybiedig yma yng Nghymru. Hoffwn ddiolch hefyd i Rosemary Butler, Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, ac i aelodau'r pwyllgor hwnnw, am eu hystyriaeth feddylgar a chyflym o'r Gorchymyn arfaethedig. Yn y cyfnod byr a gafodd i graffu arno, gwnaeth y pwyllgor ei waith mewn modd cynhwysfawr a phroffesiynol a lluniodd adroddiad defnyddiol gydag argymhellion pwysig i'w hystyried gan y Llywodraeth a'r Cynulliad nesaf. Yn olaf, hoffwn hefyd ddiolch i sefydliadau ledled Cymru, yn enwedig Sefydliad Aren Cymru, am fynd ati i gefnogi ein hymdrechion i gyflwyno deddfwriaeth.

I gloi, Lywydd, rwy'n siomedig nad ydym wedi gallu cyflawni ein nod o sicrhau cymhwysedd deddfwriaethol o ran rhoi organau yn ystod oes y Cynulliad hwn. Gwaith y Llywodraeth a'r Cynulliad nesaf fydd gwireddu fy nyheadau a rhai llawer o gydweithwyr yn y Cynulliad i gyflwyno Bil a fydd yn cynyddu nifer yr organau sydd ar gael i'w trawsblannu i achub bywydau a gwella ansawdd bywyd ein dinasyddion. Fel y Gweinidog dros iechyd, rwyf yn eu hannog

of life. As Minister for health, I urge it to do just that. However, we need not pursue the matter of the proposed LCO any further, and I have taken steps for it to be withdrawn.

**The Presiding Officer:** Thank you, Minister, for your statement and for your generous remarks.

**Nick Ramsay:** I thank the Minister for her statement. I am pleased to say that you have our full and complete support in withdrawing this proposed legislative competence Order today, and I say that not just as an Assembly Member, but as a member of Legislation Committee No. 1. I am pleased that we will no longer have to deal with LCOs, those infernal devices that so few people in Wales have understood.

As someone who has travelled the length and breadth of Monmouthshire over the past year talking to people about the complexity and the lack of clarity of the LCO system—*[Interruption.]* Please refrain from your insults for a moment. *[Laughter.]* As someone who has done that, I am delighted with the ‘yes’ result last week and with the vote in Monmouthshire, which has improved so much over 10 years. I am also delighted that we are now in a position to move forward. I have the unique distinction of coming from an area that did not deliver a ‘yes’ vote; the next time that I want to support a cause, I will probably keep my mouth shut a little bit more. *[Laughter.]* I am delighted that Wales is now moving forward together towards a more sensible and efficient way of legislating, as you said. That is good for us here as Assembly Members, and it is good for the people of Wales and for future generations.

With regard to the potential Bill that you spoke about, my group, when the time comes, will have a free vote on the issue. I have said that in this Chamber in the past. I welcome all efforts to raise levels of organ donation in Wales, and I welcome the debate that we have had in Wales since you announced your desire to have that debate. However, I have some concerns. You state that the Assembly Government’s clear view is that Schedule 7 gives the Assembly the power to pass an Act

i wneud hynny. Fodd bynnag, nid oes angen mwyach i fynd ar drywydd y Gorchymyn arfaethedig, ac rwyf wedi cymryd camau i’w dynnu’n ôl.

**Y Llywydd:** Diolch, Weinidog, am eich datganiad a’ch sylwadau hael.

**Nick Ramsay:** Diolch i’r Gweinidog am ei datganiad. Rwy’n falch o ddweud bod gennych ein cefnogaeth lawn o ran tynnu’r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig yn ôl heddiw, a dywedaf hynny nid yn unig fel Aelod Cynulliad, ond fel aelod o Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1. Rwy’n falch nad ydym bellach yn gorfod delio â Gorchymynion—y ddyfais ddieflig honno mae cyn lleied o bobl yng Nghymru wedi ei deall.

Fel rhywun sydd wedi teithio ar hyd a lled sir Fynwy dros y flwyddyn ddiwethaf yn siarad â phobl am y cymhlethdod a’r diffyg eglurder yn y system LCO—*[Torri ar draws.]* Peidiwch â’r sarhau am funud. *[Chwerthin.]* Fel rhywun a wnaeth hynny, rwyf wrth fy modd gyda’r canlyniad ‘ie’ yr wythnos diwethaf a’r bleidlais yn sir Fynwy, sydd wedi gwella cymaint dros 10 mlynedd. Rwyf hefyd yn falch ein bod bellach mewn sefyllfa i symud ymlaen. Fy hynodrwydd i yn y Siambr yw fy mod yn dod o ardal na wnaeth bleidleisio ‘ie’; y tro nesaf rwyf am gefnogi achos, mae’n debyg y bydd yn rhaid imi gau fy ngheg ychydig yn fwy. *[Chwerthin.]* Rwyf wrth fy modd bod Cymru yn awr yn symud ymlaen fel un tuag at ffordd fwy synhwyrol ac effeithlon o ddeddfu, fel y dywedasoeh. Mae hynny’n beth da i ni yma fel Aelodau Cynulliad, ac mae’n beth da i bobl Cymru a chenedlaethau’r dyfodol.

O ran y Bil posibl roeddech yn sôn amdano, bydd gan fy ngrŵp, pan ddaw’r amser, bleidlais rydd ar y mater. Rwyf wedi dweud hynny yn y Siambr yn y gorffennol. Rwy’n croesawu pob ymdrech i godi lefelau rhoi organau yng Nghymru, a chroesawaf y ddadl a gawsom yng Nghymru ers i chi gyhoeddi eich awydd i gael y ddadl honno. Fodd bynnag, mae gennyf rai pryderon. Rydych yn dweud mai barn glir Llywodraeth y Cynulliad yw bod Atodlen 7 yn rhoi’r pŵer i’r

on organ donation—it is nice to be able to say that word, ‘Act’, at last—but we cannot ignore the fact that concerns have been raised at the UK Government level, by the Attorney-General and others, that, regardless of the recent result, there is still an issue with regard to competence in this area, given the different ways that you might look at organ donation and issues of consent.

I hear what you say about the Presiding Officer’s view, and I have heard the concerns of groups such as Kidney Wales, and I think that everyone believes that there is a need to increase awareness of organ donation. However, I would like to hear more from you about what discussions you and the Assembly Government have had with the UK Government on this issue, given that it is such an important issue, which has the potential to transform the way that people in Wales are treated and their quality of life. It would be a great shame if this issue got entangled in issues about presumed consent and the new competence of this institution.

Many people have told me about their full support for the Assembly Government’s efforts in trying to deal with this issue, but opinion is split, and others are concerned. A Bill would have great potential, but it is necessary for all of us in Wales to move together on this issue, in the same way as last week. Some people believe in revolution, but I believe more in evolution, and we have moved forward a little as an institution. I hope that, in your efforts to progress improvements in organ donation rates in Wales, the Welsh nation can move forward as a whole.

3.15 p.m.

**Edwina Hart:** I thank you for your contribution and for the full support of your group for the action that I am taking today. Your support is most welcome. As an aside, we were all delighted—but not quite delighted enough—about the result in Monmouthshire. It shows the leadership that there was in Monmouthshire, by you among others, in making the case for further devolution. It is pleasing to note the change, particularly along our border, with regard to

Cynulliad basio Deddf ar roi organau—mae’n braf gallu dweud y gair hwnnw, ‘Deddf’, o’r diwedd—ond ni allwn anwybyddu’r ffaith bod pryderon wedi cael eu codi ar lefel Llywodraeth y DU, gan y Twrnai Cyffredinol ac eraill, beth bynnag fu’r canlyniad yn ddiweddar, fod problem o hyd o ran cymhwysedd yn y maes hwn, o ystyried y gwahanol ffyrdd y gallech edrych ar roi organau a materion am ganiatâd.

Clywaf yr hyn a ddywedwch am farn y Llywydd, a chlywais bryderon grwpiau fel Aren Cymru, a chredaf fod pawb o’r farn bod angen cynyddu ymwybyddiaeth o roi organau. Fodd bynnag, hoffwn glywed mwy gennych am y trafodaethau a gawsoch chi a Llywodraeth y Cynulliad gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn, o ystyried ei fod yn fater mor bwysig, sydd â’r potensial i drawsnewid y ffordd y caiff pobl yng Nghymru eu trin ac ansawdd eu bywyd. Byddai’n drueni mawr pe bai’r mater hwn yn mynd i ddryswch o ran materion am ganiatâd tybiedig a chymhwysedd newydd y sefydliad hwn.

Dywedodd llawer o bobl wrthyf eu bod yn llwyr gefnogi ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad wrth geisio delio â’r mater hwn, ond mae gwahaniaeth barn, ac mae eraill yn bryderus. Byddai Bil yn wych o ran potensial, ond mae angen i bob un ohonom yng Nghymru symud gyda’n gilydd ar y mater hwn, yn yr un modd â’r wythnos ddiwethaf. Mae rhai pobl yn credu mewn chwyldro, ond rwyf yn fwy o gredwr mewn esblygiad, ac rydym wedi symud ymlaen rhywfaint fel sefydliad. Gobeithio, yn eich ymdrechion i wella cyfraddau rhoi organau, y gall Cymru symud ymlaen fel cenedl gyfan.

**Edwina Hart:** Diolch ichi am eich cyfraniad ac am gefnogaeth lawn eich grŵp i’r camau rwy’n eu cymryd heddiw. Mae eich cefnogaeth i’w groesawu’n gynnes. Wrth fynd heibio, roeddem i gyd wrth ein boddau—ond ddim digon wrth ein boddau—am y canlyniad yn sir Fynwy. Roedd yn dangos yr arweinyddiaeth a oedd yn sir Fynwy, gennych chi ymhlith eraill, o ran dadlau dros ddatganoli pellach. Mae’n bleser nodi’r newid, yn enwedig ar hyd ein ffin, o

attitudes to the Assembly. I hope that, in the next four years of the Assembly, people will value us as a body even more.

Some of the issues that you have raised will be subject to extensive scrutiny by Members in the Chamber in the next Assembly, and that is the appropriate way to deal with the matter. Many issues have been raised regarding constituents' concerns and those of other groups, and it is important that legislation is scrutinised properly and that we take opinion into account. As I indicated when we were considering moving ahead with a Measure, a tremendous amount of further consultation would have to take place with various groups in this respect. I very much hope, Presiding Officer, that you, in the same position next time, will be able to help us with more of the excellent work that we have done with inter-faith groups in discussing the moral and ethical issues in relation to this matter, if it is to move forward.

As I have said, it will be entirely for the Presiding Officer to decide, at the time of the introduction of a Bill or before, whether in his view its provisions are within the Assembly's competence. The position regarding the Attorney-General is clear. The Attorney-General may raise concerns over the legislative competence of the Assembly to pass a Bill in this area, or about other matters. Therefore, there is an entitlement. Under section 112 of the Government of Wales Act 2006, the Attorney-General may refer any Bill that is passed by the Assembly to the Supreme Court for a decision on whether the provisions are within the legislative competence of the Assembly. Similarly, the Counsel General may also refer any Bill to the Supreme Court for such a decision. The UK Government could object to a Bill, if it wished to do so, and, under section 114 of the Government of Wales Act 2006, the Secretary of State for Wales has certain limited powers of intervention to prohibit an Assembly Bill from being submitted for Royal Assent. However, that would be a very serious step to take, and any such decision by the Secretary of State would be subject to a judicial review.

ran agweddau tuag at y Cynulliad. Gobeithio, ym mhedair blynedd nesaf y Cynulliad, y bydd pobl yn ein gwerthfawrogi fel corff hyd yn oed yn fwy.

Bydd rhai o'r materion a godwyd gennych yn destun craffu helaeth gan Aelodau yn y Siambr yn y Cynulliad nesaf, a dynar ffordd briodol o ddelio â'r mater. Cafodd llawer o faterion eu codi ynglŷn â phryderon etholwyr a rhai grwpiau eraill, ac mae'n bwysig bod y ddeddfwriaeth yn cael ei harchwilio'n iawn a'n bod yn rhoi ystyriaeth i farn pobl. Fel y dywedais pan oeddem yn ystyried symud ymlaen gyda Mesur, byddai'n rhaid cael ymgynghori pellach sylweddol gyda gwahanol grwpiau yn hyn o beth. Gobeithio'n fawr, Lywydd, y byddwch chi, yn yr un swydd y tro nesaf, yn gallu ein helpu gyda mwy o'r gwaith rhagorol a wnaethoch gyda grwpiau rhyng-ffydd i drafod y materion moesol a moesegol mewn perthynas â'r mater hwn, os yw i symud ymlaen.

Fel y dywedais, mater i'r Llywydd yn unig fydd penderfynu, ar adeg cyflwyno Bil neu cyn hynny, a yw ei ddarpariaethau o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae'r sefyllfa o ran y Twrnai Cyffredinol yn glir. Gall y Twrnai Cyffredinol godi pryderon ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i basio Mesur yn y maes hwn, neu am faterion eraill. Felly, mae'r hawl yn bodoli. O dan adran 112 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gall y Twrnai Cyffredinol gyfeirio unrhyw Fil sy'n cael ei basio gan y Cynulliad i'r Goruchaf Lys am benderfyniad ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o ran y darpariaethau. Yn yr un modd, efallai y bydd y Cwnsler Cyffredinol hefyd yn cyfeirio unrhyw Fil i'r Goruchaf Lys ar gyfer penderfyniad o'r fath. Gallai Llywodraeth y DU wrthwynebu Bil, pe bai'n dymuno gwneud hynny, ac, o dan adran 114 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru rai pwerau ymyrraeth cyfyngedig penodol i wahardd cyflwyno Bil Cynulliad ar gyfer Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, byddai hwnnw'n gam difrifol iawn i'w gymryd, a byddai unrhyw benderfyniad o'r fath gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn destun adolygiad barnwrol.

**Veronica German:** Thank you, Minister, for your statement. It is strange to have an absolutely excellent reason for withdrawing legislation. Usually, there is bad news when you have to withdraw legislation, but in this case there is a good reason for doing so. I have to admit that I agree with practically every word that Nick Ramsay has said today—which is not usual. I must pay tribute to him for the result in Monmouthshire, which is in my region, too. There is no doubt that he has worked like a Trojan in getting people to understand what the referendum was about. Another representative of his party covers the same patch and was in the opposite camp. Therefore, that really was excellent. Like many others in the Chamber, we as Welsh Liberal Democrats look forward to an early Bill on this matter in the next Assembly, whatever its make-up, and we would support such a step forward.

I am glad that you have mentioned the issue of competence, Minister. To take it a little further, I understand what you have said, but the issues that the Attorney-General had a problem with are still a mystery to me and to many others. Have you had any further correspondence or engagement on what those issues were? It is always good to know what the problems are and what argument you need in order to put your side forward. On a technical note, perhaps it would have been easier if the Government of Wales Act 2006 had listed the reserved matters. It would perhaps have been better to see things in that straightforward way.

Do you agree, Minister, that, although the legislative competence Order process has stopped, the work of Legislation Committee No. 1 was not a wasted effort, and that many of the issues highlighted in the committee's report will prove useful in future in taking this matter forward? I mentioned engagement with the public in particular when you made your first statement on this matter, as it is very important that this debate is held out in the open, so that everybody can express their fears and the conversation about this issue can be as open as possible.

**Veronica German:** Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Mae'n rhyfedd cael rheswm hollol wych dros tynnu deddfwriaeth yn ôl. Fel arfer, mae newyddion drwg pan fydd yn rhaid i chi dynnu deddfwriaeth yn ôl, ond yn yr achos hwn mae rheswm da dros wneud hynny. Rhaid imi gyfaddef fy mod yn cytuno â bron bob gair a ddywedodd Nick Ramsay heddiw, sy'n anghyffredin. Mae'n rhaid imi dalu teyrnged iddo am y canlyniad yn sir Fynwy, sydd yn fy rhanbarth i, hefyd. Nid oes amheuaeth iddo weithio'n galed i gael pobl i ddeall sail y refferendwm. Mae cynrychiolydd arall o'i blaid yn cynrychioli'r un ardal ond roedd yn rhan o'r ymgyrch yn erbyn. Roedd hynny felly yn rhagorol. Fel llawer o rai eraill yn y Siambr, rydym ni fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn edrych ymlaen at Fil cynnar ar y mater hwn yn y Cynulliad nesaf, beth bynnag fo'i aelodaeth, a byddem yn cefnogi cam ymlaen o'r fath.

Rwyf yn falch eich bod wedi sôn am gymhwysedd, Weinidog. I fynd gam ymhellach, rwyf yn deall yr hyn rydych wedi'i ddweud, ond mae'r materion a gafodd y Twrnai Cyffredinol broblemau gyda hwy yn dal i fod yn ddirgelwch i mi a llawer un arall. A gawsoch unrhyw ohebiaeth neu gysylltiad pellach ynghylch beth oedd y materion hynny? Mae bob amser yn dda gwybod beth yw'r problemau a pha ddadl rydych angen ei rhoi er mwyn cyflwyno eich achos. Ar nodyn technegol, efallai y byddai wedi bod yn haws pe bai Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi rhestru'r materion a gadwyd yn ôl. Efallai y byddai'n well pe bai pethau wedi cael eu gweld yn y goleuni symlach hwnnw.

Er bod y broses Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol wedi dod i ben, a ydych yn cytuno, Weinidog, na fu gwaith Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 yn ofer, ac y bydd llawer o'r materion a amlygwyd yn adroddiad y pwyllgor o ddefnydd yn y dyfodol o ran symud y mater hwn ymlaen? Soniais yn benodol am ymgysylltu â'r cyhoedd pan wnaethoch eich datganiad cyntaf ar y mater hwn, gan ei bod yn bwysig iawn bod y ddadl hon yn cael ei chynnal yn agored, fel y gall pawb fynegi eu pryderon ac fel bod y sgwrs am y mater hwn mor agored ag y bo modd.



I believe that some issues to do with the Human Tissue Act 2004 and donations for research were highlighted, and they need to be discussed as this is taken forward.

With regard to public engagement, do you think that it is appropriate for this to be carried on now? We have had the committee's report, and we now have elections coming up, and this matter will no doubt form part of many of the discussions that take place during the election campaign. Hopefully, this issue of public engagement and talking about the issues involved will not die a death during this period, but will still be out in the open. How do you intend to take that forward?

**Edwina Hart:** I place on record my thanks to the Welsh Liberal Democrats, as they have been very supportive of everything to do with the proposed presumed consent LCO since these issues were first raised in this Chamber. I thank Jenny Randerson in particular, as she has always given this issue her full support in statements in the Chamber and elsewhere, and she has supported the Kidney Wales Foundation and the line that it has taken.

With regard to how we proceed in this matter, although some Members disagree with our taking this approach, it is good that there is broad support for it across the parties. It is therefore essential that we put down a marker in today's discussion to show whoever takes the lead on this issue in Government in the next Assembly that we expect this legislation to proceed.

You are right about public engagement, but it would be inappropriate for me to talk about further public engagement at this point. It would be more appropriate for whoever is appointed Minister for health in the next administration to take such things forward. The level of public engagement so far has been good, however, but we will have to continue that, as I indicated in my response to Nick Ramsay, because it is important to take people with you in areas of particular interest.

I agree absolutely with what you said about

Credaf fod rhai materion ynghylch deddf Meinweoedd Dynol 2004 a rhoddion ar gyfer ymchwil wedi cael eu hamlygu, ac mae angen eu trafod wrth i hyn fynd yn ei flaen.

O ran ymgysylltu â'r cyhoedd, a dybiwch ei bod yn briodol mynd ymlaen efo hyn yn awr? Rydym wedi cael adroddiad y pwyllgor, ac mae gennym etholiadau ar y gweill, a bydd y mater hwn yn sicr yn rhan o nifer o'r trafodaethau a gynhelir yn ystod yr ymgyrch etholiadol. Gobeithio na fydd y mater hwn o ymgysylltu â'r cyhoedd a siarad am y materion dan sylw yn cael eu hanghofio yn ystod y cyfnod hwn, ond y byddant yn dal i gael eu trafod yn agored. Sut y bwriadwch fwrw ymlaen â hynny?

**Edwina Hart:** Hoffwn ddiolch ar goedd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, sydd wedi bod yn gefnogol iawn o bopeth yn ymwneud â'r LCO caniatâd tybiedig arfaethedig ers i'r materion hyn gael eu codi gyntaf yn y Siambr hon. Diolch i Jenny Randerson yn benodol, gan ei bod wedi rhoi ei chefnogaeth lawn i'r mater hwn bob amser mewn datganiadau yn y Siambr ac mewn manau eraill, ac mae wedi cefnogi Sefydliad Aren Cymru a'i safbwynt.

O ran sut rydym yn symud ymlaen â'r mater hwn, er bod rhai Aelodau yn anghytuno ein bod yn cymryd yr ymagwedd hon, mae'n dda bod cefnogaeth eang ar ei chyfer gan bob plaid. Mae'n hanfodol felly ein bod yn datgan hynny'n glir yn nhrefnadaeth heddiw, i ddangos i bwy bynnag sy'n cymryd yr awenau ar y mater hwn yn y Llywodraeth yn y Cynulliad nesaf ein bod yn disgwyl i'r ddeddfwriaeth hon fynd yn ei blaen.

Rydych yn gywir am ymgysylltu â'r cyhoedd, ond byddai'n amhriodol i mi siarad am ymgysylltu pellach â'r cyhoedd ar y pwynt hwn. Byddai'n fwy priodol i bwy bynnag a benodir yn Weinidog dros iechyd yn y weinyddiaeth nesaf i fynd â phethau o'r fath ymlaen. Bu'r lefel o ymgysylltu â'r cyhoedd yn dda hyd yma, fodd bynnag, ond bydd yn rhaid i ni barhau â hynny, fel y nodais yn fy ymateb i Nick Ramsay, oherwydd mae'n bwysig mynd â phobl gyda chi mewn meysydd o ddiddordeb arbennig.

Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedsoch am

the work undertaken by Legislation Committee No.1, as that will give us a very firm foundation for what is likely to happen in the next Assembly. Comments have been made about the level of scrutiny in the Assembly. I am often scrutinised, and I have always found the level of scrutiny and interest shown by Members to be exceptionally high. I think that it comes from the fact that Members feel close to certain issues, and they generally sit on the committees that they wish to be on, dealing with issues that they are interested in. The quality of the scrutiny is therefore always excellent. I have noticed this, particularly in our discussions on organ donation.

As for what may or may not happen in the future, people are particularly concerned about some of the issues concerning the Attorney-General. Let us put that to one side for now and see if anything arises during the next Assembly that might end up in the Supreme Court. Now is the time to recognise that we shall be deciding this matter in the next Assembly. Nonetheless, I thank you very much for your support on this issue, Veronica.

**David Lloyd:** I welcome the statement by the Minister for health this afternoon: it is great news all round. As Veronica German said, not all withdrawals of legislation are welcome, but the withdrawal of this proposed LCO certainly is, and for all the right reasons. I would preface my comments by offering a vote of thanks to all those who have been involved for several years, in Wales and beyond, in pushing the issue of presumed consent or an opt-out system for organ donation. The Minister knows, having instigated at least one public consultation herself, that there has been more than one public consultation, along with reviews and similar preparations for the proposed LCO. It is also right to record our thanks to the Kidney Wales Foundation and to the Welsh Kidney Patients Association for all of their support.

The withdrawal of this LCO has been brought about by last week's resounding 'yes' vote. It is right that we thank the people of Wales for that resounding vote of

y gwaith a wnaed gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, gan y bydd yn rhoi sylfaen gadarn iawn inni ar gyfer yr hyn sy'n debygol o ddigwydd yn y Cynulliad nesaf. Gwnaed sylwadau am lefel y craffu yn y Cynulliad. Creffir arnaf yn aml, ac rwy'n canfod bob amser bod lefel y craffu a'r diddordeb a ddangosir gan Aelodau yn eithriadol o uchel. Credaf ei fod yn deillio o'r ffaith bod Aelodau yn teimlo'n frwd am rai materion, a'u bod yn gyffredinol yn eistedd ar y pwyllgorau y maent yn dymuno bod arnynt, yn delio â materion y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt. Felly, mae ansawdd y gwaith craffu bob amser yn ardderchog. Rwyf wedi sylwi ar hyn, yn enwedig yn ein trafodaethau ar roi organau.

O ran yr hyn a allai neu na allai ddigwydd yn y dyfodol, mae pobl yn arbennig o bryderus am rai o'r materion sy'n ymwneud â'r Twrnai Cyffredinol. Gadewch inni roi hynny o'r neilltu am y foment a chawn weld a oes unrhyw beth yn codi yn ystod y Cynulliad nesaf a allai ddiweddu yn y Goruchaf Lys. Dyma'r amser i gydnabod y byddwn yn penderfynu ar y mater hwn yn y Cynulliad nesaf. Serch hynny, diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth ar y mater hwn, Veronica.

**David Lloyd:** Croesawaf y datganiad gan y Gweinidog dros iechyd y prynhawn yma: mae'n newyddion gwych i bawb. Fel y dywedodd Veronica German, nid yw pob achos o dynnu deddfwriaeth yn ôl i'w groesawu, ond mae tynnu'r LCO arfaethedig hwn yn ôl sicr yn enghraifft o hynny, ac am yr holl resymau cywir. Fel rhagymadrodd, hoffwn ddiolch i bawb a fu'n ymwneud ers nifer o flynyddoedd, yng Nghymru a thu hwnt, yn pwysu am ganiatâd tybiedig neu system dewis peidio â rhoi organau. Gŵyr y Gweinidog, ar ôl cychwyn o leiaf un ymgynghoriad cyhoeddus ei hun, y bu mwy nag un ymgynghoriad cyhoeddus, ynghyd ag adolygiadau a pharatoadau tebyg ar gyfer yr LCO arfaethedig. Mae hefyd yn briodol diolch i Sefydliad Aren Cymru ac i Gymdeithas Cleifion Arennau Cymru am eu holl gymorth.

Cafodd y Gorchymyn hwn ei dynnu'n ôl yn sgil y bleidlais 'ie' ysgubol yr wythnos diwethaf. Mae'n iawn ein bod yn diolch i bobl Cymru am y bleidlais o hyder ysgubol

confidence in the Assembly and in us as Assembly Members. I include the people of Monmouthshire, and their representative, Nick 'Owain Glyndŵr' Ramsay. We therefore offer a vote of thanks all around. All of this reflects a new confidence in Wales and the Assembly, which is scarcely believable if we consider the results of the previous referendum. *[Interruption.]* I thank Rosemary Butler, the Chair of Legislation Committee No.1, for reminding us of the successful response to the referendum in Newport.

This boils down to the fact that we will have no need for LCOs ever again. This place is now a parliament, or a senedd. The people here will be making laws for the people of Wales for the first time in 606 years. That was the last time that anybody in Wales made a law for the people of Wales. Prior to that, we had Hywel Dda, whose history is recorded outside the old Chamber, Siambr Hywel. *[Interruption.]* Naturally, I was not around then, Brian.

During the referendum campaign that we have just had, people were always asking what we would do with our new powers. One of the definitive answers to that question was to go for an opt-out system for organ donation. Yet, for some of us, this was always more than a mere technical amendment, because the opt-out system will save lives. I realise that organ donation and the very question of mortality are very sensitive and emotive issues for all of us. However, I would be willing to suggest that the Assembly, with its new-found confidence in scrutiny that the Minister alluded to, is more than able to cope with emotive and sensitive issues, taking a breadth of opinions and coming to positive conclusions, however emotive and sensitive the issues are. Now is not the time to make the case for the opt-out organ donation system. However, I note in passing the urgent imperative of increasing the number of organ donors and the number of cadaveric organs available to tackle the increasing waiting list of people waiting for a kidney transplant in Wales. One person on that list in Wales dies every 11 days, while waiting for a new kidney. There is an imperative, and that is why I welcome the new streamlining of the powers of this

honno yn y Cynulliad ac ynom ni fel Aelodau Cynulliad. Rwy'n cynnwys pobl sir Fynwy, a'u cynrychiolydd, Nick 'Owain Glyndŵr' Ramsay. Rydym felly yn cynnig diolch i bawb. Mae hyn oll yn adlewyrchu hyder newydd yng Nghymru a'r Cynulliad, sydd prin yn gredadwy os ydym yn ystyried canlyniadau'r refferendwm blaenorol. *[Torri ar draws.]* Diolch i Rosemary Butler, cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, am ein hatgoffa o'r ymateb llwyddiannus i'r refferendwm yng Nghasnewydd.

Canlyniad hyn yw na fydd arnom angen LCOs byth eto. Mae'r lle hwn bellach yn senedd. Bydd y bobl yma yn gwneud deddfau i bobl Cymru am y tro cyntaf mewn 606 mlynedd. Dyna oedd y tro diwethaf i unrhyw un yng Nghymru wneud cyfraith i bobl Cymru. Cyn hynny, roedd gennym Hywel Dda, y mae ei hanes wedi ei gofnodi y tu allan i'r hen Siambr, Siambr Hywel. *[Torri ar draws.]* Wrth gwrs, nid oeddwn o gwmpas bryd hynny, Brian.

Yn ystod ymgyrch y refferendwm rydym newydd ei chael, roedd pobl bob amser yn gofyn beth y byddem yn ei wneud gyda'n pwerau newydd. Un o'r atebion pendant i'r cwestiwn hwnnw oedd mynd am system dewis peidio â rhoi organau. Eto i gyd, i rai ohonom, roedd hyn bob amser yn fwy na dim ond gwelliant technegol, oherwydd bydd y system dewis peidio â rhoi yn achub bywydau. Rwy'n sylweddoli bod rhoi organau a'r cwestiwn o farwoldeb yn faterion hynod sensitif ac emosiynol i bob un ohonom. Fodd bynnag, byddwn yn barod i awgrymu bod y Cynulliad, gyda'i hyder newydd mewn craffu y cyfeiriodd y Gweinidog ato, yn fwy nag abl i ymdopi â materion emosiynol a sensitif, gan ystyried barn amrywiol a dod i gasgliadau cadarnhaol, waeth pa mor emosiynol a sensitif yw'r materion. Nid dyma'r amser i ddadlau o blaid system dewis peidio â rhoi organau. Fodd bynnag, nodaf wrth fynd heibio yr angen brys i gynyddu nifer y rhoddwyr organau a nifer yr organau cyrff meirw sydd ar gael i fynd i'r afael â'r rhestr gynyddol o bobl sy'n aros am drawsblaniad aren yng Nghymru. Mae un person ar y rhestr yng Nghymru yn marw bob 11 diwrnod, tra'n aros am aren newydd. Mae rheidrwydd, a dyna pam rwy'n croesawu'r

senedd.

It is already Plaid Cymru policy to choose an opt-out system in relation to organ donation. If elected, I look forward, in the next Assembly, to pursuing and working positively to secure a positive result for an Assembly Act on organ donation. Last week's referendum result means that the Assembly can now go ahead, without going cap in hand to Westminster, and legislate for the good of the people of Wales. Bring it on.

**Edwina Hart:** I thank Dr Lloyd for his unstinting support—particularly on this issue—during all of the years when these issues have been raised at the Assembly. The National Assembly for Wales has had a mature approach in looking at the issue of organ donation. There have been some attempts to muddy the waters on this issue, and much has been made of what the Welsh organ donation implementation group will do to address the capacity issues. However, even if WODIG does everything it possibly can to deal with some of the issues around capacity and operational matters, without a legislative change, we will not get the number of donors required to meet expected demand. We have to see this in the context of what we can do on a practical level with the Welsh organ donation implementation group, including issues around service delivery. We also need to look at what more we can do as a nation to encourage organ donation. The important thing to remember about all of this is that we are trying to achieve greater organ donation rates in Wales. This will not just benefit the people of Wales; it will also benefit the people of the United Kingdom. That is the way that organ donation is dealt with. As I have indicated previously, we are a very generous nation to be looking at this particular issue, and we are doing it for the right moral reasons.

**The Presiding Officer:** The final word goes to my noble friend Jenny.

3.30 p.m.

**Jenny Randerson:** Thank you, Presiding Officer. I preface my remarks by declaring an interest as a recently appointed trustee of Kidney Wales Foundation.

symleiddio newydd ar bwerau'r senedd hon.

Mae eisoes yn bolisi gan Blaid Cymru i ddewis system optio allan o ran rhoi organau. Os caf fy ethol, rwy'n edrych ymlaen, yn y Cynulliad nesaf, i fynd ar drywydd Deddf Cynulliad ar roi organau a gweithio'n gadarnhaol i sicrhau canlyniad cadarnhaol. Golyga canlyniad refferendwm yr wythnos diwethaf ein bod yn gallu mynd ymlaen, heb fynd ar ofyn San Steffan, a deddfu er lles pobl Cymru. Awn amdani.

**Edwina Hart:** Diolch i Dr Lloyd am ei gefnogaeth ddi-wyro—yn enwedig ar y mater hwn—yn ystod yr holl flynyddoedd y cafodd y materion hyn eu codi yn y Cynulliad. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi meddu ar agwedd aeddfed wrth edrych ar y mater o roi organau. Bu rhai ymdrechion i gymylu'r ffurfafen o ran hyn, a gwnaed llawer o'r hyn y bydd grŵp gweithredu rhoi organau Cymru yn ei wneud i ymdrin â'r materion capasiti. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw'r grŵp yn gwneud popeth yn ei allu i ymdrin â rhai o'r materion capasiti a'r materion gweithredol, heb newid deddfwriaethol, ni fyddwn yn cael y nifer angenrheidiol o roddwyr i gwrdd â'r galw disgwylidig. Mae'n rhaid i ni weld hyn yng nghyd-destun yr hyn y gallwn ei wneud yn ymarferol gyda'r grŵp gweithredu rhoi organau yng Nghymru, gan gynnwys materion o ran darparu gwasanaethau. Mae angen inni edrych hefyd ar beth arall y gallwn ei wneud fel cenedl i annog rhoi organau. Y peth pwysig i'w gofio am hyn oll yw ein bod am gynyddu nifer yr organau a roddir yng Nghymru. Bydd hyn nid yn unig o fudd i bobl Cymru; bydd hefyd o fudd i bobl y Deyrnas Unedig. Dyna'r ffordd y caiff rhoi organau ei drin. Fel y dywedais o'r blaen, rydym yn genedl hael iawn i edrych ar y mater penodol hwn, ac rydym yn ei wneud am y rhesymau moesol cywir.

**Y Llywydd:** Aiff y gair olaf i fy nghyfaill bonheddig Jenny.

**Jenny Randerson:** Diolch yn fawr, Lywydd. Cyn dechrau ar fy sylwadau, rwyf yn datgan buddiant fel un a benodwyd yn ddiweddar yn ymddiriedolwr ar Sefydliad Aren Cymru.

I strongly welcome your statement, Minister. I will not wax eloquent, as Dai Lloyd has just done, but I welcome the reason why you have had to make this statement. I feel, following last week's vote, that I am going out on a high. I feel a great deal of satisfaction that we now have a Senedd, which has been the policy of my party since 1910, and that we have an institution that is fit for purpose, with the powers that we need.

I have a brief question, Minister. Elections, of course, cause a hiatus and, although it will not be anything like the hiatus that would be caused by taking a legislative competence Order on this topic to Westminster, the election will cause a little bit of a delay. I simply want to seek your assurance that, in the three and a half weeks that we have left of this Assembly, your officials, under your guidance, will be starting to prepare a Bill in the appropriate manner for presumed consent on organ donation. Once they have started, I am sure that they will continue that work during the election period and that you will be able to get on with it as an Assembly, and as a Senedd, in the next term.

**Edwina Hart:** I am delighted to confirm to the noble Baroness that work will commence with the lawyers on how to draft the appropriate legislation.

**The Presiding Officer:** Thank you, Minister. I hope that I did not appear not to be impartial during that statement.

Rwy'n croesawu eich datganiad yn frwd, Weinidog. Ni fyddaf yn mynd i hwyl, fel mae Dai Lloyd newydd ei wneud, ond croesawaf y rheswm pam y bu'n rhaid ichi wneud y datganiad hwn. Rwy'n teimlo, yn dilyn pleidlais yr wythnos diwethaf, fy mod yn gadael ar nodyn uchel. Rwy'n teimlo llawer iawn o foddhad fod gennym yn awr Senedd, a fu'n bolisi gan fy mhlaid ers 1910, a bod gennym sefydliad sy'n addas at y diben, gyda'r pwerau sydd eu hangen arnom.

Mae gennyf gwestiwn byr, Weinidog. Mae etholiadau, wrth gwrs, yn creu oedi ac, er na fydd yn ddim byd tebyg i'r oedi a fyddai'n cael ei achosi drwy fynd â Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar y pwnc hwn i San Steffan, bydd yr etholiad yn achosi ychydig o oedi. Y cyfan rwyf am ei gael yw eich sicrwydd, yn y dair wythnos a hanner sy'n weddill o'r Cynulliad hwn, y bydd eich swyddogion, o dan eich arweiniad, yn dechrau paratoi Mesur yn y modd priodol ar gyfer caniatâd tybiedig ar roi organau. Unwaith y byddant wedi dechrau, rwy'n siwr y byddant yn parhau â'r gwaith yn ystod cyfnod yr etholiad, ac y byddwch yn gallu bwrw ymlaen ag ef fel Cynulliad, ac fel Senedd, yn y tymor nesaf.

**Edwina Hart:** Rwyf yn falch iawn o gadarnhau i'r Farwnes fonheddig y bydd y gwaith hwnnw yn dechrau gyda'r cyfreithwyr ar sut i ddrafftio'r ddeddfwriaeth briodol.

**Y Llywydd:** Diolch ichi, Weinidog. Gobeithio nad oeddwn yn ymddangos fel pe bai gennyf duedd yn ystod y datganiad hwnnw.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.32 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.32 p.m.*

**Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar yr 'Ymchwiliad Dilynol i Rianta yng Nghymru a Rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar Waith'  
The Children and Young People Committee's Report 'Follow up on Inquiry into Parenting in Wales and the Delivery of the Parenting Action Plan'**

*Cynnig NDM4682 Helen Mary Jones*

*Motion NDM4682 Helen Mary Jones*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar yr 'Ymchwiliad dilynol i Rianta yng Nghymru a rhoi'r cynllun gweithredu rhianta ar waith' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2011.*

**Helen Mary Jones:** This report is a follow-up report, designed to monitor the progress that has been made with those recommendations that the Government accepted from our committee's earlier report into the delivery of the parenting action plan and support for parenting generally within Wales. A former committee member, Christine Chapman, once described the Children and Young People Committee as the dog with a bone committee—once we get our teeth into issues, we do not let them go. This is a very good example of that dog with a bone approach.

I begin by thanking my fellow committee members and former committee members, the committee staff and all those who gave evidence to our inquiry. We had wonderful evidence from the professionals involved, but it was parents who had received support from parenting schemes that were our most important witnesses. We also had the opportunity to talk to some of their children and to other young people who could tell us about the ways in which they felt that the parenting support for mum and dad had helped them.

Our report makes 10 recommendations. The Government has accepted eight in full and two in principle, and I am very grateful to the Minister for that positive response. I will not take the Chamber's time this afternoon in reiterating all the recommendations. Members will have had an opportunity to read the report, but I would like to use this opportunity to seek a little further clarity from the Government about some of those recommendations that have been accepted in full or in principle.

In our original report, we recommended that the Government should appoint a national parenting champion. In its response, the Government set out alternative ways in which it proposed to give a national, political lead on parenting. We were happy to accept that,

*Notes the report of the Children and Young People Committee 'Follow up inquiry into parenting in Wales and the delivery of the parenting action plan' which was laid in the Table Office on 31 January 2011.*

**Helen Mary Jones:** Adroddiad dilynol yw'r adroddiad hwn, a'i fwriad yw monitro'r cynnydd a wnaed gyda'r argymhellion hynny a dderbyniodd y Llywodraeth o adroddiad blaenorol ein pwyllgor ar gyflawni'r cynllun gweithredu rhianta a chymorth i rianta yn gyffredinol yng Nghymru. Mae cyn-aelod o'r pwyllgor, Christine Chapman, wedi disgrifio'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc fel y pwyllgor cig ag asgwrn—ar ôl i ni gael ein dannedd i mewn i faterion, nid ydym yn gadael iddynt fynd. Mae hon yn enghraifft dda iawn o'r ymagwedd honno.

Dechreuaf drwy ddiolch i fy nghyd-aelodau ar y pwyllgor a chyn aelodau'r pwyllgor, staff y pwyllgor ac i bawb a roddodd dystiolaeth i'n hymchwiliad. Cawsom dystiolaeth ragorol gan y gweithwyr proffesiynol dan sylw, ond y rhieni a oedd wedi derbyn cymorth gan gynlluniau rhianta oedd ein tystion pwysicaf. Cawsom gyfle hefyd i siarad â rhai o'u plant ac i bobl ifanc eraill a allai ddweud wrthym am y ffyrdd roeddynt yn teimlo bod y cymorth rhianta i mam a dad wedi eu helpu.

Mae ein hadroddiad yn gwneud 10 argymhelliad. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn wyth yn llawn a dau mewn egwyddor, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am yr ymateb cadarnhaol hwnnw. Ni fyddaf yn mynd ag amser y Siambr y prynhawn yma wrth ailadrodd yr holl argymhellion. Bydd yr Aelodau wedi cael cyfle i ddarllen yr adroddiad, ond hoffwn ddefnyddio'r cyfle hwn i geisio ychydig mwy o eglurder gan y Llywodraeth ynghylch rhai o'r argymhellion hynny sydd wedi cael eu derbyn yn llawn neu mewn egwyddor.

Yn ein hadroddiad gwreiddiol, rydym yn argymhell y dylai'r Llywodraeth benodi hyrwyddwr rhianta cenedlaethol. Yn ei ymateb, mae'r Llywodraeth yn nodi ffyrdd eraill y mae'n bwriadu rhoi arweiniad cenedlaethol, gwleidyddol ar rianta. Rydym

provided that the case for a strong lead was accepted. Our first recommendation in this report suggests that local authority political parenting champions should be put in place, and the Government has agreed to this in principle. However, it says in its response that it should be up to individual local authorities to decide how that lead is undertaken. I ask the Minister today to keep this under consideration. It may be, as always at this stage in an Assembly, an issue that the next Minister for children may want to look at. The Government requires local authorities to have political leads on some issues that are of paramount importance, such as a political lead on carers' issues. Our committee still believes that parenting is an important enough issue to need that local lead. We were convinced in the second lot of evidence that the local lead was what was missing in some places, rather than the national lead, which was seen by professionals as being quite strong.

Our second recommendation relates to stigma, and the possible risk that, by associating parenting support with action to counteract child poverty, we would feed into the idea that it is only parents whose children are growing up in poverty and disadvantage who need parenting support. We asked in the recommendation that the Minister be clear, through Families First, that there was no intention to feed into that idea. It would be fair to say that some of what we have since learned about the Government's intentions for Families First to be a truly universal service has reassured us. We are glad that the Minister fully accepts that recommendation.

We would accept what the Minister says in his response about parents in disadvantage facing particular challenges that may make life more difficult for them, and may mean that they need extra support. However, I hope that the Minister will agree that the majority of parents living in poverty are providing good, loving environments for their children, even if they may not be able to provide all the material goods that some middle-class

yn fodlon derbyn hynny, ar yr amod bod y ddadl dros arweiniad cryf yn cael ei derbyn. Mae ein hargymhelliad cyntaf yn yr adroddiad hwn yn awgrymu y dylid cyflwyno hyrwyddwr rhianta gwleidyddol awdurdod lleol, ac mae'r Llywodraeth wedi cytuno i hyn mewn egwyddor. Fodd bynnag, dywed yn ei ymateb y dylai awdurdodau lleol unigol benderfynu sut y caiff yr arweiniad hwnnw ei gynnal. Gofynnaf i'r Gweinidog heddiw gadw hyn dan ystyriaeth. Efallai y bydd, fel bob amser ar yr adeg hon mewn Cynulliad, yn fater y gall y Gweinidog nesaf dros blant edrych arno. Mae'r Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol feddu ar arweiniad gwleidyddol ar rai materion pwysig iawn, fel arweiniad gwleidyddol ar faterion gofalgwyr. Mae ein pwyllgor yn dal o'r farn bod rhianta yn fater digon pwysig i fod angen yr arweiniad lleol hwnnw. Roeddem wedi ein hargyhoeddi yn yr ail gyfres o dystiolaeth bod yr arweiniad lleol ar goll mewn rhai mannau, yn hytrach na'r arweiniad cenedlaethol, a oedd yn cael ei ystyried yn eithaf cryf gan weithwyr proffesiynol.

Mae ein hail argymhelliad yn ymwneud â stigma, a'r risg bosibl y byddem, drwy gysylltu cymorth rhianta gyda gweithredu i atal tlodi plant, yn bwydo'r syniad mai dim ond rhieni y mae eu plant yn tyfu i fyny mewn tlodi ac anfantais sydd angen cymorth rhianta. Rydym yn gofyn yn yr argymhelliad bod y Gweinidog yn ei gwneud yn glir, drwy Teuluoedd yn Gyntaf, nad oedd unrhyw fwrriad i fwydo'r syniad hwnnw. Byddai'n deg dweud bod rhywfaint o'r hyn rydym wedi ei ddysgu ers hynny am fwriadau'r Llywodraeth i Teuluoedd yn Gyntaf fod yn wasanaeth gwirioneddol i bawb wedi rhoi sicrwydd i ni. Rydym yn falch bod y Gweinidog yn derbyn yr argymhelliad hwnnw'n llwyr.

Byddem yn derbyn yr hyn a ddywed y Gweinidog yn ei ymateb am rieni dan anfantais sy'n wynebu heriau penodol a allai wneud bywyd yn fwy anodd iddynt, a allai olygu bod angen cefnogaeth ychwanegol arnynt. Fodd bynnag, gobeithio y bydd y Gweinidog yn cytuno bod y rhan fwyaf o'r rhieni sy'n byw mewn tlodi yn darparu amgylcheddau da a chariadus i'w plant, hyd yn oed os nad ydynt o bosibl yn gallu

children have. I hope that the Minister would also acknowledge that better-off families too can face challenges and need help to improve their parenting skills. As a committee, we remain somewhat concerned that the families working group reports to the child poverty project board. We are concerned about the impression that that may give, and again we would ask the Government to keep that under review.

Recommendation 4 relates to a strong message that we received from professionals about the difficulties with regard to information sharing. This is not news; many of the issues that we addressed are debated in the Chamber. I am pleased that the Government accepts our recommendation, and I hope that the Minister will agree that we need a major cultural shift in some organisations—because it is not just about changing guidance and standards. The next Assembly Government will need to drive that cultural shift. We must not, in four years' time, still be talking about difficulties in terms of sharing information between agencies.

We understand the Government accepting recommendation 5 about standardised evaluation measures in principle rather than in full, because we make a specific reference to a specific organisation that we suggest the Government looks at, namely the Incredible Years Wales Centre, which is already developing standardised measures to look at the success of parenting programmes. I accept the need to be cautious and for the formal acceptance to be in principle. However, we also hope that the Minister accepts that, as things stand, the Incredible Years Wales Centre is the obvious partner for this work, and we hope that there will not be any unnecessary wheel reinventing. I know that the Minister is keen for people to get on with things, rather than study them endlessly. Therefore, we fully accept the need for that caution in accepting this in principle, but would include that caveat.

darparu'r holl ddeunydd materol a fyddai gan rai plant dosbarth canol. Gobeithio y byddai'r Gweinidog hefyd yn cydnabod y gall teuluoedd sydd â mwy o arian wynebu heriau ac y byddai arnynt angen cymorth i wella eu sgiliau rhianta. Fel pwyllgor, rydym dal braidd yn bryderus bod y gweithgor teuluoedd yn adrodd i'r bwrdd prosiect tlodi plant. Rydym yn pryderu am yr argraff y gallai hynny ei roi, ac unwaith eto byddem yn gofyn i'r Llywodraeth barhau i adolygu hynny.

Mae argymhelliad 4 yn ymwneud â neges gref a gawsom gan weithwyr proffesiynol ynghylch yr anawsterau o ran rhannu gwybodaeth. Nid yw hyn yn newyddion; mae llawer o'r materion y rhoesom sylw iddynt yn cael eu trafod yn y Siambr. Rwy'n falch bod y Llywodraeth yn derbyn ein hargymhelliad, ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn cytuno bod arnom angen newid diwylliannol mawr mewn rhai sefydliadau—gan nad yw'n ymwneud yn unig â newid canllawiau a safonau. Bydd angen i Lywodraeth nesaf y Cynulliad wireddu'r newid diwylliannol hwnnw. Ni ddylem fod yn dal yn sôn am anawsterau o ran rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau mewn pedair blynedd.

Rydym yn deall pam mae'r Llywodraeth yn derbyn argymhelliad 5 ynghylch mesurau gwerthuso safonedig mewn egwyddor yn hytrach nag yn llawn, gan ein bod yn gwneud cyfeiriad penodol at sefydliad penodol yr ydym yn awgrymu y dylai'r Llywodraeth edrych arno, sef Canolfan Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru, sydd eisoes yn datblygu mesurau safonedig i edrych ar lwyddiant y rhaglenni rhianta. Rwy'n derbyn yr angen i fod yn wyliadwrus a bod yn rhaid derbyn yr argymhelliad yn ffurfiol mewn egwyddor. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn derbyn, fel y mae pethau yn sefyll, mai Canolfan Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru yw'r partner amlwg ar gyfer y gwaith hwn, ac rydym yn gobeithio na fydd unrhyw ddyblygu gwaith diangen. Gwn fod y Gweinidog yn awyddus i bobl fwrw ymlaen â phethau, yn hytrach na'u hastudio yn ddiddiwedd. Felly, rydym yn derbyn yr angen am y gwyliadwraeth hwnnw o ran derbyn hyn mewn egwyddor, ond byddem yn cynnwys yr amod hwnnw.



Recommendation 6 deals with the engagement of fathers as a core part of parenting programmes. I am glad that the Government accepts that, but hope that the Minister can give us more information about how the Government will ensure that parenting practitioners do this. We received clear evidence that not all of them are doing so at present, and that fathers sometimes felt marginalised, either by the venue or by the nature of the provision. I am particularly pleased that the Government has accepted in full recommendation 7 about parenting support for families that are affected by disability, and recommendation 8 regarding support for grandparents who undertake caring roles.

Parenting is one of the most demanding and one of the most rewarding roles that many of us will undertake in our lives. I know that all Members believe that parents deserve the support of the community to be the best parents possible. I remember clearly a young father saying to us during our first inquiry that the thing about children is that they do not come with a manual. Any of us who has ever been a parent will know that that is true. There is a well-known saying that it takes two people to make a child, but a whole village to raise one. As a national community, I hope that we will continue to support parents to raise our next generation. I also hope that supporting parents will continue to be a priority for our next Assembly Government, and that scrutinising the Government on that issue will continue to be a priority for the next Assembly.

**The Deputy Minister for Children (Huw Lewis):** I welcome this debate. I thank the committee for its positive and proactive role, and for its helpful recommendations. Where appropriate, I have accepted those recommendations in full. Where that has not been possible, I have accepted them in principle.

Parenting can be the most rewarding thing in the world, but it also comes with real challenges. Many parents benefit from a network of informal support, but our programmes ensure—and will ensure even more in the future—that support at an appropriate level and delivered at the right

Mae argymhelliad 6 yn ymdrin ag ymgysylltiad tadau fel rhan graidd o raglenni rhianta. Rwy'n falch bod y Llywodraeth yn derbyn hynny, ond gobeithio y gall y Gweinidog roi rhagor o wybodaeth inni am sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod ymarferwyr rhianta yn gwneud hyn. Cawsom dystiolaeth glir nad yw pob un ohonynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd, a bod tadau weithiau'n teimlo ar y cyrion, naill ai gan y lleoliad neu gan natur y ddarpariaeth. Rwy'n arbennig o falch bod y Llywodraeth wedi derbyn argymhelliad 7 yn llawn am gymorth rhianta i deuluoedd yr effeithir arnynt gan anabledd, ac argymhelliad 8 ynghylch cefnogaeth ar gyfer neiniau a theidiau sy'n ymgymryd â rolau gofalu.

Magu plant yw un o'r rolau mwyaf heriol ac mwyaf gwerth chweil y bydd llawer ohonom yn ei wneud yn ein bywydau. Gwn fod pob Aelod yn credu bod rhieni yn haeddu cefnogaeth y gymuned i fod y rhieni gorau posibl. Rwy'n cofio tad ifanc yn dweud yn glir yn ystod ein hymchwiliad cyntaf mai'r peth am blant yw nad ydynt yn dod gyda llawlyfr. Mae pob un ohonom a fu'n rhiant erioed yn gwybod bod hynny'n wir. Yn ôl y dywediad adnabyddus, mae'n cymryd dau berson i wneud plentyn, ond pentref cyfan i godi un. Fel cymuned genedlaethol, rwy'n gobeithio y byddwn yn parhau i gefnogi rhieni i fagu ein cenedlaeth nesaf. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd cefnogi rhieni yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'n Llywodraeth Cynulliad nesaf, ac y bydd craffu ar y Llywodraeth ar y mater hwnnw yn dal yn flaenoriaeth i'r Cynulliad nesaf.

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Croesawaf y ddadl hon. Diolch i'r pwyllgor am ei rôl gadarnhaol a rhagweithiol, ac am ei argymhellion defnyddiol. Lle bo'n briodol, rwyf wedi derbyn yr argymhellion hynny'n llawn. Lle na fu hynny'n bosibl, rwyf wedi eu derbyn mewn egwyddor.

Gall rhianta fod y peth sy'n rhoi mwyaf o foddhad yn y byd, ond daw hefyd heriau go iawn yn ei sgîl. Mae llawer o rieni yn elwa ar rwydwaith o gefnogaeth anffurfiol, ond mae'n rhaglenni yn sicrhau—a byddant yn sicrhau hyd yn oed yn fwy yn y dyfodol—bod cymorth ar lefel briodol yn cael ei gynniig

time can be there in a range of circumstances, across a spectrum of needs and in an increasingly integrated way. Programmes like the highly successful Flying Start, our literacy and numeracy schemes, families learning together programmes, language in play, and a number of Incredible Years programmes are all out there operating at the moment. There is also our ground-breaking Families First initiative, and Members will have also seen our recent childcare policy statement, 'Nurturing Children, Supporting Families'.

Evidence from Flying Start and elsewhere stresses the importance of early intervention in helping families, particularly those living in poverty. Additionally, we know that investing in the early years of a child's life is not only good for the child, it makes good economic, social and educational sense for our whole community. The evaluation of Flying Start shows that it has had a real and positive impact on children. Children are more ready to learn and better behaved and are more confident. Through our family support programmes we continue to encourage parental involvement in children's learning, both by supporting parents to improve their own basic skills and by encouraging them to get more involved in reading with their children. Last July, I launched Families First, which is one of our key programmes in tackling disadvantage and seeks to deliver family support in a more integrated and holistic way. Thus far, there has been a positive response to Families First and we are now building on the progress made. I will announce the second tranche of Families First pioneers later this month, prior to a full roll-out of the programme from April 2012.

In February, I launched our childcare policy statement, 'Nurturing Children, Supporting Families', which identifies our key strategic priorities in developing an integrated approach to childcare. These priorities will ensure that childcare meets the needs of children and their parents, particularly those who want to undertake training or return to work. Through these policies, we are working to achieve our objectives in the child poverty

ar yr adeg iawn mewn amryw o amgylchiadau, ar draws sbectrwm o anghenion ac mewn ffordd gynyddol integredig. Mae rhaglenni fel Dechrau'n Deg, sy'n hynod lwyddiannus, ein cynlluniau llythrennedd a rhifedd, rhaglenni teuluoedd yn dysgu gyda'i gilydd, iaith mewn gweithgareddau chwarae, a nifer o raglenni Blynnyddoedd Rhyfeddol i gyd allan yna ar waith ar hyn o bryd. Mae gennym hefyd ein menter arloesol Teuluoedd yn Gyntaf, a bydd Aelodau hefyd wedi gweld ein datganiad polisi diweddar ar ofal plant, 'Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd'.

Mae tystiolaeth o Dechrau'n Deg a manau eraill yn pwysleisio pwysigrwydd ymyrraeth gynnar i helpu teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Yn ogystal, gwyddom fod buddsoddi ym mlynnyddoedd cynnar bywyd plentyn nid yn unig yn dda i'r plentyn, ond hefyd yn gwneud synnwyr economaidd, cymdeithasol ac addysgol i'r gymuned gyfan. Mae gwerthusiad o Dechrau'n Deg yn dangos ei fod wedi cael effaith wirioneddol a chadarnhaol ar blant. Mae plant yn fwy parod i ddysgu ac yn ymddwyn yn well ac yn fwy hyderus. Drwy ein rhaglenni cymorth i deuluoedd rydym yn parhau i annog cyfranogiad gan rieni yn addysg eu plant, trwy gynorthwyo rhieni i wella eu sgiliau sylfaenol eu hunain a'u hannog i ddarllen mwy gyda'u plant. Fis Gorffennaf diwethaf, lansiais Teuluoedd yn Gyntaf, sy'n rhaglen allweddol wrth fynd i'r afael ag anfantais ac sy'n ceisio rhoi cymorth i deuluoedd mewn ffordd fwy integredig a chyfannol. Hyd yma, bu ymateb cadarnhaol i Teuluoedd yn Gyntaf ac rydym yn awr yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed. Byddaf yn cyhoeddi'r ail gyfran o arloeswyr Teuluoedd yn Gyntaf yn ddiweddarach y mis hwn, cyn cyflwyno'r rhaglen yn llawn o fis Ebrill 2012.

Ym mis Chwefror, lansiais ein datganiad polisi gofal plant, 'Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd', sy'n nodi ein blaenoriaethau strategol allweddol wrth ddatblygu gofal plant integredig. Bydd y blaenoriaethau hyn yn sicrhau bod gofal plant yn diwallu anghenion plant a'u rhieni, yn enwedig y rhai sydd am ymgymryd â hyfforddiant neu ddychwelyd i'r gwaith. Trwy'r polisiau hyn, rydym yn gweithio i gyflawni ein hamcanion

strategy and to improve the life chances of today's children and young people. However, there will always be more to do. We will continue with this work because we are serious about taking children out of poverty and achieving our ambitious targets.

I am happy to accept the recommendations made by the committee where possible, and I look forward to a positive debate. I will attempt to respond to some of the specific points raised when I speak later.

**Darren Millar:** I am pleased to be able to participate in the debate, although I would like to point out that I was not part of the committee's inquiry. However, I have taken an interest in the report as a parent and because of the number of parents and grandparents in my constituency. I was pleased to see the Government's response to the report, which I think was one of only a few reports that did not have any financial implications. That is incredibly important, given the public spending squeeze.

Turning to some of the report's recommendations, I was pleased to see recommendation 1 on creating and training political parenting champions in local authorities across Wales. We all know that, perhaps unfortunately, the demographics of local authority members are such that they may have forgotten their personal parenting experiences. It is important that there is someone there championing the role of parents in the political process when decisions are being made. So, I am pleased that the Government has accepted that recommendation in particular.

I was also taken with recommendation 5. The report refers to the work of the Incredible Years Wales Centre and the need to develop some qualitative key performance indicators to look at the outcomes from work that is being undertaken on parenting across Wales. I think that it is fair to say that a wealth of third sector organisations is also delivering on the parenting agenda.

3.45 p.m.

I think, for example, of Care for the Family,

yn y strategaeth tloedi plant a gwella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, bydd bob amser fwy i'w wneud. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn oherwydd ein bod o ddifrif ynglŷn â thynnu plant allan o dlodi a chyflawni ein targedau uchelgeisiol.

Rwy'n hapus i dderbyn yr argymhellion a wnaed gan y pwyllgor lle bo modd, ac edrychaf ymlaen at ddadl gadarnhaol. Byddaf yn ceisio ymateb i rai o'r pwyntiau penodol a godwyd pan fyddaf yn siarad yn nes ymlaen.

**Darren Millar:** Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl, er yr hoffwn dynnu sylw at y ffaith nad oeddwn yn rhan o ymchwiliad y pwyllgor. Fodd bynnag, cymerais ddiddordeb yn yr adroddiad fel rhiant ac oherwydd bod cymaint o rieni a neiniau a theidiau yn fy etholaeth. Rwy'n falch o weld ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad—rwy'n meddwl ei fod yn un o'r ychydig adroddiadau heb unrhyw oblygiadau ariannol. Mae hynny'n hynod bwysig, o ystyried y wasgfa ar wariant cyhoeddus.

Gan droi at rai o argymhellion yr adroddiad, roeddwn yn falch o weld argymhelliad 1 ar greu a hyfforddi hyrwyddwyr rhianta gwleidyddol mewn awdurdodau lleol ar draws Cymru. Rydym i gyd yn gwybod, yn anffodus, efallai, fod demograffeg aelodau awdurdodau lleol yn golygu y gallant fod wedi anghofio eu profiadau rhianta personol. Mae'n bwysig bod rhywun yno i hyrwyddo rôl rhieni yn y broses wleidyddol pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud. Felly, rwy'n falch bod y Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwnnw yn benodol.

Roeddwn hefyd wedi fy mhlesio ag argymhelliad 5. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at waith Canolfan Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru a'r angen i ddatblygu rhai dangosyddion perfformiad allweddol ansoddol i edrych ar ganlyniadau'r gwaith sy'n cael ei wneud ar rianta ar draws Cymru. Tybiaf ei bod yn deg dweud bod cyfoeth o fudiadau trydydd sector hefyd yn cyflwyno'r agenda rhianta.

Rwy'n meddwl, er enghraifft, am Care for

an organisation that has its international headquarters in south Wales. Would it be appropriate for the Deputy Minister, in responding later to the debate, to speak about the role of the third sector in helping to develop those key performance indicators and the whole parenting agenda in future?

I was very pleased to see recommendation 6, which refers to the role of fathers, and recommendation 8, which refers to the role of grandparents in the parenting process. All too often, we focus on mums. Of course, mums tend to be the primary care givers and perhaps those who take a keener interest in the lives of their children. However, fathers too are important in the process. We all know that children brought up in homes where mums and dads take an interest in their future and wellbeing tend to do better in terms of education and all sorts of other outcomes. So, I am very pleased to see the reference to fathers. The role of grandparents should not be overlooked. Members will know that my constituency is the oldest, demographically, in Wales. I have said that on many occasions in the Chamber. All too often, grandparents are ignored when parenting programmes are developed; it is important that their role is recognised.

Recommendation 9 on early intervention is a key recommendation with regard to ensuring decent outcomes for young people and that families who need that extra bit of support when crises hit or difficult times can get that in a timely manner, when it makes a real difference to the whole family. Therefore, I am delighted to see that the Welsh Government has accepted that as well. Recommendation 10 refers to positive parenting. I know that an overwhelming majority of Members in the Chamber are keen to see discipline in non-violent ways, to quote the report. I believe that physical chastisement is necessary sometimes and that it can be a useful tool in helping to raise a child. I hasten to say that that is a personal opinion and not a party-political opinion. However, I am pleased to see the emphasis on the need to give people other examples of how to raise their children positively. I fully support the recommendation for that reason. I would be delighted, Minister, if you would

the Family, sefydliad sydd â'i bencadlys rhyngwladol yn ne Cymru. A fyddai'n briodol i'r Dirprwy Weinidog, wrth ymateb yn ddiweddarach i'r ddadl, siarad am rôl y trydydd sector o ran helpu i ddatblygu'r dangosyddion perfformiad allweddol a'r agenda rhianta gyfan yn y dyfodol?

Roeddwn yn falch iawn o weld argymhelliad 6, sy'n cyfeirio at rôl tadau, ac argymhelliad 8, sy'n cyfeirio at rôl teidiau a neiniau yn y broses fagu plant. Yn rhy aml, rydym yn canolbwyntio ar famau. Wrth gwrs, mamau yw'r rhai sy'n tueddu i roi gofal pennaf ac efallai'r rhai sy'n cymryd mwy o ddiddordeb ym mywydau eu plant. Fodd bynnag, mae tadau hefyd yn bwysig yn y broses. Rydym i gyd yn gwybod bod plant sy'n cael eu magu mewn cartref lle mae mamau a thadau yn cymryd diddordeb yn eu dyfodol a'u lles yn tueddu i wneud yn well o ran addysg a phob math o ganlyniadau eraill. Felly, rwy'n falch iawn o weld y cyfeiriad at dadau. Ni ddylai rôl teidiau a neiniau gael ei hanwybyddu. Bydd Aelodau'n gwybod mai fy etholaeth i yw'r hynaf, o safbwynt demograffeg, yng Nghymru. Rwyf wedi dweud hynny sawl gwaith yn y Siambr. Yn rhy aml, caiff teidiau a neiniau eu hanwybyddu pan fydd rhaglenni rhianta yn cael eu datblygu; mae'n bwysig bod eu rôl yn cael ei chydabod.

Mae argymhelliad 9 ar ymyrryd yn gynnar yn argymhelliad allweddol o ran sicrhau canlyniadau da i bobl ifanc a bod teuluoedd sydd angen ychydig mwy o gefnogaeth pan fo argyfyngau'n taro neu ar adegau anodd yn ei gael mewn modd amserol, pan fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'r teulu cyfan. Felly, rwyf wrth fy modd o weld bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn hynny hefyd. Mae argymhelliad 10 yn cyfeirio at rianta cadarnhaol. Gwn fod y rhan fwyaf o Aelodau yn y Siambr yn awyddus i weld disgyblaeth mewn ffyrdd di-drais, i ddyfynnu'r adroddiad. Credaf fod angen cosb gorfforol weithiau, ac y gall fod yn ffordd defnyddiol i helpu i fagu plentyn. Pysuraf i ddweud mai barn bersonol yw honno ac nid barn plaid wleidyddol. Fodd bynnag, rwy'n falch o weld y pwyslais ar yr angen i roi enghreifftiau i bobl eraill o sut i fagu eu plant yn gadarnhaol. Rwy'n llwyr gefnogi'r argymhelliad am y rheswm hwnnw. Byddwn wrth fy modd, Weinidog, pe byddech yn

respond on some of those issues.

Finally, the Big Lottery fund recently announced its children's futures fund, which will be available to organisations in Wales to access. That may well be something that the Welsh Government, the third sector and other organisations can take advantage of in pushing the parenting agenda forward. Is that is being considered, Minister? If not, is it something you could consider in future?

**Christine Chapman:** As a former member of the committee, I know how valuable the committee is. It is really about putting the voices of children and young people at the centre of policy making. I commend Helen Mary Jones and the other members of the committee on their rigorous scrutiny of everything relating to children and young people. The report on parenting is exceptional. This is an area that we really need to address. Parents are probably more influential in their children's lives than peer pressure or teachers. Parenting is where it all starts, so this report is excellent.

I want to talk about the part of the report that relates to the physical punishment of children. I have been a part of the campaign against this for many years, as have other Members. I remain totally committed to this. This is referred to in recommendation 10, which I welcome, along with the response by the Deputy Minister. I certainly welcome the ongoing commitment of the Assembly and the Welsh Assembly Government to equal protection. While much has been done to promote policies and initiatives that advocate alternatives to physical discipline, I feel that the issue has fallen slightly off the agenda. Perhaps we could remind ourselves why this is so important. Although I respect your views, Darren, I disagree with your stance. We know, from research, that the physical punishment of children—or smacking, as we call it—does not work. It hurts children emotionally, as well as physically. A great deal of research has been done on this. We know that parents will admit to smacking when they are angry, stressed, tired and feel out of control. Many feel guilty and apologise afterwards.

ymateb i rai o'r materion hynny.

Yn olaf, cyhoeddodd y Gronfa Loteri Fawr ei chronfa dyfodol ei phlant, a fydd ar gael i'w defnyddio gan sefydliadau yng Nghymru. Efallai y gall Llywodraeth Cymru, y trydydd sector a sefydliadau eraill fanteisio ar y gronfa honno wrth wthio'r agenda rianta yn ei blaen. A yw hynny'n cael ei ystyried, Weinidog? Os nad yw, a yw'n rhywbeth y gallech ei ystyried yn y dyfodol?

**Christine Chapman:** Fel cyn aelod o'r pwyllgor, rwy'n gwybod pa mor werthfawr ydyw. Mae'n ymwneud mewn gwirionedd â rhoi lleisiau plant a phobl ifanc wrth wraidd llunio polisi. Rwy'n canmol Helen Mary Jones ac aelodau eraill y pwyllgor am eu gwaith craffu trylwyr ar bopeth sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Mae'r adroddiad ar rianta yn eithriadol. Mae hwn yn faes y mae gwir angen mynd i'r afael ag ef. Mae'n debyg fod rhieni yn fwy dylanwadol ym mywydau eu plant na phwysau gan gyfoedion neu athrawon. Rhianta yw lle mae'r cyfan yn dechrau, felly mae'r adroddiad hwn yn ardderchog.

Rwyf am siarad am y rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol. Bûm yn rhan o'r ymgyrch yn erbyn hyn ers blynyddoedd lawer, fel ag y bu Aelodau eraill. Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i hynny o hyd. Cyfeirir ato yn argymhelliad 10, a chroesawaf hynny, ynghyd â'r ymateb gan y Dirprwy Weinidog. Yn sicr, croesawaf ymrwymiad parhaus y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gydraddoldeb o ran diogelu. Er bod llawer wedi ei wneud i hyrwyddo polisiâu a mentrau sy'n hyrwyddo dewisiadau ar wahân i ddisgyblu corfforol, rwy'n teimlo bod y mater wedi llithro ychydig oddi ar yr agenda. Efallai y gallem atgoffa ein hunain pam mae hyn mor bwysig. Er fy mod yn parchu eich barn, Darren, rwy'n anghytuno â'ch safbwynt. Rydym yn gwybod, o ymchwil, nad yw cosbi plant yn gorfforol—neu smacio, fel rydym yn ei alw—yn gweithio. Mae'n brifo plant yn emosiynol, yn ogystal ag yn gorfforol. Mae llawer iawn o ymchwil wedi cael ei wneud ar hyn. Gwyddom y bydd rhieni'n cyfaddef eu bod yn smacio pan fyddant yn flin, dan bwysau, wedi blino ac yn teimlo allan o reolaeth. Mae llawer yn

teimlo'n euog ac yn ymddiheuro wedyn.

**Darren Millar:** I fully respect your position, but do you agree that the consequences that you have described in respect of smacking can also be consequences of shouting and other actions other than smacking that people take to correct their children? It is not a question of whether physical chastisement, in terms of a smack, is right or wrong, but of how chastisement is delivered, whether it is physically, verbally or by any other sort of intervention.

**Christine Chapman:** That does come into it sometimes, but research based on talking to parents shows that it usually happens when parents feel out of control and tired. Quite often, it is not the child's problem, but the parent's problem, for whatever reason. Many parents have said that the child's behaviour does not improve as a result. This is not about being soft on discipline, but of looking at alternative forms of discipline and setting boundaries. We need to look at this. I know that it is difficult because, from my own experience, I was not convinced at the beginning. However, the more that I spoke to parents and those who have looked at this in more detail, the more I became convinced that we need to do this. Other countries are doing it quite well, so we need to look at that. As I said, it is not about being soft on discipline, and it does not mean that your child will get spoiled. Quite the reverse. It is about spending time with children and it is about a better relationship between parents and children.

There have been some clear changes in media representations of physical punishment, and there has been a gradual change in attitudes across mainland Europe. However, the UK Government remains reluctant to acknowledge the potential linkages between physical punishment and physical abuse. We need to look at this carefully. A concern has been expressed to me by NSPCC Cymru, which I know is shared by others, that support for equal protection in Wales has not yet led to the removal of the defence of reasonable punishment. I therefore add my

**Darren Millar:** Rwy'n parchu eich safbwynt yn llwyr, ond a ydych yn cytuno y gall y canlyniadau rydych wedi eu disgrifio mewn perthynas â smacio hefyd fod yn ganlyniad o weiddi a champau eraill heblaw smacio y mae pobl yn eu cymryd i gywiro eu plant? Nid yw'n gwestiwn o pa un a yw cerydd gorfforol, o ran smacio plentyn, yn gywir neu'n anghywir, ond sut y caiff y cerydd ei gyflwyno, boed yn gorfforol, ar lafar neu drwy unrhyw fath arall o ymyrraeth.

**Christine Chapman:** Mae hynny yn dod iddi weithiau, ond mae ymchwil a seiliwyd ar siarad â rhieni yn dangos ei fod fel arfer yn digwydd pan fydd rhieni yn teimlo allan o reolaeth ac yn flinedig. Yn aml iawn, nid problem y plentyn ydyw, ond problem y rhiant, am ba bynnag reswm. Mae llawer o rieni wedi dweud nad yw ymddygiad y plentyn yn gwella o ganlyniad. Nid yw hyn yn ymwneud â bod yn wan ar ddisgyblaeth, ond am edrych ar ffyrdd eraill o ddisgyblu a gosod ffiniau. Mae angen inni edrych ar hyn. Gwn ei bod yn anodd oherwydd, o fy mhrofiad fy hun, nid oeddwn wedi fy argyhoeddi ar y dechrau. Fodd bynnag, po fwyaf y byddaf yn siarad â rhieni a'r rhai sydd wedi edrych ar hyn yn fwy manwl, y mwyaf rwyf wedi fy argyhoeddi bod angen i ni wneud hyn. Mae gwledydd eraill yn ei wneud yn eithaf da, felly mae angen i ni edrych ar hynny. Fel y dywedais, nid yw'n ymwneud â bod yn wan am ddisgyblu, ac nid yw'n golygu y bydd eich plentyn yn cael ei ddifetha. I'r gwrthwyneb. Mae'n ymwneud â threulio amser gyda phlant ac mae'n ymwneud â gwell perthynas rhwng rhieni a phlant.

Bu rhai newidiadau amlwg ym mhortreadau'r cyfryngau o gosb gorfforol, a bu newid graddol mewn agweddau ledled tir mawr Ewrop. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn amharod i gydnabod y cysylltiadau posibl rhwng cosb gorfforol a cham-drin corfforol. Mae angen i ni edrych ar hyn yn ofalus. Mae pryder wedi ei fynegi i mi gan NSPCC Cymru, a gwn y caiff ei rannu gan eraill, nad yw'r gefnogaeth i gydraddoldeb diogelu yng Nghymru wedi arwain eto at gael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol. Rwyf felly am ychwanegu fy

voice to the organisation's calls for the Welsh Assembly Government, and the committee as a whole, to continue to put pressure on the Westminster Government to remove this provision of the Children Act 1989.

I welcome your assurances, Deputy Minister, that you are firmly behind the campaign to promote positive parenting and the publication of the new pamphlet. I therefore ask that the Welsh Assembly Government continue to explore other ways in which it can reduce the use of physical punishment of children. We need to discuss this and we need to air these concerns. No-one wants to punish parents. As Helen Mary said, parenting is a difficult, challenging job and we need to be as supportive of parents as possible. We have seen that it works in other countries. Sweden, for example, banned this 30 years ago, and there are some interesting examples. I look forward to this debate, and I think that we must return to this subject from time to time.

**Eleanor Burnham:** As an imperfect parent, I have been absolutely honoured and delighted to have been a long-term member of this invaluable committee. I make a plea to whoever comes back in May to ensure the continuation of the committee because it has been a vital part of the development that Christine has so eloquently pointed to in Wales, because an awful lot of people have taken note of what we are up to. We now have the children's commissioner, and I am sorry that we did not have a Minister for children some time ago.

I agree with everyone that parenting is the most worthwhile role for an adult lucky enough to be blessed with offspring—we must remember that an awful lot of people are not blessed in that way. Supporting parenting is probably one of the most crucial roles for Government in our complex society. I dealt with kids from dysfunctional families and situations before I became an Assembly Member. I have also raised funds for the NSPCC and have been involved with young people for some time in one way or another. The world is getting more complex—the modern, materialistic world puts huge pressures on parents in terms of how they

llais at alwadau'r sefydliad i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a'r pwyllgor yn ei gyfanrwydd, barhau i roi pwysau ar Lywodraeth San Steffan i gael gwared ar y ddarpariaeth hon o Ddeddf Plant 1989.

Croesawaf eich sicrwydd, Ddirprwy Weinidog, eich bod yn gadarn y tu ôl i'r ymgyrch i hyrwyddo rhianta cadarnhaol a chyhoeddi'r pamffled newydd. Gofynnaf felly bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i archwilio ffyrdd eraill sy'n gallu lleihau cosbi plant yn gorfforol. Mae angen inni drafod hyn ac mae angen inni leisio'r pryderon hyn. Nid oes neb eisiau cosbi rhieni. Fel y dywedodd Helen Mary, mae magu plant yn waith anodd a heriol, ac mae angen inni fod mor gefnogol â phosibl o rieni. Rydym wedi gweld ei fod yn gweithio mewn gwledydd eraill. Yn Sweden, er enghraifft, gwaharddwyd hyn 30 mlynedd yn ôl, ac mae rhai enghreifftiau diddorol. Edrychaf ymlaen at y ddadl hon, a thybiaf bod yn rhaid inni ddychwelyd at y pwnc hwn o bryd i'w gilydd.

**Eleanor Burnham:** A minnau'n rhiant amherffaith, bu'n fraint a phleser bod yn aelod hirdymor o'r pwyllgor amhrisiadwy hwn. Rwy'n pledio wrth bwy bynnag sy'n dod yn ôl ym mis Mai i sicrhau parhad y pwyllgor oherwydd bu'n rhan hanfodol o'r datblygiad y soniodd Christine mor huawdl amdano yng Nghymru, am fod llawer iawn o bobl wedi cymryd sylw o'r hyn rydym yn ei wneud. Erbyn hyn, mae gennym gomisiynydd plant, ac mae'n ddrwg gennyf nad oedd gennym Weinidog dros blant beth amser yn ôl.

Rwy'n cytuno gyda phawb mai magu plant yw'r rôl mwyaf gwerth chweil i oedolion a fu'n ddigon ffodus i gael eu bendithio gydag epil—rhaid inni gofio na chafodd llawer iawn o bobl eu bendithio yn y ffordd honno. Mae'n debyg mai cefnogi rhianta yw un o rolau mwyaf allweddol y Llywodraeth yn ein cymdeithas gymhleth. Deliais â phlant o deuluoedd a sefyllfaoedd problemus cyn imi ddod yn Aelod Cynulliad. Rwyf hefyd wedi codi arian ar gyfer yr NSPCC ac wedi bod yn ymwneud â phobl ifanc am gryn amser mewn un ffordd neu'r llall. Mae'r byd yn mynd yn fwy cymhleth—mae'r byd modern, materol yn rhoi pwysau mawr ar rieni o ran sut maent

spend what are scarce resources in many cases. Apart from that, the morality, ethics and general principles of parenting are getting blurred by our society. I think that I mentioned yesterday that one of the most vicious developments is cyber-bullying, which is partly why it can be so difficult for parents to have an idea of what is going in many children's lives, because many of us—I am one, as I am not that clever with technology, even though I use it for work—are not aware of the latest issues such as trolling, whereby children and young people who have committed suicide are still being bullied in cyberspace. I know that the Deputy Minister is well aware of what I am saying, and I know that he has these things in mind.

However, to come back to the report, so that I do not wander too far away from what we are here to discuss, I commend the Government on accepting all of our recommendations. We do not have time to discuss them all, but, if we do not get this right, future generations will not only be more wayward, without the vital rudders of life, but will also degenerate into many problems that we know already exist in certain communities. I wish the Government the best in terms of what you will do with the Families First programme, because let us be frank—not only do parents in the most vulnerable wards need parenting support, but, as others have said, people like you and me also need it. As Darren mentioned, the role of grandparents is also vital.

So, all in all, I commend all of this, and I wish the next Assembly all the best, because this work has to continue. We desperately need to support parents in their role, otherwise our future could be a bit bleak. In our emerging and maturing nation, now that we will be able to do what we want, how we want and, hopefully, when we want, I am sure that huge strides will be made. It will be an exciting time for whoever comes back to the Assembly. Diolch yn fawr iawn, Deputy Minister, and I wish you all the best in your endeavours.

**The Deputy Minister for Children (Huw**

yn gwario beth sydd, mewn sawl achos, yn adnoddau prin. Ar wahân i hynny, mae moesoldeb, moeseg ac egwyddorion cyffredinol magu plant yn cael eu cymylu gan ein cymdeithas. Credaf imi grybwyll ddoe mai un o'r datblygiadau mwyaf dieflig yw seiberfwlio; yn rhannol, dyna pam y gall fod mor anodd i rieni gael syniad o'r hyn sy'n digwydd ym mywydau llawer o blant, gan nad yw llawer ohonom—rwyf yn un, gan nad wyf yn glyfar iawn gyda thechnoleg, er fy mod yn ei ddefnyddio ar gyfer gwaith—yn ymwybodol o'r problemau diweddaraf, fel trollo, lle gall plant a phobl ifanc sydd wedi cyflawni hunanladdiad dal i gael eu bwlio yn y seiberfod. Gwn fod y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol iawn o'r hyn rwy'n ei ddweud, ac rwy'n gwybod fod ganddo'r pethau hyn mewn cof.

Fodd bynnag, i ddod yn ôl at yr adroddiad, fel nad wyf yn crwydro'n rhy bell i ffwrdd o'r hyn rydym yma i'w drafod, rwy'n canmol y Llywodraeth ar dderbyn ein holl argymhellion. Nid oes gennym amser i'w trafod i gyd, ond, os na chawn hyn yn iawn, bydd cenedlaethau'r dyfodol nid yn unig yn fwy ar ddifancoll, heb lywiau hanfodol bywyd, ond hefyd yn dirywio i nifer o'r problemau y gwyddom eu bod yn bodoli eisoes mewn rhai cymunedau. Rwy'n dymuno'n dda i'r Llywodraeth o ran yr hyn a wnewch â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, oherwydd gadewch inni fod yn onest—nid rhieni yn y wardiau mwyaf agored i niwed yn unig sydd ag arnynt angen cymorth rhianta, ond, fel mae eraill wedi dweud, mae pobl fel chi a fi ei angen hefyd. Fel y nododd Darren, mae rôl neiniau a theidiau hefyd yn hanfodol.

Felly, ar y cyfan, rwy'n canmol hyn i gyd, a dymunaf yn dda i'r Cynulliad nesaf, gan fod yn rhaid i'r gwaith hwn barhau. Mae gwir angen cefnogi rhieni yn eu rôl, neu gallai ein dyfodol edrych ychydig yn llwm. Fel cenedl sy'n datblygu ac yn aeddfedu, wrth inni wneud yr hyn rydym am ei wneud, a hynny, gobeithio, i'n hamserlen ein hun, rwy'n siŵr y bydd camau breision yn cael eu cymryd. Bydd yn gyfnod cyffrous i bwy bynnag a ddaw yn ôl i'r Cynulliad. Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Weinidog, ac rwy'n dymuno pob llwyddiant i chi yn eich ymdrechion.

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw**



**Lewis):** It would be impossible to respond to all of the constructive points that have been made during this debate, so I will focus on two points that I wish to highlight in my response.

Information sharing was mentioned by Helen Mary as a key issue, and she is absolutely right. In my travels up and down Wales looking at family support services of all kinds, whenever I encounter a piece of best practice it always has one characteristic at its centre, and that is good information sharing and trust between organisations and bodies to make sure that that information is shared properly, and that there is a confidence locally in teamwork. That must become general practice across Wales. As Helen Mary said, we must engender that cultural shift. There are organisations out there that do things the way that they do things because that is the way that they do things, and we have to break away from that. I hope that the Families First programme—which will, after all, be a conduit for a considerable amount of funding, apart from anything else—will assist in that, as funding will be contingent upon proper information sharing locally.

4.00 p.m.

The second issue that I wish to home in on, if I have time, is stigma, and the whole issue of Families First or any support programme being aimed at certain families, and therefore those families being branded, as it were, because they require support. It is my contention that Families First will become a universal service, a distinctively Welsh service and the Welsh way of doing things. No family is sufficiently robust at all times never to require any help or support. All families hit crisis points. Many families deal with chronic and recurrent problems that may require different levels of support. My vision for Families First is very much that we are growing a national family service in Wales that will become the way that we do things in Wales, and that families from all walks of life, in all communities, will naturally turn to it—as they might turn to a health professional at times of illness—whenever support, information or reassurance is required.

**Lewis):** Byddai'n amhosibl ymateb i'r holl bwyntiau adeiladol a wnaed yn ystod y ddadl hon, felly byddaf yn canolbwyntio yn fy ymateb ar ddau bwynt yr hoffwn dynnu sylw atynt.

Soniodd Helen Mary bod rhannu gwybodaeth yn fater allweddol, ac mae'n hollol gywir. Yn fy nheithiau ar hyd a lled Cymru yn edrych ar wasanaethau cymorth i deuluoedd o bob math, pryd bynnag y byddaf yn dod ar draws darn o arfer gorau, mae un nodwedd bob tro yn greiddiol iddo, sef rhannu gwybodaeth ac ymddiriedaeth dda rhwng sefydliadau a chyrrff i wneud yn siŵr bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol, a bod hyder yn lleol mewn gwaith tîm. Rhaid i hynny ddod yn arfer cyffredinol ar draws Cymru. Fel y dywedodd Helen Mary, rhaid inni greu'r newid diwylliannol hwnnw. Mae sefydliadau ar lawr gwlad sy'n gwneud pethau y ffordd maent yn gwneud pethau oherwydd dyna'r ffordd maent yn gwneud pethau, a rhaid inni roi terfyn ar hynny. Gobeithio y bydd y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf—a fydd, wedi'r cyfan, yn gyfrwng ar gyfer swm sylweddol o gyllid, ar wahân i unrhyw beth arall—yn cynorthwyo hynny, gan y bydd cyllid yn amodol ar rannu gwybodaeth yn briodol yn lleol.

Yr ail fater rwyf am ganolbwyntio arno, os bydd amser gennyf, yw stigma, a'r holl syniad bod Teuluoedd yn Gyntaf neu unrhyw raglen gymorth yn cael ei hanelu at deuluoedd penodol, ac felly'r teuluoedd hynny yn cael eu brandio, fel petai, oherwydd bod arnynt angen cymorth. Rwyf yn gryf o'r farn y bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn dod yn wasanaeth cyffredinol, yn wasanaeth unigryw i Gymru a'r ffordd Gymreig o wneud pethau. Nid oes yr un teulu yn ddigon cadarn na fydd byth angen unrhyw help neu gefnogaeth. Bydd pob teulu'n cael cyfnodau o argyfwng. Bydd llawer o deuluoedd yn ymdrin â phroblemau cronig a rheolaidd y gall fod angen gwahanol lefelau o gymorth arnynt i'w datrys. Fy ngweledigaeth ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yn wir yw ein bod yn datblygu gwasanaeth teuluol cenedlaethol a ddaw'n nodweddiadol o'r ffordd rydym yn gwneud pethau yng Nghymru, a bod teuluoedd o bob cefndir, ym mhob cymuned, yn naturiol yn

troi ato, fel y byddent, efallai'n troi at weithiwr iechyd proffesiynol ar adegau o salwch, pryd bynnag y byddant angen cefnogaeth, gwybodaeth neu dawelwch meddwl.

**Helen Mary Jones:** I will be brief, Deputy Presiding Officer, as I know that we have a lot to discuss this afternoon. First, I thank everyone who has participated in this debate. On the point that Darren Millar made about financial constraints and these difficult times, we were clear in this report that this is not about spending more money but about spending the resources on what we know will work. On the points that he raised about the need for grandparents to receive support, we were quite shocked, in doing this work, to discover that grandparents who were full-time carers of children who would otherwise have been looked after were not able to access parenting schemes in certain areas, because they did not meet the criteria. I am glad that the Government is committed to changing that.

**Helen Mary Jones:** Byddaf yn gryno, Ddirprwy Lywydd, gan fy mod yn gwybod fod gennym lawer i'w drafod y prynhawn yma. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddafl hon. Ar y pwynt a wnaeth Darren Millar am gyfyngiadau ariannol a'r amseroedd anodd hyn, roeddem yn glir yn yr adroddiad hwn nad yw hyn yn ymwneud â gwario mwy o arian, ond am wario'r adnoddau ar yr hyn rydym yn gwybod a fydd yn gweithio. O ran y pwyntiau a gododd am yr angen i neiniau a theidiau dderbyn cymorth, cawsom gryn sioc, wrth wneud y gwaith hwn, o ddarganfod bod neiniau a theidiau a oedd yn gofalu yn llawn amser am blant a fyddai fel arall wedi bod yn derbyn gofal yn methu â chael mynediad at gynlluniau rhianta mewn rhai ardaloedd, gan nad oeddent yn bodloni'r meini prawf. Rwy'n falch bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i newid hynny.

I thank Christine Chapman for her kind words about the committee and about me personally. I could not agree with her more about physical punishment, but we already know, partly thanks to the parenting work that the Government has already led over the preceding years—for which, the research was about mothers—that young Welsh mothers are already significantly less likely to hit their children than mothers in the rest of the UK. That is because they have been provided with positive alternatives. As Christine said, it is not about punishing parents, but giving them different ways to do things. We are clear in the committee that it is vital that all professionals, not only the obvious people, but the GPs, the health visitors and the community nurses, need to promote positive parenting to parents, to know what support is available and to signpost them to it, if that is needed. Again, I am glad that the Government accepts the need for that to be done.

Diolch i Christine Chapman am ei geiriau caredig am y pwyllgor ac amdanaf fi'n bersonol. Rwy'n cytuno'n llwyr â hi am gosb gorfforol, ond rydym eisoes yn gwybod, yn rhannol oherwydd gwaith rhianta mae'r Llywodraeth eisoes wedi'i arwain dros y blynyddoedd—yr oedd ymchwil ar ei gyfer yn ymwneud â mamau—bod mamau ifanc o Gymru eisoes yn llawer llai tebygol o daro eu plant na mamau yng ngweddill y DU. Y rheswm am hynny yw eu bod wedi cael dewisiadau amgen cadarnhaol. Fel y dywedodd Christine, nid yw'n ymwneud â chosbi rhieni, ond â rhoi ffyrdd gwahanol o wneud pethau iddynt. Rydym yn glir yn y pwyllgor ei bod yn hanfodol bod angen i'r holl weithwyr proffesiynol—nid y bobl amlwg yn unig, ond y meddygon teulu, yr ymwelwyr iechyd a'r nyrsys cymunedol—hyrwyddo rhianta cadarnhaol i rieni, i wybod pa gymorth sydd ar gael iddynt ac i'w cyfeirio ato, os oes angen hynny. Unwaith eto, rwy'n falch bod y Llywodraeth yn derbyn yr angen i hynny gael ei wneud.

I thank Eleanor for her massive contribution to the committee's work. The points that she

Diolch i Eleanor am ei chyfraniad enfawr i waith y pwyllgor. Roedd y pwyntiau a

made about the pressures of materialism on families, not only on poorer families, but on all families, were well made. I warmly welcome what the Deputy Minister said this afternoon about sharing information. I especially liked the part about funding being contingent upon sharing information—I am keen on that, as the Deputy Minister knows—and on the universality of the services that he intends to provide through Families First. I will end by saying that, in our committee's legacy report, we will recommend that, whichever Assembly committee takes on our responsibilities in the next Assembly, this is an area of the Government's work that it continues to keep under review.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to note the Children and Young People Committee's report. Is there any objection? I see that there is not. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

## **Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate**

### **Diwylliant, Twrisiaeth a Busnes Culture, Tourism and Business**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt, and amendments 2 and 3 in the name of Peter Black. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected.

*Cynnig NDM4684 Nick Ramsay*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i frandio Cymru'n gyrchfan sydd gyda'r gorau yn y byd am ddiwylliant, twristiaeth a busnes;*

*2. Yn nodi'r dylanwad cadarnhaol y gallai Archif Genedlaethol Cymru ei gael ar ddiwylliant Cymru; ac*

*3. Yn cefnogi cyflwyno Nod Siarter Cymraeg*

wnaeth ynghylch y pwysau ar deuluoedd o ran materoliaeth, ac nid ar deuluoedd tlotach yn unig, ond ar bob teulu, yn rhai da. Rwy'n croesawu'r hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog y prynhawn yma am rannu gwybodaeth yn fawr. Hoffais y sôn, yn arbennig, y dylai cyllid fod yn amodol ar rannu gwybodaeth—rwy'n awyddus i sicrhau hynny, fel y gŵyr y Dirprwy Brif Weinidog—ac ynglŷn â chyffredinolrwydd y gwasanaethau mae'n bwriadu eu darparu drwy Teuluoedd yn Gyntaf. I gloi, yn adroddiad etifeddiaeth ein pwyllgor, byddwn yn argymhell, pa bynnag bwyllgor a fydd yn cymryd ein cyfrifoldebau yn y Cynulliad nesaf, bod hwn yn un o feysydd gwaith y Llywodraeth y dylid parhau i'w adolygu.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, cytunir ar y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Peter Black. Os derbynir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.

*Motion NDM4684 Nick Ramsay*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Calls on the Welsh Assembly Government to brand Wales as a world-class destination for culture, tourism and business;*

*2. Notes the positive impact a Welsh National Archive could have on Welsh culture; and*

*3. Supports the introduction of a Welsh*

*i gydnabod busnesau sy'n darparu gwasanaethau Cymraeg o safon.*

*Language Charter Mark to recognise businesses offering high-quality Welsh medium services.*

**Mohammad Asghar:** I move the motion.

**Mohammad Asghar:** Cynigiau y cynnig.

It gives me enormous pleasure to open our debate today, which calls on the Assembly Government to do all that it can to brand Wales as a leading and world-class destination for culture, tourism and business. We will reject the Government's amendment to the motion, amendment 1, which fails adequately to address the issues that we raise today, particularly in relation to the national archive. We will, however, support the Welsh Liberal Democrat amendments as we recognise the importance of properly marketing Wales to overseas markets, which is something that the Assembly Government has not done effectively yet. We also agree that local archives have a valuable role to play in promoting Welsh culture.

Mae'n rhoi pleser mawr i mi agor ein dadl heddiw, sy'n galw ar Lywodraeth y Cynulliad i wneud popeth o fewn ei gallu i frandio Cymru fel cyrchfan flaenllaw a bydeang ar gyfer twristiaeth, diwylliant a busnes. Byddwn yn gwrthod gwelliant y Llywodraeth, gwelliant 1, nad yw'n ddigonol i fynd i'r afael â'r materion yr ydym yn eu codi heddiw, yn enwedig mewn perthynas â'r archif genedlaethol. Byddwn, fodd bynnag, yn cefnogi gwelliannau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, gan ein bod yn cydnabod pwysigrwydd marchnata Cymru'n briodol i farchnadoedd tramor, sy'n rhywbeth nad yw Llywodraeth y Cynulliad wedi ei wneud yn effeithiol eto. Rydym yn cytuno hefyd bod gan archifau lleol rôl werthfawr i'w chwarae wrth hyrwyddo diwylliant Cymru.

Wales is a small nation. It boasts five beautiful cities and one of Europe's smallest populations. What we lack in size, however, we make up for in the potential of what we can offer the world. 'One Wales' commits the Assembly Government to promoting Wales to external markets. However, the evidence suggests that there is much work to be done. Michael Houlihan, the former National Museum Wales director, has highlighted that Wales has 'a job to do' on the international front; for example, he rightly points out that, in the United States, the Irish diaspora is very strong. In contrast, former First Minister Rhodri Morgan has admitted that the Assembly Government struggles to get Americans to understand what and where Wales is. The Assembly Government must use the Ryder Cup as a springboard for improvement. I hope that the Minister will update us on the discussions that have taken place with the United States Ambassador, as outlined by the First Minister, in which he said that he hoped that a real presence for the US Government could be developed in Wales.

Mae Cymru'n genedl fach. Mae ganddi bum dinas hardd ac un o boblogaethau lleiaf Ewrop. Efallai ein bod yn fach ond mae gennym botensial o ran yr hyn y gallwn ei gynnig i'r byd. Roedd 'Cymru'n Un' yn ymrwymo Llywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo Cymru i farchnadoedd allanol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod llawer o waith i'w wneud o hyd. Mae Michael Houlihan, cyn gyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol Cymru, wedi dweud bod gan Gymru 'waith i'w wneud' ar y llwyfan rhyngwladol; er enghraifft, nododd yn gywir bod yr alltudiaeth Wyddelig yn yr Unol Daleithiau yn gryf iawn. Mewn cyferbyniad, mae'r cyn Brif Weinidog Rhodri Morgan wedi cyfaddef bod Llywodraeth y Cynulliad yn cael trafferth i gael Americanwyr i ddeall beth yw Cymru a lle y mae hi. Rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ddefnyddio Cwpan Ryder fel man cychwyn ar gyfer gwella. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y trafodaethau a gafwyd â Llysgennad yr Unol Daleithiau, fel yr amlinellwyd gan y Prif Weinidog, lle dywedodd ei fod yn gobeithio y gallai presenoldeb gwirioneddol ar gyfer Llywodraeth yr Unol Daleithiau gael ei

ddatblygu yng Nghymru.

Tourism Partnership North Wales has said that the level of awareness about Wales is quite poor and that overseas markets have even less knowledge of Wales. The partnership also says that young consumers have very little knowledge of Wales. This is of particular concern given that the number of young people across the world taking gap years in order to travel continues to rise. Despite this, Wales was absent from the recent World Travel Market in London, which was attended by 27,000 visitors and over 2,600 members of the international press.

Mae Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru wedi dweud bod lefel yr ymwybyddiaeth am Gymru yn eithaf gwael a bod gan y marchnadoedd tramor lai fyth o wybodaeth am Gymru. Mae'r bartneriaeth yn dweud hefyd mai ychydig iawn o wybodaeth am Gymru sydd gan ddefnyddwyr ifanc. Mae hyn yn destun pryder, yn arbennig o gofio bod nifer y bobl ifanc ar draws y byd sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd i deithio yn parhau i godi. Er gwaethaf hyn, roedd Cymru yn absennol o Farchnad Teithio'r Byd yn Llundain, a fynychwyd gan 27,000 o ymwelwyr a thros 2,600 o aelodau o'r wasg ryngwladol yn ddiweddar.

Our engagement with the global economy is also poor. Professor Robert Huggins has said that Wales barely engages with the world economy. Yesterday, my colleague, Darren Millar, drew attention to the national transport plan's lack of emphasis on aviation. The market size of Cardiff Airport is clearly of great concern as we look to drive Wales forward.

Mae ein hymwneud â'r economi fyd-eang yn wael hefyd. Dywedodd yr Athro Robert Huggins mai prin y mae Cymru'n ymgysylltu ag economi'r byd. Ddoe, tynnodd fy nghydweithiwr, Darren Millar, sylw at ddiffyg pwyslais y cynllun trafndiaeth cenedlaethol ar awyrennau. Mae maint marchnad Maes Awyr Caerdydd yn amlwg yn destun pryder mawr wrth inni ystyried datblygiad rhyngwladol Cymru.

**Bethan Jenkins:** I do not know whether you heard the Deputy First Minister correctly, but he said that responsibility for aviation has not been devolved to the National Assembly; are you calling for that to happen?

**Bethan Jenkins:** Wn i ddim a glywsoch y Dirprwy Brif Weinidog yn gywir, ond dywedodd nad yw'r cyfrifoldeb dros awyrennau wedi cael ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol; a ydych yn galw am i hynny ddigwydd?

**Mohammad Ashgar:** If he can fund aviation deals, why can he not do other things? He is funding airlines, so why can he not improve the links with them?

**Mohammad Ashgar:** Os gall ariannu cytundebau hedfan, pam na all wneud pethau eraill? Mae'n ariannu cwmnïau hedfan, felly pam na all wella'r cysylltiadau â nhw?

In order to address the issues that I have raised, the Assembly Government needs to adopt an effective integrated marketing strategy that properly brands our nation. We also feel that the Assembly Government should be doing everything possible to promote Welsh culture. The establishment of a Welsh national archive could have major benefits and would be a highly symbolic move. We already have a national library and a national museum, but the establishment of a national archive would be a positive step in promoting our culture further. A national archive would also safeguard the quality of

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion rwyf wedi'u codi, mae angen i Lywodraeth y Cynulliad fabwysiadu strategaeth farchnata integredig effeithiol sy'n brandio ein gwlad yn briodol. Rydym hefyd yn teimlo y dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud popeth posibl i hyrwyddo diwylliant Cymru. Gallai sefydlu archif genedlaethol Cymru ddod â manteision sylweddol a byddai'n gam symbolaidd. Mae gennym eisoes lyfrgell ac amgueddfa genedlaethol, ond byddai sefydlu archif genedlaethol yn gam cadarnhaol er mwyn hyrwyddo ein diwylliant ymhellach. Byddai archif genedlaethol hefyd yn diogelu

records. Presently, according to the Archives and Records Council Wales, there are swathes of public records that no-one has any statutory obligation to preserve, manage or make available to the public. An archive would act as a developer of cultural tourism in Wales, as many historical enthusiasts are currently lost to Kew. It would also act as an important symbol of transparency and public accountability. The establishment of an archive is based largely on the premise of giving people in Wales greater opportunities to appreciate and experience our heritage and culture.

Our calls to make St David's Day a bank holiday in Wales are based on much the same rationale. Members on this side of the Chamber have consistently called for 1 March to become a bank holiday in Wales. A BBC survey found that as many as nine out of 10 people in Wales want St David's Day to become a bank holiday, with 65 per cent in favour of moving another bank holiday to accommodate this aim. This would give more people the opportunity to celebrate our rich traditions, heritage and culture with family and friends.

**Jeff Cuthbert:** I trust that you are not alluding to the International Workers Day on 1 May as the day to be sacrificed.

**Mohammad Ashgar:** I think that St David's Day is more important in Wales than any other holiday. I welcome recent developments that suggest that the UK Government is to consult Assembly Members with regard to offering the option to move the early May bank holiday to 1 March. I think that my colleagues will note this very seriously. St Patrick's Day has become a worldwide celebration of Irish culture. There is no reason why St David's Day cannot have a similar level of outreach, stimulating the international understanding of Wales.

We are also committed to making Wales a truly bilingual nation. The Welsh Language (Wales) Measure 2011 dealt mainly with statutory provision, but we feel that voluntary provision has a big part to play in the growth

ansawdd cofnodion. Yn ôl Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru, ar hyn o bryd mae darnau mawr o gofnodion cyhoeddus nad oes gan neb unrhyw gyfrifoldeb statudol i'w cadw, eu rheoli na sicrhau eu bod ar gael ar gyfer y cyhoedd. Byddai archif yn gweithredu fel datblygwr i dwristiaeth ddiwylliannol yng Nghymru, gan ein bod yn colli llawer o selogion hanesyddol i Kew ar hyn o bryd. Byddai hefyd yn symbol pwysig o dryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus. Byddai sefydlu archif yn seiliedig i raddau helaeth ar y rhagdybiaeth o roi mwy o gyfleoedd i werthfawrogi a phrofi ein treftadaeth a'n diwylliant i bobl yng Nghymru.

Mae ein galwadau i wneud Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl banc yng Nghymru yn seiliedig ar yr un rhesymeg. Mae Aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr wedi galw'n gyson am sefydlu 1 Mawrth fel gŵyl banc yng Nghymru. Dangosodd arolwg gan y BBC bod cymaint â naw o bob 10 o bobl yng Nghymru eisiau i Ddydd Gŵyl Dewi fod yn ŵyl banc, ac mae 65 y cant o blaid symud gŵyl banc arall i ddarparu ar gyfer y nod hwn. Byddai hyn yn rhoi cyfle i ragor o bobl ddathlu cyfoeth ein traddodiadau, ein treftadaeth a'n diwylliant gyda theulu a ffrindiau.

**Jeff Cuthbert:** Hyderaf nad ydych yn cyfeirio at Ddiwrnod Rhyngwladol Gweithwyr ar 1 Mai fel y dydd i'w aberthu.

**Mohammad Ashgar:** Credaf fod Dydd Gŵyl Dewi yn fwy pwysig yng Nghymru nag unrhyw ŵyl arall. Rwy'n croesawu datblygiadau diweddar sy'n awgrymu bod Llywodraeth y DU yn ymgynghori ag Aelodau Cynulliad o ran cynnig yr opsiwn o symud gŵyl y banc ddechrau Mai i 1 Mawrth. Credaf y bydd fy nghydweithwyr yn nodi hyn yn ddifrifol iawn. Mae Dydd Sant Padrig bellach yn ddatliad byd-eang o ddiwylliant Gwyddelig. Nid oes unrhyw reswm pam na all Dydd Gŵyl Dewi gael ei hyrwyddo yn yr un modd, gan ysgogi dealltwriaeth ryngwladol o Gymru.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i wneud Cymru yn genedl gwbl ddwyieithog. Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ymwneud yn bennaf â'r ddarpariaeth statudol, ond teimlwn fod gan y ddarpariaeth

of the Welsh language. That is why we are calling for the introduction of a Welsh charter mark to recognise businesses that offer high-quality Welsh-medium services. The Minister has already described the idea as ‘creative’, while the legislation committee that considered the Welsh language Measure said that there was potential for a mark that would reward organisations that voluntarily offered extended levels of provision for Welsh speakers. A charter mark would give consumers the chance to find businesses offering a particular standard of Welsh-medium services. We feel that the mark would be a badge of honour for many firms and could subsequently encourage better promotion and a higher prevalence of the Welsh language in the private sector.

I will conclude my remarks this afternoon by saying that we feel that much more can be done to properly brand Wales. It is worrying that Wales has not been branded effectively as a destination for culture, tourism and business. We are a small nation with much to offer. We must be ambitious in promoting ourselves to both internal and external markets. Many industry experts have highlighted the lack of global understanding that exists about Wales. Our engagement with the global economy is poor compared with many other smaller regions in Europe. For these reasons, I urge Members to support our motion today.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Dileu'r cyfan a rhoi'r canlynol yn ei le:*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi'r gwaith parhaus sy'n cael ei wneud i ddatblygu brand Cymru o dan Adnewyddu'r Economi gan adeiladu ar ei lwyddiant yn codi proffil Cymru fel cyrchfan sydd gyda'r gorau yn y byd am ddiwylliant, twristiaeth a busnes;*

*2. Yn cydnabod yr enw da mae Cymru wedi'i sicrhau drwy gynnal Digwyddiadau Mawr megis Cyfres y Llundw a Chwpan Ryder;*

*3. Yn croesawu'r gwaith o ddatblygu*

wirfoddol ran fawr i'w chwarae yn nhwff yr iaith Gymraeg. Dyna pam rydym yn galw am gyflwyno marc siarter Cymru i gydnabod busnesau sy'n cynnig gwasanaethau o safon uchel drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Gweinidog eisoes wedi disgrifio'r syniad fel un 'creadigol', ac mae'r pwyllgor deddfwriaethol a ystyriodd Fesur y Gymraeg wedi dweud bod potensial i farc a fyddai'n gwobrwyo sefydliadau sy'n cynnig lefelau estynedig o ddarpariaeth wirfoddol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Byddai marc siarter yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr ddod o hyd i fusnesau sy'n cynnig safon benodol o wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Rydym yn teimlo y byddai'r marc yn fathodyn anrhydedd i lawer o gwmnïau, a gallai hynny annog gwell hyrwyddo a mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat.

Hoffwn gloi fy sylwadau y prynhawn yma drwy ddweud ein bod yn teimlo y gellir gwneud llawer mwy i frandio Cymru'n briodol. Mae'n destun pryder nad yw Cymru wedi cael ei brandio'n effeithiol fel cyrchfan ar gyfer twristiaeth, diwylliant a busnes. Rydym yn genedl fach gyda llawer i'w gynnig. Mae'n rhaid inni fod yn uchelgeisiol wrth hyrwyddo ein hunain i farchnadoedd mewnol ac allanol. Mae llawer o arbenigwyr yn y diwydiant wedi tynnu sylw at y diffyg dealltwriaeth fyd-eang sy'n bodoli am Gymru. Mae ein hymwneud â'r economi fyd-eang yn wael o'i gymharu â rhanbarthau llai eraill yn Ewrop. Am y rhesymau hyn, rwy'n annog Aelodau i gefnogi ein cynnig heddiw.

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Delete all and replace with:*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Notes the ongoing development of the Wales brand under Economic Renewal building on its success in raising Wales' profile as a world-class destination for culture, tourism and business;*

*2. Recognises the positive reputation that Wales has gained through hosting Major Events such as the Ashes and the Ryder Cup;*

*3. Welcomes the development of innovative*

*mynediad ar-lein arloesol i dreftadaeth Cymru drwy Gasgliad y Werin Cymru; ac*

*on-line access to Welsh heritage through the People's Collection Wales; and*

*4. Yn cefnogi'r cynnig i archwilio ymarferoldeb cyflwyno Nod Siarter i gydnabod y defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau fel y nodir yn y Strategaeth Iaith ddrafft Iaith Fyw: Iaith Byw.*

*4. Supports the proposal to examine the feasibility of introducing a Charter Mark to recognise the use of Welsh by businesses as set out in the draft Welsh Language Strategy A living language: A language for living.*

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Cynigiad welliant 1.

**The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones):** I move amendment 1.

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Amendment 2 Peter Black*

*Ym mhwynt 1, ar ôl 'busnes' rhoi 'drwy gynyddu cyfran y cyllid marchnata a warir ar hyrwyddo Cymru y tu allan i'r DU.*

*In point 1, after 'business' insert 'by increasing the proportion of marketing funding that is spent promoting Wales outside the UK.'*

*Gwelliant 3 Peter Black*

*Amendment 3 Peter Black*

*Cynnwys pwynt tri newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:*

*Add as new point three and renumber accordingly:*

*Yn nodi'r rôl werthfawr y mae archifau lleol yn ei chwarae wrth hyrwyddo diwylliant Cymru.*

*Notes the valuable role that local archives play in promoting Welsh culture.*

**Eleanor Burnham:** I move amendments 2 and 3.

**Eleanor Burnham:** Cynigiad welliannau 2 a 3.

I am pleased to speak in this debate. I would like to mention the recent announcement that means that there is the potential for St David's Day to be a public holiday. This will help to promote Wales on the world stage. I am not going to get drawn into a debate on dates, but I am sure that Jeffrey and Oscar will be able to fight that out later.

Rwy'n falch o gael siarad yn y ddadl hon. Hoffwn sôn am y cyhoeddiad diweddar sy'n golygu bod posibilrwydd y daw Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl gyhoeddus. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo Cymru ar lwyfan y byd. Nid wyf am ddechrau dadlau ynghylch dyddiadau, ond rwy'n sicr y gall Jeffrey ac Oscar drafod hynny yn nes ymlaen.

Wales is not sufficiently promoted across the world, despite the fact that Visit Wales has worked hard in a globally competitive arena, with very little money. There is no comparison between the small amount that we have to spend in Wales—I am sure the Minister will tell us later how much that is—and the amount available to spend in Scotland. Much of our tourism is generated from a few countries. Every time we discuss this matter with your head of department, we are told that Visit Wales concentrates on people who live three hours' drive away. We need to do far more to try to raise awareness about Wales. Everywhere you go, there is an

Nid yw Cymru yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol ar draws y byd, er gwaethaf y ffaith bod Croeso Cymru wedi gweithio'n galed mewn sefyllfa gystadleuol yn fyd-eang, heb lawer o arian. Nid oes cymhariaeth rhwng y swm bach sydd gennym ni i'w wario yng Nghymru—rwy'n siŵr y gall y Gweinidog ddweud wrthym faint yn ddiweddarach—a faint sydd ar gael i'w wario yn yr Alban. Mae llawer o'n twristiaeth yn deillio o ychydig o wledydd. Bob tro y byddwn yn trafod y mater hwn gyda'ch pennaeth adran, dywedir wrthym bod Croeso Cymru'n canolbwyntio ar bobl sy'n byw o fewn tair awr i Gymru mewn car. Mae angen inni wneud llawer



Irish pub. Quite apart from everything else that Ireland does, it does Irish pubs. When I visit my son in Lisbon, one of the first things that you see in the middle of the city is an Irish pub, and if you go to a lovely little place called Cascais, you will see an Irish pub. Before anybody suggests that all I do is drink Irish Guinness, I am just making the obvious point that we need to do better. I can see that the Minister has a smile on his face, so I hope that I am not upsetting him too much.

The Government amendment specifically names the Ryder Cup, but I would like see the major events strategy specifically seeking out events that could draw in more tourists from these areas, such as the Tour de France or American football, as have been mentioned by my colleague, Veronica, as well as many others from other parties. I do not want to become unpopular; this is a cross-party issue, because we are selling and promoting Wales, are we not?

4.15 p.m.

On the amendments, first, we are calling for an increase in the proportion of marketing funding that is spent promoting Wales outside the UK. It is essential for improving the visibility of Wales in outside markets, and at some point we need to bite the bullet and focus our efforts on different countries. I would suggest that those countries could be places where the Welsh have historically been important, such as the United States, Canada, Australia and so on.

One thing that strikes me is that an awful lot of hoteliers in Wales—bless them—are working hard but cannot get local people to work for them. The jargon of ‘sense of place’ that is used by Visit Wales and the former Welsh tourist board is important, but many of the lovely people who come from abroad to work in Welsh tourism cannot help visitors with that. They might not be able to speak Welsh, either, and they might not be local

mwy i geisio codi ymwybyddiaeth am Gymru. Ym mhob man yr ewch, mae tafarn Wyddelig. Yn ychwanegol at bopeth arall a wna Iwerddon, mae'n arbennig o dda am hyrwyddo tafarndai Gwyddelig. Pan fyddaf yn ymweld â fy mab yn Lisbon, un o'r pethau cyntaf a welwch yng nghanol y ddinas yw tafarn Wyddelig, ac os byddwch yn mynd i le bach hyfryd o'r enw Cascais, gwelwch dafarn Wyddelig. Cyn bod unrhyw un yn awgrymu mai'r cyfan a wnaif yw yfed Guinness Gwyddelig, rwy'n gwneud y pwynt amlwg bod angen i ni wneud yn well. Gallaf weld bod gan y Gweinidog wên ar ei wyneb, felly gobeithiaf nad wyf yn peri gormod o ofid iddo.

Mae gwelliant y Llywodraeth yn cyfeirio'n benodol at Gwpan Ryder, ond hoffwn weld y strategaeth digwyddiadau mawr yn chwilio'n benodol am ddigwyddiadau a allai ddenu mwy o dwristiaid o'r ardaloedd hyn, fel y Tour de France neu bêl-droed Americanaidd, fel y nodwyd gan fy nghyd-Aelod Veronica, yn ogystal â llawer o Aelodau eraill o bleidiau eraill. Nid wyf am fod yn amhoblogaidd; mae hyn yn fater trawsbleidiol, oherwydd rydym yn gwerthu ac yn hyrwyddo Cymru, onid ydym?

Ynghylch y gwelliannau, yn gyntaf, rydym yn galw am gynnydd yng nghyfran yr arian marchnata sy'n cael ei wario ar hyrwyddo Cymru y tu allan i'r DU. Mae hynny'n hanfodol ar gyfer gwella amlygrwydd Cymru mewn marchnadoedd allanol; ar rhyw bwynt, bydd angen inni fwrw ati a chanolbwyntio ein hymdrechion ar wledydd gwahanol. Byddwn yn awgrymu y gallai'r gwledydd hynny fod yn fannau lle mae Cymru wedi bod yn bwysig yn hanesyddol, fel yr Unol Daleithiau, Canada, Awstralia ac yn y blaen.

Un peth sy'n fy nharo i yw bod llawer iawn o westywyr yng Nghymru yn gweithio'n galed, chwarae teg, ond ni allant gael pobl leol i weithio iddynt. Mae'r 'ymdeimlad o le' sy'n cael ei ddefnyddio gan Croeso Cymru a bwrdd croeso Cymru gynt, yn bwysig, ond ni all llawer o'r bobl hyfryd sy'n dod o dramor i weithio mewn twristiaeth yng Nghymru helpu ymwelwyr yn hynny o beth. Efallai nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg ychwaith, ac

enough to have the awareness of how to sell what is on their doorstep. Even if we have these wonderful people from eastern Europe, I think that they should at least be given awareness training. I will give you an example. I went to the Lake Vyrnwy Hotel with my daughter, who lives in Bucharest—as you all know—and she suddenly started talking Romanian to this guy, because she realised that he was Romanian. Most of the people working at the Lake Vyrnwy Hotel appear to be eastern European, which is wonderful, but even if I could have spoken Romanian with them, they could not really have told me about Lake Vyrnwy, which, as you know, Minister, is probably one of the most picturesque places in Wales. That is just a small point that I would like to make as we go along.

Raising awareness among tourists is one thing, but when you talk to the people of Wales, one issue about the referendum is very pertinent to what we are discussing. Many people in Wales, as I have mentioned on many other occasions, do not read anything about Wales, or watch anything about Wales, or listen to anything about Wales. We need to engage much more with UK media outlets, particularly Sky, because the majority of people who watch Sky should be able to see what is on their doorstep in Wales.

On the issue of archives, I am sorry—I do not agree with you. We have the most fantastic National Museum Wales and National Library of Wales, and they have worked hard, effectively and efficiently over the last 10 years. Therefore, I do not think that we can support you on that.

Yr wyf yn credu y dylem wneud ein gorau i ddatblygu Dydd Gŵyl Dewi. Mae'n hanfodol i ni fel cenedl fach godi ymwybyddiaeth am ein hiaith a'n diwylliant.

It would be a fantastic opportunity to showcase our culture and heritage. Good luck, because whoever comes in in May needs much more oomph, and we need to do much more for Wales.

efallai na fyddant yn ddigon lleol i gael ymwybyddiaeth o sut i werthu'r hyn sydd ar garreg eu drws. Hyd yn oed os oes gennym y bobl wych hyn o ddwyrain Ewrop, credaf y dylent o leiaf gael hyfforddiant ymwybyddiaeth. Rhoddaf enghraifft i chi. Bûm yng Nghwesty Llyn Efyrynwy gyda fy merch, sy'n byw yn Bucharest—fel y gwyddoch—ac yn sydyn dechreuodd hi siarad Rwmaneg â rhyw ddyn, gan ei bod yn sylweddoli ei fod yn dod o Rwmania. Ymddengys bod y rhan fwyaf o'r bobl sy'n gweithio yng Nghwesty Llyn Efyrynwy yn dod o ddwyrain Ewrop, sy'n wych, ond hyd yn oed pe bawn i'n gallu siarad Rwmaneg â hwy, ni allent fod wedi dweud wrthyf am Lyn Efyrynwy, sydd, fel y gwyddoch, Weinidog, yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yng Nghymru. Pwynt bach yw hwn yr hoffwn ei nodi wrth fynd heibio.

Mae codi ymwybyddiaeth ymhlith twristiaid yn un mater, ond pan fyddwch yn siarad â phobl Cymru, mae un mater ynghylch y refferendwm yn berthnasol iawn i'r hyn rydym yn ei drafod. Mae llawer o bobl yng Nghymru, fel y soniais lawer tro, nad ydynt yn darllen unrhyw beth am Gymru, yn gwyllo unrhyw beth am Gymru nac yn gwrandao ar unrhyw beth am Gymru. Mae angen inni ymgysylltu llawer mwy gyda chyfryngau'r DU, yn enwedig Sky, oherwydd dylai'r rhan fwyaf o bobl sy'n gwyllo Sky allu gweld beth sydd ar garreg eu drws yng Nghymru.

Ar y mater o archifau, mae'n ddrwg gennyf, ond nid wyf yn cytuno â chi. Mae gennym Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru sy'n wych iawn, ac maent wedi gweithio'n galed, yn effeithiol ac yn effeithlon, dros y 10 mlynedd diwethaf. Felly, nid wyf yn credu y gallwn eich cefnogi ar hynny.

I believe that we should do our best to develop St David's Day. It is essential that we, as a small nation, raise awareness of our language and culture.

Byddai'n gyfle gwych i arddangos ein diwylliant a'n treftadaeth. Pob lwc, oherwydd bydd pwy bynnag sy'n dod i mewn ym mis Mai angen llawer mwy o egni yn hyn o beth, a rhaid inni wneud llawer mwy dros Gymru.

**Darren Millar:** I am also pleased to be able to contribute to today's debate, especially as someone who lives in a seaside town and is privileged enough to have a beautiful constituency—I have to say that I think that it is probably the most beautiful constituency in the country. *[Interruption.]* Wales has a great deal to offer in terms of culture, tourism and business, but it is clear that the Assembly Government has failed to market Wales effectively in the past. There is no doubt that we need to raise the profile of Wales on the world stage, as the Deputy First Minister has already acknowledged, due to the failure to attract inward investment. The success of Wales as a tourist destination is critical to the economic prosperity of north Wales as a region, and particularly my constituency. In Conwy alone, 16 per cent of jobs rely on the tourism industry, higher than any other Welsh county. In north Wales as a whole, £1.8 billion is generated in the economy on an annual basis due to tourism, and 37,500 jobs rely on tourism.

It is not only important to retain these jobs during the current economic circumstances, but also to create new ones, and there are opportunities to do so in the future. Attractions such as the Welsh Mountain Zoo in Colwyn Bay, which recently became the National Zoological Society of Wales, is a premier tourist attraction. It features in the top 10 tourist attractions in Wales, and I am delighted that the Deputy Minister for Housing and Regeneration will be visiting with the zoo with me to feed their meerkats later on in the week. *[Interruption.]* Yes, 'simples', indeed.

The zoo is an important tourist attraction for north Wales that is continuing to develop; it is a real asset for Colwyn Bay and the local economy. New attractions are always being developed that give the opportunity to attract more people into north Wales. It would be great, Minister, if you could talk, in your reply to today's debate, about what you are doing to support the zoo, and whether it features in your future strategy for improving tourism in Wales.

We also have some wonderful national parks

**Darren Millar:** Rwyf innau'n falch o allu cyfrannu at y ddadl heddiw, yn enwedig fel un sy'n byw mewn tref glan môr ac yn ddigon breintiedig i gael etholaeth mor hardd—rhaid imi ddweud fy mod yn credu mai hi, mae'n debyg, yw'r etholaeth fwyaf prydferth yn y wlad. *[Torri ar draws.]* Mae gan Gymru lawer iawn i'w gynnig o ran twristiaeth, diwylliant a busnes, ond mae'n amlwg bod Llywodraeth y Cynulliad wedi methu â marchnata Cymru yn effeithiol yn y gorffennol. Nid oes amheuaeth bod angen inni godi proffil Cymru ar lwyfan y byd, fel y cydnabu'r Dirprwy Brif Weinidog eisoes, oherwydd y methiant i ddenu buddsoddiad o'r tu allan. Mae llwyddiant Cymru fel cyrchfan i dwristiaid yn hanfodol i ffyniant economaidd yn y gogledd, fel rhanbarth, ac yn enwedig yn fy etholaeth i. Mae 16 y cant o'r swyddi yng Nghonwy yn unig yn dibynnu ar y diwydiant twristiaeth, sy'n uwch nag yn unrhyw sir arall. Yn y gogledd i gyd, cynhyrchir £18 biliwn yn yr economi yn flynyddol o ganlyniad i dwristiaeth, ac mae 37,500 o swyddi yn dibynnu ar dwristiaeth.

Mae'n bwysig nid yn unig i gadw'r swyddi hyn yn yr amgylchiadau economaidd presennol, ond i greu swyddi newydd hefyd, ac mae cyfleoedd i wneud hynny yn y dyfodol. Mae atyniadau fel y Sŵ Fynydd Gymreig ym Mae Colwyn, a ddaeth yn ddiweddar yn gartref Cymdeithas Söolegol Genedlaethol Cymru, yn atyniad o'r radd flaenaf i dwristiaid. Caiff ei gynnwys yn y 10 uchaf o ran atyniadau twristiaid Cymru, ac rwy'n falch iawn y bydd y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio yn ymweld â'r sŵ gyda mi i fwydo eu swricatiaid yn ddiweddarach yn yr wythnos. *[Torri ar draws.]* Ie, 'simples', yn wir.

Mae'r sŵ yn atyniad pwysig i dwristiaid yn y gogledd sy'n parhau i ddatblygu; mae'n ased gwirioneddol ar gyfer Bae Colwyn a'r economi leol. Caiff atyniadau newydd eu datblygu'n gyson, sy'n rhoi cyfle i ddenu mwy o bobl i'r gogledd. Byddai'n wych, Weinidog, pe gallech siarad, wrth ymateb i'r ddadl heddiw, am yr hyn rydych yn ei wneud i gefnogi'r sŵ, gan ddweud a yw wedi'i gynnwys yn eich strategaeth i'r dyfodol ar gyfer gwella twristiaeth yn Nghymru.

Mae gennym hefyd barciau cenedlaethol

and stunning landscapes. I have mentioned on many occasions the Clwydian range, which extends over large parts of Denbighshire and Flintshire, and which I would like to see designated as Wales's fourth national park. It is important that we do not overlook the ability of national parks and our great open spaces to attract people into Wales to help our economy.

It is important to note the growth of the religious tourism industry in Wales. We have a rich and fantastic religious heritage in Wales—we have sacred pilgrim routes, beautiful old churches and chapels and a wonderful network of holy wells. We also have a number of sacred relics, such as the bones of St Winefride, which—much to my disgust—were pinched by the monks of Shrewsbury many years ago and taken over the border. One of those bones is now in Holywell, although I would like them all to be in Gwytherin, in my own constituency. Therefore, is sufficient focus placed on the opportunities that religious tourism gives to Wales in helping to promote Wales as a nation? We all know that Wales has a history of being the land of revivals and many people around the world attend churches that were established through the work of Welsh missionaries. Indeed, many thousands of people come back to Wales annually, simply because of that. There is an opportunity, Minister, to improve the marketing of Wales in those nations that have strong links with our Christian heritage.

There are also a number of negatives in Wales at the moment. We have seen a big decline in the number of tourist information centres across the country, which does nothing to enhance tourism, and public lavatories have been closed across the country, which is not convenient for ramblers and others who want to enjoy the countryside. It must also be noted that tourism is not supported when roadworks constantly stifle the opportunity for visitors to travel to parts of Wales—particularly the roadworks currently causing long delays on the A55.

**Bethan Jenkins:** Diolchaf i'r Gweinidog ac i'r Llywodraeth am eu holl waith yn y maes hwn. Gallwn weld o'r hyn sydd wedi

gwych a thirweddau ysblennydd. Rwyf wedi sôn droeon am fryniau Clwyd, sy'n ymestyn dros rannau mawr o sir Ddinbych a sir y Fflint, ac y byddwn yn hoffi gweld eu dynodi yn bedwerydd parc cenedlaethol Cymru. Mae'n bwysig nad ydym yn anghofio am allu ein parciau cenedlaethol a'n manau agored gwych i ddenu pobl i Gymru i helpu ein heconomi.

Mae'n bwysig nodi twf y diwydiant twristiaeth grefyddol yng Nghymru. Mae gennym dreftadaeth gyfoethog a gwych o ran crefydd yng Nghymru—llwybrau pererinion cysegredig, hen eglwysi a chapeli hardd a rhwydwaith gwych o ffynhonnau sanctaidd. Mae gennym hefyd nifer o greiriau sanctaidd, fel esgryn Santes Gwenffrwd, a gafodd eu dwyn, yn anffodus, gan fynachod o Amwythig flynyddoedd lawer yn ôl a'u cymryd dros y ffin. Mae un o'r esgryn hynny yn awr yn Nhreffynnon, er yr hoffwn iddynt oll fod yng Ngwytherin, yn fy etholaeth i. Felly, a roddir digon o ffocws ar y cyfleoedd y mae twristiaeth grefyddol yn eu rhoi i Gymru i helpu i'w hyrwyddo fel gwlad? Mae pob un ohonom yn gwybod bod gan Gymru hanes o fod yn wlad o ddiwygiadau ac mae llawer o bobl ar draws y byd yn mynychu eglwysi a sefydlwyd drwy waith cenhadon o Gymru. Yn wir, mae miloedd lawer o bobl yn dod yn ôl i Gymru bob blwyddyn oherwydd hynny'n unig. Mae cyfle, Weinidog, i wella ein dulliau o farchnata Cymru yn y gwledydd hynny sydd â chysylltiadau cryf â'n treftadaeth Gristnogol.

Mae hefyd nifer o agweddau negyddol ar Gymru ar hyn o bryd. Rydym wedi gweld gostyngiad mawr yn nifer y canolfannau gwybodaeth i dwristiaid ar draws y wlad, sy'n niweidiol i dwristiaeth yn sicr, a chaewyd toiledau cyhoeddus ar draws y wlad, ac nid yw hynny'n gyfleus i gerddwyr ac eraill sydd eisiau mwynhau cefn gwlad. Rhaid nodi hefyd na chefnogir twristiaeth pan fydd gwaith cyson ar ein ffyrdd yn rhwystro ymwelwyr rhag teithio i rannau o Gymru—yn enwedig y gwaith ffordd sy'n achosi oedi hir ar yr A55 ar hyn o bryd.

**Bethan Jenkins:** I thank the Minister and the Government for their work in this area. We can see from what has happened over the past

digwydd mewn twristiaeth dros y pedair blynedd diwethaf, drwy Croeso Cymru, eu bod wedi bod yn llwyddiannus, yn enwedig drwy'r cyfryngau, wrth ddenu pobl i ddod i Gymru, nid yn unig o wahanol rannau o Brydain ond hefyd o leoedd eraill ar draws y byd.

Croesawaf y ffaith bod y Torïaid yn galw am wyl ar Ddydd Gŵyl Dewi, er mwyn dathlu'r diwrnod ac i hybu twristiaeth ac ymwelwyr. Fodd bynnag, hoffwn i'r Torïaid esbonio pam fod David Jones, Aelod Seneddol Torïaidd, yn anghytuno ar y sail y byddai'n costio gormod i'r trethdalwr. Mae'n bwysig cael consensws, ond ni chredaf fod consensws ymysg y Torïaid ar hyn.

Mae'n bwysig hefyd ein bod yn edrych ar strategaethau, megis 'Adnewyddu'r economi: cyfeiriad newydd', yn ogystal â'r strategaeth digwyddiadau mawr, er mwyn parhau â'r gwaith sy'n digwydd yng Nghymru, ac er mwyn datblygu'r hyn yr ydym yn ei wneud yn y sectorau twristiaid a chwaraeon. Nid wyf am fod yn rhy sinigaidd heddiw, ond yr wyf ar fy nhraed yn wythnosol yn trafod yr uned digwyddiadau mawr a thwristiaeth. Byddwn yn gofyn i'r Torïaid a ydynt wedi darllen y strategaethau hyn, gan eu bod yn cynnig yr un trafodaethau dro ar ôl tro, gan ofyn yr un pethau. Credaf fod y Llywodraeth yn bwrw iddi, yn enwedig o ran y strategaeth digwyddiadau mawr. Mae pethau newydd yn dod i Gymru yn sgîl y Cwpan Ryder, ac mae angen rhoi amser i'r Llywodraeth. Nid yw trefnu digwyddiadau mawr yn digwydd dros nos; mae'n rhaid rhoi llawer o arian ac amser ar gyfer hynny. Felly, mae'n bwysig eich bod yn darllen y strategaethau hynny yn hytrach na chynnig trafodaethau o'r fath yn gyson.

Talaf deyrnged i'r Gweinidog a'i adran am ddatblygu treftadaeth Cymru. Eto i gyd, bydd y Gweinidog mwy na thebyg yn gwybod beth yr wyf am ei ddweud yn hynny o beth, gan fy mod wedi cael cyfarfodydd gyda'r Gweinidog am faterion yn y maes hwn. Hoffwn weld mwy o bwyslais ar hybu ein treftadaeth ddiwydiannol yng Nghymru. Mae diddordeb yn y maes wedi cynyddu'n fawr yn ddiweddar, ac i'r un graddau, mae'n debyg, â'r diddordeb mewn teithiau i feysydd brwydr yng Nghymru. Gan y gall Cymru

four years with tourism in Wales, through Visit Wales, that this has been successful, particularly in the media, in encouraging people to visit Wales, not only from different parts of Britain but also from other places across the world.

I welcome the fact that the Tories are asking for a bank holiday on St David's Day, in order to celebrate the day, to promote tourism and to encourage tourists. However, I would like the Tories to explain why Tory Member of Parliament David Jones disagrees with this on the basis that it would be too expensive for taxpayers. It is important that we have consensus, but I do not believe that there is consensus among the Tories on this.

It is also important that we look at strategies such as 'Economic Renewal: a new direction', as well as the major events strategy, as we continue the work that is ongoing in Wales and develop what we are doing in the tourism and sports sectors. I do not want to be too cynical this afternoon, but I do find that I am standing here every week discussing the major events unit and tourism. I would ask the Tories whether they have read these strategies, as they are bringing the same debates here time and again, asking the same old things. I think that the Government is delivering, particularly with the major events strategy. New things are coming to Wales following the Ryder Cup, and the Government need to be given time. Major events do not happen overnight; you have to put a great deal of time and money into these things. Therefore, it is important that you read those documents rather than constantly bring these debates to the Assembly.

I pay tribute to the Minister and his department for developing Welsh heritage. However, the Minister is probably aware of what I am going to say, as I have had meetings with him on these issues. I would like to see more emphasis placed on promoting industrial heritage in Wales. Interest in this area has increased greatly over the past few years, to the same level as the interest in battlefield tours in Wales. Given that Wales can claim an important role in the industrial revolution, we could hold more

honni ei bod yn bair i'r chwyldro diwydiannol, gallem gynnal mwy o ddigwyddiadau i hybu hynny.

O fewn 15 milltir o'm swyddfa yng Nghastell-nedd, er enghraifft, cafwyd datblygiadau mawr ym myd diwydiant. Ger Stadiwm Liberty, datblygodd y brodyr Siemens ffwrnais chwyth atgynhyrchiol, sy'n parhau i fod yn sail i gynhyrchiad dur cyfoes. Galluogodd hynny inni ymladd y Natsïaid, gan mai'r ffwrnais honno oedd y cyntaf i alluogi gosod ac ail-ffurfio metel. Dyfeisiodd William Grove y gell hydrogen, a arweiniodd at y genhedlaeth nesaf o geir ecolegol. Mae'r ffaith nad oes bron neb yn ei ddinas enedigol, Abertawe, yn gwybod amdano yn eithaf trist. Yn Abertawe, gwelwyd diwydiant byd-eang cyntaf y byd, a oedd yn sail iddi gael ei henwi yn 'Copperopolis'. Yr wyf yn siŵr bod y Gweinidog yn gwybod i'r ddinas ddathlu ei Diwrnod Copr cyntaf dydd Sadwrn diwethaf.

Mae'n bwysig inni edrych ar bob math o ddigwyddiadau diwylliannol a thwristiaeth. Hoffwn hefyd ofyn i'r Gweinidog edrych ar yr angen i amddiffyn adeiladau hanesyddol, er mwyn denu twristiaid yn y modd hwnnw hefyd. A oes gan y Gweinidog gynlluniau i gryfhau rhestrau lleol, fel bod adeiladau yr ugeinfed ganrif, fel y Vulcan, yn cael eu hamddiffyn a'u datblygu i'r dyfodol? Byddai hynny'n sicrhau ein bod yn gwau'r hyn sy'n digwydd yn awr gyda'r hyn sydd wedi digwydd yn ein hanes, ac yn plethu'r hyn sy'n digwydd mewn strategaeth dwristiaeth gynhwysfawr i'r dyfodol.

**Paul Davies:** Credaf yn gryf fod y polisïau treftadaeth yr ydym wedi eu hamlinellu'n ddiweddar yn gymorth mawr ar gyfer brandio Cymru'n gyrchfan sydd gyda'r gorau yn y byd am ddiwylliant, twristiaeth a busnes.

Hoffwn sôn yn gyntaf am ein cynnig i gyflwyno nod siarter Cymraeg i gydnabod busnesau sy'n cynnig gwasanaethau o ansawdd uchel drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai nod siarter iaith Gymraeg o fudd i fusnesau ac i gwsmeriaid. Yr wyf yn derbyn bod gwelliant 1 y Llywodraeth yn nodi ei chefnogaeth i nod siarter, fel yr amlinellwyd yn y strategaeth iaith Gymraeg 'Iaith Fyw: Iaith Byw'. Felly, yr wyf yn falch bod

events to promote that.

Within 15 miles of my office in Neath, for example, there were major industrial developments. Alongside the Liberty Stadium, the Siemens brothers developed the regenerative furnace, which continues to be the basis for modern-day steel production. That enabled us to fight the Nazis, as it was the first furnace that allowed for the setting and reforming of metal. William Grove developed the hydrogen cell, which led to the next generation of eco-vehicles. The fact that virtually no-one in Swansea, his home city, knows about him is sad. Again, in Swansea, we saw the world's first global industry, which was the basis for the city becoming known as 'Copperopolis'. I am sure that the Minister will be aware that the city celebrated its first Copper Day last Saturday.

It is important that we look at all sorts of cultural events and tourism. I would also like to ask the Minister to look at the need to protect historic buildings in order to attract tourists. Does the Minister have any plans to strengthen local listings so that twentieth-century buildings, such as the Vulcan, are protected and developed for the future? That would ensure that we bring together what is happening today with what has happened throughout our history, dovetailing everything in a comprehensive tourism strategy for the future.

**Paul Davies:** I strongly believe that the heritage policies that we have recently outlined have been of great assistance in branding Wales as one of the best destinations on a global level for culture, tourism and business.

I would like to begin by mentioning our aim to introduce a Welsh charter mark to recognise businesses that provide high-quality services through the medium of Welsh. A Welsh-language charter mark would be of benefit to businesses and customers. I accept that the Government's amendment 1 notes its support for a charter mark, as outlined in the Welsh language strategy, 'A Living Language: A Language

consensus cyffredinol ar gyfer cael nod siarter i fusnesau. Fodd bynnag, rhaid gweld mwy na chefnogaeth i'r fath gynnig, ac, felly, erfyniaf ar y Llywodraeth i weithredu yn y maes hwn i sefydlu nod siarter o'r fath cyn gynted ag y bo modd.

Mae'r angen am fesurau gwirfoddol i helpu cwsmeriaid a busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg yn glir, a dylid gweld datblygiadau yn y maes hwn cyn gynted ag y bo modd. Yn ystod gwaith Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, a ystyriodd y Mesur, awgrymodd E.on UK y dylid cael achrediad nod siarter ar gyfer lefelau o wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd y pwyllgor yn ei adroddiad yn dilyn Cyfnod 1 y broses ddeddfwriaethiol fod potensial ar gyfer cael nod siarter gwirfoddol i fusnesau sy'n cynnig darpariaeth estynedig ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Yr wyf yn cydnabod bod y Gweinidog wedi croesawu'r syniad, a gobeithiaf yn awr y bydd ef a'r Llywodraeth yn sicrhau bod hynny'n cael ei ddatblygu cyn gynted ag y bo modd. Yr wyf yn derbyn bod y Llywodraeth wedi bod yn edrych ar y mater hwn fel rhan o'i hymgyngoriad diweddar, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynglŷn â hynny yn ei ymateb.

4.30 p.m.

Yr ail fater yr hoffwn edrych arno yw twristiaeth a phwysigrwydd brandio Cymru'n effeithiol. Fel y mae Aelodau yn gwybod, twristiaeth yw un o'r diwydiannau allweddol yn fy etholaeth, Preseli Sir Benfro. Mae'r diwydiant twristiaeth yn hynod bwysig i'r economi leol ac i economi Cymru. Felly, mae'n hanfodol bod Cymru'n cael ei marchnata'n effeithiol fel bod modd parhau i ddenu mwy o bobl i'r ardal.

Derbyniaf y bu rhywfaint o gynnydd da yn y maes hwn yn ddiweddar, yn enwedig yn y gorllewin. Clywsom y llynedd i sir Benfro gael ei phleidleisio'n ail gyrchfan arfordirol orau yn y byd, ac yr wyf yn siŵr bod pawb yn cytuno bod hynny'n gamp anhygoel. Anogaf y Gweinidog felly i sicrhau bod y gorllewin yn parhau i gael ei farchnata dros y byd ac y parheir i adeiladu ar ei enw da a disglair.

for Living'. I am therefore pleased that there is general consensus on a charter mark for businesses. However, we need more than just support for such a proposal, so I urge the Government to take action in this area to establish such a charter mark as soon as is possible.

The need for voluntary measures to assist customers and businesses to use the Welsh language is clear, and we should see developments in this area as soon as possible. During Legislation Committee No. 2's consideration of the Welsh language Measure, E.on UK suggested a charter mark accreditation for levels of services through the medium of Welsh. The committee, in its report at Stage 1 of proceedings, said that there was potential for such a voluntary charter mark for businesses that provide an extensive service for Welsh speakers. I acknowledge that the Minister has welcomed that idea, and I hope that he and the Government will ensure that it is developed as soon as possible. I accept that the Government has been looking at this issue as part of its recent consultation, and I would be grateful if the Minister could give us an update on this issue in his response.

The second issue that I would like to look at is tourism and the importance of branding Wales effectively. As Members will know, tourism is one of the key industries in my constituency, Preseli Pembrokeshire. The tourism industry is very important to the local economy and to the economy of Wales. Therefore, it is crucial that Wales is marketed effectively so as to continue to attract more people to the area.

I accept that there has been some good progress in this area recently, particularly in west Wales. Last year we heard that Pembrokeshire was voted the second-best coastal destination in the world, and I am sure that everyone would agree that that is quite a feat. I urge the Minister therefore to ensure that west Wales continues to be marketed globally and that we continue to build on its good reputation.

Yr wyf yn bryderus braidd o glywed bod ymchwil ddiweddar a gomisiynwyd gan Groeso Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn dangos nad yw Cymru'n cael ei gweld yn lle ar gyfer gwyliau dinas. Derbyniad mai polisi'r Llywodraeth yw i barhau i hyrwyddo Cymru mewn marchnadoedd allanol, gan fanteisio ar ein hasedau unigryw o ran diwylliant, hanes a'r amgylchedd, ond, o ystyried y diffyg data twristiaeth sydd ar gael yn gyhoeddus, mae'n anodd monitro ac asesu tueddiadau cyfredol. Deallaf fod Enjoy England, sy'n cyfateb i Groeso Cymru, yn cyhoeddi data'n fisol ar nifer twristiaid, a hynny'n seiliedig ar arolwg twristiaeth y Deyrnas Gyfunol. A all y Gweinidog esbonio yn ei ymateb a oes rheswm penodol pam na ddylem ddisgwyl gweld yr un peth gan Groeso Cymru?

Ymddengys i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi ystadegau ar nifer y twristiaid sy'n dod i Gymru a'u gwariant, ond hyd at 2009 yn unig y mae'r rheini, felly mae'n amhosibl dod o hyd i ddata twristiaeth ar gyfer y 12 mis diwethaf. Gwelaf y Gweinidog yn siglo'i ben, ac efallai y gall ehangu ar hynny yn ei ymateb yn nes ymlaen.

Hoffwn sôn am hefyd am dwristiaeth fwyd. Fel y bydd pob un ohonoch yn gwybod, cyflwynais ddadl fer yn ddiweddar ar y mater hwn, gan dynnu sylw at yr angen i Lywodraeth y Cynulliad gydnabod pwysigrwydd twristiaeth ac amaeth mewn lleoedd fel sir Benfro a physigrwydd leoedd felly i economi Cymru. Yr wyf yn dal i gredu bod sir Benfro yn un o'r prifddinasoedd twristiaeth fwyd Cymru, ac felly mae'n hanfodol bod y gwasanaethau hyn yn cael eu diogelu a'u marchnata'n effeithiol.

I gloi, mawr obeithiaf y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn brandio Cymru fel cyrchfan o'r radd flaenaf ar gyfer twristiaeth, diwylliant a busnes. Ni ddylai'r diwydiant twristiaeth gael ei gymryd yn ganiataol. Anogaf yr Aelodau felly i gefnogi'n cynnig.

**Nick Ramsay:** It is a pleasure to speak in this debate. It is true to say that, as a destination, Wales is certainly one of the most underrated. Many of our towns are products of the Victorian and Edwardian eras. They

I am somewhat concerned that recent research commissioned by Visit Wales and the Arts Council of Wales demonstrates that Wales is not seen as a place for city holidays. I accept that the Government's policy is to continue to promote Wales in external markets, taking advantage of our unique assets in terms of culture, history and the environment, but, given the lack of data publically available on tourism, it is difficult to monitor and assess current trends. I understand that Enjoy England, the equivalent body to Visit Wales, publishes data monthly on tourist numbers, based on the UK tourism survey. Could the Minister explain in his response whether there is a specific reason why we should not expect to be the same from Visit Wales?

It appears that the Assembly Government has published statistics on the number of visitors to Wales and their expenditure, but they only go up to 2009, so it is impossible to find tourism data for the past 12 months. I see that the Minister is shaking his head, and perhaps he could expand on that in his response later on.

I would also like to mention food tourism. As you will all know, I recently presented a short debate on this issue, drawing attention to the need for the Assembly Government to recognise the importance of tourism and agriculture in places such as Pembrokeshire and the importance of such places to the Welsh economy. I still believe that Pembrokeshire is one of the food tourism capitals of Wales, and therefore it is crucial that these services are safeguarded and marketed effectively.

To conclude, I very much hope that the Assembly Government will brand Wales as a world-class destination for culture, tourism and business. I do not think that the tourism industry can be taken for granted. Therefore, I urge Members to support our motion.

**Nick Ramsay:** Mae'n bleser siarad yn y ddadl hon. Mae'n wir dweud bod Cymru, fel cyrchfan, yn sicr yn un o'r rhai sy'n cael ei thanbriso fwyaf. Mae llawer o'n trefi yn gynnyrch yr oes Fictoriaidd a'r oes



flourished in those times, before people went abroad for their holidays. As Mohammad Asghar said in his excellent opening contribution, Wales is a small country that has so much to offer in culture and tourism. All four corners of Wales have something different but equally valid to offer. Currently, however, it is questionable as to whether people's knowledge of Wales is good enough.

Cardiff, the city we are in now, is one of the greatest cities built in the Victorian and Edwardian period. On Park Place, we have Burges House, which is the finest domestic dwelling of its type in the world. We also have St Germans church, the jewel of the Oxford movement. There is also the magnificent Baroque revival City Hall, while in Cathedral Road we have the most magnificent residential street to be built in the late Victorian era—the very mention of these places is getting my colleague David Melding excited. He will be able to pick up on those destinations in his closing contribution.

**Jeff Cuthbert:** Talking of Cardiff, do think that the fact that Cardiff grew up on coal should be commemorated, and that the south Wales Valleys should therefore be a historic centre and, as such, our industrial past celebrated, including the birthplace of the modern industrial trade unions and, indeed, the Labour movement?

**Nick Ramsay:** That is a very clever intervention, Jeff. Setting aside the last few words, I will be generous and say that what your part of the country has to offer is equal to anywhere else. I think that the people of Caerphilly should be congratulated on the role that they play in tourism. However, I disagree with my colleague Darren Millar, in that I believe that my constituency is the most beautiful. Nevertheless, I agree with most of what Darren says, so we will continue that debate in one of Eleanor Burnham's Irish pubs, as that would be a more appropriate venue.

My own constituency, Monmouth, is blessed with natural and historical heritage.

Edwardaidd. Roeddent yn ffynnu yn yr amseroedd hynny, cyn i bobl ddechrau mynd dramor ar eu gwyliau. Fel y dywedodd Mohammad Asghar yn ei gyfraniad agoriadol rhagorol, mae Cymru yn wlad fach sydd â chymaint i'w chynnig o ran diwylliant a thwristiaeth. Mae gan bob cornel o Gymru rywbeth gwahanol ond yr un mor ddilys i'w gynnig. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'n amheus a yw gwybodaeth pobl o Gymru yn ddigon da.

Caerdydd, y ddinas rydym ynndi yn awr, yw un o'r dinasoedd gorau a adeiladwyd yn y cyfnod Fictoriaidd ac Edwardaidd. Ar Park Place, mae gennym Burges House, y tŷ gorau o'i fath yn y byd. Mae gennym hefyd eglwys St Germans, trysor mudiad Rhydychen. Hefyd, mae gennym Neuadd y Dref ysblennydd o'r adfywiad Baróc, a Heol y Gadeirlan yw'r stryd breswyl fwyaf ysblennydd i gael ei hadeiladu yn niwedd cyfnod oes Fictoria—mae dim ond crybwyll y lleoedd hyn yn cyffroi fy nghyd-Aelod David Melding. Bydd yn gallu sôn am y cyrchfannau hynny wrth gloi.

**Jeff Cuthbert:** Rydych yn siarad am Gaerdydd; a ydych yn credu y dylai'r ffaith bod Caerdydd wedi datblygu ar lo gael ei goffáu, ac y dylai Cymoedd y de, felly, fod yn ganolfan hanesyddol ac y dylai ein gorffennol diwydiannol gael ei ddathlu, gan gynnwys man geni yr undebau llafur diwydiannol modern ac, yn wir, y mudiad Llafur?

**Nick Ramsay:** Dyna ymyriad clyfar, Jeff. Gan ddiystyru eich geiriau olaf, byddaf yn hael a dweud bod yr hyn sydd gan eich rhan chi o'r wlad i'w gynnig gystal ag unrhyw le arall. Credaf y dylid llongyfarch pobl Caerffili ar y rôl maent yn ei chwarae ym maes twristiaeth. Fodd bynnag, anghytunaf â'm cyd-Aelod Darren Millar, gan fy mod yn credu mai fy etholaeth i yw'r prydferthaf. Serch hynny, cytunaf â'r rhan fwyaf o'r hyn a ddywedodd Darren, felly byddwn yn parhau'r ddadl honno yn un o dafarndai Gwyddelig Eleanor Burnham, gan y byddai hynny'n lleoliad mwy priodol.

Mae fy etholaeth i, Mynwy, wedi'i bendithio â threftadaeth naturiol a hanesyddol. Mae

Chepstow is home to Britain's first stone-built castle, one of the few castles in any country that has never been taken by force. Tintern is home to one of Britain's outstanding landmarks, the magnificent Tintern abbey. Further afield, Abergavenny, one of Europe's most desirable locations, boasts a Michelin-starred restaurant and a well-attended food festival. I frequently bump into the Minister for Rural Affairs at that festival, and I know that she enjoys the festival just as much as I do. We have places of international renown, and we also have a lot to give in the nearby Brecon Beacons.

However, we need to ask why there has been a relative—I use the word 'relative' deliberately—decline in our performance in the tourism industry. If we look at the hard facts, we see issues surrounding the marketing of Wales. It is time to have a far stronger brand for our nation. The hospitality sector, despite successes, has, sadly, suffered in recent years. I know that we have had difficult economic times and a recession, but the problems go back further than that. Since the assimilation of the Wales Tourist Board into the Welsh Assembly Government, there has been doubt over the future of the marketing strategy. It will come under even greater pressure due to the constraints now imposed on us by issues relating to the economic renewal programme, and the fact that tourism is no longer referred to as a key sector.

Wales desperately needs to raise its profile in the world to reach larger markets in the UK and abroad. Scotland and other areas of the UK have done this and other areas of Europe are doing it. We have a very attractive offer in culture, tourism and business, but it is clear that the Minister has thus far failed to market Wales adequately or effectively. We are coming towards the end of this Assembly and we have just had the right result in our recent referendum. As we—those of us who are elected—go into the next Assembly, there are great opportunities for Wales. Let us grasp them, now that we can do so. Cultural tourists and historical enthusiasts interested in Welsh records must also be encouraged by our discussions on the creation of a national public records office. We have a national library and

Cas-gwent yn gartref i gastell carreg cyntaf Prydain, un o'r ychydig gestyll mewn unrhyw wlad na chafodd ei gymryd gan rym erioed. Mae Tyndyrn yn gartref i un o dirnodau mwyaf rhagorol Prydain—abaty godidog Tyndyrn. Ymhellach i ffwrdd, mae gan y Fenni, un o fannau mwyaf atyniadol Ewrop, fwyty seren Michelin a gŵyl fwyd sy'n denu nifer fawr o bobl. Rwy'n aml yn gweld y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn yr ŵyl honno, a gwn ei bod yn mwynhau'r ŵyl gymaint â mi. Mae gennym leoedd o fri rhyngwladol, ac mae gennym hefyd lawer i'w gynnig ym Mannau Brycheiniog gerllaw.

Fodd bynnag, mae angen inni ofyn pam y bu dirywiad cymharol—defnyddiaf y gair 'cymharol' yn fwriadol—yn ein perfformiad yn y diwydiant twristiaeth. Os edrychwn ar y ffeithiau moel, gwelwn broblemau yn ymwneud â marchnata Cymru. Mae'n amser cael brand llawer cryfach i'n cenedl. Mae'r sector lletygarwch, er gwaethaf llwyddiannau, wedi dioddef, yn anffodus, yn y blynyddoedd diwethaf. Gwn ein bod wedi cael cyfnod economaidd anodd a dirwasgiad, ond mae'r problemau yn mynd ymhellach yn ôl na hynny. Ers uno Bwrdd Croeso Cymru â Llywodraeth Cynulliad Cymru, bu amheuaeth am ddyfodol y strategaeth farchnata. Bydd yn dod o dan hyd yn oed fwy o bwysau oherwydd y cyfyngiadau sydd arnom bellach gan faterion sy'n ymwneud â rhaglen adnewyddu'r economi, a'r ffaith na chyfeirir bellach at dwristiaeth fel sector allweddol.

Mae angen dybryd ar Gymru i godi ei phroffil yn y byd i gyrraedd marchnadoedd mwy yn y DU a thramor. Mae'r Alban a rhannau eraill o'r DU wedi gwneud hyn, fel ag y mae rhannau eraill o Ewrop. Mae gennym gynnig deniadol iawn o ran twristiaeth, diwylliant a busnes, ond mae'n amlwg bod y Gweinidog, hyd yma, wedi methu â marchnata Cymru yn ddigonol nac yn effeithiol. Rydym yn dod at ddiwedd y Cynulliad hwn, ac rydym newydd gael y canlyniad cywir yn ein refferendwm diweddar. Wrth i ni—y rhai ohonom a gaiff eu hethol—fynd i mewn i'r Cynulliad nesaf, mae cyfleoedd gwych i Gymru. Gadewch inni fanteisio arnynt, gan ein bod bellach yn gallu gwneud hynny. Rhaid annog twristiaid diwylliannol a hanesyddol brwdfrydig sydd â

national museum, so why not have a national records office? I am pleased to contribute to this debate and to support the amendments.

I would like to make a final point before the Deputy Presiding Officer cuts off my microphone. The Wales Millennium Centre has had so many visitors in recent times, and we have just had our party conference in Cardiff. People coming to Cardiff for the first time during that conference were incredibly impressed by Cardiff as a city. However, they do not know about it until they get here. Why on earth not? Let us support this motion and get things changed.

**The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones):** I am grateful for the opportunity that this debate provides to discuss some of the central elements of my portfolio. I shall begin with branding and marketing, which has been referred to quite often this afternoon.

I agree with the motion that Wales should be branded as a world-class destination for culture, tourism and business. Developing and promoting this brand has been one of our priorities throughout the One Wales Government. We have worked across Government departments to strengthen Wales's reputation as a place to visit, a place in which to study, a place to host major events, a place with a quality food offering, a place with a strong heritage and a vibrant culture and a place with a positive reputation in the business sectors identified in 'Economic Renewal: a new direction'. The One Wales Government has pursued a Wales brand strategy, creating a brand platform that, over time, will build a competitive identity—an essential requirement to help attract visitors, inward investment and students, as well as make our made-in-Wales exports more attractive in all our external markets. Since 2007 there are many examples of how we have successfully and creatively used the distinctive Wales brand style to project a positive image for Wales. First, we have

diddordeb mewn cofnodion Cymreig hefyd gan ein trafodaethau ar greu swyddfa cofnodion cyhoeddus genedlaethol. Mae gennym lyfrgell genedlaethol ac amgueddfa genedlaethol, felly pam na chawn swyddfa gofnodion genedlaethol? Rwy'n falch o gyfrannu at y ddadl hon ac i gefnogi'r gwelliannau.

Hoffwn wneud pwynt terfynol cyn i'r Dirprwy Lywydd ddiffodd fy meicroffon. Mae Canolfan Mileniwm Cymru wedi cael cymaint o ymwelwyr yn ddiweddar, ac rydym newydd gynnal cynhadledd ein plaid yng Nghaerdydd. Roedd pobl a ddaeth i Gaerdydd am y tro cyntaf yn ystod y gynhadledd honno wedi cael argraff anhygoel o Gaerdydd fel dinas. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwybod amdani nes iddynt gyrraedd yma. Pam ddim? Gadewch inni gefnogi'r cynnig hwn er mwyn newid pethau.

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Rwy'n ddiolchgar am y cyfle y mae'r ddadl hon yn ei roi i drafod rhai o elfennau canolog fy mhortffolio. Byddaf yn dechrau gyda brandio a marchnata, y cyfeiriwyd atynt yn eithaf aml y prynhawn yma.

Rwy'n cytuno â'r cynnig y dylai Cymru gael ei brandio fel cyrchfan o safon fyd-eang ar gyfer diwylliant, twristiaeth a busnes. Bu datblygu a hyrwyddo'r brand hwn yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru'n Un. Rydym wedi gweithio ar draws adrannau Llywodraeth i gryfhau enw da Cymru fel lle i ymweld ag ef, lle i astudio, lle i gynnal digwyddiadau mawr, lle sy'n cynnig bwyd o ansawdd, lle gyda threftadaeth gref a diwylliant bywiog a lle gydag enw cadarnhaol yn y sectorau busnes a nodwyd yn 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'. Mae Llywodraeth Cymru'n Un wedi mynd ar drywydd strategaeth brand Cymru, gan greu llwyfan brand a fydd, dros amser, yn adeiladu hunaniaeth gystadleuol—sy'n hanfodol i helpu i ddenu ymwelwyr, buddsoddiad mewnol a myfyrwyr, yn ogystal â gwneud ein hallforion gwnaed-yng-Nghymru yn fwy deniadol yn ein holl marchnadoedd allanol. Ers 2007 bu sawl enghraifft o sut rydym wedi llwyddo i ddefnyddio brand unigryw Cymru yn greadigol i gyfleu delwedd gadarnhaol i Gymru. Yn gyntaf, rydym wedi datblygu

developed the walesthebrand.com website. This has been developed to explain what the Wales brand strategy and style is all about. It is intended for all those who need to promote Wales. It features specific examples of Wales brand promotion for tourism, business and events. Not many other countries offer such a resource and it is a great example of original thinking in action.

On the tourism side, last year we created the 'Wales: For Proper Holidays' campaign, which directly reflects and supports the brand style. The campaign continues to deliver returns for the tourism industry in Wales and shortly we will be able to reveal strong results for 2010. The figures that you have had so far relate to the first nine months of 2010; these will be for the whole year. Similarly the 'Wales: Golf as it Should Be' campaign has been a key element in the success of the growth of golf tourism in Wales and next week I will be announcing extremely good news about the continued growth in the number of golf visitors coming to Wales.

There are many examples of how we have used major events as a platform to communicate our engaging tone of voice for the Wales brand. I am sure you will all recall the positive response in the media to the 'Wales Says G'Dai' campaign that greeted visitors to the Ashes test in Cardiff in 2009. The best example of how the Wales brand can help to unify communication about Wales was revealed around the hosting of the Ryder Cup last year. The thinking behind the marketing and branding strategy was to deliver a Welsh Ryder Cup, not just a Ryder Cup in Wales. Every opportunity was used to build Wales's reputation and to create a strong Welsh personality around the event. The brand style linked messages around tourism, business, food, culture and golf. A testament to the success of the campaign is the fact that Visit Wales won a golf industry honours award in the US in January for its promotional work around the Ryder Cup. A major business marketing campaign was launched in the run-up to the event. It focused on the idea: if Wales can deliver one of the best Ryder Cups ever, think what we can do for your business. It ran on Virgin

gwefan walesthebrand.com. Cafodd y wefan hon ei datblygu i egluro beth mae strategaeth ac arddull brand Cymru yn ei olygu. Fe'i bwriedir ar gyfer pawb sy'n gorfod hybu Cymru. Mae'n cynnwys enghreifftiau penodol o hyrwyddo brand Cymru ar gyfer twristiaeth, busnes a digwyddiadau. Nid oes llawer o wledydd eraill yn cynnig adnodd o'r fath ac mae'n enghraifft wych o feddwl gwreiddiol ar waith.

Ar yr ochr dwristiaeth, y llynedd, crëwyd yr ymgyrch 'Cymru: Gwyliau Go Iawn', sy'n adlewyrchu arddull y brand yn union ac yn ei gefnogi. Mae'r ymgyrch yn parhau i gyflwyno manteision i'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac yn fuan byddwn yn gallu datgelu canlyniadau cryf ar gyfer 2010. Mae'r ffigurau a gawsoch hyd yn hyn yn ymwneud â naw mis cyntaf 2010; bydd y rhain ar gyfer y flwyddyn gyfan. Yn yr un modd, bu'r ymgyrch 'Cymru: Golff fel y dylai fod' yn elfen allweddol yn llwyddiant twf twristiaeth golff yng Nghymru a'r wythnos nesaf byddaf yn cyhoeddi newyddion da dros ben am y twf parhaus yn nifer yr ymwelwyr golff sy'n dod i Cymru.

Mae llawer o enghreifftiau o sut rydym wedi defnyddio digwyddiadau mawr fel llwyfan i gyfathrebu tŷ ein llais deniadol ar gyfer brand Cymru. Rwy'n siŵr y byddwch i gyd yn cofio'r ymateb cadarnhaol yn y cyfryngau i'r ymgyrch 'Wales Says G'Dai' yn cyfarch ymwelwyr i gêm brawf y Lludw yng Nghaerdydd yn 2009. Datgelwyd yr enghraifft orau o sut y gall brand Cymru helpu i uno cyfathrebu am Gymru tua adeg Cwpan Ryder y llynedd. Y syniad tu ôl i'r strategaeth farchnata a brandio oedd cyflwyno Cwpan Ryder Gymreig, nid dim ond Cwpan Ryder yng Nghymru. Manteiswyd ar bob cyfle i adeiladu enw da Cymru a chreu personoliaeth Gymreig gref o gwmpas y digwyddiad. Roedd y brand yn cysylltu negeseuon o gwmpas twristiaeth, busnes, bwyd, diwylliant a golff. Cafodd llwyddiant yr ymgyrch ei adlewyrchu yn y ffaith bod Croeso Cymru wedi ennill gwobr anrhydedd y diwydiant yn yr Unol Daleithiau ym mis Ionawr am ei waith hyrwyddo o gwmpas Cwpan Ryder. Cafodd ymgyrch farchnata busnes fawr ei lansio yn y cyfnod hyd at y digwyddiad. Roedd yn canolbwyntio ar y syniad: os gall Cymru gynnal un o'r

Atlantic and Cathay Pacific Airlines as well as on TV during the event. The supporting direct market activity resulted in over 3,000 businesses responding to the campaign to varying degrees. We recognise that we need to continue to develop and promote a strong brand and that is our intention.

I reject Peter Black's amendment proposing that a greater proportion of the marketing budget should be spent outside the UK. Markets within the rest of the UK are vital for tourism and developing business links. Roughly 80 per cent of Wales's tourism revenue comes from UK markets and London holds key opportunities to attract trade and investment by promoting Wales to key influencers in business and the media. I recognise that the Government now needs to do more to ensure that all the resources available to us to market Wales externally are better co-ordinated. The marketing of Wales to different sectors needs to be mutually supportive. That will be progressed through the development of a Wales marketing strategy. Hosting major events generates opportunities to raise the profile of Wales and to get Wales talked about. They can also provide content for our campaigns and be a catalyst for our PR work. For example, I met Sepp Blatter and Michel Platini in Cardiff in order to promote Wales and Cardiff as a potential host city for some of the important European football cups and tournaments. That was part and parcel of our strategy.

Trof at ddarpariaeth archifau yng Nghymru. Yr ydym yn cydnabod bod gan archifau gyfraniad eithriadol o bwysig i'w wneud o safbwynt gwarchod cof cenedl. Yr wyf yn hapus i gefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol ar y rôl werthfawr sydd gan archifau wrth hybu diwylliant Cymru. Mae gwasanaethau archifau lleol Cymru yn gwarchod etifeddiaeth gyfoethog a dogfennau a llawysgrifau sy'n ymwneud â Chymru a'i phobl.

4.45 p.m.

Cwpanau Ryder gorau erioed, dychmygwch beth y gallwn ei wneud i'ch busnes. Roedd yn rhedeg ar *Virgin Atlantic* a *Cathay Pacific Airlines* yn ogystal ag ar y teledu yn ystod y digwyddiad. Arweiniodd y gweithgarwch marchnata uniongyrchol atodol at ymateb gan dros 3,000 o fusnesau i'r ymgyrch i raddau amrywiol. Rydym yn cydnabod bod angen i ni barhau i ddatblygu a hyrwyddo brand cryf, a dyna yw ein bwriad.

Gwrthodaf welliant Peter Black y dylai cyfran fwy o'r gyllideb farchnata gael ei gwario y tu allan i'r DU. Mae marchnadoedd yng ngweddill y DU yn hanfodol i dwristiaeth a datblygu cysylltiadau busnes. Mae tua 80 y cant o refeniw twristiaeth Cymru yn dod o farchnadoedd y DU ac mae gan Llundain gyfleoedd allweddol i ddenu masnach a buddsoddi drwy hyrwyddo Cymru i ddylanwadyr allweddol mewn busnes a'r cyfryngau. Rwy'n cydnabod bod angen i'r Llywodraeth wneud mwy yn awr i sicrhau bod yr holl adnoddau sydd ar gael i ni i farchnata Cymru yn allanol wedi eu cydlynu'n well. Mae angen marchnata Cymru i sectorau gwahanol fod yn gydgefnogol. Bydd hynny'n cael ei symud ymlaen drwy ddatblygu strategaeth farchnata Cymru. Mae cynnal digwyddiadau mawr yn creu cyfleoedd i godi proffil Cymru ac i siarad am Gymru. Gallant hefyd ddarparu cynnwys i'n hymgyrchoedd a bod yn gatalydd i'n gwaith cysylltiadau cyhoeddus. Er enghraifft, cyfarfûm â Sepp Blatter a Michel Platini yng Nghaerdydd er mwyn hyrwyddo Cymru a Chaerdydd fel dinas bosibl ar gyfer cynnal rhai o'r cwpanau a'r twrnameintiau pêl-droed Ewropeaidd pwysig. Roedd hynny'n rhan annatod o'n strategaeth.

I turn to archive provision in Wales. We recognise that archives have an exceptionally important contribution to make to safeguarding the nation's history. I am happy to support the Liberal Democrat amendment on the valuable role that archives have in promoting Welsh culture. Local archive services in Wales protect the rich heritage of Wales and the manuscripts and documents relating to Wales and its people.

Caiff y gwasanaethau hyn eu darparu drwy gyfuniad o archifdai awdurdodau lleol a phrifysgolion, a sefydliadau cenedlaethol fel Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ers 2008, yr ydym wedi buddsoddi £180,000 y flwyddyn i gefnogi a datblygu'r gwasanaethau hyn.

These services are provided through a combination of archives held by local authorities, universities and national organisations, such as the National Library of Wales. Since 2008, we have invested £180,000 per annum to support and develop these services.

Yng nghytundeb 'Cymru'n Un', gwnaethom ymrwymiad o bwys i ddatblygu casgliad ar-lein i Gymru gyfan o hanes y bobl. Yr ydym wedi gwireddu'r ymrwymiad hwnnw drwy greu Casgliad y Werin. Yr wyf yn arbennig o falch bod Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi tua £2 miliwn yng Nghasgliad y Werin rhwng 2008-09 a 2010-11. Mae'r casgliad hon yn dod â stori Cymru'n fyw gan ddefnyddio technoleg ddigidol arloesol. Yr wyf yn eithriadol o falch o lwyddiant y fenter hon a'r cydweithio wrth ei ddatblygu.

In the 'One Wales' agreement, we made a significant commitment to develop an online all-Wales collection of people's history. This commitment has been realised through the People's Collection Wales. I am particularly proud that the Welsh Government has invested around £2 million in the People's Collection Wales between 2008-09 and 2010-11. This collection brings Wales's story to life using innovative digital technology. I am extremely proud of the success of this venture and the collaboration involved in its development.

O ran archif genedlaethol, fel y Toriaid, yr wyf hefyd am weld archifau cenedlaethol Cymru yn cael eu cadw yng Nghymru. Yr wyf yn credu y gallai hyn adeiladu ar y cryfderau sydd gan y llyfrgell genedlaethol. Serch hynny, mae'n amlwg y byddai cost sylweddol ynghlwm wrth sefydlu a chynnal archif genedlaethol i Gymru, ac nid oes arwydd y byddai Llywodraeth y DU yn trosglwyddo'r cyllidebau angenrheidiol, gan ei fod yn cwtogi cyllidebau cyhoeddus ar hyn o bryd. Ar y pwynt hwnnw, mae hi'n ddigywilydd o'r Toriaid i gyflwyno cynnig fel hwn, sy'n gofyn am wario arian sylweddol—nid arian bach—ar yr union adeg yr ydynt wedi torri'r cyllidebau ac yn bwriadu torri mwy ar gyllidebau cyhoeddus yng Nghymru.

With regard to a national archive, like the Tories, I want to see Wales's national archives kept in Wales. I think that that could build on the strengths of the national library. However, it is apparent that there would be a significant cost attached to establishing and maintaining a national archive for Wales, and there is no sign that the UK Government would transfer the necessary budgets given that it is currently cutting public expenditure. On that point, it is disgraceful of the Tories to table a motion that would require such significant expenditure—not small sums—at the very time when they have cut budgets and intend to cut public expenditure in Wales even further.

O ran nod siarter yr iaith Gymraeg, fel y bu ichi ddweud, Paul, mae'r awgrym hwn yn rhan o'n strategaeth iaith. Ein hawgrym ni ydoedd, felly ni fyddwn yn ei groesawu—ein cynnig ni ydyw. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi ymateb i'r galw hwn drwy ddatblygu ystod o ddeunyddiau a chanllawiau i'r sector preifat. Erbyn hyn, mae dros 375 o fusnesau preifat wedi mabwysiadu polisi iaith gwirfoddol. Mae'r nod siarter, felly, yn syniad yr ydym yn awyddus i'w hastudio ymhellach. Serch hynny mae nifer o gwestiynau ymarferol i'w hystyried cyn penderfynu a ddylid mabwysiadu cynllun o'r

On a Welsh language charter mark, as you said, Paul, this suggestion was included in our language strategy. It was our suggestion, so we are not welcoming it—it is our very own proposal. The Welsh Language Board has responded to this by producing materials and guidelines for the private sector. More than 375 private businesses have now adopted a voluntary language policy. Therefore, the charter mark is something that we are eager to look at further. However, there are several practical questions that need to be considered before we decide whether such a scheme should be adopted. Before

fath. Cyn penderfynu a ddylid mabwysiadu system nod siarter, rhaid inni gael atebion i'r cwestiynau ymarferol hyn. Mae'n rhaid inni hefyd fod yn glir ynglŷn â'r gost. Yr wyf yn siŵr y byddech chi, o bawb, yn cytuno bod hynny'n bwysig. Byddaf felly yn gofyn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ystyried y syniad hwn ymhellach a gwneud argymhellion terfynol erbyn Rhagfyr 2011.

**David Melding:** We have had an excellent debate with high-quality speeches, a great deal of agreement and passion, but also points where there are clearly differences of opinion between parties. There has been a very good mix for a debate of this sort. I should say that the debate was opened very elegantly by my colleague, Oscar. However, I am afraid, Oscar, that, as is my wont, I am going to reply to the other speeches made by people who have raised various other points, some of which we agree with and many of which we differ on slightly. Therefore, I would like to start with Eleanor, who, like other speakers, emphasised the importance of St David's Day. It is our view that we need to get on with this. We need to make it a bank holiday and to celebrate St David's Day here in Wales and then export that celebration across the world and use it as a way of marketing Wales. I appreciate your support on that.

**Gareth Jones:** We totally agree with you. However, what do you say to your colleague David Jones, who says that it is going to cost us £138 million?

**David Melding:** Oh, Gareth, I am disappointed in you. [*Laughter.*] What we want is uniformity of opinion here. We want hwyl here for St David's Day. I notice your reference to a Member of Parliament. I will pass on your comments to that person, and, no doubt, he will get in touch with you.

Eleanor went on to say that she thought that archives were important but that she wanted a local focus and that, because the national museum and the national library are such wonderful institutions, we do not need a national archive. I did not quite follow that logic.

making a final decision on adopting a charter mark system, we need answers to those practical questions. We also need to be clear about the cost. I am sure that you, of all people, would agree that that is important. Therefore, I will ask the Welsh Language Board to consider the idea further and to make final recommendations by December 2011.

**David Melding:** Rydym wedi cael dadl ardderchog gydag areithiau o safon uchel, llawer iawn o gytuno ac angerdd, ond hefyd pwyntiau lle mae'n amlwg bod gwahaniaeth barn rhwng y pleidiau. Bu'n gymysgedd da iawn ar gyfer dadl o'r math hwn. Dylwn ddweud bod y ddadl wedi'i chychwyn yn gain gan fy nghyd-Aelod Oscar. Fodd bynnag, mae arnaf ofn, Oscar, fy mod am ymateb i'r areithiau a wnaed gan bobl sydd wedi codi amrywiol bwyntiau eraill, rhai yr ydym yn cytuno arnynt, a llawer rydym yn anghytuno rhyw gymaint arnynt. Felly, hoffwn ddechrau gyda Eleanor, sydd, fel siaradwyr eraill, yn nodi pwysigrwydd Dydd Gŵyl Dewi. Credaf fod angen inni fwrw ymlaen â hyn. Mae angen inni wneud Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl y banc ac yn ddydd o wyliau sydd i'w ddathlu yma yng Nghymru, ac yna allforio'r dathlu ar draws y byd a'i ddefnyddio fel ffordd o farchnata Cymru. Rwy'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn hynny o beth.

**Gareth Jones:** Rydym yn cytuno'n llwyr â chi. Fodd bynnag, beth ydych chi'n ei ddweud wrth eich cydweithiwr David Jones, sy'n dweud y bydd yn costio £138 miliwn?

**David Melding:** O, Gareth, rwy'n siomedig ynoch. [*Chwerthin.*] Yr hyn sydd ei eisiau yw unffurfiaeth barn yma. Rydym am gael hwyl yma ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi. Rwy'n sylwi ar eich cyfeiriad at Aelod Seneddol. Byddaf yn trosglwyddo eich sylwadau i'r person hwnnw, ac, yn ddiau, bydd yn cysylltu â chi.

Aeth Eleanor ymlaen i ddweud ei bod yn credu bod archifau yn bwysig, ond ei bod am gael ffocws lleol ac, oherwydd bod yr amgueddfa genedlaethol a'r llyfrgell genedlaethol yn sefydliadau mor wych, nad oes angen archif genedlaethol. Ni lwyddais i ddilyn y rhesymeg honno.

Darren then talked about the beauties of Clwyd West. He was one of several Members to talk about the wonders of their particular constituencies. I was fascinated by the mountain zoo. I hope that the Minister has heard the call for a zoo strategy, because we need one. I want it to cover all of the animals that may be involved. When it comes to menageries, we want to be world-beaters.

**Lorraine Barrett:** Will you give way?

**The Deputy Presiding Officer:** Are you taking an intervention?

**David Melding:** I fear that I have to give way.

**Lorraine Barrett:** I was going to try to stop you mid-way before you discuss the churches and the declining attendance of churches. However, in terms of zoos, do you not agree that zoos in the form that we know them are not really the best place for wild animals to be kept?

**David Melding:** That is quite right. The Edwardian zoo is not what we want to replicate. However, I think that zoo strategies are taking us to other realms now, which are much more appropriate.

Darren then finished on religious tourism with such ardour and passion that, for a while, I thought that we were under canvas in Alabama on a steamy summer night. He is absolutely right to emphasise the wonders that we have in our religious tradition. As Oscar whispered into my ear, we have the oldest mosque in the UK in the Somali community in Cardiff bay; and should we not be really proud of that?

Bethan questioned the importance of this debate and the fact that the Welsh Conservatives keep returning to this subject. She then listed some incredibly important issues, such as the major events strategy—the need for it and the need to build on it. We completely agree with you on that, but your Government is cutting the major events strategy. You then challenged the Minister—

Yna soniodd Darren am harddwch Gorllewin Clwyd. Roedd yn un o nifer o Aelodau a siaradodd am ryfeddodau eu hetholaethau hwy. Roeddwn yn rhyfeddu at y cyfeiriad at y sŵ. Gobeithio y bydd y Gweinidog wedi clywed yr alwad am strategaeth sŵ, oherwydd mae angen un. Rwyf am iddo gynnwys yr holl anifeiliaid a allai fod yn rhan ohono. Pan ddaw'n fater o *menageries*, rydym am fod ar flaen y gad.

**Lorraine Barrett:** A wnewch chi ildio?

**Y Dirprwy Lywydd:** A ydych yn derbyn ymyriad?

**David Melding:** Rwy'n ofni bod yn rhaid i mi ildio.

**Lorraine Barrett:** Roeddwn yn mynd i geisio'ch atal cyn i chi drafod yr eglwysi a phresenoldeb yn dirywio yn ein heglwysi. Fodd bynnag, o ran sŵau, onid ydych yn cytuno nad sŵau ar y ffurf yr ydym yn eu hadnabod yw'r lle gorau i gadw anifeiliaid gwyllt?

**David Melding:** Mae hynny'n hollol gywir. Nid yw'r sŵ Edwardaidd yn batrwm y byddem am ei efelychu. Fodd bynnag, credaf fod strategaethau sŵ bellach yn ein dwyn i fydoedd eraill, sy'n llawer mwy priodol.

Yna gorffennodd Darren drwy sôn am dwristiaeth grefyddol gyda'r fath angerdd fy mod, am foment, yn meddwl ein bod o dan gynfas yn Alabama ar noson desog o haf. Mae'n hollol iawn i bwysleisio'r rhyfeddodau sydd gennym yn ein traddodiad crefyddol. Fel y sibryddodd Oscar yn fy nghlust, mae gennym y mosg hynaf yn y DU yn y gymuned Somali ym mae Caerdydd; oni ddylem fod yn falch iawn o hynny?

Roedd Bethan yn amau pwysigrwydd y ddadl hon a'r ffaith bod Ceidwadwyr Cymru'n dychwelyd at y pwnc yn gyson. Yna rhestrodd rai materion hynod bwysig, fel y strategaeth ddigwyddiadau mawr, sy'n angenrheidiol ac y mae angen ei datblygu. Rydym yn cytuno'n llwyr â chi ar hynny, ond mae eich Llywodraeth yn torri'r strategaeth digwyddiadau mawr. Yna roeddech yn herio'r Gweinidog—



**Alun Ffred Jones:** I want to correct you. We are not cutting funding for major events. In fact, we have just announced £4.8 million for major events, which compares favourably, for example, with the funding available in Scotland.

**David Melding:** It is a cut on what has been available since 2007. We have faithfully been promoting big events and commending the Welsh Assembly Government when it has done that. You will not consolidate that by penny-pinching, and failing to see the bigger picture and lacking real ambition. Bethan was quite right to challenge you on the listing of twentieth century buildings. You are taking far too long about this. The answer to your question, Bethan, is that that the Minister's department, Cadw, is still stuck at 1870. It needs to get a move on and start listing some of these buildings.

Paul talked about the need for a Welsh language charter mark. In fairness, the Minister did respond to this point but, again, I think that he demonstrated a certain torpor and lack of hwyl when he said, 'We need to look at it. It could be expensive.' We want Wales to take advantage of the Welsh language so that when tourists come here, the wonder of seeing and hearing a different language in Britain is something that they take with them. They will talk about it to all sorts of people. It is an excellent way of marketing Wales abroad. We need to build on that. That is the wider concept that we have.

Paul also talked about food tourism—which is obviously a subject that is close to my stomach—and the wonders of the west Wales coastline, particularly Pembrokeshire.

Nick Ramsay talked about Cardiff in glowing terms. I could not have put it better. He talked about the wonders of Edwardian Cardiff. I am pleased that we had an intervention from Jeff Cuthbert about the importance of coal. He was absolutely right to make that intervention because our culture is still coping and celebrating, but also meeting the challenges of, the ramifications of the coal industry and what it brought to

**Alun Ffred Jones:** Rwyf am eich cywiro. Nid ydym yn torri cyllid ar gyfer digwyddiadau mawr. Yn wir, rydym newydd gyhoeddi y bydd £4.8 miliwn ar gyfer digwyddiadau mawr, sy'n cymharu'n ffafriol, er enghraifft, â'r cyllid sydd ar gael yn yr Alban.

**David Melding:** Mae'n ostyngiad o gymharu â'r hyn a fu ar gael ers 2007. Rydym wedi bod yn hyrwyddo digwyddiadau mawr yn frwd ac wedi canmol Llywodraeth Cynulliad Cymru pan fydd wedi gwneud hynny. Ni fydd modd gwneud hynny drwy fod yn gybyddlyd ac yn ddi-uchelgais, a methu â gweld y darlun ehangach. Roedd Bethan yn iawn i'ch herio ar restru adeiladau'r ugeinfed ganrif. Mae hyn yn cymryd llawer gormod o amser. Yr ateb i'ch cwestiwn, Bethan, yw bod adran y Gweinidog, Cadw, wedi aros yn ei hunfan yn 1870. Mae angen iddo fynd ati a dechrau rhestru rhai o'r adeiladau hyn.

Soniodd Paul am yr angen am farc siarter y Gymraeg. I fod yn deg, ymatebodd y Gweinidog i'r pwynt hwn, ond, eto, rwy'n meddwl ei fod yn dangos diffyg menter a hwyl pan ddywedodd, 'Mae angen edrych arno. Gallai fod yn ddrud.' Rydym am i Gymru fanteisio ar yr iaith Gymraeg er mwyn i dwristiaid, pan ddônt yma, ryfeddu o weld a chlywed iaith wahanol ym Mhrydain; mae'n rhywbeth y byddant yn ei gofio. Byddant yn siarad am y peth gyda phob math o bobl. Mae'n ffordd wych o farchnata Cymru dramor. Mae angen inni ddatblygu hyn ymhellach. Dyna sy'n ein gwneud yn unigryw.

Soniodd Paul hefyd am dwristiaeth fwyd—sydd yn amlwg yn bwnc sy'n agos at fy stumog—a rhyfeddodau arfordir gorllewin Cymru, yn enwedig sir Benfro.

Soniodd Nick Ramsay yn wresog iawn am Gaerdydd. Ni allwn fod wedi mynegi'r peth yn well. Siaradodd am ryfeddodau'r Gaerdydd Edwardaidd. Rwy'n falch ein bod wedi cael ymyriad gan Jeff Cuthbert am bwysigrwydd glo. Roedd yn berffaith gywir i ymyrryd fel hyn, oherwydd mae ein diwylliant yn dal i ymdopi a dathlu, ond hefyd yn ymateb i heriau, goblygiadau'r diwydiant glo a'r hyn a olygai o ran ein

our economy and society. For example, the Taff Vale judgment was as important in British industrial relations and politics as the Tolpuddle martyrs case in the 1830s. We should emphasise that and the wonders of Welsh industrial heritage, which Bethan also mentioned very eloquently.

The Minister concluded by saying that a big brand concept is important. He demonstrated some useful work. I would say that what has been achieved in this term has been first class in many respects, such as the Ashes test and the Ryder Cup in particular. We have also helped to host the FA Cup final under previous administrations. These things have been outstanding, but we need to go further. We need to bid for things. You talked about a golfing strategy, and I was pleased to hear that, but why has the British Open never been played in Wales? That is the sort of thing that we need to challenge. If it is because we need a traditional links course, what is Royal Porthcawl course? You can read about the wonders of Royal Porthcawl course in *The New York Times* when it has articles on golf in Britain and Wales. We need real ambition, and that is why the Welsh Conservatives have brought back this subject for debate.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there is objection, therefore I defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.  
Votes deferred until voting time.*

**Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar yr ‘Ymchwiliad Dilynol i Dlodi  
Plant yng Nghymru: Ai Addysg yw’r Ateb?’  
The Children and Young People Committee’s Report ‘Follow up on Inquiry into  
Child Poverty in Wales: Eradication through Education?’**

*Cynnig NDM4683 Helen Mary Jones*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

heconomi a’n cymdeithas. Er enghraifft, roedd dyfarniad Cwm Taf yr un mor bwysig yng nghysylltiadau diwydiannol a gwleidyddiaeth Prydain ag achos merthyron Tolpuddle yn y 1830au. Dylem bwysleisio hynny ynghyd â rhyfeddodau treftadaeth ddiwydiannol Cymru, y bu Bethan hefyd yn sôn amdanynt yn huawdl iawn.

Gorffennodd y Gweinidog drwy ddweud bod cysyniad brand mawr yn bwysig. Dangosodd rywfaint o waith defnyddiol. Byddwn yn dweud bod yr hyn sydd wedi’i gyflawni yn y tymor hwn yn waith o’r radd flaenaf mewn sawl ffordd, fel y gêm brawf Lludw a Chwpan Ryder yn arbennig. Rydym hefyd wedi helpu i gynnal gêm derfynol y Cwpan FA o dan weinyddiaethau blaenorol. Mae’r pethau hyn wedi bod yn rhagorol, ond mae’n rhaid inni fynd ymhellach. Mae’n rhaid inni wneud cais am bethau. Soniasoch am strategaeth golff, ac roeddwn yn falch o glywed hynny, ond pam nad yw twrnaint Agored Prydain wedi’i chwarae yng Nghymru erioed? Dyma’r math o beth y mae angen inni ei herio. Ai am fod angen cwrs cysylltiadau traddodiadol? Beth am gwrs Brenhinol Porthcawl? Gallwch ddarllen am ryfeddodau cwrs Brenhinol Porthcawl yn *The New York Times* pan fydd ganddo erthyglau ar golff ym Mhrydain a Chymru. Mae angen uchelgais go iawn arnom, a dyna pam mae Ceidwadwyr Cymru wedi dwyn y pwnc i’n sylw eto.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad; felly, byddaf yn gohirio’r holl bleidleisiau ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Motion NDM4683 Helen Mary Jones*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar yr 'Ymchwiliad dilynol i dlodi plant: Ai Addysg yw'r Ateb?' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2011.*

*Notes the report of the Children and Young People Committee 'Follow up inquiry into child poverty: eradication through education?' which was laid in the Table Office on 2 February 2011.*

**Helen Mary Jones:** In response to a sedentary intervention, it is indeed a cracked record, and it will remain a cracked record until we have made sure that these issues have been addressed.

**Helen Mary Jones:** Mewn ymateb i ymyriad eisteddog, mae'n wir yn record wedi torri, a bydd yn parhau felly nes y byddwn wedi sicrhau bod y materion hyn wedi cael sylw.

This is another follow-up report that looks at the progress that has been made since our original report into child poverty, 'Eradication through Education?' I thank my fellow committee members and former members of the committee, the staff and all the witnesses, especially the children and young people. I wish to highlight the contribution of the Save the Children young ambassadors from Cardiff. They presented some of the serious challenges that they face as young people living in poverty and trying to engage with education, but they also came up with some interesting practical solutions. As committee members, we were grateful to them for that.

Mae hwn yn adroddiad dilynol arall sy'n edrych ar y cynnydd a wnaed ers ein hadroddiad gwreiddiol ar dlodi plant, 'Ai Addysg yw'r Ateb?' Diolch i fy nghyd-aelodau ar y pwyllgor a chyn-aelodau o'r pwyllgor, y staff a'r holl dystion, yn enwedig y plant a phobl ifanc. Hoffwn dynnu sylw at gyfraniad llysgenhadon ifanc Achub y Plant o Gaerdydd. Cyflwynwyd ganddynt rai o'r heriau difrifol y maent yn eu hwynebu fel pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi ac yn ceisio gwneud y defnydd gorau o'u haddysg, ond roeddent hefyd yn cyflwyno rhai atebion ymarferol diddorol. Roeddem ni, aelodau'r pwyllgor, yn ddiolchgar iddynt am hynny.

On the whole, we found that while real progress had been made on this agenda since our original report was published, there are still too many children growing up in poverty who feel that their schools do not understand the challenges that they face, and that their poverty places barriers in the way of their learning.

Ar y cyfan, er bod cynnydd gwirioneddol wedi'i wneud o ran yr agenda hon ers i'n hadroddiad gwreiddiol gael ei gyhoeddi, canfuom bod gormod o blant yn dal i gael eu magu mewn tlodi, yn teimlo nad yw eu hysgolion yn deall yr heriau y maent yn eu hwynebu a bod eu tlodi'n gosod rhwystrau i'w haddysg.

Our report sets out 10 recommendations to speed up the process of change, and I am grateful that the Deputy Minister has fully accepted nine of the recommendations and has accepted the other in principle. I want to touch on a few of those recommendations, and also to seek further clarity from the Government on its intentions in accepting them.

Mae ein hadroddiad yn nodi 10 o argymhellion i gyflymu'r broses o newid, ac rwy'n ddiolchgar bod y Dirprwy Weinidog wedi derbyn naw o'r argymhellion yn llawn ac wedi derbyn y llall mewn egwyddor. Rwyf am gyfeirio at rai o'r argymhellion hynny, a hefyd gofyn am eglurhad pellach gan y Llywodraeth ar ei bwriadau i'w derbyn.

I welcome the Deputy Minister's acceptance of recommendation 2, which refers to the need for an evidence-based evaluation of Families First. Since our original draft of the report, the Deputy Minister has shared information with the committee and the

Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Dirprwy Weinidog yn derbyn argymhelliad 2, sy'n cyfeirio at yr angen i werthuso Teuluoedd yn Gyntaf mewn modd sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Ers cyhoeddi ein hadroddiad gwreiddiol ar ffurf drafft, mae'r Dirprwy

Assembly about his intention to ensure that Families First does what he wants it to do. The Deputy Minister mentioned in response to the report that there will be a final evaluation report of the first pilots from July 2007. Does he believe in principle that the next Government should make the report available to the Assembly for scrutiny? If this Deputy Minister remains in post, I am sure that he will do so.

Recommendation 4 talks about clear outcome measures for local authorities to show how they are using the education system to tackle poverty. Once again, we are grateful to the Deputy Minister for accepting this recommendation. What interventions does the Deputy Minister intend to use if some local authorities do not perform well on this agenda? The Assembly Measures that we have passed give the Government considerable power, and I hope that it intends to use that power.

Recommendation 5 talks about leadership, which we found was absolutely key. We found that some brilliant schools were making a massive difference to children and young people's lives, some of whom were serving the poorest and most challenging communities. We found that the leadership made the difference. Once again, we are grateful to the Deputy Minister for accepting this recommendation, and we hope that the next Government will be rigorous in insisting that best practice is spread. We cannot afford to allow a lack of leadership and direction to let these children down.

Recommendation 7 is where we really come to the broken record, as it talks about stigma-free free school meals. We must be able to crack this. Children and young people tell us that that they will not take up free school meals if they have different coloured tickets or if they stand in different queues, and so on. That is particularly true at a high school level. Many schools across Wales have cracked this and it is no longer a problem. If they can do that, so can every school in our nation. Children cannot learn if they are hungry—it is as simple as that. We have a

Weinidog wedi rhannu gwybodaeth â'r pwyllgor a'r Cynulliad am ei fwriad i sicrhau bod Teuluoedd yn Gyntaf yn gwneud yr hyn y mae am iddo ei wneud. Soniodd y Dirprwy Weinidog, mewn ymateb i'r adroddiad, y ceir adroddiad gwerthuso terfynol ar y cynlluniau peilot cyntaf o fis Gorffennaf 2007. A yw'n credu y dylai'r Llywodraeth nesaf, mewn egwyddor, sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r Cynulliad graffu arno? Os bydd y Dirprwy Weinidog yn parhau yn ei swydd, rwy'n sicr y bydd yn gwneud hynny.

Roedd argymhelliad 4 yn sôn am fesurau canlyniad clir i awdurdodau lleol ddangos sut y maent yn defnyddio'r system addysg i fynd i'r afael â thlodi. Unwaith eto, rydym yn ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am dderbyn yr argymhelliad hwn. Pa ymyriadau y mae'r Dirprwy Weinidog yn bwriadu eu defnyddio os na fydd rhai awdurdodau lleol yn gwneud yn dda o ran yr agenda hon? Mae'r Mesurau a basiwyd gan y Cynulliad yn rhoi pŵer sylweddol i'r Llywodraeth, a gobeithiaf y bydd yn bwriadu defnyddio'r pŵer hwnnw.

Mae argymhelliad 5 yn sôn am arweinyddiaeth, sy'n hollol allweddol yn ein barn ni. Canfuwyd bod rhai ysgolion gwych yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau plant a phobl ifanc, er bod rhai ohonynt yn gwasanaethu'r cymunedau tlotaf a mwyaf heriol. Canfuwyd bod yr arweinyddiaeth yn gwneud y gwahaniaeth. Unwaith eto, rydym yn ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am dderbyn yr argymhelliad hwn, a gobeithiwn y bydd y Llywodraeth nesaf yn drylwyr wrth fynnu bod arferion gorau'n cael eu lledaenu. Ni allwn fforddio caniatáu i ddiffyg arweinyddiaeth a chyfeiriad wneud cam â'r plant hyn.

Yn argymhelliad 7 y down mewn gwirionedd at y record sydd wedi torri, gan ei fod yn sôn am stigma prydau ysgol am ddim. Mae'n rhaid inni fedru datrys hyn. Mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthym na fyddant yn manteisio ar brydau ysgol am ddim os oes ganddynt docynnau lliw gwahanol neu os ydynt yn sefyll mewn ciwiau gwahanol, ac yn y blaen. Mae hynny'n arbennig o wir ar lefel ysgol uwchradd. Mae llawer o ysgolion ledled Cymru wedi datrys hyn ac nid yw bellach yn broblem. Os bydd rhai wedi gwneud hynny, gall pob ysgol yn ein gwlad

system that ensures that they should not have to feel hungry, but because of stigma, many of them—especially older children—are not accessing that support.

5.00 p.m.

I am again glad that the Government has accepted this recommendation. The Deputy Minister says that the Government is considering using the provisions available under the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009 to make regulations to this effect, to protect the identity of children receiving free school meals. I am pleased to hear that and I hope that, in the three or four weeks left to him, the Deputy Minister will ensure that getting those regulations rolling as quickly as possible is a priority. We cannot find ourselves in a situation in which we have to discuss this again.

With regard to recommendation 8, we are glad that the Government accepted in principle what we had to say about teacher training and that it is acting to better train teachers to understand the effects of child poverty on children's ability to learn and how to counteract those effects. However, we are disappointed that the Government says that it does not intend to address specifically in that training issues around the transition from primary to secondary school. For both our reports, the evidence that we received was unequivocal. That is the tipping point for many of our poorest children. That is the point at which they get turned off from education, which is particularly true for boys. Therefore, I must urge the Government to reconsider ensuring that, for both primary and secondary teachers, the issue of transition and the effect that it can have on the poorest children is addressed.

Education is by far the biggest intervention that the state makes in citizens' lives, and we must be able to use this to break the cycle of generational poverty. As a committee, we found some excellent examples. Children and young people told us about schools and teachers that understood and respected them, enabling them to turn their lives around.

wneud hynny. Ni all plant ddysgu os ydynt yn teimlo'n llwglyd, mae mor syml â hynny. Mae gennym system sy'n sicrhau na ddylent deimlo'n llwglyd, ond oherwydd stigma, mae llawer ohonynt—yn enwedig plant hŷn—yn gwrthod y gefnogaeth honno.

Rwy'n falch, unwaith eto, fod y Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn. Dywed y Dirprwy Weinidog bod y Llywodraeth yn ystyried defnyddio'r darpariaethau sydd ar gael yn Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 i wneud rheoliadau i weithredu hyn, i ganiatáu ar gyfer peidio â datgelu enwau'r plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Rwy'n falch o glywed hynny, a gobeithio, yn y tair neu bedair wythnos sy'n weddill, y bydd y Dirprwy Weinidog yn sicrhau bod rhoi'r rheoliadau hynny ar waith cyn gynted ag y bo modd yn flaenoriaeth. Gobeithio na fyddwn mewn sefyllfa i orfod trafod hyn eto.

O ran argymhelliad 8, rydym yn falch bod y Llywodraeth yn derbyn mewn egwyddor yr hyn oedd gennym i'w ddweud am hyfforddiant athrawon a'i bod yn gweithredu i hyfforddi athrawon i ddeall effeithiau tlodi ar allu plant i ddysgu a sut i wrthweithio'r effeithiau hynny. Fodd bynnag, rydym yn siomedig bod y Llywodraeth yn dweud nad yw'n bwriadu mynd i'r afael yn benodol â materion hyfforddi sy'n gysylltiedig â phontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Roedd y dystiolaeth a gawsom ar gyfer y ddau adroddiad yn ddiamwys. Hwn yw'r pwynt tyngedfennol i lawer o'n plant tlotaf. Dyna pryd y maent yn cael eu troi oddi wrth addysg, sydd yn arbennig o wir am fechgyn. Felly, rhaid imi annog y Llywodraeth, ar gyfer athrawon cynradd ac uwchradd, i ailystyried ymdrin â phontio a'r effaith y gall ei chael ar y plant tlotaf.

Addysg o bell ffordd yw'r ymyriad mwyaf gan y wladwriaeth ym mywydau dinasyddion, a rhaid inni ddefnyddio ein gallu i dorri'r cylch o dlodi o un genhedlaeth i'r llall. Fel pwyllgor, rydym wedi dod o hyd i rai enghreifftiau rhagorol. Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym am ysgolion ac athrawon sy'n eu deall ac yn eu parchu, gan

However, too many poor children are still finding our schools, especially secondary schools, lonely and hard places in which to be. The next Government must make it a priority to address this, and it must be a priority for the next Assembly to scrutinise it in doing so.

**The Deputy Minister for Children (Huw Lewis):** I start by thanking the Children and Young People Committee for its report on the follow up inquiry into child poverty, which was published last month. The Assembly Government has consistently made it clear that eradicating child poverty and improving the outcomes of low income families is a key priority and is fundamental to delivering our social justice agenda. The Children and Families (Wales) Measure 2010 provides the statutory framework for tackling child poverty and our new child poverty strategy for Wales, published last month, sets out our vision for eradicating child poverty by 2020. Recognising the importance of educational attainment, the child poverty strategy's third strategic objective is

'to reduce the inequalities that exist in the education, health and economic outcomes of children living in poverty, by improving the outcomes of the poorest'.

Central to our approach in Wales for improving educational outcomes is the school effectiveness framework, which is focused on our key priorities of literacy, numeracy and reducing the link between poverty and attainment. In his speech on 2 February, the Minister for Children, Education and Lifelong Learning set out an ambitious agenda to bring about improvements in the educational attainment of all our children and young people. The Programme for International Student Assessment 2009 results were disappointing. This topic has been well debated over the past weeks and it is clear that current standards are not good enough. The Assembly Government is currently working with the education sector to move the Welsh school system from 'fair' to 'good'. We are looking for improvement in every aspect of the system. This will require

eu galluogi i newid eu bywydau. Fodd bynnag, mae gormod o'n plant tlawd yn dal i weld ein hysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, fel mannau unig ac anodd i fod ynddynt. Rhaid i'r Llywodraeth nesaf roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â hyn, a rhaid i'r mater fod yn flaenoriaeth gan y Cynulliad nesaf o ran craffu ar y Llywodraeth yn hynny o beth.

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am ei adroddiad ar yr ymchwiliad dilynol i dlodi plant, a gyhoeddwyd y mis diwethaf. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dweud yn glir bod dileu tlodi plant a gwella canlyniadau i deuluoedd incwm isel yn flaenoriaeth allweddol ac yn ffactor hanfodol i gyflawni ein hagenda cyfiawnder cymdeithasol. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant ac mae ein strategaeth tlodi plant newydd ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd fis diwethaf, yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer dileu tlodi plant erbyn 2020. Gan gydnabod pwysigrwydd cyrhaeddiad addysgol, trydydd amcan strategol y strategaeth tlodi plant yw

'lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tlodi, drwy wella canlyniadau'r tlotaf'.

Mae'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion yn ganolog i'n dull gweithredu yng Nghymru ar gyfer gwella canlyniadau addysgol. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau allweddol, sef llythrennedd a rhifedd a lleihau'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad. Yn ei araith ar 2 Chwefror, amlinellodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes agenda uchelgeisiol i sicrhau gwelliannau o ran cyrhaeddiad addysgol ein holl blant a'n pobl ifanc. Roedd canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr ar gyfer 2009 yn siomedig. Mae'r pwnc hwn wedi cael ei drafod yn helaeth dros yr wythnosau diwethaf, ac mae'n amlwg nad yw'r safonau presennol yn ddigon uchel. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r sector addysg i newid y system ysgolion yng Nghymru o statws 'gweddol' i statws 'da'. Rydym am gael gwelliant ym

a new approach to accountability, strong leadership, clear expectations and monitoring of progress at every level.

Strongly linked to school effectiveness is the role of community-focused schools. We have brigaded a number of small grants into the school effectiveness grant to support our drive on our key priorities of literacy, numeracy and reducing the impact of child poverty on attainment. We also know that early intervention is crucial, and Flying Start is making a real difference to young children and families from disadvantaged backgrounds. In addition, as we move to new models of integrated working to better support families with children living in poverty, Families First will increasingly provide services that are bespoke, integrated, proactive, intensive, local and family focused.

To summarise, there is no higher priority for the Government than ensuring that children and young people whose lives are affected by poverty have the same life chances and opportunities as their more affluent peers. With our distinctive approach in Wales, we have a genuine opportunity to target resources and services at those in society who need them most. I look forward to hearing Members' contributions.

**Angela Burns:** I am delighted to speak on this issue. I was not part of the follow-up inquiry, but I was part of the Children and Young People Committee when it first looked at the original report. I have listened to you clearly and carefully, Deputy Minister, and from what you have written in response to the follow-up report, and from what you have just said, you seem to believe that the enactment of the Children and Families (Wales) Measure 2010, which became law in February 2010, will ensure a strategic overview of the direction of travel on child poverty. However, witnesses for both inquiries felt that policy integration and synergy have not always played a key role. We have to remember that the issue is that

mhob agwedd ar y system. Bydd hyn yn gofyn am ymagwedd newydd tuag at atebolrwydd, arweinyddiaeth gref, disgwyliadau clir a monitro cynnydd ar bob lefel.

Mae cysylltiad cryf rhwng rôl ysgolion bro ac effeithiolrwydd ysgolion. Rydym wedi cyfuno nifer o grantiau bach yn y grant effeithiolrwydd ysgolion er mwyn cefnogi ein hymgyrch o ran ein blaenoriaethau allweddol, sef llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith tlodi plant ar gyrhaeddiad. Rydym hefyd yn gwybod bod ymyrraeth gynnar yn hanfodol, ac mae Dechrau'n Deg yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant ifanc a theuluoedd o gefndiroedd difreintiedig. Yn ogystal, wrth inni symud tuag at fodelau gweithio integredig newydd i gefnogi'n well y teuluoedd hynny â phlant sy'n byw mewn tlodi, bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn gynyddol yn darparu gwasanaethau sy'n bwrpasol, integredig, rhagweithiol, dwys a lleol, gan ganolbwyntio ar y teulu.

I grynhoi, nid oes gan y Llywodraeth flaenoriaeth uwch na sicrhau bod plant a phobl ifanc yr effeithir ar eu bywydau gan dlodi yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â'u cyfoedion mwy cefnog. Gyda'n dull gweithredu neilltuoel yng Nghymru, mae gennym gyfle gwirioneddol i sicrhau bod adnoddau a gwasanaethau yn cael eu targedu ar y rhai mewn cymdeithas â'r angen mwyaf. Edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau Aelodau.

**Angela Burns:** Rwy'n falch iawn o gael siarad am y mater hwn. Nid oeddwn yn rhan o'r ymchwiliad dilynol, ond roeddwn yn rhan o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc pan edrychodd ar yr adroddiad gwreiddiol. Rwyf wedi gwrandao arnoch yn ofalus iawn, Ddirprwy Weinidog, ac o'r hyn rydych wedi'i ysgrifennu mewn ymateb i'r adroddiad dilynol, ac o'r hyn rydych newydd ei ddweud, ymddengys eich bod yn credu y bydd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, a ddaeth yn gyfraith ym mis Chwefror 2010, yn sicrhau y bydd trosolwg strategol ar y cyfeiriad y byddwn yn mynd iddo o ran tlodi plant. Fodd bynnag, roedd tystion ar gyfer y ddau ymholiad yn teimlo nad oedd integreiddio polisi a synergedd wastad wedi

we have 90,000 children in Wales who live in homes where basics like food and clothes are hard to pay for. The opposition parties and the Government have all pledged to eradicate child poverty by 2020, but we must remember that over half of our local authorities have a severe child poverty rate. For those people who are listening to this debate, this is not only about children not getting enough food, but about them having to wear oversized clothes and ill-fitting shoes. These children cannot simply join a school's normal social network; they cannot join the local football club or games team, nor can they go out to a disco in the evenings or whatever, because they do not have the kind of money to do so.

Having listened to the witnesses who appeared before the committee, I believe passionately that education must be one of the front lines in this battle. I have two main concerns. First, the initial report implied that there was a belief that pastoral care was not as important a part of the remit of a school as it used to be in the old days. We need to bring that element of pastoral care back, because it is our trained teachers, headmistresses and dinner ladies who spot the child in trouble, and it is they who can then act as that child's advocate and do things about the fact that the child is struggling in so many of these areas. The second and biggest issue is the whole area of transition, and I will quote Professor Egan's evidence to the committee on this point. He said that

'we have a good track record of 11-year-olds achieving well at the end of the primary stage in Wales, but when you track that cohort through the rest of its educational career, you see a decline in the expected level of performance. They do not regress in their understanding, but they do not make the progress by the ages of 14 or 16 that you would have expected. The group of youngsters, and it might be 25 or 30 per cent of youngsters, who decline in that way generally live in child poverty and come from disadvantaged backgrounds.'

chwarae rôl allweddol. Mae'n rhaid inni gofio mai'r broblem yw bod gennym 90,000 o blant yng Nghymru sy'n byw mewn cartrefi lle mae'n anodd talu am nwyddau sylfaenol fel bwyd a dillad. Mae pob un o'r gwrthbleidiau a'r Llywodraeth wedi addo dileu tlodi plant erbyn 2020, ond rhaid inni gofio bod gan dros hanner ein hawdurdodau lleol gyfradd tlodi plant difrifol. Ar gyfer y bobl sy'n gwrando ar y ddadl hon, nid yw hyn yn fater o blant yn methu â chael digon o fwyd, ond am blant sy'n gorfod gwisgo dillad sy'n rhy fawr neu esgidiau sy'n rhy fach iddynt. Yn syml, ni all y plant hyn ymuno â rhwydwaith cymdeithasol arferol yr ysgol; ni allant ymuno â'r clwb pêl-droed lleol neu gemau tîm, ac ni allant fynd i ddisgo neu beth bynnag gyda'r nos oherwydd nad oes ganddynt arian i wneud hynny.

Ar ôl gwrando ar y tystion a ymddangosodd gerbron y pwyllgor, rwy'n credu'n frwd y dylai addysg fod yn fater blaenllaw yn y ddadl hon. Rwy'n pryderu am ddau beth yn benodol. Yn gyntaf, awgrymai'r adroddiad cychwynnol bod cred nad yw gofal bugeiliol yn rhan mor bwysig o gylch gwaith ysgol ag yr arferai fod ers talwm. Mae angen inni gael yr elfen honno o ofal bugeiliol yn ôl, oherwydd ein hathrawon hyfforddedig, ein penaethiaid ysgolion a'n merched cinio sy'n gweld plentyn sydd mewn trafferth, a dyna'r bobl a all weithredu fel eiriolwyr ar gyfer y plentyn hwnnw a gwneud rhywbeth am y ffaith bod y plentyn yn ei chael yn anodd mewn cynifer o'r meysydd hyn. Yr ail fater, a'r mater mwyaf, yw pontio'n gyffredinol, a dyfynnaf y dystiolaeth a gyflwynodd yr Athro Egan i'r pwyllgor ar y pwynt hwn. Dywedodd

mae gennym hanes nodedig o ran plant 11 oed yn cyflawni'n dda ar ddiwedd y cyfnod cynradd yng Nghymru, ond pan fyddwch yn olrhain y garfan trwy weddill eu gyrfa addysgol, gwelwch ddirywiad yn lefel y perfformiad disgwyliedig. Nid ydynt yn llithro'n ôl yn eu dealltwriaeth, ond nid ydynt yn gwneud y cynnydd a wnaed y byddech wedi ei ddisgwyl, erbyn 14 neu 16 oed. Bydd grŵp o bobl ifanc, ac efallai mai 25 neu 30 y cant o'r bobl ifanc ydynt, sy'n dirywio fel hyn sy'n byw mewn tlodi plant ac yn dod o gefndiroedd difreintiedig yn gyffredinol.



That is very telling. It is very important to read the record of Professor Egan's evidence, because he went on to say that

'when you ask seven-year-olds or eight-year-olds in the most affluent and disadvantaged communities how many want to go to university, be a vet, a doctor, a politician, a professor, or whatever they ask them, you will find that about the same proportion of young people put their hands up in those communities. If you go back to them about two or three years later, you will find a radically different picture. So, something happens on that journey.'

In your response to the committee's first report, you undertook to commission research into the area of the transition and what happens to children from disadvantaged backgrounds that we, the state, have put so much time and effort in to support, including a huge amount of money through the Families First and Communities First programmes and the intervention of countless social workers. We bring these children up to a level where they leave primary school and are pretty indistinguishable from their peers. They then go to secondary schools that, as Helen Mary said so effectively, are cold and lonely places for far too many of our children. Those children too often come from tough backgrounds, and we are losing 25 or 30 per cent of them to a lack of progress. We will never break free of the poverty cycle unless we can capture those children, keep them safe and get them through school with the dreams and aspirations that they had when they were eight years old still inside them when they are eighteen. Deputy Minister, what have you done about the research? Is it under way and are there any results from it? You promised that research in 2008; we are now in 2011 and I do not think that we can wait any longer. We need to do this for the sake of the children of tomorrow.

**Eleanor Burnham:** Like Angela, I am going to quote Professor Egan, who I think touched us all with his obvious expertise; his finger is clearly on the button. He was talking about travelling good, effective practice. He

Mae hynny'n ddadlennol iawn. Mae'n bwysig iawn i ddarllen tystiolaeth yr Athro Egan, oherwydd aeth yn ei flaen i ddweud

os byddwch yn gofyn i blant saith neu wyth mlwydd oed yn y cymunedau mwyaf cefnog a difreintiedig faint sydd eisiau mynd i'r brifysgol, bod yn filfeddygon, meddygon, gwleidyddion, athrawon neu beth bynnag, byddwch yn canfod bod yr un gyfran o blant yn codi eu dwylo yn y cymunedau hynny. Os byddwch yn mynd atynt tua dwy neu dair blynedd yn ddiweddarach, byddwch yn gweld darlun cwbl wahanol. Felly, bydd rhywbeth yn digwydd ar y daith honno.

Yn eich ymateb i adroddiad cyntaf y pwyllgor, dywedoch y byddech yn comisiynu ymchwil i'r cyfnod pontio a beth sy'n digwydd i blant o gefndiroedd difreintiedig, yr ydym ni, y wladwriaeth, wedi rhoi cymaint o amser ac ymdrech i'w cefnogi, gan gynnwys llawer iawn o arian drwy raglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf ac ymyrraeth gweithwyr cymdeithasol niferus. Rydym yn arwain y plant hyn i gyrraedd lefel benodol pan fyddant yn gadael yr ysgol gynradd yn eithaf anodd i'w gwahanu oddi wrth eu cyfoedion. Maent wedyn yn mynd i ysgolion uwchradd, sydd, fel y dywedodd Helen Mary mor effeithiol, yn lleoedd oer ac unig ar gyfer llawer gormod o'n plant. Mae'r plant hynny'n aml yn dod o gefndiroedd anodd, a byddwn yn colli 25 neu 30 y cant ohonynt oherwydd eu diffyg cynnydd. Ni fyddwn byth yn torri'n rhydd o'r cylch tlodi oni bai y gallwn adnabod y plant hynny, eu cadw'n ddiogel a'u harwain drwy'r ysgol gyda'r breuddwydion a'r dyheadau oedd ganddynt pan oeddent yn wyth oed yn parhau'n rhan ohonynt pan fyddant yn ddeunaw oed. Ddirprwy Weinidog, beth ydych wedi'i wneud ynghylch yr ymchwil? A yw wedi'i wneud ac a oes unrhyw ganlyniadau i'r ymchwil hwnnw? Addawyd yr ymchwil hwnnw yn 2008; mae'n 2011 erbyn hyn, ac ni allwn oedi rhagor, yn fy marn i. Mae angen inni wneud hyn er budd plant y dyfodol.

**Eleanor Burnham:** Fel Angela, rwyf am ddyfynnu'r Athro Egan, sydd, yn fy marn i, wedi cyffwrdd pob un ohonom gyda'i arbenigedd amlwg; mae ei fys yn amlwg ar y pwls. Roedd yn sôn am arfer effeithiol, y

suggests that

‘we do not have a problem with disseminating good and effective practice in Wales. We are still finding that effective practice, for some reason, is not a good traveller. I can think of a particular local authority, which I do not want to mention, where there are challenging socioeconomic circumstances, which has an outstanding secondary school that is probably in the top 5 per cent of secondary schools in the UK in terms of what it achieves. The other five or six secondary schools in that area do not achieve anything like that level of success. It is not that the local authority has not tried to share the effective practice of that one school among the others, but it is not succeeding. For some reason, which is quite complex, that kind of effective practice is not a good traveller.’

Many years ago, before I came here, I tutored 14 to 16-year-olds across north-east Wales. It was quite a revelation to go into various schools and I obviously never discussed one school with another. As regards first impressions of a school and so on, a lot of what he says is spot on. It is quite sad. I will mention one particular school, which is fantastic: Rhosymedre school in the Wrexham area. Lesley knows of it. The school’s headteacher has striven against socioeconomic odds in a Communities First area, of which I am sure the Deputy Minister is aware, and has performed miracles. She has been so persistent and devoted that I think that she is one of the biggest saints that I have ever come across in mentoring and supporting disadvantaged and dysfunctional kids. I hope that we can learn from these lessons, because we have some eminent people who know what they are talking about, and we desperately need to give our young people the very best. After all, if time passes so quickly for us as adults, just imagine how it is for children. They only have one opportunity. I was not a particularly high achiever in school and when I went to work with these children, that is the first thing that I told them: that I had not done what I should have done. In many respects, it did not matter then but it matters so much now.

gellir ei rannu. Mae’n awgrymu

nad oes gennym broblem gyda lledaenu arfer da ac effeithiol yng Nghymru. Rydym yn dal yn darganfod nad yw arferion effeithiol, am ryw reswm, yn teithio’n dda. Gallaf feddwl am awdurdod lleol penodol, nad wyf am ei enwi, lle mae amgylchiadau economaidd-gymdeithasol heriol, sydd ag ysgol uwchradd ragorol, sydd yn ôl pob tebyg ymhlith y 5 y cant o ysgolion uwchradd gorau yn y DU o ran yr hyn y mae’n ei gyflawni. Nid oedd y pump neu chwe ysgol uwchradd arall yn yr ardal honno yn cyflawni lefel llwyddiant cystal o bell ffordd. Nid yw hyn yn golygu nad yw’r awdurdod lleol wedi ceisio rhannu arfer effeithiol yr ysgol honno gyda’r ysgolion eraill, ond nid yw’n llwyddo. Am ryw reswm, sy’n eithaf cymhleth, nid yw’r math hwnnw o arfer effeithiol yn teithio’n dda.

Flynyddoedd lawer yn ôl, cyn i mi ddod yma, roeddwn yn tiwtora pobl ifanc 14 i 16 oed ar draws y gogledd-ddwyrain. Roedd yn dipyn o agoriad llygad i fynd i ysgolion gwahanol, ond yn amlwg, nid oeddwn yn trafod un ysgol gydag un arall. O ran argraffiadau cyntaf a geir o ysgol ac yn y blaen, mae llawer o’r hyn y mae’n ei ddweud yn hollol gywir. Mae’n eithaf trist. Soniaf am un ysgol benodol, sy’n ysgol ardderchog: ysgol Rhosymedre yn ardal Wrecsam. Mae Lesley’n gwybod amdani. Mae pennaeth yr ysgol wedi ymdrechu yn nannedd anfanteision economaidd-gymdeithasol y mae’r Dirprwy Weinidog yn ymwybodol ohonynt, rwy’n siwr, mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf, ac mae wedi cyflawni gwrthiau. Bu hi mor gyson a phenderfynol, rwy’n credu ei bod yn sant amlwg ym maes mentora a chefnogi plant problemus sydd dan anfantais. Gobeithiaf y gallwn ddysgu o’r gwersi hyn, oherwydd mae gennym rai pobl amlwg sy’n gwybod am beth maen nhw’n sôn, ac mae gwir angen inni wneud ein gorau dros ein pobl ifanc. Wedi’r cyfan, os bydd amser yn mynd heibio mor gyflym i ni fel oedolion, dychmygwch sut y mae hi ar blant. Dim ond un cyfle a gânt. Nid oeddwn i’n cyflawni yn arbennig o dda yn yr ysgol a phan es i weithio gyda’r plant hyn, dyna’r peth cyntaf a ddywedais wrthynt: nad oeddwn wedi gwneud yr hyn y dylwn fod wedi’i wneud. Mewn sawl ffordd, doedd dim

ots bryd hynny, ond mae mor bwysig yn awr.

To look at the issue from an international perspective, Professor Egan mentioned China and the PISA standards. Shanghai participated in PISA for the first time in 2009 and topped the tables. In many respects, we have such a lot to learn and internationalism is very important. The German gentleman spoke yesterday about the lack of a proper strategy and investment in our economy, suggesting that our economic failure is a result of our education being so poor. We have enormous strides to make because we must not let our youngsters down. On that note, I will end, because we have all said so much. It is all being regurgitated and we must not try to reinvent the wheel. I wish whoever comes in to the next Assembly in May all the best, because we have enormous strides to make and have to deliver for our wonderful young people, some of whom are living in dire circumstances.

I edrych ar y mater o safbwynt rhyngwladol, soniodd yr Athro Egan am Tsieina a'r safonau PISA. Cymerodd Shanghai ran yn PISA am y tro cyntaf yn 2009, a dod i frig y tablau. Mewn sawl ffordd, mae gennym gymaint o bethau i'w dysgu ac mae'n bwysig iawn ein bod yn mabwysiadu safbwynt rhyngwladol. Cyfeiriodd yr Almaenwr ddoe, at y diffyg strategaeth a buddsoddi priodol yn ein heconomi, gan awgrymu bod ein methiant economaidd yn ganlyniad i'r ffaith bod ein haddysg mor wael. Mae gennym gamau enfawr i'w cymryd oherwydd ni ddylem wneud cam â'n pobl ifanc. Ar y nodyn hwnnw, bydd fy nghyfraniad yn dod i ben, oherwydd rydym oll wedi dweud cymaint. Yr un diwn gron a glywir yn awr, a rhaid i ni osgoi hynny. Dymunaf yn dda i bawb sy'n dod i'r Cynulliad nesaf ym mis Mai, oherwydd mae gennym gamau enfawr i'w cymryd ac mae'n rhaid darparu ar gyfer ein pobl ifanc hyfryd, y mae rhai ohonynt yn byw mewn amgylchiadau enbyd.

**The Deputy Minister for Children (Huw Lewis):** It is impossible to reply to so many points in full in a couple of minutes, but I will do my best. Helen Mary Jones talked about barriers to learning, and there is none higher than the effect of deprivation on educational attainment. It is the single largest debilitating factor when it comes to educational attainment and, of course, leads to an enormous waste of human potential. If we were to crack this problem alone, of all the problems that face our country, it would have a bigger transformative effect on Wales's chances of succeeding as a small nation over the coming generations than all other factors put together.

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Mae'n amhosibl ateb cynifer o bwyntiau yn llawn mewn ychydig funudau, ond byddaf yn gwneud fy ngorau. Soniodd Helen Mary Jones am rwystrau i ddysgu, ac nid oes rhwystr amlycach nag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol. Dyma'r ffactor mwyaf dylanwadol o ran cyrhaeddiad addysgol ac, mae'n arwain at wastraff potensial dynol wrth gwrs. Pe baem yn datrys y broblem hon yn unig, o'r holl broblemau y mae Cymru'n eu hwynebu, byddai'n cael mwy o effaith drawsnewidiol ar siawns Cymru o lwyddo fel cenedl fach dros y cenedlaethau sydd i ddod na'r holl ffactorau eraill gyda'i gilydd.

Members will be aware that the Minister for education has underlined several times that we are entering a period of focusing on standards. We are going to be looking, in particular, at literacy and numeracy, and the link between poverty and under-attainment. That clear, simple and straightforward drive will underpin all our actions in educational policy over the coming months and years.

Bydd yr Aelodau'n gwybod bod y Gweinidog dros Addysg wedi pwysleisio'r ffaith, yn aml, ein bod ar drothwy cyfnod o ganolbwyntio ar safonau. Byddwn yn edrych, yn benodol, ar lythrennedd a rhifedd, a'r cysylltiad rhwng tlodi a than-gyrhaeddiad. Bydd yr awydd clir, syml ac uniongyrchol hwnnw'n sail i'n holl gamau gweithredu o ran ein polisi addysgol dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

5.15 p.m.

There has been a great deal of talk about what the next Government should do post May, and Members are right to focus upon that. In effect, a machinery has been built over this Assembly. A strategy was consulted upon and is now in place. There is a legal framework, through the Children and Families (Wales) Measure 2010, which was consulted upon, voted upon, and is now in place. We have delivery mechanisms ready to go—things such as Families First, Flying Start, and, of course, schools and the wider public sector, and the way in which they impact upon children's lives, as well local authorities and the third sector. We are all clear in our minds about the architecture of how we move forward. The question for the next Assembly is: how do we drive that vehicle forward? That tripartite structure has to be driven, and that is the challenge for the next Assembly.

**Helen Mary Jones:** I thank all those who contributed. I will respond to a few of the points raised, and I will begin by thanking Angela Burns for her contribution as a member of the committee. We have had excellent committee members right the way through the four years, and I am grateful to all the Members who contributed. Angela's points about the need to integrate local services were well made, and, of course, that is what the Government is seeking to do through Families First. As the Deputy Minister said, we now have to ensure that it works. On transition, I will not reiterate the points that I have made: we cannot lose young people at that stage. Something is going horribly wrong. We know what goes wrong, and we have to deal with it.

I thank Eleanor once again for her contribution to the committee. She is right to mention the challenges of translating best practice and finding ways to make it travel. It is hard, but it can be done. She also emphasises the importance of great individual leadership. I was struck by what she said about our children and young people only having one chance. They cannot wait. We can keep coming back to these issues, but, every time we do, that is another year

Bu llawer o sôn am yr hyn y dylai'r Llywodraeth nesaf ei gwneud ar ôl mis Mai, ac mae'r Aelodau yn iawn i ganolbwyntio ar hynny. Mewn gwirionedd, mae peirianwaith wedi cael ei adeiladu yn ystod y Cynulliad hwn. Ymgynghorwyd ar strategaeth ac mae bellach yn ei le. Mae gennym fframwaith gyfreithiol, trwy'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010; ymgynghorwyd arni, pleidleisiwyd arni, ac mae bellach yn ei lle. Mae gennym fecanweithiau cyflenwi yn barod i'w cyflwyno—pethau fel Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, ac, wrth gwrs, ysgolion a'r sector cyhoeddus ehangach, a'r ffordd maent yn effeithio ar fywydau plant, yn ogystal ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Rydym i gyd yn glir yn ein meddyliau am bensaernïaeth y modd rydym yn symud ymlaen. Y cwestiwn i'r Cynulliad nesaf yw: sut mae gyrru'r cerbyd hwnnw yn ei flaen? Mae angen gyrru'r strwythur teiran hwnnw yn ei flaen, a dyna'r her i'r Cynulliad nesaf.

**Helen Mary Jones:** Diolch i bawb a gyfrannodd. Byddaf yn ymateb i rai o'r pwyntiau a godwyd, a byddaf yn dechrau drwy ddiolch i Angela Burns am ei chyfraniad fel aelod o'r pwyllgor. Rydym wedi cael aelodau pwyllgor gwych ar hyd y pedair blynedd diwethaf, ac rwy'n ddiolchgar i'r holl Aelodau a gyfrannodd. Roedd pwyntiau Angela am yr angen i integreiddio gwasanaethau lleol yn rhai da, ac, wrth gwrs, dyna'r hyn mae'r Llywodraeth yn ceisio'i wneud drwy Teuluoedd yn Gyntaf. Fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog, mae'n rhaid inni sicrhau yn awr ei fod yn gweithio. O ran pontio, nid wyf am ailadrodd y pwyntiau a wneuthum: ni allwn golli pobl ifanc ar yr adeg honno. Mae rhywbeth mawr yn mynd o'i le. Rydym yn gwybod beth sy'n mynd o'i le, ac mae'n rhaid i ni ddelio ag ef.

Diolch i Eleanor unwaith eto am ei chyfraniad i'r pwyllgor. Mae'n iawn i sôn am yr her o gyfleu arfer gorau a chanfod ffyrdd o'i weithredu'n helaeth. Mae'n anodd, ond gellir ei wneud. Roedd hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd arweinyddiaeth unigol rhagorol. Cefais fy nharo gan yr hyn a ddywedodd am y ffaith mai dim ond un cyfle sydd gan ein plant a phobl ifanc. Ni allan aros. Gallwn ddychwelyd at y materion hyn, ond, bob tro y gwnawn hynny, dyna

gone for a young person who needs us to intervene. I welcome what the Deputy Minister said about the priority this Government gives this issue, and I thoroughly concur that it must be a priority for the next. We have the frameworks and the structures in place and it will be for those of us who are fortunate enough to be returned to the Assembly to ensure that they work.

We have a proud tradition in this nation of using education to get people out of poverty. It was Welsh local government in the first place that gave working-class students the opportunity to go to university. Back in the 1920s student loans were not a dirty word, but something to be proud of. I know, because my own father was one of the very first to benefit from the opportunities provided by the then Glamorgan County Council in 1928. We know that we as a nation can do this for our poorest young people. We have done it once. Somehow we have lost the knack, but it must be a priority to do it again. Having listened to the contributions in the Chamber, I am sure that we will all want to use the levers that the Deputy Minister talked about to make it a priority to deliver the change now. We know that Wales can use the education system to help eradicate poverty; let us do it again.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to note the committee's report. Does any Member object? I see that there are no objections, and the motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

## **Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats Debate**

### **Cyllidebau Personol Personalised Budgets**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt.

flwyddyn arall a aeth heibio i berson ifanc sydd angen i ni ymyrryd. Croesawaf yr hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog am y flaenoriaeth mae'r Lywodraeth hon yn ei rhoi i'r mater hwn, a chytunaf yn llwyr y dylai fod yn flaenoriaeth i'r nesaf. Mae gennym y fframweithiau a'r strwythurau yn eu lle a thasg y rhai ohonom sy'n ddigon ffodus i gael ein haillethol i'r Cynulliad yw sicrhau eu bod yn gweithio.

Mae gennym draddodiad balch yn y genedl hon o ddefnyddio addysg i gael pobl allan o dlodi. Llywodraeth leol Cymru roddodd gyfle i fyfyrwyr dosbarth gweithiol yn y lle cyntaf fynd i brifysgol. Yn ôl yn y 1920au nid oedd benthyciadau myfyrwyr yn air budr, ond yn rhywbeth i ymfalchïo ynddo. Rwy'n gwybod, gan mai fy nhad fy hun oedd un o'r cyntaf i elwa ar y cyfleoedd a ddarparwyd gan Gyngor Sir Morgannwg, fel ag yr oedd yn 1928. Gwyddom y gallwn fel cenedl wneud hyn i'n pobl ifanc tlotaf. Rydym wedi gwneud hynny unwaith. Rhywsut, rydym wedi colli'r ddawn, ond rhaid iddo fod yn flaenoriaeth i wneud hynny eto. Ar ôl gwrandio ar y cyfraniadau yn y Siambr, rwy'n siŵr y byddwn i gyd am ddefnyddio'r dulliau y soniodd y Dirprwy Weinidog amdanynt i'w gwneud yn flaenoriaeth i gyflawni'r newid yn awr. Gwyddom y gall Cymru ddefnyddio'r system addysg i helpu i ddileu tlodi; gadewch inni wneud hynny eto.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw nodi adroddiad y pwyllgor. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad, ac felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Cynnig NDM4685 Peter Black*

*Motion NDM4685 Peter Black*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*The National Assembly for Wales:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio mwy ar gyllidebau personol i gleifion sy'n cael gofal er mwyn i weithwyr iechyd proffesiynol allu datblygu rhaglen ofal sy'n addas ar gyfer anghenion personol.*

*Calls on the Welsh Assembly Government to increase the use of personalised budgets for patients in receipt of care so that health professionals can develop a programme of care that is suitable for personal need.*

**Veronica German:** I move the motion.

**Veronica German:** Cynigiau y cynnig.

*Daeth William Graham i'r Gadair am 5.19 p.m.*

*William Graham took the Chair at 5.19 p.m.*

I think that we all agree that social care is a vital service for many of our older, disabled and vulnerable people in Wales, giving them support at their times of greatest need. It is clear that how well we look after each other reflects the strength and character of our society. As the Deputy Minister for Social Services acknowledged the other week, spending more is not the answer, even if it were possible. We need a different approach. It is about focusing on what matters, making sure that local authorities, the health service and wider society work together to give people the support that they need and deserve.

Credaf ein bod i gyd yn cytuno bod gofal cymdeithasol yn wasanaeth hanfodol i lawer o'n pobl hŷn, anabl ac agored i niwed yng Nghymru, yn eu cefnogi ar adeg pan fo'i angen fwyaf. Mae'n amlwg bod pa mor dda rydym yn gofalu am ein gilydd yn adlewyrchu cryfder a chymeriad ein cymdeithas. Fel y cydnabu'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol yr wythnos o'r blaen, nid gwario mwy yw'r ateb, hyd yn oed pe bai'n bosibl. Mae arnom angen dull gwahanol. Mae'n ymwneud â chanolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig, gan sicrhau bod awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd a'r gymdeithas ehangach yn cydweithio i roi'r cymorth y maent yn ei haeddu i bobl sydd ei angen.

The first thing that we must do is let go of this idea that the state has all the solutions. I think most people here recognise that like-it-or-lump-it, one-size-fits-all solutions are no longer tenable. We need a shift in power, and that is something we understand here in Wales. We need a shift of power away from Government in Cardiff, and away from town halls into the hands of individuals, their families and carers.

Y peth cyntaf y mae'n rhaid inni ei wneud yw anghofio am y syniad hwn bod yr holl atebion gan y wladwriaeth. Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o bobl yma yn cydnabod nad yw atebion liciwch-o-neu-beidio, un-maint-i-bawb yn gynaliadwy mwyach. Mae angen newid o ran pŵer, ac mae hynny'n rhywbeth rydym yn ei ddeall yma yng Nghymru. Mae angen newid y pŵer o'r Llywodraeth yng Nghaerdydd, ac i ffwrdd o neuaddau tref i ddwylo unigolion, eu teuluoedd a'u gofawyr.

We are pleased that the social services White Paper refers to citizen-centred services. It talks about developing a model of self-directed support and the development of social enterprises. We absolutely agree with that. However, unfortunately, the Government amendment does not seem to have come from the same stable. We all want the same outcome: to enable more people to live happily and independently and, where

Rydym yn falch bod y Papur Gwyn ar wasanaethau cymdeithasol yn cyfeirio at ganolbwyntio ar y dinesydd. Mae'n sôn am ddatblygu model o gefnogaeth hunan-gyfeiriedig a datblygu mentrau cymdeithasol. Rydym yn cytuno'n llwyr â hynny. Fodd bynnag, yn anffodus, ymddengys nad yw gwelliant y Llywodraeth wedi dod o'r un lle. Rydym i gyd am weld yr un canlyniad: galluogi mwy o bobl i fyw yn hapus ac yn

possible, in their own homes. As service users said in the independent review, people are experts on their own lives. Therefore, giving people control over the care that they receive can make an incredible difference. Personal budgets can deliver for people that choice, control and independence over their lives.

At the moment, about 150,000 people in Wales are in receipt of care, yet fewer than 2,000 have taken up direct payments, which is about 1.3 per cent. Why is that so low? Are people in Wales less capable of managing their own affairs? Of those in receipt of care in England, 13 per cent have taken up direct payments or personalised budgets. Is it about support or a lack of flexibility, or is it perhaps that people simply do not understand what is on offer? There is a job to be done by local authorities when telling people about direct payments and what they can do.

Personalisation is not just about giving people direct payments or personalised budgets, even though we believe that there is scope to do a lot more in that regard. It is about giving them and their carers a voice and the support that they need to make good decisions about the support that they need. For example, disabled adults are more likely to want to play an active role in planning their care package and choosing their own priorities. I heard of a man in England who used some of his personal budget to buy a computer. The main purpose was to enable him to do his shopping on the internet, saving valuable personal assistant time for going out to do things that he really wanted to do, instead of spending two hours of his valuable support in the supermarket every week. It also allowed him to reconnect with friends and family. There was also an example in one of the pilot studies of a person with learning disabilities who used some of his budget to attend football matches. The empowerment and sense of wellbeing impacted on the quality of his life. It is about putting the individual at the centre of the care that they receive and about them choosing the life that they want to live. It need not be expensive. The independent review talks of a service

annibynnol a, lle bo hynny'n bosibl, yn eu cartrefi eu hunain. Fel y dywedodd defnyddwyr gwasanaeth yn yr adolygiad annibynnol, mae pobl yn arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain. Felly, gall rhoi rheolaeth i bobl dros y gofal a gânt wneud gwahaniaeth anhygoel. Gall cyllidebau personol ddarparu'r dewis, rheolaeth ac annibyniaeth hwnnw dros eu bywydau.

Ar hyn o bryd, mae tua 150,000 o bobl yng Nghymru yn derbyn gofal, ond mae llai na 2,000 wedi manteisio ar daliadau uniongyrchol, sef tua 1.3 y cant. Pam fod hynny mor isel? A yw pobl yng Nghymru yn llai abl i reoli eu materion eu hunain? O'r rhai sy'n derbyn gofal yn Lloegr, mae 13 y cant wedi manteisio ar daliadau uniongyrchol neu gyllidebau personol. Ai yw'n ymwneud â chymorth neu ddiffyg hyblygrwydd, ynteu a yw efallai oherwydd y ffaith nad yw pobl yn deall beth sydd ar gael? Mae gwaith i'w wneud gan awdurdodau lleol wrth ddweud wrth bobl am daliadau uniongyrchol a'r hyn y gallant ei wneud.

Nid yw personoli'n ymwneud yn unig â rhoi taliadau uniongyrchol neu gyllidebau personol i bobl, er ein bod o'r farn bod lle i wneud mwy o lawer yn hynny o beth. Mae'n ymwneud â rhoi llais iddynt hwy a'u gofalgwyr a'r cymorth maent ei angen i wneud penderfyniadau da ynghylch y cymorth sydd ei angen arnynt. Er enghraifft, mae oedolion anabl yn fwy tebygol o fod eisiau chwarae rôl weithredol wrth gynllunio'u pecyn gofal a dewis eu blaenoriaethau eu hunain. Clywais am ddyn yn Lloegr a defnyddiodd rhywfaint o'i gyllideb personol i brynu cyfrifiadur. Y prif ddiben oedd i'w alluogi i wneud ei siopa ar y rhyngwrwyd, gan arbed amser gwerthfawr cynorthwy-ydd personol i fynd allan i wneud pethau roedd wir eisiau eu gwneud, yn hytrach na threulio dwy awr o'i gefnogaeth werthfawr yn yr archfarchnad bob wythnos. Roedd hefyd yn ei alluogi i ail-gysylltu â ffrindiau a theulu. Roedd enghraifft hefyd yn un o'r astudiaethau peilot o rywun ag anableddau dysgu a defnyddiodd rhywfaint o'i gyllideb i fynychu gemau pêl-droed. Cafodd yr ymrymuso a'r ymdeimlad o les effaith ar ansawdd ei fywyd. Mae'n ymwneud â rhoi'r unigolyn yng nghanol y gofal maent yn ei dderbyn a dewis y bywyd y maent yn dymuno ei fyw. Nid oes rhaid iddo

user who used to have 24-hour support, but now only needs seven hours' help from his two support workers, and who now volunteers at an old people's home.

These ideas are just a start, but there is potential for more. Why cannot personal budgets be used to link up health and social care, to purchase equipment and to cut down those artificial boundaries between health and social care? I visited a constituent who receives direct payments, and has added to them himself, but he is now being assessed for continuing care and is really worried that the expert care package that he has built around his needs will no longer be available if it is to be delivered through the NHS. Why should he be worried? We also understand that not everyone wants to be directly in charge of the money. Even with support, that can be a step too far for some people, although there are many different models of support in place. However, sometimes that choice is not really a choice, because they have not exactly been told what it means and what support and help they can get with those direct payments, with recruitment and employment and being in charge of people. Too often, local authorities will say, 'Yes, of course we've told people about direct payments', but how much have they actually told them about it?

According to a leading carers' organisation, 60 per cent of people who turn down the offer of a direct payment do so because they think that it will just be too difficult to manage and take up too much time. Yet, evidence from the same organisation has shown that that is not the case, with many respondents reporting that they have more free time since setting up a direct payment. Yes, it will mean a different way of delivering these vital services. It will mean that we cannot keep doing things the way that we have always done them. To quote Charles Leadbeater, a leading authority on innovation and creativity and a former adviser to a certain Mr T. Blair:

fod yn ddrud. Mae'r adolygiad annibynnol yn sôn am ddefnyddiwr gwasanaeth a oedd yn arfer cael cefnogaeth 24 awr, ond sydd bellach ond angen help saith awr gan ei ddau weithiwr cymorth, ac sydd bellach yn gwirfoddoli mewn cartref hen bobl.

Megis dechrau yw'r syniadau hyn, ond mae potensial am fwy. Pam na all cyllidebau personol gael eu defnyddio i gysylltu iechyd a gofal cymdeithasol, i brynu offer ac i gael gwared ar y ffiniau artiffisial hynny rhwng iechyd a gofal cymdeithasol? Ymwelais ag etholwr sy'n derbyn taliadau uniongyrchol, ac sydd wedi ychwanegu atynt ei hun, ond mae bellach yn cael ei asesu ar gyfer gofal parhaus ac mae'n poeni'n fawr na fydd y pecyn gofal arbenigol a ddatblygodd o amgylch ei anghenion ar gael mwyach os caiff ei ddarparu drwy'r GIG. Pam y dylai boeni? Rydym hefyd yn deall nad yw pawb yn awyddus i fod yn uniongyrchol gyfrifol am yr arian. Hyd yn oed gyda chymorth, gall hynny fod yn gam yn rhy bell i rai pobl, er bod llawer o fodolau cefnogaeth gwahanol yn eu lle. Fodd bynnag, weithiau nid yw dewis yn ddewis mewn gwirionedd, oherwydd nid ydynt wedi cael gwybod yn union beth mae'n ei olygu a pha gymorth a help y gallant ei gael gyda'r taliadau uniongyrchol hynny, gyda recriwtio a chyflogi a bod yn gyfrifol am bobl. Yn rhy aml, bydd awdurdodau lleol yn dweud, 'Wrth gwrs ein bod wedi dweud wrth bobl am daliadau uniongyrchol', ond faint maent wedi'i ddweud wrthynt amdano mewn gwirionedd?

Yn ôl sefydliad blaenllaw i ofalwyr, mae 60 y cant o bobl sy'n gwrthod cynnig o daliad uniongyrchol yn gwneud hynny oherwydd eu bod yn credu y bydd yn rhy anodd i'w reoli ac y bydd yn cymryd gormod o amser. Eto, mae tystiolaeth gan yr un sefydliad wedi dangos nad yw hynny'n wir, gyda llawer o ymatebwyr yn dweud eu bod yn cael mwy o amser hamdden ers sefydlu taliad uniongyrchol. Mae'n wir dweud y bydd yn golygu darparu'r gwasanaethau hanfodol hyn mewn ffordd wahanol. Bydd yn golygu na allwn ddal i wneud pethau y ffordd rydym wedi eu gwneud erioed. I ddyfynnu Charles Leadbeater, awdurdod cydnabyddedig ar arloesedd a chreadigrwydd a chyn-yngyngorydd i rhyw Mr T. Blair:



'By putting users at the heart of services, by enabling them to become participants in the design and delivery, services will be more effective by mobilising millions of people as co-producers of the public goods they value'.

Personal budgets can make an incredible difference to people's lives, and we will hear more about that in other contributions today. They give people choice, control and independence, and it is up to Government to make sure that that happens.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Dileu'r cyfan a rhoi'r canlynol yn ei le:*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau gofal sydd wedi'u teilwra'n unigol ond yn gwrthod unrhyw ddull gweithredu sy'n seiliedig ar farchnadoedd neu a fyddai'n rhoi'r cyfrifoldeb dros orfod datrys problemau ar unigolion.*

*2. Yn credu bod angen i unrhyw ddull o ddarparu gwasanaethau gofal wedi'u teilwra amddiffyn gwasanaethau gwerthfawr sy'n cefnogi'r holl drigolion lleol.*

*3. Yn cefnogi'r dull datblygu a amlinellir yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru; Fframwaith Gweithredu' sy'n cynnig mwy o lais a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau heb rannu gwasanaethau na rhoi baich rhy drwm arnynt.*

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** I move amendment 1.

**Brian Gibbons:** As Veronica said, direct payments have been available in Wales, and, indeed, throughout the United Kingdom, for several years. Some 6 per cent of the expenditure in adult social services in England is through direct payments. The figure in Wales for the percentage of adult services that are provided through direct payments, depending on the baseline used, is, as Veronica said, between 1 per cent and 2

Drwy roi defnyddwyr wrth wraidd gwasanaethau, drwy eu galluogi i ddod yn gyfranogwyr wrth gynllunio a chyflwyno, bydd y gwasanaethau yn fwy effeithiol drwy ddenu miliynau o bobl i fod yn gyd-gynhyrchwyr y nwyddau cyhoeddus maent yn eu gwerthfawrogi.

Gall cyllidebau personol wneud gwahaniaeth anhygoel i fywydau pobl, a byddwn yn clywed mwy am hynny mewn cyfraniadau eraill heddiw. Maent yn rhoi dewis, rheolaeth ac annibyniaeth i bobl, a mater i'r Llywodraeth yw sicrhau bod hynny'n digwydd.

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Delete all and replace with:*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Recognises the importance of individually tailored care services but rejects any approach based on markets or that would put the responsibility for having to sort out solutions to their problems on individuals.*

*2. Believes that any approach to tailored care services needs to protect valuable services that support the totality of local residents.*

*3. Supports the developmental approach outlined in 'Sustainable Social Services for Wales; A Framework for Action' which offers service users greater voice and control without fragmenting services or placing an unwelcome burden on them.*

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Cynigiaf welliant 1.

**Brian Gibbons:** Fel y dywedodd Veronica, bu taliadau uniongyrchol ar gael yng Nghymru, ac, yn wir, ledled y Deyrnas Unedig, ers nifer o flynyddoedd. Mae tua 6 y cant o wariant gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn Lloegr yn cael ei wneud drwy daliadau uniongyrchol. Mae'r ffigur yng Nghymru ar gyfer canran y gwasanaethau i oedolion a ddarperir drwy daliadau uniongyrchol, yn dibynnu ar y llinell sylfaen

per cent, or perhaps 2 per cent to 3 per cent. At that level of provision, it is a welcome element of added diversity in the way in which social care is delivered. Any major public service in Wales, or, indeed, across the border, should be able to accommodate that degree of diversity. However, I would have major concerns were there to be a major increase in, or a shift towards, direct-payments-based public service delivery. I would be particularly concerned about its use in the health service, except in limited and well regulated circumstances.

Our health and social services are delivered on the basis of pooled risk and collective provision. If we accept any substantial undermining of those principles, there could be adverse, and potentially catastrophic, consequences for the overwhelming majority of service users. There will inevitably be above-average costs in establishing public service provision and setting the service up, but, as the service matures, and as more people come into it, the cost of managing, treating or working with these extra patients will be marginal, and will inevitably be below the average or typical cost of that service. However, the cost of delivering those individual payments will be above marginal cost. That is inevitable; I cannot see how you can avoid that. If there is substantial demand for individual payments, it will not be sustainable, although, as I said at the beginning, a certain level of direct payments should be sustainable and welcomed.

The main incentive for people to go down the direct payment road is the fact that mainstream provision is not sufficiently flexible in delivering packages of carer support. It must always be a challenge to mainstream public services to be able to provide their services with sufficient patient sensitivity.

**Nick Ramsay:** I have listened closely to what you have said about direct payments, and I just wanted some clarity on that. You see some benefits in relation to direct payments, but you do not believe that those

a ddefnyddir, fel y dywedodd Veronica, rhwng 1 y cant a 2 y cant, neu efallai 2 y cant a 3 y cant. Ar y lefel honno o ddarpariaeth, mae'n elfen o amrywiaeth ychwanegol i'w chrosawu yn y ffordd y caiff gofal cymdeithasol ei gyflwyno. Dylai unrhyw wasanaeth cyhoeddus mawr yng Nghymru, neu, yn wir, ar draws y ffin, fod yn gallu darparu'r math hwnnw o amrywiaeth. Fodd bynnag, byddai gennyf bryderon mawr pe bai cynnydd mawr neu symud tuag at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn seiliedig ar daliadau uniongyrchol. Byddwn yn pryderu'n arbennig am ei ddefnydd yn y gwasanaeth iechyd, ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig a reoleiddiwyd yn dda.

Mae ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn cael eu darparu ar sail risg ar y cyd a darpariaeth ar y cyd. Os ydym yn derbyn unrhyw danseilio sylweddol o'r egwyddorion hynny, gallai fod canlyniadau niweidiol, trychinebus hyd yn oed, i'r mwyafrif llethol o ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'n anochel y bydd costau uwch na'r cyfartaledd wrth sefydlu darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus, ond, wrth i'r gwasanaeth aeddfedu, ac wrth i fwy o bobl ddod i mewn iddo, bydd y gost o reoli, trin neu weithio gyda'r cleifion ychwanegol hyn yn ymylol, a bydd yn anochel yn is na chost gyfartalog neu nodweddiadol y gwasanaeth hwnnw. Fodd bynnag, bydd cost darparu'r taliadau unigol hynny yn uwch na'r gost ymylol. Mae hynny'n anochel, ni welaf sut y gallwch osgoi hynny. Os oes galw sylweddol am daliadau unigol, ni fydd yn gynaliadwy, er, fel y dywedais ar y dechrau, dylai lefel benodol o daliadau uniongyrchol fod yn gynaliadwy ac yn rhywbeth i'w groesawu.

Y prif gymhelliad i bobl ddewis opsiwn taliadau uniongyrchol yw'r ffaith nad yw'r ddarpariaeth brif ffrwd yn ddigon hyblyg o ran cyflwyno pecynnau o gefnogaeth gofalwyr. Mae'n rhaid iddo bob amser fod yn her i wasanaethau cyhoeddus prif ffrwd i allu darparu eu gwasanaethau yn ddigon sensitif i gleifion.

**Nick Ramsay:** Rwyf wedi gwranddo'n astud ar yr hyn rydych wedi'i ddweud am daliadau uniongyrchol, ac roeddwn eisiau rhywfaint o eglurder ar hynny. Rydych yn gweld rhai manteision mewn taliadau uniongyrchol, ond

benefits should be available to everyone. What is equitable about that?

**Brian Gibbons:** I am saying that it is unsustainable for the whole model of care to be based on direct payments, because most of the care, once the service is established, is delivered at marginal cost, whereas individual payments invariably cost more than marginal cost. Consequently, the system simply will not be able to accommodate that increased number—there will just not be enough money in the kitty. Individual direct payments will cost more than marginal cost, and, therefore, the system will not be sustainable. If direct payments are in a minority, hopefully, the system would be sustainable, but not if they are the main mechanism for delivery.

It is crucial, however, that mainstream public service provision should be more flexible in how it delivers services, and that it should not depend upon direct payments to deliver that flexibility. In any setting, there will be experts and professionals who are delivering care, but a key expert in the delivery of care to any individual is the individual themselves. Incorporating the individual service recipient as an expert has to be a crucial challenge, and should not be dependent upon the introduction of direct payments. If that co-production of services cannot be provided without direct payments, there is a fundamental challenge to mainstream public services, and they should be subject to the test to deliver the personalisation within the mainstream provision.

5.30 p.m.

A final concern of mine is about the option to move to widespread direct payments because, inevitably, although perhaps inadvertently, it will create a market in public service provision and in similar fashion, it could create a culture in which any willing provider will become the mainstream provider. There are inevitable risks in that. We can contain the risks if individual payments are retained as part of a diverse delivery system within the context of an overwhelmingly public service delivery model. However, if we do not retain

nid ydych yn credu y dylai'r manteision hynny fod ar gael i bawb. Beth sy'n deg am hynny?

**Brian Gibbons:** Rwy'n dweud nad yw'n gynaliadwy i'r model gofal cyfan fod yn seiliedig ar daliadau uniongyrchol, gan fod y rhan fwyaf o'r gofal, unwaith y caiff y gwasanaeth ei sefydlu, yn cael ei ddarparu am gost ymylol, tra bod taliadau unigol bob amser yn costio mwy na chost ymylol. O ganlyniad, ni fydd y system yn gallu darparu ar gyfer y nifer cynyddol hwnnw—ni fydd digon o arian yn y gronfa. Bydd taliadau uniongyrchol unigol yn costio mwy na chost ymylol, ac, felly, ni fydd y system yn gynaliadwy. Os bydd taliadau uniongyrchol yn y lleiafrif, byddai'r system, gobeithio, yn gynaliadwy, ond ni fyddai pe bai'r taliadau yn brif ddull ar gyfer cyflwyno.

Mae'n hanfodol, fodd bynnag, y dylai darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus prif ffrwd fod yn fwy hyblyg o ran sut mae'n darparu gwasanaethau, ac na ddylai ddibynnu ar daliadau uniongyrchol i ddarparu'r hyblygrwydd hwnnw. Mewn unrhyw leoliad, bydd arbenigwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n darparu gofal, ond arbenigwr allweddol o ran darparu gofal i unrhyw unigolyn yw'r unigolyn ei hun. Mae'n rhaid i gynnwys derbyniwr y gwasanaeth unigol fel arbenigwr fod yn her hollbwysig, ac ni ddylai fod yn ddibynnol ar gyflwyno taliadau uniongyrchol. Os na ellir darparu gwasanaethau ar y cyd heb daliadau uniongyrchol, mae her sylfaenol i wasanaethau cyhoeddus prif ffrwd, a dylent fod yn amodol ar y prawf i ddarparu'r personoli o fewn y ddarpariaeth brif ffrwd.

Mae'r pryder olaf sydd gennyf yn ymwneud â'r opsiwn i symud i daliadau uniongyrchol eang oherwydd, yn anochel, er efallai yn anfwriadol, bydd yn creu marchnad mewn darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus ac, yn yr un modd, gallai greu diwylliant lle bydd unrhyw ddarparwr parod yn dod yn ddarparwr prif ffrwd. Mae risgiau anochel o ran hynny. Gallwn fyw a'r risgiau os caiff taliadau unigol eu cadw fel rhan o system cyflenwi amrywiol yng nghyd-destun model darparu sy'n bennaf seiliedig ar wasanaeth

that overwhelmingly public service delivery model, I worry that direct payments may undermine services for the majority and for the common good.

**Peter Black:** Having listened to Brian's argument, the question that comes to mind is, if public services are not there to serve individuals and to give them the benefit of as a high a quality of life as is possible within the resources available, then what are they for? The personalisation agenda need not run counter to the ethos of public service provision that Brian is defending.

**Brian Gibbons** *rose—*

**Peter Black:** I have only just started, Brian, but I will take a quick intervention if you want to make one.

**Brian Gibbons:** Patient-centred services can be delivered within a collectivist model. The challenge for such a model is to be sufficiently centred on the individual. There is tension here between the individual payments and a collectivist model. I think the basis of provision has to be overwhelmingly collectivist, with some diversity for personalisation.

**Peter Black:** That is a complex model, Brian, and while it sounds very good, I am not sure what it would mean in practice. I think that it could possibly mean that we retain the status quo. Actually, the status quo is okay as far as it goes, except that it is not really working properly in Wales. If you look at how it worked in England under the Labour Government, you will see that the proportion of personalised budget was far greater than that offered here in Wales. I know of a Welsh Government survey that has looked at some of the reasons for that, and it seems to come down to the provision of adequate support for individuals and their having the understanding and education to take advantage of the benefits of personalisation and the budgets that come with it.

Choice is very important. Veronica talked

cyhoeddus. Fodd bynnag, os nad ydym yn cadw'r model hwnnw sy'n bennaf seiliedig ar ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus, rwy'n poeni y gall taliadau uniongyrchol danseilio gwasanaethau i'r mwyaf ac er lles cyffredin.

**Peter Black:** Ar ôl gwranddo ar ddatl Brian, y cwestiwn sy'n dod i'r meddwl yw, os nad yw gwasanaethau cyhoeddus yno i wasanaethu unigolion ac i roi iddynt fantais o safon bywyd mor uchel â phosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael, yna pa bwrpas sydd iddynt? Nid oes angen i'r agenda bersonoli fynd yn groes i'r ethos o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus mae Brian yn ei amddiffyn.

**Brian Gibbons** *a gododd—*

**Peter Black:** Dim ond newydd ddechrau wyf i, Brian, ond byddaf yn cymryd ymyriad cyflym os ydych am wneud un.

**Brian Gibbons:** Gellir darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cleifion o fewn model cyfunolaidd. Yr her ar gyfer model o'r fath yw cael ei ganoli yn ddigonol ar yr unigolyn. Mae tensiwn yma rhwng y taliadau unigol a model cyfunolaidd. Rwyf o'r farn y dylai sail y ddarpariaeth fod yn hynod gyfunolaidd, gyda rhywfaint o amrywiaeth ar gyfer personoli.

**Peter Black:** Mae hwnnw'n fodel cymhleth, Brian, ac er ei fod yn swnio'n dda iawn, nid wyf yn siŵr beth y byddai'n ei olygu yn ymarferol. Credaf y gallai o bosibl olygu ein bod yn cadw'r status quo. Mewn gwirionedd, mae'r status quo yn iawn cyn belled ag y mae'n mynd, ar wahân i'r ffaith nad yw'n gweithio'n iawn yng Nghymru. Os edrychwch ar sut roedd yn gweithio yn Lloegr o dan y Llywodraeth Lafur, byddwch yn gweld bod y gyfran o gyllideb bersonol yn llawer mwy na'r hyn a gynigiwyd yma yng Nghymru. Gwn am arolwg Llywodraeth Cymru sydd wedi edrych ar rai o'r rhesymau am hynny, ac mae'n ymddangos fel pe bai'n dod i lawr i ddarparu cymorth digonol i unigolion a'u bod yn meddu ar y ddealltwriaeth a'r addysg i fanteisio ar bersonoli a'r cyllidebau a ddaw yn ei sgîl.

Mae dewis yn bwysig iawn. Soniodd

about choice when she moved the motion. Choice is not there for the sake of it, however; it is there to help people to improve the quality of their lives. The Government's amendment refers to rejecting a market-based approach, and I think that that is closely in line with what Brian was saying, but when you look at the Deputy Minister's recently published social services White Paper, you will see that it talks about delivering social services through other models, particularly social enterprise, in which the market comes clearly to the fore. Admittedly, it is a socially based market and a form of collective market, but it is nonetheless a market of sorts. Neither the Liberal Democrats nor I are arguing here for a free-for-all in social services, and certainly not in health. What we are arguing for is a greater measure of choice and flexibility within the provision that is made available to people by the health service and social services so that the resources that are available to support them can be utilised in a more personalised way that is tailored to their needs, thereby giving them more freedom in how they use that money. Not only is that a very liberal approach, I also think that it is one that fits clearly with the Deputy Minister's approach in her social services White Paper.

In the Welsh Government's survey, you will find the reasons that have been given as to why the utilisation of direct payments is so low in Wales. All client groups say that it is at its lowest for mental health service groups and at its highest for parents of disabled children. They say that using the term 'direct payments' generally causes further confusion, particularly among older people. However, awareness is linked to information provision, including websites, written information and verbal information. Information needs to be available in an accurate, clear way and it needs to be directed to particular client groups as well as being available in a generic form. Some client groups, particularly people with learning disabilities, will benefit from receiving information in workshops. It would be beneficial to raise general public awareness of direct payments.

Veronica am ddewis pan gynigodd y cynnig. Nid yw'r dewis yno er ei fwyn ei hun, fodd bynnag; mae yno i helpu pobl i wella ansawdd eu bywydau. Mae gwelliant y Llywodraeth yn cyfeirio at wrthod ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad, a thybiaf fod hynny'n agos i'r hyn ddywedodd Brian, ond pan edrychwch ar y Papur Gwyn a gyhoeddodd y Dirprwy Weinidog ar wasanaethau cymdeithasol, gwelwch ei fod yn sôn am gyflwyno gwasanaethau cymdeithasol trwy fodelau eraill, yn enwedig drwy fentrau cymdeithasol, lle mae gan y farchnad ran amlwg. Gwn ei bod yn farchnad sy'n seiliedig ar fodel cymdeithasol ac yn fath o farchnad gyfunoeddig, ond serch hynny mae'n farchnad o ryw fath. Nid yw'r Democratiaid Rhyddfrydol na minnau yn dadlau yma o blaid pawb dros ei hun mewn gwasanaethau cymdeithasol, ac yn sicr nid ym maes iechyd. Yr hyn rydym yn dadlau o'i blaid yw mwy o ddewis a hyblygrwydd o fewn y ddarpariaeth sydd ar gael i bobl gan y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol fel y gall yr adnoddau sydd ar gael i'w cefnogi gael eu defnyddio mewn ffordd fwy personol sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion, gan roi mwy o ryddid iddynt o ran sut maent yn defnyddio'r arian hwnnw. Mae hynny'n ymagwedd ryddfrydol iawn, ac rwyf hefyd o'r farn ei bod yn cyd-fynd yn glir ag ymagwedd y Dirprwy Weinidog yn ei Phapur Gwyn ar wasanaethau cymdeithasol.

Yn arolwg Llywodraeth Cymru, byddwch yn canfod y rhesymau a roddwyd ynghylch pam fod y defnydd o daliadau uniongyrchol mor isel yng Nghymru. Mae'r holl grwpiau cleient yn dweud ei fod ar ei isaf ar gyfer grwpiau gwasanaeth iechyd meddwl ac ar ei uchaf ar gyfer rhieni plant anabl. Maent yn dweud bod defnyddio'r term 'taliadau uniongyrchol' yn gyffredinol yn achosi dryswch pellach, yn enwedig ymysg pobl hŷn. Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth yn gysylltiedig â darparu gwybodaeth, gan gynnwys gwefannau, gwybodaeth ysgrifenedig a gwybodaeth lafar. Mae angen i wybodaeth fod ar gael mewn ffordd gywir a chlr ac mae angen ei chyfeirio at grwpiau cleient penodol yn ogystal â bod ar gael ar ffurf gyffredinol. Bydd rhai grwpiau cleient, yn enwedig pobl ag anabledau dysgu, yn elwa o dderbyn gwybodaeth mewn gweithdai. Byddai'n fuddiol codi

ymwybyddiaeth gyffredinol y cyhoedd o daliadau uniongyrchol.

The issue raised, along with information, is the capacity to give consent. This can cause confusion. This is about social workers and health workers assessing people's capacity to give consent, which is key. It is really important that those who are charged with providing support do not judge people's capacity to make decisions on their own behalf. It is important to provide them with support to give them additional capacity. There are many benefits to direct payments. I have talked about choice and we have talked about control—people being able to decide how their needs should be met in their own time and by whom, thereby having control in deciding how they access that support. In particular, this is about independence. Independence is absolutely crucial. People should not become dependent on the welfare state. They can take advantage of it, make use of it and use the support available, but their independence is crucial to their peace of mind and, in the case of long-term illness, to future recovery. The advantages of direct payments are underlined as part of that, and I hope that we can move forward with some consensus in saying that we can improve the take-up of direct payments, but that we do not have to do so by dismantling the welfare state.

**Nick Ramsay:** I am grateful to the Liberal Democrats for bringing forward this debate. I agreed with many of the comments made by Veronica German in her opening contribution. She touched on some very important issues that, let us face it, will probably affect everyone at some time or other and in one way or another.

My party has problems with the speed of progress made by the Welsh Government on developing personalisation. At the start of my contribution, I would like to say that I am very concerned about the Government's amendments to the motion. I do not have a problem with the first parts of points 1 and 2, but I have a problem with the second part of the first point, which says that the Government rejects any approach based on

Y mater a godwyd, ynghyd â gwybodaeth, yw'r gallu i roi caniatâd. Gall hyn achosi dryswch. Mae hyn yn ymwneud â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd yn asesu gallu pobl i roi caniatâd, sy'n allweddol. Mae'n bwysig iawn nad yw'r rheini sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth yn barnu gallu pobl i wneud penderfyniadau ar eu rhan eu hunain. Mae'n bwysig darparu cefnogaeth iddynt i roi capasiti ychwanegol iddynt. Mae llawer o fanteision i daliadau uniongyrchol. Soniais am ddewis ac rydym wedi siarad am reolaeth, sef pobl yn gallu penderfynu sut y dylai eu hanghenion gael eu diwallu yn eu hamser eu hunain a chan bwy, ac felly'n rheoli'r penderfyniad o ran sut y maent yn cael gafael ar y gefnogaeth honno. Yn benodol, mae hyn yn ymwneud ag annibyniaeth. Mae annibyniaeth yn gwbl hanfodol. Ni ddylai pobl fynd yn ddibynnol ar y wladwriaeth les. Gallant gymryd mantais ohoni, ei defnyddio a defnyddio'r cymorth sydd ar gael, ond mae eu hannibyniaeth yn hanfodol i'w tawelwch meddwl ac, yn achos salwch tymor hir, i adferiad yn y dyfodol. Mae manteision taliadau uniongyrchol yn cael eu tanlinellu fel rhan o hynny, a gobeithio y gallwn symud ymlaen gyda rhywfaint o gonsensws wrth ddweud y gallwn wella'r nifer sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol, ond nad oes raid i ni wneud hynny drwy ddatgymalu'r wladwriaeth les.

**Nick Ramsay:** Rwy'n ddiolchgar i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r ddatl hon. Rwy'n cytuno â llawer o'r hyn a ddywedodd Veronica German yn ei chyfraniad agoriadol. Soniodd am rai materion pwysig iawn a fydd, i fod yn onest, yn debyg o effeithio ar bawb ar ryw adeg neu'i gilydd ac mewn un ffordd neu'r llall.

Mae gan fy mhlaid broblemau gyda chyflymder y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar ddatblygu personoli. Ar ddechrau fy nghyfraniad, hoffwn ddweud fy mod yn bryderus iawn am welliannau'r Llywodraeth i'r cynnig. Nid oes gennyf broblem gyda rhannau cyntaf pwyntiau 1 a 2, ond mae gen i broblem gydag ail ran y pwynt cyntaf, sy'n dweud bod y Llywodraeth yn gwrthod unrhyw ymagwedd sy'n seiliedig ar

markets.

It is not so much the fact that the Minister does not want market involvement that concerns me. I know full well from previous debates in the Chamber that the Government clearly does not want market involvement. I am more concerned about the Assembly Government's continuing obsession with this. We are constantly told that no private money will be put into the NHS or social services, though it is permitted in other areas of Government policy where appropriate. I think that this is distracting from the overall issue, and that Brian Gibbons probably touched on some more credible questions that should be asked than those that were revealed in the Government's amendments. Perhaps Brian should have framed the amendments himself.

It is a very appropriate time for us to be discussing this. After the debate this afternoon, the Multiple Sclerosis Society Cymru partnership is holding an event in the Senedd. I know that representatives from all parties will be speaking at that event. The Multiple Sclerosis Society has pointed out that a number of people are already benefiting from these payments, but it has spoken of the need to expand the benefits of personalisation to others so that the majority of the 150,000 people who receive social care payments in Wales can benefit from increased choice and independence, a point that was made earlier by Veronica German.

That is what is at the heart of this, is it not? This is not about the market, as referred to in the amendment. It is about choice and equity of choice. Who, really, does not believe in choice? Let us face it, the previous UK Labour Government—aside from engaging in reckless spending and other things that I might take issue with—made enormous strides in expanding direct payments and providing additional legislation to make personalisation far more effective. Has that led to a catastrophe in relation to the issues that we heard Brian Gibbons talking about earlier? No, it has not. We have seen people taking control of their own lives, which they should be allowed to do. Just because someone has ended up in a situation that they would not necessarily have chosen, it does

farchnadoedd.

Nid y ffaith nad yw'r Gweinidog yn dymuno i'r farchnad chwarae rhan sy'n peri pryder i mi. Gwn yn dda o ddadleuon blaenorol yn y Siambr nad yw'r Llywodraeth yn amlwg am i'r farchnad chwarae rhan. Rwyf yn fwy pryderus am obsesiwn parhaus Llywodraeth y Cynulliad â hyn. Dywedir wrthym yn gyson na fydd unrhyw arian preifat yn cael ei roi i mewn i'r GIG na'r gwasanaethau cymdeithasol, er ei fod yn cael ei ganiatáu mewn meysydd eraill o bolisi'r Llywodraeth lle y bo'n briodol. Rwy'n credu bod hyn yn tynnu sylw oddi wrth y broblem gyffredinol, a bod Brian Gibbons yn ôl pob tebyg wedi cyffwrdd ar rai cwestiynau mwy credadwy y dylid eu gofyn na'r rhai a ddatgelwyd yng ngwelliannau'r Llywodraeth. Efallai y dylai Brian fod wedi llunio'r gwelliannau ei hun.

Mae'n amserol iawn i ni fod yn trafod hyn. Ar ôl y ddadl y prynhawn yma, mae partneriaeth Cymdeithas Sglerosis Ymledol Cymru yn cynnal digwyddiad yn y Senedd. Gwn y bydd cynrychiolydd o bob plaid yn siarad yn y digwyddiad hwnnw. Mae Cymdeithas Sglerosis Ymledol wedi nodi bod nifer o bobl eisoes yn elwa o'r taliadau hyn, ond soniodd am yr angen i ehangu manteision personoli i eraill fel bod y mwyafrif o'r 150,000 o bobl sy'n derbyn taliadau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gallu elwa ar fwy o ddewis ac annibyniaeth—pwynt a wnaethpwyd yn gynharach gan Veronica German.

Dyna beth sydd wrth wraidd hyn, onid e? Nid yw hyn yn ymwneud â'r farchnad, fel y cyfeirir ato yn y gwelliant. Mae'n ymwneud â dewis a thegwch dewis. Pwy, mewn gwirionedd, nad yw'n credu mewn dewis? Gadewch inni fod yn onest, cymerodd Llywodraeth Lafur flaenorol y DU—ar wahân i wario fel ffyliaid a phethau eraill y gallwn sôn amdanynt—gamau breision o ran ehangu taliadau uniongyrchol a darparu deddfwriaeth ychwanegol i wneud personoli yn llawer mwy effeithiol. A arweiniodd hynny at lanastr mewn perthynas â'r materion y clywsom Brian Gibbons yn siarad amdanynt yn gynharach? Naddo. Gwelsom bobl yn cymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hunain—rhywbeth y dylent gael yr hawl i wneud. Nid yw'r ffaith bod rhywun wedi

not mean that they should be denied the same choice and opportunity that the rest of us benefit from. That it part of civilisation. After all, at the root of personalisation is choice.

This is about thinking about care and support services in a different way, starting with the person as an individual. Those using the services should be at the centre of their own package of care. There are many similarities here with the Assembly Government's agenda in local government. The Minister frequently talks about putting the citizen at the centre of local government and the decision-making process. I agree with that, so why does that not extend into this particular area of locally developed services? It does not make any sense. In many ways, Brian, I think that you can see the sense behind personalisation, and some of the arguments that you put forward against extending it do not hold water.

We have an opportunity here. As I said, this is an important debate. We can have a made-in-Wales approach; I have no problem with that. I have no problem with us doing something here that is different from what is being done in England. We know full well that the Assembly Government is capable of doing that. In the Deputy Minister's response later, she will tell us that she does not agree with what the UK Government is doing nor does she agree with the expansion of direct payments beyond a small number, but I am not convinced, Deputy Minister, that you are putting forward an alternative that will be any better. If I could be convinced that you are, perhaps I would be reassured, as would those out there who could benefit from direct payments and personalisation. At the moment, I am afraid to say that the Assembly Government's made-in-Wales approach is not the made-in-Wales approach that I—or, from listening to the Liberal Democrats' approach, a significant number of Assembly Members in this Chamber—would agree with.

**Jenny Randerson:** I am pleased to take part in this debate. I want to say a word about the Government's amendment, which rejects the

diweddu mewn sefyllfa na fyddent o reidrwydd wedi ei dewis yn golygu y dylid gwadu iddynt yr un dewis a chyfle mae'r gweddill ohonom yn elwa arno. Mae hynny'n rhan o wareiddiad. Wedi'r cyfan, mae dewis wrth wraidd personoli.

Mae hyn yn ymwneud â meddwl am wasanaethau gofal a chymorth mewn ffordd wahanol, gan ddechrau gyda'r person fel unigolyn. Dylai'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau fod wrth wraidd eu pecyn gofal eu hunain. Mae llawer o debygrwydd yma gydag agenda Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer llywodraeth leol. Mae'r Gweinidog yn aml yn sôn am roi'r dinesydd wrth wraidd llywodraeth leol a'r broses gwneud penderfyniadau. Cytunaf â hynny, felly pam nad yw hynny yn ymestyn i'r maes penodol hwn o wasanaethau a ddatblygwyd yn lleol? Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr. Mewn sawl ffordd, Brian, tybiaf y gallwch weld y synnwyr tu ôl i bersonoli, ac nid yw rhai o'r dadleuon roeddech yn eu cyflwyno yn erbyn ei ymestyn yn dal dŵr.

Mae gennym gyfle yma. Fel y dywedais, mae hon yn ddadl bwysig. Gallwn gael ymagwedd a wnaed yng Nghymru; nid oes gennyf broblem gyda hynny. Nid oes gennyf broblem gyda ni yn gwneud rhywbeth yma sy'n wahanol i'r hyn a wneir yn Lloegr. Gwyddom yn iawn fod Llywodraeth y Cynulliad yn gallu gwneud hynny. Yn ymateb y Dirprwy Weinidog yn ddiweddarach, bydd yn dweud wrthym nad yw'n cytuno â'r hyn mae Llywodraeth y DU yn ei wneud nac yn cytuno ag ehangu taliadau uniongyrchol y tu hwnt i nifer fach, ond nid wyf wedi fy argyhoeddi, Ddirprwy Weinidog, eich bod yn cyflwyno dewis gwell arall. Pe gallwn gael fy argyhoeddi o hynny, efallai y byddwn yn dawel fy meddwl, fel y byddai'r rhai allan yna a allai elwa o daliadau uniongyrchol a phersonoli. Ar hyn o bryd, mae arnaf ofn dweud nad yw ymagwedd gwnaed yng Nghymru Llywodraeth y Cynulliad yn ymagedd y byddwn i—na nifer sylweddol o Aelodau'r Cynulliad yn y Siambr, o wrando ar ymagwedd y Democratiaid Rhyddfrydol—yn cytuno ag ef.

**Jenny Randerson:** Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl hon. Rwyf am ddweud gair am welliant y Llywodraeth, sy'n gwrthod yr



market approach. I have news for the Government. The market is intrinsically involved in this across the length and breadth of Wales. Every local authority that I have ever talked to employs private companies to provide care. That is all market based. It is an astonishing amendment in light of that. What I and the Welsh Liberal Democrats would like to see is the kind of good practice that is happening in England, where the third sector is more and more involved in providing that care. That helps to provide another facet to the provision of services that, in Wales, are now overwhelmingly provided by the private sector.

I want to spend some time talking about Brian's contribution. I have great admiration for Brian Gibbons and his intellect, but I did not agree with one word that he said this afternoon. It was an astonishing socialist, centralist and old-fashioned approach. It was worse than paternalistic. He seemed to be saying, 'We know the services are no good but you have to put with it'. That really is an appalling indictment of the way in which the Assembly Government has treated this issue for far too long. Brian talked about pooled risk, and the need for everyone to have a standardised service because that is the way it goes.

When I talk to my constituents, they are just as worried about the services that they get but do not need, as they are about the services that they do not get, but do need. I hear comments such as 'I do not want to get up at that time of the morning, I can manage that bit, but what I desperately need is someone who will go and get my shopping, because I cannot manage that bit'. Think about my 50-year-old constituent who has multiple sclerosis in an advanced stage. She has no use of her lower body and she needs to be got up in the morning, but she faces a problem in the evening. She is 50 years old and they put her to bed at 6 p.m.. That is absolutely ridiculous. The approach is that you cannot have anything else because that is what is on offer.

5.45 p.m.

ymagwedd farchnad. Mae gen i newyddion i'r Llywodraeth. Mae'r farchnad yn rhan gynhenid o hyn ar hyd a lled Cymru. Mae pob awdurdod lleol y siaradais â hwy erioed yn cyflogi cwmnïau preifat i ddarparu gofal. Mae hynny i gyd yn seiliedig ar y farchnad. Mae'n welliant syfrdanol yng ngoleuni hynny. Yr hyn y byddwn i a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn hoffi ei weld yw'r math o arfer da sy'n digwydd yn Lloegr, lle mae'r trydydd sector yn ymwneud yn gynyddol â darparu'r gofal hwnnw. Mae hynny'n helpu i roi elfen arall i ddarparu gwasanaethau sydd bellach yn cael eu darparu gan y sector preifat yn bennaf yng Nghymru.

Rwyf am dreulio rhywfaint o amser yn siarad am gyfraniad Brian. Mae gennyf edmygedd mawr i Brian Gibbons a'i ddeallusrwydd, ond ni chytunais â gair a ddywedodd y prynhawn yma. Roedd ganddo ymagwedd ryfeddol o sosialaidd, ganoliaethol a hen-ffasiwn. Roedd yn waeth na nawddoglyd. Ymddengys ei fod yn dweud, 'Gwyddom fod y gwasanaethau yn dda i ddim ond rhaid i chi eu dioddef'. Mae hynny'n adlewyrchiad gwarthus o'r ffordd mae Llywodraeth y Cynulliad wedi trin y mater hwn ers llawer rhy hir. Soniodd Brian am risg ar y cyd, a'r angen i bawb gael gwasanaeth safonedig oherwydd dyna fel y mae.

Pan fyddaf yn siarad â'm hetholwyr, maent yr un mor bryderus am y gwasanaethau maent yn eu cael ond nad ydynt eu hangen ag y maent am y gwasanaethau nad ydynt yn eu cael, ond y mae arnynt eu hangen. Rwy'n clywed sylwadau fel 'Dw i ddim eisiau codi yr adeg yna yn y bore, gallaf reoli'r rhan honno, ond yr hyn rydw'i daer ei angen yw rhywun i wneud neges i mi, oherwydd ni allaf reoli'r rhan honno'. Meddyliwch am fy etholwr 50 oed sydd â sglerosis ymlledol mewn cyfnod datblygedig. Nid oes ganddi unrhyw ddefnydd o ran isaf ei chorff ac mae angen ei chodi yn y bore, ond mae'n wynebu problem gyda'r nos. Mae'n 50 oed ac mae'n cael ei rhoi i'w gwely am 6 p.m.. Mae hynny'n gwbl hurt. Yr ymagwedd yw na allwch gael unrhyw beth arall gan mai dyna beth sydd ar gael.

**Brian Gibbons:** Will you take an intervention?

**Jenny Randerson:** No, I am not going to take an intervention from you, Brian, because I sat and listened very carefully to you without intervening. What the Government needs to take into account is the fact that people actually want to take responsibility. This lady wants to take responsibility for her care. She wants to be able to make decisions for herself. The fact that someone has lost the use of some of their limbs does not mean that they have lost the use of their brain. They like the opportunity to exercise their brains and to take the sort of decisions that are still within their control. The Government needs to take a much better approach to this.

I will give you another example; there are numerous examples of this. There is a young girl, known to Scope, who is about 20 years old and a wheelchair user. The only services available to her are among elderly people. The other people in the day centre she uses were worried about her use of her electric wheelchair. Therefore, she was banned from using her electric wheelchair in case she lost control of it and because it frightened the older people. That young woman needs a service that enables her to get out to mix with people of her own age so that she is not trapped in a situation where she can only mix with older people and has to use services provided for disabled people. She needs to be getting out with the rest of the community and enabled to participate with young people of her own age. I urge the Minister to take a wider view than Brian Gibbons did, to take a more imaginative approach and to accept that people will be able to control their own services. Just in case people think that I am talking simply from theory and what other people have told me, I had years of experience, some years ago, of dealing with providing personalised services for my stepfather. I did that long distance for some years, and it is possible to do it. It is possible to do it cost-effectively and to provide the services that the person concerned needs and wants.

**Brian Gibbons:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Jenny Randerson:** Na, ni dderbyniaf ymyriad gennyh, Brian, oherwydd rwyf wedi eistedd a gwrando'n ofalus iawn arnoch chi heb ymyrryd. Yr hyn mae angen i'r Llywodraeth ei ystyried yw'r ffaith bod pobl wir yn awyddus i gymryd cyfrifoldeb. Mae'r wraig hon eisiau cymryd cyfrifoldeb am ei gofal. Mae eisiau gallu gwneud ei phenderfyniadau ei hun. Nid yw'r ffaith nad yw rhywun yn gallu defnyddio rhai aelodau yn golygu eu bod wedi colli'r defnydd o'u hymennydd. Maent yn hoffi cael y cyfle i ddefnyddio'u hymennydd ac i wneud y math o benderfyniadau sydd dal o fewn eu rheolaeth. Mae angen i'r Llywodraeth gymryd ymagwedd lawer gwell at hyn.

Rhoddaf enghraifft arall i chi; mae sawl enghraifft o hyn. Gwn am ferch ifanc, mae Scope yn gyfarwydd â hi, sydd tua 20 mlwydd oed ac sy'n defnyddio cadair olwyn. Mae'r unig wasanaethau sydd ar gael iddi ymysg pobl oedranus. Roedd y bobl eraill yn y ganolfan ddydd mae hi'n ei defnyddio yn poeni am ei defnydd o gadair olwyn drydan. Felly, cafodd ei gwahardd rhag defnyddio ei chadair olwyn trydan rhag ofn iddi golli rheolaeth ohoni ac oherwydd ei bod yn codi ofn ar y bobl hyn. Mae'r ferch ifanc honno angen gwasanaeth sy'n ei galluogi i fynd allan i gymysgu gyda phobl ei hoed ei hun fel nad yw'n cael ei dal mewn sefyllfa lle nad yw ond yn cymysgu gyda phobl hyn ac yn gorfod defnyddio gwasanaethau a ddarperir i bobl anabl. Mae angen iddi fynd allan gyda gweddill y gymuned a'u galluogi i gymryd rhan gyda phobl ifanc o'r un oed â hi. Rwyf yn annog y Gweinidog i gymryd golwg ehangach nag y gwnaeth Brian Gibbons, i gymryd ymagwedd fwy dychmygus a derbyn y bydd pobl yn gallu rheoli eu gwasanaethau eu hun. Rhag ofn i bobl feddwl fy mod yn siarad yn haniaethol a'r hyn a ddywedodd pobl eraill wrthyf, roedd gennyf flynyddoedd o brofiad, rai blynyddoedd yn ôl, o ddelio â darparu gwasanaethau personol i'm llystad. Gwnethum hynny o bellter am flynyddoedd, ac mae'n bosibl i'w wneud. Mae'n bosibl ei wneud yn gost-ffeithiol ac i ddarparu'r gwasanaethau mae'r person dan sylw eu hangen ac yn eu dymuno.

**Mark Isherwood:** The Welsh Conservatives believe in independent living, reducing hospital admissions and extending the direct payments scheme, which allows people to control their own care budgets. We believe this because disabled people themselves tell us that they want to be in control. They told me this when I spoke at the Disability Wales conference, launching the Independent Living NOW! campaign for Wales, when I chaired a Multiple Sclerosis Society conference in north Wales, when I chaired a panel debate at the Mind Cymru personalisation seminar in Wrexham, when I chaired the motor neurone disease study day at Llandudno Junction, and when I met people from Voice UK, a self-advocacy group for adults with learning difficulties in Wrexham. Of course, they do not want a compulsory scheme; neither do we. However, they want freedom to choose. Personalisation means thinking about care and support services in an entirely different way, putting the person as an individual at the centre of the process of identifying their needs and making choices about what they need, who should provide it and how and when they are supported to live their lives.

It requires the transformation of adult social care so that systems, processes, staff and services are geared up to put people first. The traditional service-led approach has often meant that people have not received the right help at the right time and have been unable to shape the sort of support they need. Personalisation goes well beyond simply giving personal budgets to eligible people. It means addressing the needs and aspirations of whole communities, ensuring that everyone has access to the right information, advice and advocacy to make good decisions about the support they need, delivering wider choice with regard to how needs are met and universal services are accessed, regardless of age or disability.

Local authorities have been able to offer direct payments since 1996. The UK Government developed and expanded direct

**Mark Isherwood:** Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu mewn byw'n annibynnol, lleihau derbyniadau i'r ysbyty ac ymestyn y cynllun taliadau uniongyrchol, sy'n galluogi pobl i reoli eu cyllidebau gofal eu hunain. Rydym yn credu hyn oherwydd bod pobl anabl eu hunain yn dweud wrthym eu bod eisiau bod mewn rheolaeth. Roeddynt yn dweud hynny wrthyf pan oeddwn yn siarad yng nghynhadledd Anabledd Cymru, yn lansio'r Ymgyrch Byw'n Annibynnol NAWR! i Gymru, pan oeddwn yn cadeirio cynhadledd y Gymdeithas Sglerosis Ymledol yn y gogledd, pan oeddwn yn cadeirio trafodaeth panel yn seminar bersonoli Mind Cymru yn Wrecsam, pan oeddwn yn cadeirio diwrnod astudio clefyd niwronau motor yng Nghyffordd Llandudno, a phan gyfarfûm â phobl o Voice UK, grŵp hunan-eiriolaeth i oedolion ag anawsterau dysgu yn Wrecsam. Wrth gwrs, nid ydynt am gael cynllun gorfodol; na ninnau chwaith. Fodd bynnag, maent am fod yn rhydd i ddewis. Mae personoli'n golygu meddwl am wasanaethau gofal a chymorth mewn ffordd hollol wahanol, gan roi'r person fel unigolyn yng nghanol y broses o nodi eu hanghenion a gwneud dewisiadau am yr hyn sydd ei angen arnynt, pwy ddylai ei ddarparu a sut a phryd maent yn cael eu cefnogi i fyw eu bywydau.

Mae'n gofyn am drawsnewid gofal cymdeithasol i oedolion fel bod systemau, prosesau, staff a gwasanaethau yn gallu rhoi pobl yn gyntaf. Mae'r dull traddodiadol a arweinir gan wasanaeth wedi golygu'n aml nad yw pobl wedi cael yr help cywir ar yr adeg gywir ac wedi methu â dylanwadu ar y math o gymorth maent ei angen. Mae personoli yn mynd ymhell tu hwnt i roi cyllidebau personol i bobl gymwys. Mae'n golygu mynd i'r afael ag anghenion a dyheadau cymunedau cyfan, gan sicrhau bod mynediad gan bawb i'r wybodaeth, cyngor ac eiriolaeth gywir i wneud penderfyniadau da am y cymorth sydd ei angen arnynt, gan roi dewis ehangach o ran sut mae eu hanghenion yn cael eu diwallu a gwasanaethau cyffredinol yn cael eu defnyddio, waeth beth fo'u hoedran nag anabledd.

Mae awdurdodau lleol wedi gallu cynnig taliadau uniongyrchol ers 1996. Datblygodd ac ehangodd Llywodraeth y DU daliadau

payments with additional legislation, and, in Wales, regulations in 2004 and 2006 have framed the current system. People eligible for direct payments are adults who have been assessed as needing community care services, disabled children and young people between the ages of 16 and 18 with short-term and long-term needs, a person with parental responsibility for a disabled child, a disabled person with parental responsibility for a child, and carers in place of receiving carers services. However, out of 150,000 people receiving support from local authorities in March 2009, fewer than 2,000 were receiving direct payments. The Deputy Minister has since stated that this has risen to 2,500. However, when I chaired the MS Society conference in north Wales, figures from the Cheshire Centre for Independent Living revealed that a single border county in England had as many direct payment recipients as the whole of Wales. The former and current UK Governments have planned to offer everyone in England who receives social care support a personal budget by this month, while the Health Act 2009 means that direct payments can be rolled out into healthcare in England. MS Society Cymru is concerned that Wales is lagging behind the personalisation agenda, because direct payments give people choice, allowing them to make more of the decisions that affect their lives. They also enable people to purchase care that suits their individual needs, and give them the control to decide how their needs will be met, by whom and at what time.

People may not always find social services flexible enough to respond to their needs. Some may feel that services lack continuity. They may find that the care worker arranged by the local authority cannot come at the time that they want. It can be difficult for individuals to talk about their own personal experiences of social care. The problem is that disabled adults are concerned that, if they choose to use direct payments, they will not receive advice or support from local authorities. Therefore, local authorities should actively support individuals to use direct payments. They have a legal obligation

uniongyrchol gyda deddfwriaeth ychwanegol, ac, yng Nghymru, mae rheoliadau yn 2004 a 2006 wedi ffurfio'r system gyfredol. Y bobl sy'n gymwys i gael taliadau uniongyrchol yw oedolion a aseswyd fel rhai ag arnynt angen gwasanaethau gofal yn y gymuned, plant a phobl ifanc anabl rhwng 16 a 18 oed gydag anghenion tymor byr a hirdymor, person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn anabl, a person anabl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn, a gofalwyr yn lle cael taliad gwasanaethau gofalwyr. Fodd bynnag, allan o 150,000 o bobl a oedd yn derbyn cymorth gan yr awdurdodau lleol ym mis Mawrth 2009, roedd llai na 2,000 yn derbyn taliadau uniongyrchol. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi dweud ers hynny bod hyn wedi codi i 2,500. Fodd bynnag, pan oeddwn yn cadeirio cynhadledd Cymdeithas MS yn y gogledd, roedd ffigurau o Ganolfan Byw'n Annibynnol swydd Gaer yn dangos bod gan un sir ar y ffin yn Lloegr gymaint o dderbynwyr taliadau uniongyrchol ag oedd gan Gymru gyfan. Mae Llywodraethau blaenorol a chyfredol y DU wedi bwriadu cynnig cyllideb bersonol i bawb yn Lloegr sy'n derbyn cymorth gofal cymdeithasol erbyn y mis hwn, tra bo Deddf Iechyd 2009 yn golygu y gellir cyflwyno taliadau uniongyrchol mewn gofal iechyd yn Lloegr. Mae Cymdeithas MS Cymru yn pryderu bod Cymru yn llusgo tu ôl i'r agenda bersonoli, oherwydd mae taliadau uniongyrchol yn rhoi dewis i bobl, gan eu galluogi i wneud mwy o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Maent hefyd yn galluogi pobl i brynu gofal sy'n addas i'w hanghenion unigol, ac yn rhoi rheolaeth iddynt benderfynu sut y bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu, gan bwy a phryd.

Efallai nad yw pobl bob amser yn canfod fod gwasanaethau cymdeithasol yn ddigon hyblyg i ymateb i'w hanghenion. Efallai y bydd rhai yn teimlo bod diffyg parhad mewn gwasanaethau. Efallai y byddant yn canfod na all y gweithiwr gofal a drefnwyd gan yr awdurdod lleol ddod ar yr adeg maent ei eisiau. Gall fod yn anodd i unigolion siarad am eu profiadau personol o ofal cymdeithasol. Y broblem yw bod oedolion anabl yn poeni, os byddant yn dewis defnyddio taliadau uniongyrchol, na fyddant yn derbyn cyngor neu gymorth gan awdurdodau lleol. Felly, dylai awdurdodau

to offer them, but the Welsh Government should make local authorities actively encourage take-up. There needs to be a consistent level of support across the 22 local authorities so that individuals do not feel as if they are on their own.

I spoke at last week's launch, in the Assembly, of the Disability Wales manifesto for independent living, which highlights the main barriers to independent living faced by disabled people and the importance of giving disabled people more choice and control over their lives. For this Welsh Government to misdescribe this as a supermarket approach is, I fear, controlling, patronising and offensive for those who should be receiving these payments.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 5.52 p.m.  
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 5.52 p.m.*

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** Thank you for the cough sweet, Deputy Presiding Officer. I apologise for the disruption.

I reject the motion tabled by Peter Black, which appears to see personal budgets as an unmitigated good. This is far too simplistic. The motion refers to personal budgets, patients and health professionals. That is the motion to which I am being asked to respond, but the contributions made have focused more on social services. That is fine, because I believe in integration. I will refer to social services shortly, but, in response to the motion, I will first say a few words about the NHS.

We do not see a place for personalised budgets in the Welsh NHS. We see little evidence that people want them, and few obvious benefits. Our aim is to strengthen the performance of the NHS by improving integration. We do not want to risk taking money out of services and creating additional complications at a time when the pressure on resources is particularly intense.

lleol roi pob cymorth i unigolion ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnynt i'w gynnig iddynt, ond dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn mynd ati i annog pobl i fanteisio arnynt. Mae angen lefel gyson o gymorth ar draws y 22 awdurdod lleol fel nad yw unigolion yn teimlo fel pe baent ar eu pen eu hunain.

Siaradais yr wythnos diwethaf yn y Cynulliad yn lansiad maniffesto Anabledd Cymru ar gyfer byw'n annibynnol, sy'n tynnu sylw at y prif rwystrau i fyw'n annibynnol a wynebwr gan bobl anabl a phwysigrwydd rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl anabl dros eu bywydau. Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn camddisgrifio hyn fel ymagwedd dull archfarchnad, mae gennyf ofn, yn rheolaethol, nawddoglyd a sarhaus i'r rhai a ddylai fod yn derbyn y taliadau hyn.

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Diolch i chi am y losin peswch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ymddiheuro am y tarfu.

Rwy'n gwrthod y cynnig a gyflwynwyd gan Peter Black, sy'n ymddangos fel pe bai'n ystyried cyllidebau personol fel rhywbeth sy'n gyfan gwbl dda. Mae hyn yn llawer rhy syml. Mae'r cynnig yn cyfeirio at gyllidebau personol, cleifion a gweithwyr iechyd proffesiynol. Dyna'r cynnig y gofynnir i mi ymateb iddo, ond mae'r cyfraniadau a wnaed wedi canolbwyntio mwy ar wasanaethau cymdeithasol. Mae hynny'n iawn, am fy mod yn credu mewn integreiddio. Byddaf yn cyfeirio at wasanaethau cymdeithasol cyn bo hir, ond, mewn ymateb i'r cynnig, dywedaf ychydig eiriau yn gyntaf am y GIG.

Nid ydym yn gweld lle i gyllidebau personol yn y GIG yng Nghymru. Ni welwn lawer o dystiolaeth bod pobl eu heisiau, a fawr o fanteision amlwg. Ein nod yw cryfhau perfformiad y GIG drwy wella integreiddio. Nid ydym am fentro tynnu arian allan o wasanaethau a chreu cymhlethdodau ychwanegol ar adeg pan fo'r pwysau ar adnoddau yn arbennig o ddwys.

The Welsh analysis is different, as Wales is different. Our concern is that the market will shift power to providers, driven primarily by profit and market circumstance. It will fragment services and increase transaction costs. Our alternative vision is to build up reliable and integrated services based on a strong ethic of public service and clear public accountability.

I do not suppose that you have picked up the recent report by the Social Care Institute for Excellence, entitled 'Keeping personal budgets personal', providing a summary of people's experience of using self-directed support in England. I think that you should all have a look at it. The report reinforces our view that, although methods of self-directed support such as individual budgets and direct payments can provide real benefits to some individuals—I see no reason why any of the individual circumstances mentioned during the debate should stop direct payments from getting to those people if they want to receive them—direct payments are certainly not appropriate in all cases.

The report also finds that, across all the case study areas, even those with a long history of receiving direct payments, individual budgets and personal budgets, there was a strong view that the supply of services was not keeping up with the changing needs and preferences of personal budget holders in England. This shows the limitations of a market-led model, and it would be a particular issue for rural parts of Wales—particularly Gwauncaegurwen, where I live—should we adopt that approach.

**Nick Ramsay:** Thank you for giving way, Deputy Minister. Do you not think that at the heart of this is the fact that the Assembly Government wants to keep control of the choices of people receiving these payments, rather than allowing those people to exercise that choice, which they are able to do in England? Would it not be better if they could do that in Wales?

**Gwenda Thomas:** Indeed not, and I am

Mae'r dadansoddiad Cymreig yn wahanol, gan fod Cymru yn wahanol. Ein pryder yw y bydd y farchnad yn symud pŵer i ddarparwyr, sy'n cael eu gyrru'n bennaf gan elw ac amgylchiadau'r farchnad. Bydd yn gwneud gwasanaethau yn dameidiog ac yn cynyddu costau trafodion. Ein gweledigaeth amgen yw datblygu gwasanaethau dibynadwy ac integredig sy'n seiliedig ar foesege cryf o wasanaeth cyhoeddus ac atebolrwydd clir cyhoeddus.

Nid wyf yn tybio eich bod wedi sylwi ar adroddiad diweddar gan y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth, o'r enw 'Cadw cyllidebau personol yn bersonol', sy'n crynhoi profiad pobl o ddefnyddio cymorth hunangyfeiriedig yn Lloegr. Credaf y dylai pob un ohonoch edrych arno. Mae'r adroddiad yn atgyfnerthu ein barn ni, sef er y gall ffyrdd o gymorth hunan-gyfeiriedig fel cyllidebau unigol a thaliadau uniongyrchol fod o fantais gwirioneddol i rai unigolion—ni welaf unrhyw reswm pam y dylai unrhyw un o'r amgylchiadau unigol a grybwyllwyd yn ystod y ddadl atal taliadau uniongyrchol rhag cyrraedd y bobl hynny os ydynt eisiau eu derbyn—nid yw taliadau uniongyrchol yn sicr yn briodol ym mhob achos.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi, ar draws holl ardaloedd yr astudiaeth achos, hyd yn oed y rhai sydd â hanes hir o dderbyn taliadau uniongyrchol, cyllidebau unigol a chyllidebau personol, fod barn gref nad oedd cyflenwad gwasanaethau yn dal i fyny ag anghenion newidiol a dewisiadau deiliaid cyllideb bersonol yn Lloegr. Mae hyn yn dangos cyfyngiadau model a arweinir gan y farchnad, a byddai'n broblem benodol i rannau gwledig o Gymru—yn enwedig Gwauncaegurwen, lle rwyf yn byw—pe baem yn mabwysiadu'r dull hwnnw.

**Nick Ramsay:** Diolch i chi am ildio, Ddirprwy Weinidog. Onid ydych yn meddwl mai gwreiddyn hyn yw'r ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i gadw rheolaeth ar ddewisiadau pobl sy'n derbyn y taliadau hyn, yn hytrach na chaniatáu i'r bobl hynny arfer y dewis hwnnw, y maent yn gallu ei wneud yn Lloegr? Oni fyddai'n well pe gallent wneud hynny yng Nghymru?

**Gwenda Thomas:** Dim o gwbl, ac mae'n

sorry that you were not able to attend my briefing on the paper, but I know that you have read it because you have indicated your support for it. The paper sets out a clear direction for social services for the next decade, and we are committed to supporting direct payments and increasing their take-up. Indeed, through legislation, we have extended the right to a direct payment for people who lack capacity. That is commitment indeed.

Turning to social services, we are also taking our own course in this area. Social services are, by their nature, more tailored to individuals, and they are likely to need to be fashioned to fit around people's lives. This was a key message in our paper on the future of social services in Wales. We can see this issue in a broader context in Wales. We want to give individuals more control—that may well be done through having control over the money to buy their own services—but we also want people to be supported in making that choice. That is key to making a success of this process for people.

We accept that there may be a place for personal budgets in Wales in the context of social care, but I do not want to see us adopting the approach being rolled out in England, whereby all users of adult social services are required to have a personal budget by 2013. Enforcing personal budgets on individuals who do not want them will not extend choice—it will remove it.

We must also recognise that, in some areas, particularly in some rural communities—I have already mentioned the SCIE report—there will not always be a choice of provider. I pick up on Jenny's point here. There will not be a choice of providers in some rural areas, Jenny, and we need that base of public delivery as well so that people can have a choice where it is available. In these cases, it is unrealistic to imagine that the market alone will provide a range of providers, as the populations will not be large enough to sustain them.

ddrwg gennyf nad oeddech yn gallu bod yn fy sesiwn friffio ar y papur, ond gwn eich bod wedi ei ddarllen gan eich bod wedi dangos eich cefnogaeth iddo. Mae'r papur yn nodi cyfeiriad clir i wasanaethau cymdeithasol am y degawd nesaf, ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi taliadau uniongyrchol a chodi'r niferoedd sy'n manteisio arnynt. Yn wir, drwy ddeddfwriaeth, rydym wedi ymestyn yr hawl i bobl nad oes ganddynt y capasiti i gael taliad uniongyrchol. Dyna yw gwir ymrwymiad.

Gan droi at wasanaethau cymdeithasol, rydym hefyd yn dilyn ein llwybr ein hunain yn y maes hwn. Mae gwasanaethau cymdeithasol o ran eu natur wedi eu teilwra fwy i unigolion, ac mae'n debyg y bydd angen eu teilwra i gydfynd â bywydau pobl. Roedd hyn yn neges allweddol yn ein papur ar ddyfodol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Gallwn weld y mater hwn mewn cyd-destun ehangach yng Nghymru. Rydym am roi mwy o reolaeth i unigolion—efallai y gellir gwneud hynny drwy reoli'r arian i brynu eu gwasanaethau eu hunain—ond rydym hefyd am i bobl gael eu cefnogi wrth wneud y dewis hwnnw. Mae hynny'n allweddol i sicrhau bod y broses hon yn llwyddiant i bobl.

Rydym yn derbyn y gall fod lle i gyllidebau personol yng Nghymru yng nghyd-destun gofal cymdeithasol, ond nid wyf am ein gweld yn mabwysiadu'r dull sy'n cael ei gyflwyno yn Lloegr, lle mae gofyn i holl ddefnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol i oedolion gael cyllideb personol erbyn 2013. Ni fydd gorfodi cyllidebau personol ar unigolion nad ydynt eu heisiau yn ymestyn dewis—bydd yn ei dynnu oddi arnynt.

Rhaid inni hefyd gydnabod, mewn rhai ardaloedd, yn enwedig mewn rhai cymunedau gwledig—rwyf eisoes wedi sôn am adroddiad y sefydliad—ni fydd dewis o ddarparwr bob amser. Rwy'n tynnu sylw at bwynt Jenny yma. Ni fydd dewis o ddarparwyr mewn rhai ardaloedd gwledig, Jenny, ac mae angen y sylfaen honno o ddarpariaeth gyhoeddus yn ogystal fel y gall pobl gael dewis lle bynnag y bo ar gael. Yn yr achosion hyn, nid yw'n realistig dychmygu y bydd y farchnad ynddi ei hun yn darparu ystod o ddarparwyr, gan na fydd y

poblogaethau yn ddigon mawr i'w cynnal.

Our direct payments scheme already enables local authorities to offer cash payments to an individual so that they can purchase their own social care services, excluding residential care, to meet their assessed care needs in a way that best meets their individual circumstances. Whether or not a person wishes to take up a direct payment offer is a decision for each individual to make and we want to see the use of direct payments extended in Wales.

6.00 p.m.

As a first step, as I said, we have taken action to extend direct payments to people who lack capacity. We recognise the importance of individually tailored care services and we are taking action to develop this approach in Wales. However, we must also recognise that it is too simplistic to view personal budgets as the easy answer to the problem. We must develop these services in a way that offers service users a greater voice and control without fragmenting services or placing an unwelcome burden on service users.

**Kirsty Williams:** I thank all my colleagues for their contributions this afternoon to a fundamental and important debate, which has demonstrated that there are significant differences of philosophy in the approach to these questions here. From my perspective, the debate has in some ways resembled the sketch on *Little Britain* with the administrator who sits behind the computer and says, 'No. The computer says no'. In this case, it is all about clients saying, 'Actually, I don't want my get-up call to be at 7 a.m.', and the response is, 'No, sorry. The system says no'. The client says, 'Actually, I don't want my lunch call at 11.30 a.m.', and the response is, 'No, sorry. Brian Gibbons says no'. The client says, 'I don't want my bedtime call to be at 7 p.m.', and the response is, 'No, sorry. The system says no'. This has to be about designing a care system that says 'yes' to the individual aspirations and needs of the people who depend upon it.

Mae ein cynllun taliadau uniongyrchol eisoes yn galluogi awdurdodau lleol i gynnig taliadau arian parod i unigolyn fel y gallant brynu eu gwasanaethau gofal cymdeithasol eu hunain, ac eithrio gofal preswyl, i ddiwallu eu hanghenion gofal a aseswyd mewn ffordd sy'n bodloni eu hamgylchiadau unigol. Mater i'r unigolyn yw derbyn taliadau uniongyrchol neu beidio, ac rydym am weld y defnydd o daliadau uniongyrchol yn cael ei ymestyn yng Nghymru.

Fel cam cyntaf, fel y dywedais, rydym wedi cymryd camau i ymestyn taliadau uniongyrchol i bobl a chanddynt ddiffyg capasiti. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau gofal wedi'u teilwra i'r unigolyn, ac rydym yn cymryd camau i ddatblygu'r dull hwn yng Nghymru. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd gydnabod ei bod yn rhy syml i feddwl am gyllidebau personol fel yr ateb hawdd i'r broblem. Rhaid inni ddatblygu'r gwasanaethau hyn mewn modd sy'n cynnig mwy o lais a'r gallu i reoli i ddefnyddwyr gwasanaeth heb ddarnio'r gwasanaethau na gosod baich annerbyniol ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

**Kirsty Williams:** Diolch i fy holl gyd Aelodau am eu cyfraniadau y prynhawn yma i ddadl sylfaenol a phwysig, sydd wedi dangos bod gwahaniaethau sylweddol o ran athroniaeth yn y dull o ddelio â'r cwestiynau hyn. I mi, mae'r ddadl, mewn rhai ffordd, wedi bod yn debyg i'r sgetsh ar *Little Britain* lle mae gweinyddwr yn eistedd y tu ôl i gyfrifiadur yn dweud, 'No. The computer says no'. Yn yr achos hwn, mae cleientiaid yn dweud, 'A dweud y gwir, dydw i ddim eisiau fy ngalwad i godi am 7 a.m.', a'r ymateb yw, 'Na, mae'n ddrwg gennyf. Mae'r system yn dweud na'. Mae'r cleient yn dweud, 'A dweud y gwir, dydw i ddim eisiau fy ngalwad i ginio am 11.30 a.m.', a'r ymateb yw, 'Na, mae'n ddrwg gennyf. Mae Brian Gibbons yn dweud na'. Mae'r cleient yn dweud, 'Dydw i ddim eisiau fy ngalwad amser gwely am 7 p.m.', a'r ymateb yw, 'Na, mae'n ddrwg gennyf. Mae'r system yn dweud na'. Mae'n rhaid i hyn ymwneud â dylunio system ofal sy'n dweud 'ie' i



ddyheadau ac anghenion unigol y bobl sy'n dibynnu arni.

To respond to Gwenda's point about the NHS, I understand her concerns and there are many aspects of the national health service where a personalised approach is not appropriate, but my colleague Veronica German gave the appropriate example of the continuing care budget. If someone is under the social services care budget, they can potentially look to direct payments. Continuing care is run by the NHS, but would often deal with similar issues to those of someone who is in receipt of a social care package. All of a sudden, the opportunity for individualisation and personalisation is lost.

I ymateb i bwynt Gwenda am y GIG, rwy'n deall ei phryderon ac mae llawer o agweddau ar y gwasanaeth iechyd gwladol lle nad yw dull wedi'i bersonoli yn briodol, ond rhoddodd fy nghyd Aelod Veronica German enghraifft briodol o gyllideb gofal parhaus. Gall rhywun a ddaw dan gyllideb ofal gwasanaethau cymdeithasol ystyried taliadau uniongyrchol. Mae gofal parhaus yn cael ei redeg gan y GIG, ond yn aml byddai'n delio â materion tebyg i'r rhai sy'n berthnasol i bobl sy'n derbyn pecyn gofal cymdeithasol. Yn sydyn, mae'r cyfle i ddelio â'r unigolyn a gwneud y cynllun un un personol yn cael ei golli.

Gwenda spent a lot of time talking about the needs of rural communities. I am tempted to say, as someone who represents the largest constituency here, that I know that personalised care and greater use of direct payments are perfectly appropriate in rural settings—in fact, even more so—and can respond in a way traditional services cannot, especially to those who live in deep rural areas.

Treuliodd Gwenda lawer o amser yn siarad am anghenion cymunedau gwledig. Caf fy nhemtio i ddweud, fel rhywun sy'n cynrychioli'r etholaeth fwyaf yma, fy mod yn gwybod bod gofal personol a mwy o ddefnydd o daliadau uniongyrchol yn berffaith briodol mewn lleoliadau gwledig—mewn gwirionedd, hyd yn oed yn fwy felly—a'u bod yn gallu ymateb mewn ffordd na all gwasanaethau traddodiadol, yn enwedig i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig anghysbell.

Gwenda said that there is nothing to stop people in Wales from taking up direct payments. I will give you two examples of ludicrous situations in which constituents of mine have found themselves. A young man with profound learning and physical disabilities was fostered by his grandparents when his mother felt that she could no longer cope. Those foster parents have been financially assisted by the state to care for that individual. He has now turned 19. He wants to remain at home, the only home that he has ever known, with his grandparents, and he wants to be in receipt of direct payments so that he can pay his grandmother for the services that she provides for him. The system says 'no'. The system says that he can go into supported accommodation and live with people whom he has never met before in his life. He does not want to do that. The system says that it will pay for someone to come round to the house and do these jobs for him. He does not want that. He wants to

Dyweddodd Gwenda nad oes dim i atal pobl yng Nghymru rhag manteisio ar daliadau uniongyrchol. Rhoddaf ddwy enghraifft i chi o sefyllfaoedd chwerthinllyd mae etholwyr i mi wedi dod ar eu traws. Cafodd dyn ifanc ag anableddau dysgu a chorfforol dwys ei faethu gan ei daid a'i nain pan oedd ei fam yn teimlo nad oedd yn gallu ymdopi mwyach. Mae'r rhieni maeth hynny wedi cael cymorth ariannol gan y wladwriaeth i ofalu am yr unigolyn hwnnw. Mae bellach wedi troi'n 19. Mae am aros yn ei gartref—yr unig gartref iddo ei adnabod erioed—gyda'i nain a'i daid, ac mae am dderbyn taliadau uniongyrchol er mwyn iddo allu talu ei nain am y gwasanaethau a ddarperir ganddi. Mae'r system yn dweud 'na'. Mae'r system yn dweud y caiff fynd i lety â chymorth a byw gyda phobl nad yw erioed wedi cwrdd â nhw o'r blaen. Nid yw am wneud hynny. Mae'r system yn dweud y bydd yn talu i rywun ddod i'r tŷ i wneud y gwaith hwn drosto. Nid yw am iddynt wneud hynny. Mae'n awyddus

be able to pay the carers whom he wants to provide services for him and it has literally taken years and the discovery of a certain legal loophole—I hope that I am not getting the council into trouble here, because I commend it for finding that loophole—to allow that to happen.

Another constituent of mine has Parkinson's disease and wants to employ the carers who previously looked after him. The company that employed them withdrew from the area, but he wanted to enter into a private arrangement with the three women who had cared for him over recent years because Powys County Council could not provide carers at a time that was appropriate for him and kept sending different people around on different days of the week. It has again literally taken years to find a way to allow that to happen. Gwenda, you say that there is no reason why people cannot take up direct payments. Tell that to my constituents. Tell that to the social workers who work in Wales who have previously worked in England, who say that if they were working in England they could have sorted it out overnight. We have had to spend years struggling and fighting to get my constituents the care packages that they need.

Quite reasonably, given the times that we are in, Brian talked about sustainability and cost. I refer him to paragraphs 4.37 and 4.38 of the report of the Independent Commission on Social Services in Wales, which state that:

'There is good evidence that increased involvement in the design of support arrangements improves user and carer satisfaction with outcomes and often makes better and more creative use of available resources; the resources go further because people are able to mobilise their own support. Given a choice, many service users do not choose traditional forms of service, but options offering greater flexibility and independence. Even within existing services, people using services can often suggest improvements and better use of resources.'

i allu talu gofalwyr y mae'n eu dewis i ddarparu'r gwasanaethau iddo, ac mae'n llythrennol wedi cymryd blynyddoedd, ynghyd â darganfod twll cyfreithiol, i ganiatáu i hynny ddigwydd—rwy'n gobeithio na fydd y cyngor mewn trwbwl am imi ddweud hynny, oherwydd rwy'n ei gymeradwyo am ddod o hyd i'r twll hwnnw.

Mae gan etholwr arall imi glefyd Parkinson ac mae'n awyddus i gyflogi'r gofalwyr a arferai edrych ar ei ôl. Mae'r cwmni a oedd yn eu cyflogi wedi eu symud o'r ardal, ond roedd fy etholwr eisiau mynd i drefniant preifat gyda'r tair menyw a oedd wedi gofalu amdano dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd na allai Cyngor Sir Powys ddarparu gofalwyr ar adeg a oedd yn briodol iddo a'i fod yn anfon gwahanol bobl ato ar ddiwrnodau gwahanol o'r wythnos. Unwaith eto, mae wedi cymryd blynyddoedd i ddod o hyd i ffordd o ganiatáu i hynny ddigwydd. Gwenda, rydych yn dweud nad oes unrhyw reswm pam na all pobl fanteisio ar daliadau uniongyrchol. Dywedwch hynny wrth fy etholwyr. Dywedwch hynny wrth y gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio yng Nghymru sydd wedi gweithio yn Lloegr yn y gorffennol sy'n dweud y byddent, pe baent yn gweithio yn Lloegr, wedi gallu datrys y mater dros nos. Bu'n rhaid i ni dreulio blynyddoedd yn gweithio'n galed ac yn ymladd i gael y pecynnau gofal sydd eu hangen ar fy etholwyr.

Yn eithaf rhesymol, o ystyried y sefyllfa sydd ohoni, siaradodd Brian am gynaliadwyedd a chost. Fe'i cyfeiriaf at baragraffau 4.37 a 4.38 o adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, sy'n datgan bod

'tystiolaeth dda fod cyfranogi cynyddol yn y broses o gynllunio trefniadau cymorth yn gwella boddhad defnyddwyr a gofalwyr o ran canlyniadau ac yn aml mae'n golygu bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n well ac yn fwy creadigol; mae'r adnoddau yn mynd ymhellach gan fod pobl yn gallu trefnu eu cymorth eu hunain. O gael dewis, nid yw llawer o ddefnyddwyr gwasanaethau yn dewis gwasanaethau traddodiadol, ond opsiynau sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd ac annibyniaeth. Hyd yn oed mewn gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli,

gall pobl sy'n defnyddio gwasanaethau awgrymu gwelliannau a gwell defnydd o adnoddau.'

**Brian Gibbons:** It is a travesty to suggest that our nurses, doctors and health visitors in mainstream public service provision do not work to tailor services to their individual patients. The way that you are trying to stereotype public service delivery is a travesty. Day in, day out, professionals are trying to personalise services for their individual clients and patients; that is the way it is and the way it should be, although it should be better.

**Kirsty Williams:** I do not doubt the individual commitment of workers at the coalface to trying to do that. However, they are often frustrated by the system in which they are working. I refer you again to your Government's Independent Commission on Social Services in Wales. Paragraph 4.34 of its report states that personalised care can happen, but that it requires substantial rethinking and change on the part of commissioners, service providers, social workers, care managers and people seeking and using the support and care system. It is not good enough to say that that is what is happening on the ground at present, because the experience of many people is that it is not. If we get this right, and if you believe in the work of John Seddon on systems thinking, as I do, you will see that designing a service based on what is valuable to the individual client does not increase demand but drives it down. If you get it right the first time for an individual, there are savings to be had. I am not saying for one minute that a system of personalised care would be cheaper and that we would spend less than we currently do, but I think that we would spend what we are spending more effectively and in a way that truly meets the needs of individuals. We need strong political leadership from the National Assembly and enabling legislation to allow those individuals on the shop floor to be able to respond to their clients' needs in the way that they would like to do, but are too often frustrated from doing.

**Brian Gibbons:** Mae'n wrthun i awgrymu nad yw ein nyrsys, meddygon ac ymwelwyr iechyd, wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus prif ffrwd, yn gweithio i deilwra gwasanaethau i gleifion unigol. Mae'r ffordd yr ydych yn ceisio stereoteipio cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn wrthun. Bob dydd, mae gweithwyr proffesiynol yn ceisio personoli gwasanaethau ar gyfer cleientiaid a chleifion unigol; dyna sut mae pethau, a dyna sut y dylai fod, er y dylai fod yn well.

**Kirsty Williams:** Nid wyf yn amau ymrwymiad gweithwyr unigol y rheng flaen i geisio gwneud hynny. Fodd bynnag, maent yn aml yn teimlo'n rhwystredig oherwydd y system y maent yn gweithio ynddi. Fe'ch cyfeiraf eto at y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, a sefydlwyd gan eich Llywodraeth chi. Mae paragraff 4.34 ei adroddiad yn datgan y gall gofal wedi'i bersonoli gael ei weithredu, ond bod angen ailfeddwl a newid sylweddol ar ran comisiynwyr, darparwyr gwasanaethau, gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr gofal a phobl sy'n defnyddio'r system cymorth a gofal. Nid yw'n ddigon da dweud mai dyna sy'n digwydd ar lawr gwlad ar hyn o bryd; mae profiad llawer o bobl yn dangos nad yw hynny'n digwydd. Os byddwn yn cael hyn yn iawn, ac os ydych chi, fel fi, yn credu yng ngwaith John Seddon ar feddwl trwy systemau, byddwch yn gweld nad yw dylunio gwasanaeth sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n werthfawr i'r cleient unigol yn cynyddu galw ond yn ei yrru i lawr. Os ydych yn ei gael yn iawn yn y lle cyntaf i unigolyn, mae arbedion i'w cael. Nid wyf yn dweud am funud y byddai system o ofal wedi'i bersonoli yn rhatach ac y byddem yn gwario llai, ond rwy'n meddwl y byddem yn ei wario yn fwy effeithiol ac mewn ffordd sydd wir yn cwrdd ag anghenion unigolion. Mae arnom angen arweinyddiaeth wleidyddol gref gan y Cynulliad Cenedlaethol a deddfwriaeth alluogi i ganiatáu i unigolion ar lawr gwlad ymateb i anghenion eu cleientiaid fel y byddent yn hoffi ei wneud, ond fel y'u rhwystrir rhag ei wneud yn rhy aml ar hyn o bryd.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there are objections, therefore, I defer all voting on this item until voting time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly byddaf yn gohirio'r holl bleidleisiau ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

I propose to move straight to voting time. Would anyone like the bell to be rung? I see that no-one does.

Bwriadaf symud yn syth i'r cyfnod pleidleisio. A oes unrhyw un am i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.  
Votes deferred until voting time.*

### **Cyfnod Pleidleisio Voting Time**

*Cynnig NDM4684: O blaid 8, Ymatal 0, Yn erbyn 29.  
Motion NDM4684: For 8, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Millar, Darren  
Ramsay, Nick

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
German, Veronica  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Law, Trish  
Lewis, Huw  
Mewies, Sandy  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce  
Williams, Kirsty  
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.  
Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4684: O blaid 28, Ymatal 0, Yn erbyn 8.  
Amendment 1 to NDM4684: For 28, Abstain 0, Against 8.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
German, Veronica  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Law, Trish  
Lewis, Huw  
Mewies, Sandy  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce  
Williams, Kirsty  
Wood, Leanne

Asghar, Mohammad  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Millar, Darren  
Ramsay, Nick

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliant 2 ei ddad-dethol.  
Amendment 2 deselected.*

*Gwelliant 3 i NDM4684: O blaid 36, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Amendment 3 to NDM4684: For 36, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Barrett, Lorraine  
Black, Peter  
Burns, Angela  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Andrew  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Jocelyn  
Davies, Paul  
German, Veronica  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Isherwood, Mark  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary

Law, Trish  
 Lewis, Huw  
 Melding, David  
 Mewies, Sandy  
 Millar, Darren  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce  
 Williams, Kirsty  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.  
 Amendment agreed.*

*Cynnig NDM4684 fel y'i diwygiwyd:*

*Motion NDM4684 as amended:*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Yn nodi'r gwaith parhaus sy'n cael ei wneud i ddatblygu brand Cymru o dan Adnewyddu'r Economi gan adeiladu ar ei lwyddiant yn codi proffil Cymru fel cyrchfan sydd gyda'r gorau yn y byd am ddiwylliant, twristiaeth a busnes;*

*1. Notes the ongoing development of the Wales brand under Economic Renewal building on its success in raising Wales' profile as a world-class destination for culture, tourism and business;*

*2. Yn cydnabod yr enw da mae Cymru wedi'i sicrhau drwy gynnal Digwyddiadau Mawr megis Cyfres y Llundw a Chwpan Ryder;*

*2. Recognises the positive reputation that Wales has gained through hosting Major Events such as the Ashes and the Ryder Cup;*

*3. Yn nodi'r rôl werthfawr y mae archifau lleol yn ei chwarae wrth hyrwyddo diwylliant Cymru.*

*3. Notes the valuable role that local archives play in promoting Welsh culture.*

*4. Yn croesawu'r gwaith o ddatblygu mynediad ar-lein arloesol i dreftadaeth Cymru drwy Gasgliad y Werin Cymru; ac*

*4. Welcomes the development of innovative on-line access to Welsh heritage through the People's Collection Wales; and*

*5. Yn cefnogi'r cynnig i archwilio ymarferoldeb cyflwyno Nod Siarter i gydnabod y defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau fel y nodir yn y Strategaeth Iaith ddrafft Iaith Fyw: Iaith Byw.*

*4. Supports the proposal to examine the feasibility of introducing a Charter Mark to recognise the use of Welsh by businesses as set out in the draft Welsh Language Strategy A living language: A language for living.*

*Cynnig NDM4684 fel y'i diwygiwyd: O blaid 28, Ymatal 0, Yn erbyn 8.*

*Motion NDM4684 as amended: For 28, Abstain 0, Against 8.*

*Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:*

*Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:*

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Black, Peter  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davies, Andrew  
 Davies, Jocelyn

Asghar, Mohammad  
 Burns, Angela  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Paul  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Millar, Darren

German, Veronica  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Law, Trish  
 Lewis, Huw  
 Mewies, Sandy  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce  
 Williams, Kirsty  
 Wood, Leanne

Ramsay, Nick

*Derbyniwyd y cynnig NDM4684 fel y'i diwygiwyd.  
 Motion NDM4684 as amended agreed.*

*Cynnig NDM4685: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 24.  
 Motion NDM4685: For 13, Abstain 0, Against 24.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
 Black, Peter  
 Burnham, Eleanor  
 Burns, Angela  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Paul  
 German, Veronica  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Millar, Darren  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davies, Andrew  
 Davies, Jocelyn  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Law, Trish  
 Lewis, Huw  
 Mewies, Sandy  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce  
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.  
 Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4685: O blaid 24, Ymatal 0, Yn erbyn 13.  
 Amendment 1 to NDM4685: For 24, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davies, Andrew  
 Davies, Jocelyn  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Law, Trish  
 Lewis, Huw  
 Mewies, Sandy  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce  
 Wood, Leanne

Asghar, Mohammad  
 Black, Peter  
 Burnham, Eleanor  
 Burns, Angela  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Paul  
 German, Veronica  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Millar, Darren  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.  
 Amendment agreed.*

*Cynnig NDM4685 fel y'i digwygiwyd:*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*1. Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau gofal sydd wedi'u teilwra'n unigol ond yn gwrthod unrhyw ddull gweithredu sy'n seiliedig ar farchnadoedd neu a fyddai'n rhoi'r cyfrifoldeb dros orfod datrys problemau ar unigolion.*

*2. Yn credu bod angen i unrhyw ddull o ddarparu gwasanaethau gofal wedi'u teilwra amddiffyn gwasanaethau gwerthfawr sy'n cefnogi'r holl drigolion lleol.*

*3. Yn cefnogi'r dull datblygu a amlinellir yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru; Fframwaith Gweithredu' sy'n cynnig mwy o lais a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau heb rannu gwasanaethau na rhoi baich rhy drwm arnynt.*

*Motion NDM4685 as amended:*

*The National Assembly for Wales*

*1. Recognises the importance of individually tailored care services but rejects any approach based on markets or that would put the responsibility for having to sort out solutions to their problems on individuals.*

*2. Believes that any approach to tailored care services needs to protect valuable services that support the totality of local residents.*

*3. Supports the developmental approach outlined in 'Sustainable Social Services for Wales; A Framework for Action' which offers service users greater voice and control without fragmenting services or placing an unwelcome burden on them.*

*Cynnig NDM4685 fel y'i diwygiwyd: O blaid 24, Ymatal 0, Yn erbyn13.  
 Motion NDM4685 as amended: For 24, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Chapman, Christine

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Asghar, Mohammad  
 Black, Peter  
 Burnham, Eleanor



Cuthbert, Jeff  
 Davies, Andrew  
 Davies, Jocelyn  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Law, Trish  
 Lewis, Huw  
 Mewies, Sandy  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce  
 Wood, Leanne

Burns, Angela  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Paul  
 German, Veronica  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Millar, Darren  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig NDM4685 fel y'i diwygiwyd.  
 Motion NDM4685 as amended agreed.*

## **Dadl Fer Short Debate**

### **Pa Bris ein Bara Beunyddiol: Diogelwch Bwyd yng Nghymru Heddiw What Price our Daily Bread: Food Security in Wales Today**

**Andrew R.T. Davies:** I welcome the opportunity to present the short debate this afternoon. In the three and a half, going on four, years that I have been an Assembly Member, this is the first time that I have had the opportunity to present a short debate. With so much on this evening, it is a real pleasure to stand here and present this debate, especially as it is on a topic that is close to my heart and is what took me into public service, and that is the industry that I have come from—the agricultural industry—and the food industry that provides so much of our daily food in Wales and across the United Kingdom. We are at a critical juncture in the way that we need to develop our food policy and at a critical stage in how the Welsh Assembly Government, the UK Government and Europe will address some of the key dangers in relation to food provision going forward into the next decade. I come from an industry that, over the last 20 to 25 years, has had to grapple with many of the surpluses that the common agricultural policy initially created here in Europe, and many successive negotiations around the common agricultural policy have been around trying to put a cap

**Andrew R.T. Davies:** Croesawaf y cyfle i gyflwyno'r ddadl fer y prynhawn yma. Mewn tair blynedd a hanner, neu bron i bedair blynedd, yn Aelod o'r Cynulliad, dyma'r tro cyntaf i mi gael y cyfle i gyflwyno dadl fer. Gyda chymaint ymlaen heno, mae'n bleser gwirioneddol i sefyll yma a chyflwyno'r ddadl hon, yn enwedig gan ei bod ar bwnc sy'n agos at fy nghalon a'r hyn a ddaeth â fi i wasanaeth cyhoeddus yn y lle cyntaf, sef y diwydiant y dof ohono—amaethyddiaeth— a'r diwydiant bwyd sy'n darparu cymaint o'r bwyd y byddwn yn ei fwyta bob dydd yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig. Mae hwn yn gyfnod tyngedfennol o ran yr angen inni ddatblygu ein polisi bwyd ac yn gyfnod allweddol o ran sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth y DU ac Ewrop yn mynd i'r afael â rhai o'r peryglon allweddol mewn perthynas â darparu bwyd wrth inni symud ymlaen i'r degawd nesaf. Rwy'n dod o ddiwydiant sydd, dros yr 20 neu 25 mlynedd diwethaf, wedi gorfod mynd i'r afael â'r gwarged a fodolai oherwydd y polisi amaethyddol cyffredin a grëwyd i ddechrau yma yn Ewrop, ac mae llawer o'r trafodaethau dilynol ar y polisi

on the amount of food produced, while maintaining and safeguarding rural communities.

However, I do not believe that it is a coincidence that over the last few years we have seen dramatic swings and volatility in the price that we pay for our food. To take this year as a snapshot of what we are paying, the cost of wheat, which is a commodity that anyone would understand, has gone up by 100 per cent: we are paying £200 per tonne. Beef costs between £2.70 and £2.80 a kilo. Lamb is anything over £4 per kilo. Many people here will ask what on earth I am talking about and say that those figures are double Dutch to them, but, just four or five years ago, wheat would have cost the wholesaler between £60 and £80 per tonne, beef would have been £1.40 to £1.60 per kilo; and lamb would have been between £2 and £2.50 per kilo. Therefore, you can see the dramatic pressures that are feeding into the system and posing challenging questions for policy makers.

The global population is expanding—I would even say that there is an explosion in the global population. We have gone from 6 billion people on the planet to topping 8 billion, which we will do shortly, and, by the middle of this century, we will hit 10 billion. Each one of those mouths will require feeding. Tonight, when we go to bed, we will do so with full stomachs, but 25 per cent of the world's population will go to bed on an empty stomach. In the twenty-first century, given the technology that is available, that is something that we should not tolerate. I want farmers, Wales, the United Kingdom and Europe to play their part in meeting those challenges.

6.15 p.m.

It should not be beyond our imagination to harness the great technology, for which this country, the United Kingdom, has a global reputation, to develop policy and to develop plant species and agricultural practice that lead the world. In the Minister's own constituency, we have one of the finest plant breeding stations, which is renowned. We have many centres of excellence and colleges

amaethyddol cyffredin wedi ymwneud â cheisio rhoi cap ar faint o fwyd a gynhyrchwyd, tra'n cynnal a diogelu cymunedau gwledig.

Fodd bynnag, nid wyf yn credu mai cyddigwyddiad yw ein bod, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi gweld pendilio dramatig ac anwadalrwydd yn y pris rydym yn ei dalu am ein bwyd. I gymryd eleni fel ciplun o'r hyn a dalwn, mae cost gwenith—nwydd y byddai pawb yn ei ddeall—wedi codi gan 100 y cant: rydym yn talu £200 am bob tunnell. Mae cig eidion yn costio rhwng £2.70 a £2.80 y cilo. Mae cig oen yn costio unrhyw beth dros £4 y cilo. Bydd llawer o bobl yma yn gofyn beth ar y ddaear rwy'n sôn amdano ac yn dweud nad ydynt yn deall y ffigurau hynny, ond dim ond pedair neu bum mlynedd yn ôl, byddai gwenith wedi costio rhwng £60 ac £80 y dunnell i gyfanwerthwyr, byddai cig eidion wedi costio rhwng £1.40 a £1.60 y cilo, a byddai cig oen wedi costio rhwng £2 a £2.50 y cilo. Felly, gallwch weld y pwysau dramatig ar y system, sy'n arwain at gwestiynau heriol i lunwyr polisi.

Mae poblogaeth y byd yn ehangu—byddwn hyd yn oed yn dweud bod yna ffrwydrad ym mhoblogaeth y byd. Rydym wedi mynd o 6 biliwn o bobl ar y blaned i fwy na 8 biliwn—bydd hynny'n digwydd yn fuan—ac erbyn canol y ganrif hon byddwn yn cyrraedd 10 biliwn. Bydd angen bwydo pob un o'r cegau hynny. Heno, byddwn ni'n mynd i'n gwelyau ar stumog lawn, ond bydd 25 y cant o boblogaeth y byd yn mynd i'r gwely ar stumog wag. Yn yr unfed ganrif ar hugain, o ystyried y dechnoleg sydd ar gael, mae hynny'n rhywbeth na ddylem oddef. Rwyf am i ffermwyr, Cymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop chwarae eu rhan wrth gwrdd â'r heriau hynny.

Ni ddylai fod y tu hwnt i'n dychymyg i harneisio'r dechnoleg fawr y mae gan y wlad hon, y Deyrnas Unedig, enw da byd-eang ynddi, i ddatblygu polisi ac i ddatblygu rhywogaethau planhigion ac arferion amaethyddol sy'n arwain y byd. Yn etholaeth y Gweinidog ei hun, mae gennym un o'r enghreifftiau gorau o orsafoedd bridio planhigion, ac mae'n enwog. Mae gennym

that have turned out many great agriculturalists and developed Wales as a pioneering country for many of the great practices in the agricultural world.

However, as I said earlier, we have perhaps sat on our laurels for the past 20 or 25 years. We have had massive increases in production that were then constrained by public policy. We have therefore not lived up to our potential. That is why, as we enter the second decade of the twenty-first century, we need to evaluate where we should be going. There are three elements to that debate. First, Government must decide whether it is serious about food production. If it is, the second element has to be to develop a processing sector that will ultimately turn the farm-gate product into the final product that we, as consumers, purchase. Thirdly and finally, we need a marketplace that works in everyone's favour—for the consumer, the processor and the primary producer.

In any country in the world, you will find anomalies in the marketplace. Agriculture is a volatile economy and a nationalistic one, and many Governments seek to influence the market by subsidies and by keeping prices down so that the consumer feels they are getting a bargain. No-one would want to stand in the way of that. However, what has happened over the past several decades is to the detriment of the economic argument, in that many farmers have had to turn to subsidies to make up the balance for their output, if not for all of it. I am as open to criticism as anyone else, as a farmer. We do seek subsidies to complement the rest of the business. However, if we did not have those subsidies, we would not be in business today. Going forward, with the opportunities that agriculture has, we should not just be looking to maintain the situation that has been allowed to develop over the last 25 or 30 years. We now need to look at making a dramatic impact in the marketplace for the benefit of the primary producer and the processor. In Wales, we need to be developing a vibrant processing sector and changing that anomaly of a figure that I put to the Minister in questions earlier: 25 per

lower o ganolfannau o ragoriaeth a cholegau sydd wedi addysgu nifer fawr o amaethwyr ac wedi datblygu Cymru fel gwlad arloesol ar gyfer llawer o arferion gwyb y byd amaethyddol.

Fodd bynnag, fel y dywedais yn gynharach, yr ydym, efallai, wedi gorffwys ar ein rhwyfau dros yr 20 neu 25 mlynedd diwethaf. Rydym wedi gweld cynnydd enfawr mewn cynhyrchu yn cael ei gyfyngu wedyn gan bolisi cyhoeddus. Nid ydym, felly, wedi cyflawni ein potensial. Dyna pam, ar drothwy ail ddegawd yr unfed ganrif ar hugain, bod angen inni werthuso lle y dylem fynd. Mae tair elfen i'r ddadl honno. Yn gyntaf, rhaid i'r Llywodraeth benderfynu a yw o ddifrif ynghylch cynhyrchu bwyd. Os ydyw, mae'n anorfod mai'r ail elfen yw datblygu sector prosesu a fydd, yn y pen draw, yn troi'r cynnyrch wrth gât y fferm yn gynnyrch terfynol y byddwn ni, fel defnyddwyr, yn ei brynu. Yn drydydd ac yn olaf, mae arnom angen marchnad sy'n gweithio i bawb—y defnyddiwr, y prosesydd a'r cynhyrchydd cynradd.

Gallwch ddod o hyd i anghysondebau yn y farchnad ym mhob gwlad. Mae amaethyddiaeth yn economi gyfnewidiol a chenedlaetholgar, ac mae llawer o Lywodraethau yn ceisio dylanwadu ar y farchnad drwy gymorthdaliadau a thrwy gadw prisiau i lawr fel bod defnyddwyr yn teimlo eu bod yn cael bargaen. Ni fyddai neb am sefyll yn ffordd hynny. Fodd bynnag, mae'r hyn sydd wedi digwydd dros y degawdau diwethaf wedi bod ar draul y ddadl economaidd, gan fod llawer o ffermwyr wedi gorfod troi at gymorthdaliadau i wneud iawn am y gweddill, os nad ar gyfer y cyfan o'r hyn y maent yn ei gynhyrchu. Fel ffermwr, yr wyf i yr un mor euog â phawb arall. Rydym yn ceisio cymorthdaliadau i ategu gweddill y busnes. Fodd bynnag, heb y cymorthdaliadau hynny, ni fyddem mewn busnes heddiw. Wrth symud ymlaen, gyda'r cyfleoedd o fewn amaethyddiaeth, ni ddylem fod yn edrych i wneud dim byd mwy na chynnal y sefyllfa sydd wedi cael rhwydd hynt i ddatblygu dros y 25 neu 30 mlynedd diwethaf. Yn awr, mae angen inni edrych ar gael effaith ddramatig ar y farchnad, er budd y cynhyrchydd cynradd a'r prosesydd. Yng Nghymru, mae angen inni fod yn datblygu

cent of farming families live below the poverty line here in Wales. We should not be willing to tolerate that any more.

It is on that basis that I hope that we can have a very constructive debate, to address the intentions of the future Welsh Government, and this Government, with regard to food production. We can assess the strength of the processing sector, but above all, by working Government to Government, we can address the imbalance in the marketplace with a supermarket ombudsman or the like, because that power rests squarely with Westminster.

There is a human cost associated with the agriculture industry that we must also bear in mind. The production of food involves more than a monetary cost. In the last 10 years, 450 people have lost their lives in workplace accidents on farms. That, I believe, places agriculture at the top of the Health and Safety Executive's league table for deaths related to the workplace. That is something that no-one would take pride in. That human cost also stretches into the field of mental health conditions and suicides on farms due to working in isolation, which many people do not associate with the price of producing our daily bread. I know that we have a Minister who is very in touch with the rural community, because of her connection to the county of Ceredigion, but it really needs to be understood that it is human beings who produce and provide our daily bread. There are many organisations, such as the Royal Agricultural Benevolent Institution and the rural stress network, that do a sterling job of providing excellent support, but above all, Government involvement is needed to ensure that the Health and Safety Executive and the agricultural community work in the fields of education to develop that understanding of the risk, and that a farmyard is not a playground, but a place of work and a place of production.

It is that field of education that poses one of the greatest challenges for us in trying to step

sector prosesu bywiog, gan newid anghysondeb y ffigur a roddais i'r Gweinidog mewn cwestiynau yn gynharach: bod 25 y cant o deuluoedd ffermio yn byw dan y llinell dlodi yma yng Nghymru. Ni ddylem fod yn barod i oddef hynny mwyach.

Ar y sail honno, gobeithiaf y gallwn gael dadl adeiladol, i fynd i'r afael â bwriadau Llywodraeth nesaf Cymru a'r Llywodraeth hon mewn perthynas â chynhyrchu bwyd. Gallwn asesu cryfder y sector prosesu, ond yn anad dim, drwy gael dwy Lywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd, gallwn fynd i'r afael â'r anghydbwysedd yn y farchnad gydag ombwdsmon archfarchnadoedd neu swydd debyg, gan ei bod yn amlwg mai yn San Steffan mae'r pŵer hwnnw.

Mae cost ddynol yn gysylltiedig â'r diwydiant amaethyddiaeth, ac mae'n rhaid inni gadw hynny mewn cof. Mae mwy na chost ariannol ynghlwm â chynhyrchu bwyd. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae 450 o bobl wedi colli eu bywydau mewn damweiniau gwaith ar ffermydd. Credaf fod hynny'n rhoi amaethyddiaeth ar frig tabl y Gweithgor Iechyd a Diogelwch am farwolaethau yn ymwneud â'r gweithle. Mae hynny'n rhywbeth na fyddai unrhyw un yn ymfalchïo ynddo. Mae'r gost ddynol honno hefyd yn ymestyn i faes cyflyrau iechyd meddwl a hunanladdiad ar ffermydd o ganlyniad i bobl yn gweithio ar eu pennau eu hunain, nad yw llawer o bobl yn ei gysylltu â phris cynhyrchu ein bara beunyddiol. Gwn fod gennym Weinidog sydd mewn cysylltiad agos â'r gymuned wledig, oherwydd ei chysylltiad â sir Ceredigion, ond mae angen sicrhau dealltwriaeth o'r ffaith mai bodau dynol sy'n cynhyrchu ac yn darparu ein bara beunyddiol. Mae llawer o sefydliadau, megis y Sefydliad Brenhinol dros Les Amaethyddol a'r rhwydwaith straen yng nghefn gwlad, yn gwneud gwaith gwyb wrth roi cefnogaeth ardderchog, ond yn anad dim, mae gofyn i'r Llywodraeth sicrhau bod y Gweithgor Iechyd a Diogelwch a'r gymuned amaethyddol yn gweithio ym maes addysg i ddatblygu'r ddealltwriaeth o'r risg a'r ffaith nad lle chwarae, ond lle gwaith a man cynhyrchu yw buarth fferm.

Y maes addysg hwnnw yw un o'r mwyaf heriol wrth inni geisio ymgymryd â'r gwaith.

up to the mark. When I was around the age of 16, there were many agricultural colleges across Wales. Sadly, over the past couple of decades, many of them have gone. If we are to develop a workforce transition route into the agriculture industry, in order to step up to some of the challenges that I have tried to outline in my earlier remarks in this speech, we need to ensure that we have a robust land-based college system here in Wales. Therefore, in responding to this debate, I would be grateful if the Minister could indicate what type of engagement she has with the Minister for education to ensure that that land-based provision is in place and able to meet the challenge. In my region, many of the students would have traditionally gone to Pencoed College. However, that college for land-based courses no longer exists, and students must now go either to Gelli Aur College Farm or to Coleg Gwent at its Usk campus. Both of those are very good colleges, but learning at distance creates an obstacle for young people to come into the industry, as does the capital requirement. We therefore need to progress the educational field, in order to remove the obstacles faced by people from outside our industry.

The agricultural community is on the verge of a great opportunity. As I said earlier, we have looked at many chances before and thought, 'Are these false dawns?' However, the futures market indicates security for agricultural commodities, and the profiling of demand shows that there is a demand to be met if we can step up to the mark. The Government needs to play its part in educating the industry about futures contracts and facilitating their use. That is greatly understood in North America, but that understanding has not crossed the Atlantic to any great degree to the United Kingdom, and Wales in particular. That is one means by which farmers can mitigate marketplace volatility when selling their produce, because, obviously, you can buy in at a price and know what you will receive.

In closing my remarks on this debate today, I hope that, rather than just looking at what we have historically looked at and thinking, 'More of the same will do', we can seriously

Pan oeddwn i tua 16 oed, roedd nifer o golegau amaethyddol ar draws Cymru. Yn anffodus, dros y degawdau diwethaf, mae llawer ohonynt wedi mynd. Os ydym am ddatblygu llwybr gweithlu i'r diwydiant amaethyddiaeth, er mwyn ymateb i rai o'r heriau rwyf wedi ceisio eu hamlinellu yn fy sylwadau yn yr araith hon, mae angen inni sicrhau bod gennym system goleg gadarn ar gyfer astudiaethau tir yma yng Nghymru. Felly, wrth ymateb i'r ddadl hon, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog nodi pa fath o gysylltiad sydd ganddi â'r Gweinidog dros addysg i sicrhau bod y ddarpariaeth astudiaethau tir yn ei lle a'i bod yn gallu ymateb i'r her. Yn fy rhanbarth i, yn draddodiadol, byddai llawer o'r myfyrwyr wedi mynd i Goleg Pencoed. Fodd bynnag, nid yw astudiaethau tir ar gael yn y coleg hwnnw bellach, a rhaid i fyfyrwyr fynd naill ai i Fferm Coleg Gelli Aur neu i Goleg Gwent ar gampws Brynbuga. Mae'r ddau goleg yn golegau da iawn, ond mae'r pellter hwnnw yn creu rhwystr i bobl ifanc ymuno â'r diwydiant, fel ag y mae'r gofyniad cyfalaf. Felly, mae angen inni ddatblygu'r maes addysg, er mwyn cael gwared ar y rhwystrau a wynebwr gan bobl o'r tu allan i'n diwydiant.

Mae'r gymuned amaethyddol ar drothwy cyfle gwych. Fel y dywedais yn gynharach, rydym wedi edrych ar lawer o gyfleoedd cyn hyn ac wedi meddwl, 'Ai cyfle ffug yw hwn?' Fodd bynnag, mae'r farchnad ddyfodol yn dangos bod nwyddau amaethyddol yn ddiogel, ac mae proffil y galw yn dangos bod galw i'w fodloni os gallwn ymateb i'r her. Mae angen i'r Llywodraeth chwarae ei rhan yn addysgu'r diwydiant am gontractau dyfodol a hwyluso eu defnydd. Deallir hynny'n dda yng Ngogledd America, ond nid yw'r ddealltwriaeth honno wedi croesi'r Iwerydd i unrhyw raddau i'r Deyrnas Unedig, a Chymru yn benodol. Dyna un ffordd i ffermwyr allu lliniaru anwadalrwydd y farchnad o ran gwerthu cynnyrch, oherwydd, yn amlwg, gallwch brynu am un pris gan wybod beth y byddwch yn ei dderbyn.

Wrth gloi fy sylwadau ar y ddadl hon heddiw, rwy'n gobeithio y gallwn symud ymlaen o ddifrif gyda'r ddadl dros ddatblygu diwydiant amaethyddol bywiog yng

take forward the argument for developing a vibrant agricultural industry in Wales. We can use brand Wales, as we have heard in a debate this afternoon on tourism, to promote what is a very positive image of Welsh agricultural produce. We will never, in our small country, be able to feed the world, but we might be able to play our part in developing agriculture here in Wales to meet some of the challenges that will arise as we go further into the twenty-first century. Thank you for listening to the points that I have put, and I look forward to hearing the Minister's response. I welcome the opportunity for this debate to continue after today, if people think there is mileage in it.

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Diolch i Andrew R.T. Davies am gyflwyno'r ddatl bwysig hon ar faes sydd yn gynyddol bwysig. Mae gofalu bod digon o fwyd yn cael ei gynhyrchu i fwydo holl bobl y byd yn destun pryder cynyddol i Lywodraethau ac i bobl ar hyd a lled y byd, ac mae'r cynnydd diweddar ym mhrisiau bwydydd sylfaenol wedi hoelio'n sylw eto ar y problem.

Mae Cymru mewn lle delfrydol i gynhyrchu amrywiaeth gynyddol o fwyd, ac i gyfrannu at leihau dibyniaeth y Deyrnas Gyfunol ar fewnforion. Yn wahanol i'r Deyrnas Gyfunol, mae Cymru'n fwy na hunangynhaliol mewn llaeth a chig. Dim ond 75 y cant o'r llaeth yr ydym yn ei gynhyrchu yr ydym yn ei ddefnyddio, a dim ond 4 y cant o'r cig eidion a chig oen yr ydym yn eu cynhyrchu yr ydym yn eu defnyddio. Mae llawer o'r hyn a gynhyrchwn yng Nghymru'n cael ei allforio i weddill y Deyrnas Gyfunol a thu hwnt.

Calonogol, felly, oedd gweld datganiad diweddaraf yr arolwg amaethyddiaeth ddod, sef bod nifer y defaid ac ŵyn yng Nghymru wedi cynyddu 2 y cant rhwng Rhagfyr 2009 a Rhagfyr 2010. Y cyfanswm ar hyn o bryd yw 5.4 miliwn. Mae hynny'n adlewyrchu canlyniadau arolwg Mehefin 2010, a ddangosodd fod nifer y defaid wedi lefelu ar ôl gostyngiad graddol cyson ers 2000. Mae nifer y gwartheg wedi aros fel yr oedd y llynedd. Hefyd, mae mwy o wenith a barlys,

Nghymru, yn hytrach na dim ond edrych ar yr hyn rydym wedi edrych arno'n hanesyddol a meddwl 'Bydd mwy o'r un peth yn gwneud y tro'. Gallwn ddefnyddio brand Cymru, fel y clywsom yn y ddatl y prynhawn yma ar dwristiaeth, i hyrwyddo delwedd hynod gadarnhaol cynnyrch amaethyddol Cymru. Ni fyddwn byth, yn ein gwlad fach, yn gallu bwydo'r byd, ond efallai y byddwn yn gallu chwarae ein rhan wrth ddatblygu amaethyddiaeth yma yng Nghymru i gwrdd â rhai o'r heriau a fydd yn codi wrth inni fynd ymhellach i'r unfed ganrif ar hugain. Diolch ichi am wrando ar y pwyntiau hyn, ac edrychaf ymlaen at glywed ymateb y Gweinidog. Rwy'n croesawu'r cyfle i'r ddatl hon barhau ar ôl heddiw, os yw pobl yn meddwl bod diben i hynny.

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** I am grateful to Andrew for tabling this debate today on a subject that is becoming increasingly important. Ensuring that enough food is produced to feed the world's population is now a major concern to Governments and to people across the world, and the recent rise in the price of staple foods have refocused attention on this issue.

Wales is ideally suited to provide an increasing variety of food products, which could contribute to reducing the United Kingdom's dependence on imports. In contrast to the United Kingdom, Wales is more than self-sufficient in milk and meat. We consume only 75 per cent of the milk that we produce and consume only 4 per cent of the beef and lamb that we produce. Much of what we produce in Wales is exported to the rest of the United Kingdom and beyond.

It was encouraging, therefore, to see the latest update by the agriculture survey yesterday, which stated that the number of sheep and lambs in Wales increased by 2 per cent between December 2009 and December 2010. The current total is 5.4 million. That reflects the results of the survey in June 2010, which showed that the number of sheep had levelled off after a steady gradual decline since 2000. The number of cattle has remained as it was last year. In addition,

sef y prif gnydau yng Nghymru, yn cael eu tyfu nag oedd 12 mis yn ôl: 6 y cant yn fwy o wenith, ac 1 y cant yn fwy o farllys.

Wrth ddiogelu cyflenwadau bwyd i'n gwlad, bydd yn rhaid inni ystyried patrymau defnyddio newydd, effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a'r cynnydd mawr ym mhrisiau tanwydd. Os oes cynnydd ym mhris olew crai, mae'r prisiau wrth y pwmp yn codi'n sydyn, ond ychydig iawn y maent yn gostwng os yw pris olew yn cwmpo. Mae hynny'n glatsien gas i bawb sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad. Yr wyf yn gobeithio, felly, y bydd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn gwrando ar y rheini sy'n gofyn am leihau'r dreth ar danwydd, er mwyn rhoi gobaith i'r rheini, gan gynnwys y sawl sy'n ymwneud â'r gadwyn fwyd, sydd â chostau cludo sylweddol.

Hoffwn fanteisio hefyd ar y cyfle i ailadrodd rhywfaint o'r hyn a ddywedais y prynhawn yma, wrth ymateb i gwestiynau, am fy mhryderon ynghylch safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol o ran torri cyllideb y polisi amaeth cyffredin. Yr wyf yn cefnogi safiad y Comisiwn Ewropeaidd yn llwyr, sef y dylai unrhyw ddiwygio ar y polisi amaeth fod yn seiliedig ar ddiogelu cyflenwadau bwyd. Mae diogelu cyflenwadau bwyd yn fater sy'n tyfu o ran ei bwysigrwydd, yn enwedig o ystyried yr ansefydlogrwydd yr ydym wedi ei weld mewn rhai marchnadoedd. Ar hyn o bryd, mae'r taliad sengl yn cyfrannu oddeutu 80 y cant o incwm ffermydd yng Nghymru, a byddai torri'r taliad hwnnw'n sylweddol yn niweidiol iawn i ffermwyr ac i'w gallu i gynhyrchu bwyd.

Mae'r tir amaethyddol sydd gennym yng Nghymru, a drwy'r byd penbaladr, yn dod yn ased mwy a mwy gwerthfawr. Yr ydym eisoes yn gweld cwmnïau mawr yn prynu tir amaethyddol mewn gwledydd eraill er mwyn diogelu'u cyflenwadau bwyd. Mae'r duedd fyd-eang hon yn adlewyrchu'r pryderon ynghylch gallu'r byd i fwydo poblogaeth sy'n tyfu. Felly, bydd cadw taliadau o dan y polisi amaeth cyffredin yn ein helpu i barhau i gynhyrchu bwyd ar ffermydd teuluol yng Nghymru.

Yn gynharach eleni, cyhoeddais strategaeth

more wheat and barley, the main crops traded in Wales, are being grown than 12 months ago: 6 per cent more wheat, and 1 per cent more barley.

When securing the food supply for our country, we will have to consider new patterns of consumption, the effects of climate change and the considerable rise in fuel prices. If there is an increase in the price of crude oil, prices at the pump rise sharply, but they reduce very little if the price of oil falls. That is a sharp blow to everyone who lives and works in the countryside. I hope, therefore, that the Government of the United Kingdom listens to those who seek to reduce the tax on fuel, in order to give hope to those, including those involved in food production, with significant transportation costs.

I would like to also take advantage of the opportunity to reiterate some of what I said earlier this afternoon, in response to questions, regarding my concerns about the United Kingdom Government's position on cutting the budget of the common agricultural policy. I support fully the position of the European Commission, namely that any reform of the agricultural policy should be based on food security. The food security issue is growing in importance, especially given the volatility that we have seen in some markets. At the moment, the single payment contributes approximately 80 per cent of farm incomes in Wales, and a substantial reduction in that payment would be extremely damaging to farmers and their ability to produce food.

The agricultural land that we have in Wales, and across the world, is becoming an increasingly valuable asset. We are already seeing big companies buying farmland in other countries in order to protect their food supplies. This global trend reflects concerns about the ability of the world to feed a growing population. Therefore, keeping payments under the common agricultural policy will help us to continue to produce food on family farms in Wales.

Earlier this year, I announced the Welsh food

fwyd Cymru ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, sef 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru'. Mae'n cydnabod y problemau sydd ynghlwm wrth geisio diogelu ein cyflenwadau bwyd, ac yn annog gwaith ymchwil i'r problemau a fydd yn wynebu'r system fwyd yn y dyfodol. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Cynghori ar Fwyd a Diod, ac yn datblygu cynllun ar gyfer rhoi'r strategaeth newydd ar waith.

Mae fy swyddogion hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Athro John Beddington, sydd wedi gwneud gwaith yn ddiweddar ar ddiogelu cyflenwadau bwyd byd-eang. Ynghyd â'r pum sbardun strategol allweddol yr ydym wedi'u nodi yn y strategaeth fwyd, yr ydym wrth gwrs yn ystyried y materion a godwyd yn ddiweddar gan adroddiad Beddington.

6.30 p.m.

Yr wyf yn awyddus bod cynhyrchwyr bwyd Cymru yn cynhyrchu mwy o'r hyn yr ydym yn ei fwyta, ac yn ehangu'r amrywiaeth ohono, gan gynnwys llysiau a chnydau eraill yn ogystal â chig a llaeth. Drwy Gyswllt Ffermio, mae help ar gael i ffermwyr i arallgyfeirio i arddwriaeth, ac mae rhaglenni eraill yn helpu'r diwydiant i gyflenwi cynnyrch lleol. Nod cynllun gweithredu cyrchu lleol yw annog busnesau i brosesu, gwerthu a phrynu mwy o gynnyrch lleol. Drwy gryfhau cadwyni cyflenwi bwyd lleol a lleihau nifer y dolenni, gallwn helpu ffermwyr i gael bargaen well a lleddfu hefyd y pryderon ynghylch cynaliadwyedd a diogelu cyflenwadau bwyd. Ond ni all hyn ateb pob gofid. Gan fod poblogaeth Cymru mor fach, bydd marchnadoedd y tu allan i Gymru wastad yn bwysig. Er hynny, mae'r Cymry'n fwy tueddol o brynu bwyd lleol nag y mae pobl yn rhannau eraill y Deyrnas Gyfunol, ac mae hynny'n rhywbeth y gall ein busnesau bwyd fanteisio arno.

Fis Ebrill diwethaf, lansiais y cynllun gweithredu strategol ar gyfer y diwydiant garddwriaeth yng Nghymru—Mynd am Dwf. Bydd y cynllun gweithredu newydd hwn yn rhoi'r ffocws y mae ei angen ar y diwydiant. Mae'n nodi'r ffyrdd penodol y gall yr elfennau yn y gadwyn gyflenwi arddwriaethol weithio gyda'i gilydd i wynebu

strategy for the next 10 years, namely 'Food for Wales, Food from Wales'. It recognises the problems inherent in trying to protect our food supplies, and encourages research into the problems that will face the food system in the future. My officials are working with the Food and Drink Advisory Partnership, and are developing an implementation plan for this new strategy.

My officials have also been working with Professor John Beddington, who has recently undertaken some work on securing worldwide food supplies. Alongside the five key strategic drivers identified within the food strategy we are of course also taking into consideration the issues raised by the recent Beddington report.

I am keen to see Wales produce more of what we eat, and extend the variety, including vegetables and other crops as well as meat and milk. Through Farming Connect, support is available for farmers to diversify into horticulture and there are other programmes available to help the industry to supply more locally. My local sourcing strategic action plan is aimed at encouraging the processing, selling and buying of more local produce. Strengthening local food supply chains and reducing the number of linkages can help to give farmers a better deal, while also addressing concerns about sustainability and food security. This is not a panacea; Wales's relatively small population means that markets outside Wales will always be important. However, Welsh consumers have an above-average propensity compared with those in other parts of the United Kingdom to buy locally produced foods, and our food businesses can capitalise on this opportunity.

In addition, I launched the strategic action plan for the horticulture industry in Wales—Going for Growth—last April. This new action plan will provide a much needed central focus for the industry. It identifies specific ways in which the horticulture supply-chain can work together to meet the challenges that the industry will face in the



heriau'r diwydiant yn y dyfodol. Ar lefel ehangach, yr ydym hefyd yn cefnogi'r gwaith sy'n edrych ar ddiogelwch cyflenwadau bwyd Prydain, a byddwn yn ystyried y gwaith hwn wrth inni ddatblygu ein polisiau a'n strategaethau ninnau. Yr ydym wedi cynnal astudiaeth o ddibynadwyedd y cadwyni cyflenwi bwyd yng Nghymru a gweld bod y systemau cyflenwi a dosbarthu'n effeithiol a'u bod yn gallu addasu'n gyflym os oes problem gyda chyflenwadau.

Dynododd Andrew R.T. Davies yn ei gyfraniad mai pobl, wrth gwrs, sy'n cynhyrchu'n bwyd ni. Ffermwyr yw'r rheini yn bennaf, ond pobl fusnes sy'n prosesu'r bwyd. Mae'n galonogol gweld y diddordeb sydd gan ein pobl ifanc o hyd yn y diwydiant amaethyddiaeth, a gwyddom fod y tri choleg amaethyddol yng Nghymru, a'r brifysgol yn Aberystwyth, wedi gweld twf sylweddol yn ddiweddar yn y niferoedd sy'n gwneud cais i ddilyn cyrsiau amaethyddiaeth a phynciau cefn gwlad. Mae hynny'n galonogol o ran dyfodol y diwydiant cynhyrchu bwyd.

Soniodd Andrew R.T. Davies am rôl yr archfarchnadoedd yn y sector bwyd ac am y cynllun i greu dyfarnwr ar gyfer y farchnad gyflenwi bwyd. Yr ydym yn gobeithio y bydd gan y dyfarnwr, y bydd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn deddfu ar ei gyfer, asgwrn cefn ac y bydd yn derbyn cwynion dienw gan ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd. Deallaf mai'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau fydd yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn San Steffan i greu swydd y dyfarnwr, a bydd y Mesur seneddol drafft yn cael ei gyflwyno adeg y Pasg eleni, gyda'r bwriad o roi Mesur gerbron wedi mis Hydref a sefydlu corff Prydeinig y dyfarnwr—yr ombwdsmon—erbyn canol y flwyddyn nesaf. Nid yw polisi cystadleuaeth yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ond bydd y Llywodraeth nesaf yn trafod â'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau i sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl o waith y dyfarnwr hwn, y bydd ganddo rôl bwysig iawn, er budd i gynhyrchwyr bwyd yng Nghymru.

Er mwyn i amaethyddiaeth allu wynebu sialensiau'r dyfodol, gan gynnwys diogelu cyflenwadau bwyd a'r newid yn yr hinsawdd, mae'n bwysig bod arian yn cael ei fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu. Mae gan Gymru

future. On a wider level, we are supporting the work looking at UK food security, and will be considering the outcome of that work in our ongoing policy and strategy development. We have completed a review of the resilience of the food supply chains in Wales and this has shown that the product supply and distribution is extremely resourceful and is able to adapt very quickly when commodity supplies are challenged.

In his contribution, Andrew R.T. Davies said that it is people, of course, who produce our food. They are mainly farmers, but businesspeople process the food. It is encouraging to see the interest that young people have in the agriculture industry, and we know that Wales's three agriculture colleges, and the university at Aberystwyth, have seen a significant increase in the numbers applying for courses in agriculture and rural subjects. That is encouraging for the future of the food production industry.

Andrew R.T. Davies mentioned the role of supermarkets in the food sector and the intention to establish an adjudicator for the food supply market. We hope that the adjudicator, for which the UK Government will legislate, will have teeth and will be able to receive complaints anonymously from farmers and food producers. I understand that the Westminster Department for Business Innovation and Skills will bring forward new primary legislation in order to set up the adjudicator. A draft Bill will be introduced this Easter with the intention of bringing forward a Bill after October and having the adjudicator—the ombudsman—in place by the middle of next year. Competition policy is not devolved but the Assembly Government will continue to engage with the Department for Business, Innovation and Skills to achieve the best result possible for Welsh food producers from the work of this adjudicator, who will play a very important role.

Investment in research and development will also be crucial if agriculture is to meet the challenges ahead, including food security and climate change. Wales has internationally renowned agricultural research institutions,

sefydliadau ymchwil amaethyddol sy'n enwog drwy'r byd a byddwn yn dadlau o blaid parhau i fuddsoddi ynddynt. Mae Sefydliad y Gwyddorau Biologol, Amgylcheddol a Gwledig yn Aberystwyth yn arwain ar hyn, ond mae rhai o'n prifysgolion eraill hefyd yn gwneud gwaith pwysig yn y meysydd hyn. Felly, byddwn eisiau cysoni'r gyllideb ymchwil yn well ar lefel Brydeinig er mwyn inni allu mynd i'r afael â'r problemau sy'n effeithio'n benodol ar ffermwyr Cymru, a hynny drwy ymgynghori â'r Llywodraeth. Nid yw'r gyllideb ar gyfer ymchwil amaethyddol wedi ei datganoli—mae'n cael ei thrin fel cyllideb ar gyfer Cymru a Lloegr ac yn cael ei rheoli'n bennaf gan DEFRA. Felly, mae angen sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei ariannu gan y gyllideb honno yn waith sydd o fudd i ni yng Nghymru. Mae'n rhaid inni fanteisio ar bob cyfle, yn ogystal â pharatoi ein hunain ar gyfer bygythiadau amgylcheddol ac ariannol byd-eang newydd a allai herio'r gadwyn fwyd yn y dyfodol.

Mae un peth y gallwn ni fod yn saff ohono—nid oes dim yn bwysicach na bwydo ein pobl ein hunain a sicrhau cyflenwadau bwyd diogel. Bydd y Llywodraeth hon a'r Llywodraeth nesaf, yr wyf yn gobeithio, yn ymrwymo i sicrhau bod polisiau yn adlewyrchu pwysigrwydd y gadwyn fwyd ar gyfer ein cymdeithas yng Nghymru. Mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i fod yn wlad sy'n cynhyrchu bwyd. Hoffwn weld y sector bwyd yng Nghymru—ffermwyr a phroseswyr bwyd—yn mynd o nerth i nerth. Ar ddiwedd ei gyflwyniad, nododd Andrew R.T. Davies y cyfleoedd sydd ar gael i'r sector hwn. Bydd angen mwy a mwy o fwyd ar ein gwlad ac ar ein byd yn y dyfodol. Mae cyfle i Gymru gyfrannu'n bositif yn hynny o beth ac inni elwa'n economaidd o'r cyfleoedd hynny.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

for which we will argue for ongoing investment. The Institute for Biological, Environmental and Rural Sciences at Aberystwyth leads on this, but some of our other universities also undertake important work on these issues. We will, therefore, call for a better-aligned UK research budget to address the particular issues affecting farmers in Wales through closer consultation with the Government. The agricultural research budget is not devolved—it is a budget for England and Wales, managed in the main by DEFRA. Therefore, we must ensure that the work funded through that budget brings benefits to us in Wales. We must take advantage of all opportunities, and prepare ourselves for new global environmental and financial challenges that could challenge the food chain in the future.

There is one thing of which we can be sure—there is nothing more important than feeding our own people and securing our food supplies. This Government, and the next Government, I hope, will be committed to ensuring that policies reflect the importance of the food chain for Welsh society. It is vital that we continue to be a food-producing nation. I would like to see the food sector in Wales—farmers and food processors—go from strength to strength. At the end of his contribution, Andrew R.T. Davies mentioned the opportunities that exist for this sector. In the future, our country and the rest of the world will need more and more food. Wales has an opportunity to contribute positively in this respect and we can benefit economically from that opportunity.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.37 p.m.  
The meeting ended at 6.37 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau  
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)

Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Welsh Liberal Democrat)  
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
 Davies, Alun (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 German, Veronica (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
 Griffiths, John (Llafur – Labour)  
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 James, Irene (Llafur – Labour)  
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ann (Llafur – Labour)  
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)